



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Swansea University E-Theses

Poblogeiddio'r Amhoblogaidd: Chwaraeon, Iaith a Hunaniaeth y Cymry yng nghyd-destun y Cyfryngau.

Chivers, Alun Rhys

How to cite:

Chivers, Alun Rhys (2012) *Poblogeiddio'r Amhoblogaidd: Chwaraeon, Iaith a Hunaniaeth y Cymry yng nghyd-destun y Cyfryngau.*. thesis, Swansea University.
<http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42619>

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

<http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/>



**Swansea University
Prifysgol Abertawe**

**Poblogeiddio'r Amhoblogaidd:
Chwaraeon, Iaith a Hunaniaeth y Cymry
yng nghyd-destun y Cyfryngau**

Alun Rhys Chivers

**Cyflwynwyd i Brifysgol Abertawe
yn unol â gofynion Gradd MPhil**

2012

ProQuest Number: 10805377

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS

The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed, a note will indicate the deletion.



ProQuest 10805377

Published by ProQuest LLC (2018). Copyright of the Dissertation is held by the Author.

All rights reserved.

This work is protected against unauthorized copying under Title 17, United States Code
Microform Edition © ProQuest LLC.

ProQuest LLC.
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106 – 1346



Crynodeb

Archwilir perthynas y Gymraeg a hunaniaeth y Cymry â chwaraeon, a rôl y cyfryngau yn y berthynas honno. Ceisir darganfod i ba raddau y gwreiddiwyd y campau yn y diwylliant Cymraeg. Ymhellach, archwilir dylanwad chwaraeon a'r cyfryngau ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.

Ceir tair pennod ynghyd â chasgliadau. Y mae'r bennod gyntaf yn nodi cyfraniad chwaraeon i ymdeimlad y Cymry o hunaniaeth. Archwilir y gwrthdaro rhwng byd y campau a'r gymdeithas Gymraeg draddodiadol a wreiddir yn y traddodiad Anghydfurfiol. I'r perwyl hwn, dadansoddir y sylw a roddwyd i chwaraeon yn y papurau newydd Cymraeg, yng nghydestun sylw Saunders Lewis ym 1926 fod y papurau newydd Cymraeg yn blaenoriaethu pynciau traddodiadol Cymraeg ar draul chwaraeon. A newidiodd agweddau'r gymdeithas Gymraeg a Chymreig tuag at fyd y campau wrth i'r ganrif fynd rhagddi?

Yn yr ail bennod, dadansoddir hunangofiannau chwaraeon Cymraeg yn drylwyr, a cheisir eu dilysu o fewn y traddodiad llenyddol Cymraeg. Mesurir rôl y gyfres *Stori Sydyn* yn y broses o annog y Cymry i ddarllen llyfrau Cymraeg. Er mwyn archwilio'r cysyniad o hunaniaeth ymhellach, cymherir hunangofiannau'r Cymro Cymraeg Ray Gravell a'r Cymro di-Gymraeg, J.P.R. Williams.

Y mae'r drydedd bennod yn canolbwyntio ar ddatblygiad geirfa griced yn y Gymraeg. Yma, ymhelaethir ar waith gwerthfawr Nia Cole. Ymchwilir i'r eirfa griced a geir mewn geiriaduron er mwyn olrhain i ba raddau y treiddiodd yr eirfa i'r iaith Gymraeg ar hyd y blynyddoedd. Er mwyn mesur datblygiad termau hyd heddiw, dadansoddir darllediadau ysbeidiol S4C o'r cyfnod cynnar hyd at dymor 2011. Y mae'r datblygiad hwn yn gyfoes ac yn barhaus ac felly, nid oes ffin bendant i'r gwaith hwn. Archwilir lle criced yn hunaniaeth y Cymry drwy ganolbwyntio ar amryw gyhoeddiadau Cymraeg a Chymreig ar griced, gan ychwanegu at ymchwil helaeth Lowri Bevan i'r maes hwn.

Cyflwynir casgliadau mewn pennod glo.

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn am unrhyw radd arall o'r blaen ac nis cyflwynir am unrhyw radd arall.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad 8/6/2012

DATGANIAD 1

Mae'r traethawd hwn yn seiliedig ar fy ngwaith ymchwil fy hun, oni nodir yn wahanol. Nodir mewn troednodyn/troednodiadau, raddau a natur cywiriadau a wnaethpwyd gan wasanaethau cywiro..

Cydnabyddir ffynonellau eraill drwy gyfrwng troednodiadau manwl gan nodi ffynonellau'n llawn. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod (ymgeisydd)

Dydd 8/6/2012

DATGANIAD 2

Rhoddir caniatâd trwy hyn ar gyfer llungopio'r traethawd, ei fenthyg i lyfrgelloedd eraill, a hysbysu sefydliadau allanol o deitl a chrynodeb y traethawd, os y'i derbynnir.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad 8/6/2012

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	i
Datganiad	iii
Cynnwys	iv-v
Cydnabyddiaethau	vi
Pennod 1: Cymru a'r Campau	
<i>Saunders Lewis a'r Wasg</i>	1
<i>Chwaraeon a'r Gymdeithas Gymraeg</i>	11
<i>Chwaraeon a'r Gymdeithas Ddiwydiannol yng Nghymru</i>	16
<i>Dechreuadau Hunaniaeth Genedlaethol drwy Chwaraeon</i>	18
<i>Cynan: Y Dyrfa</i>	25
<i>Y Gymuned Ddychmygedig</i>	29
<i>Y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru</i>	33
<i>Casgliadau</i>	39
Pennod 2: Yn Eu Geiriau Eu Hunain	
Rhan 1	
<i>Cefndir</i>	42
<i>Hunangofiannau Chwaraeon Cymraeg 1985-2011</i>	45
<i>Geni'r genre</i>	48
<i>Pedwar Cyfnod</i>	50
<i>Y Cyfnod Cyntaf: 1985-86</i>	53
<i>Yr Ail Gyfnod: 1993-96</i>	69
<i>Y Trydydd Cyfnod: 1999</i>	78
<i>Y Pedwerydd Cyfnod: 2006-11</i>	89
<i>Casgliadau</i>	146

<i>Rhan 2: Stori Sydyn</i>	149
<i>Casgliadau</i>	158
<i>Rhan 3: Oes Aur Rygbi Cymru: Dau Begwn Hunaniaeth</i>	160
<i>Casgliadau</i>	178
Pennod 3: Y Cyfnod Clatsio: Datblygiad Termau Criced Cymraeg	
<i>Rhan 1: Criced yng Nghymru</i>	182
<i>Criced a Hunaniaeth y Cymry</i>	190
<i>Rhan 2: Termau criced mewn geiriaduron Cymraeg</i>	200
<i>Rhan 3: Criced a'r byd darlledu yng Nghymru</i>	212
<i>Y Cefndir</i>	218
<i>Darllediadau cynnar S4C</i>	219
<i>Rhan 4: Ugain20 S4C</i>	233
<i>India: Criced a'r cyfryngau</i>	237
<i>Goblygiadau diwylliannol cyfieithu</i>	243
<i>Dadansoddiad o ddarllediadau Ugain20 S4C</i>	247
<i>Sylwebaeth griced a'r diwylliant</i>	259
<i>Casgliadau</i>	264
<i>Tabl:Termau'r Geiriaduron</i>	271
<i>Atodiad</i>	291
<i>Llyfryddiaeth</i>	292

Cydnabyddiaethau

Carwn ddiolch i'r Athro Tudur Hallam a Mr. Robert Rhys am gyfarwyddo'r gwaith hwn, ac i holl staff Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe am eu cymorth yn ystod fy nghyfnod hir a phleserus fel myfyriwr yno; i Nia Cole Jones a Dr. Martin Johnes am fod mor barod eu cyngor wrth imi ddechrau ar y gwaith; i Mr. Ted Pritchard am rannu ei gasgliad helaeth o lyfrau gyda mi; i Ifor ap Dafydd am ei gyfeillgarwch a'i gyngor; ac i Gerwyn Rhys a Gaynor Rees, fy nghydweithwyr yng Ngholeg Sir Gâr, am eu hyblygrwydd ac am fod yn barod i gynnig clust i wrando yng nghyfnod olaf yr ymchwil.

Diolch hefyd i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Prifysgol Abertawe.

Cydnabyddir yn ddiolchgar imi dderbyn nawdd gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen er mwyn ymgymryd â'r gwaith ymchwil.

Hoffwn gydnabod fy nyled i Gemma am ei hamynedd a'i chefnogaeth, ac i'm teulu am eu hanogaeth, a'u cefnogaeth ddiflino.

Pennod 1 : Cymru a'r campau

Saunders Lewis a'r Wasg

Wrth geisio nodi'r cyswllt rhwng chwaraeon, yr iaith Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol y Cymry, ac i ba raddau y mae'r cyfryngau Cymraeg wedi anwybyddu, hyrwyddo neu ddatblygu'r cyswllt hwn, dechreuaf drwy bwysu a mesur sylwadau Saunders Lewis yn *Egwyddorion Cenedlaetholdeb*, a hynny yng nghyd-destun dadansoddiad o'r hyn a geid yn y papurau mewn gwirionedd.

Adeg cyhoeddi'r pamffled *Egwyddorion Cenedlaetholdeb* ym 1926, roedd Saunders Lewis yn Llywydd ar Blaid Cymru ac yn olygydd *Y Ddraig Goch*, sef cyhoeddiad Plaid Cymru. Hwn oedd pamffled cyntaf Saunders Lewis. Mae'r pamffled hwn yn un o ryw 200 o gyhoeddiadau gan Blaid Cymru. Traddodwyd y pamffled ar ffurf araith yn Ysgol Haf a Chynhadledd y Blaid ym 1926. Cyfeirir at dranc y Gymraeg dan law'r Tuduriaid, yr hyn a elwir gan Dafydd Glyn Jones yn 'death-blow'.¹ Trwy'r pamffled hwn, pwysleisir mai rhyddid oedd y bwriad, yn hytrach na cheisio annibyniaeth i Gymru. Yng ngeiriau Saunders Lewis, 'Mynnwn felly, nid annibyniaeth, eithr rhyddid. Ac ystyr rhyddid yn y mater hwn yw cyfrifoldeb'.²

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, roedd angen glynu wrth brif sefydliad Cymru, sef Cristnogaeth a'r eglwys. Yn wir, dadleuai Lewis mai 'Cristnogaeth a'r eglwys gan hynny a fu'n ddiogelwch gwareiddiad Cymru'.³

Yn nhrefodaeth yr ysgrif ar yr hyn yw cenedl a chenedligrwydd, amlygir y gwahaniaethau cynhenid rhwng Cymru a Lloegr o ran diwylliant ac arferion, ac adlewyrchir hyn drwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd gan gyfryngau a gweisg y ddwy genedl i'w ddweud

¹ Dafydd Glyn Jones, 'His Politics', yn Alun R. Jones a Gwyn Thomas (goln), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1983), t. 27.

² Saunders Lewis, *Egwyddorion Cenedlaetholdeb/Principles of Nationalism* (Caerffili, argraffiad 1975), t. 10

³ *Ibid*, t. 4.

am ddiwylliant ac arferion y naill a'r llall. Dadleua Saunders Lewis fod 'gwareiddiad Cymru yn ei hanfod yn wahanol i wareiddiad Lloegr'.⁴ Eir ymlaen i sôn am y sylw a rydd y papurau Seisnig i ddau fater yn benodol, sef gwleidyddiaeth a chwaraeon. Meddai Lewis:

Fe lenwir y papurau Saesneg yn arbennig gan ddau fath o faterion – materion economaidd a pholiticaidd, yn neilltuol mater y streic glô, a materion chwaraeon, yn enwedig chwarae tennis [sic] a'r ornest cricket [sic] rhwng Lloegr ac Awstralia.⁵

Sylwer yma ar ddefnydd Lewis o'r geiriau Saesneg 'cricket' a 'tennis'. Ai defnydd pwrpasol o'r geiriau Saesneg a geir yma er mwyn pwysleisio'i safbwynt? A oedd y geiriau 'criced' a 'tenis' yn bodoli yn eu ffurfiau presennol yr adeg honno? (Gweler y drafodaeth ar y term 'criced' yn y drydedd bennod.) Ar y llaw arall, am y papurau Cymraeg, meddai

Fe lenwir y papurau Cymraeg y mis hwn gan nifer o feirniadaethau hir a helaeth a manwl ar ni wn i ba sawl cystadleuaeth eisteddfod mewn barddoniaeth a rhyddiaith a chanu a chyfansoddi.⁶

Fel y noda Smith a Williams, rhoddasai'r papurau Saesneg yng Nghymru ryw faint o sylw i chwaraeon ers peth amser. Roedd gan nifer o bapurau lleol a rhanbarthol fersiynau chwaraeon erbyn diwedd y 1880au. Honnir bod yr 'attention devoted to rugby in the press and the growth of a distinct sporting journalism' yn 'index of the ever-increasing popularity of the game'.⁷

Dadleua Aled Jones fod y wasg Gymraeg wedi gwrthod cydnabod bodolaeth chwaraeon hyd at y 1890au.⁸ Hyd yn oed pan ddechreuwyd rhoi cryn sylw i chwaraeon, ceid nifer o achlysuron pan anwybyddwyd byd y campau, os oedd hynny'n bosibl. Yn wir, ceid

⁴ Ibid, t. 10.

⁵ Ibid.

⁶ Ibid.

⁷ David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise: The Official History of the Welsh Rugby Union 1881-1991* (Cardiff, 1980), t. 8.

⁸ Aled Jones, *Press, Politics and Society* (Cardiff, 1993), t. 52.

colofn ar bêl-droed ym 1912 yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, ond ni cheid colofn o'r fath yn ei chwaer-bapur *Yr Herald Cymraeg*.⁹

Yn wir, gwreiddiwyd y wasg Gymraeg yn y traddodiad anghydfurfiol a chât'r gymdeithas Gymraeg ei phortreadu yn yr union fodd ag y gwelsai'r wasg hi. Ni chât anffyddiaeth ei hyrwyddo ganddi. Yn wir, dywedodd *Seren Cymru* ar Hydref 30, 1851, 'This is a country of Bibles and sermons'.¹⁰

Felly, gwelid y wasg Gymraeg fel offeryn ar gyfer amddiffyn Cymru a'r Gymraeg rhag dylanwadau estron ac anfoesol, a pharhât'r agwedd hon ymhell i'r ugeinfed ganrif, fel y gwelir yn sylwadau Saunders Lewis. Dadleua Aled Jones fod gan y sefydliadau crefyddol reolaeth dros ariannu a chyhoeddi cryn dipyn o'r papurau newydd Cymraeg eu hiaith ac yn hynny o beth, gallent ddylanwadu ar eu cynnwys. Ond mae'n cydnabod bod arian prin yn golygu '[that] cultural virtue was made of economic necessity'.¹¹

Wrth geisio amddiffyn y Gymraeg ac Anghydfurfiaeth, dwy ran bwysig o'r hunaniaeth Gymreig, roedd yn anochel fod y wasg Gymraeg am amddiffyn ei darllenwyr rhag dylanwadau Seisnig, hyd yn oed pan fyddai rhannau newydd o'r hunaniaeth hon yn ymddangos, er enghraifft chwaraeon. Ar droad y ganrif, cwbl wahanol ydoedd agwedd y wasg Seisnig tuag at chwaraeon.

Cyfeiria Tony Mason at y pwys a roddai'r wasg Seisnig ar chwaraeon. Yn wir, tynna ein sylw at y ffaith fod *News of the World* yn neilltuo 14% o'i ofod i drafod chwaraeon erbyn 1900. Cyfeiria Mason at holiadur gan Henry Durant ar gynnwys deuddeg o bapurau newydd dyddiol ac un ar ddeg papur Sul.¹² Rhoddid 11.4% o ofod y papurau dyddiol i chwaraeon, a 17.7% o ofod y papurau Sul.

Er mwyn mesur pa mor gywir yw sylw Saunders Lewis ynghylch diffyg sylw'r wasg

⁹ Gw. *Ibid.*

¹⁰ *Seren Cymru*, Hydref 30, 1851. Dyf. gan Aled Jones, *Press, Politics and Society*, t. 52.

¹¹ *Ibid.*, t. 186.

¹² Tony Mason (gol.), *Sport in Britain 1945-2000: A Social History* (Oxford, 2000), t. 3.

Gymraeg i chwaraeon, yn wahanol i'r wasg Saesneg, penderfynais ganolbwyntio ar ddetholiad o bapurau Cymraeg o'r cyfnod 1926 - blwyddyn cyhoeddi *Egwyddorion Cenedlaetholdeb* - hyd at 1966, gan mai hon oedd y flwyddyn olaf yn gorffen â 6 y cyhoeddiad pob un o'r tri phapur a ddewisais. Byddai'n afrealistig disgwyl cymaint o sylw i chwaraeon yn y papur newydd gwleidyddol, *Y Ddraig Goch* â'r hyn a roddir gan y ddau bapur newydd arall, *Y Cymro* a'r *Faner*. Gobeithiaf fesur newid agwedd o fewn y cyfnod hwn tuag at chwaraeon. O edrych ar rifau'r tudalennau, gwelwn nad oedd yr arfer o osod erthyglau am fyd y campau yn nhudalennau olaf y papur eto wedi ymsefydlu yn y Gymraeg. Er mwyn pwysleisio nad oedd patrwm o ran safle erthyglau chwaraeon yn yr amryw bapurau, penderfynais gynnwys rhifau'r tudalennau yng nghorff y testun, yn hytrach na'u nodi yn y troednodiadau. Dylid nodi mai sampl yn unig a geir yn yr astudiaeth hon ac mai cael argraff gyffredinol yn unig yw'r nod.

Wrth ganolbwyntio ar rifyn mis Awst 1926 o'r *Ddraig Goch*, adlewyrchwyd y diffyg sylw i chwaraeon a grybwyllir gan Saunders Lewis. Yn wir, nid oedd unrhyw sylw i chwaraeon o gwbl yn y rhifyn hwn. Cafwyd ystod helaeth o drafodaethau ar iaith a diwylliant ar dudalen 2, ac yn eu plith yr oedd erthygl ar Archesgob Cymru gan Iorwerth C. Peate o'r enw 'Doethineb y Dyfod Ymlaen', yn beirniadu Seisnigrwydd yr Eisteddfod Genedlaethol, a welid fel y prif sefydliad diwylliannol yng Nghymru yn y cyfnod. Roedd 'Llythyr Hen Weithiwr' yn ategu barn Peate, wrth gyfeirio'n benodol at siom yr awdur y byddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe'r flwyddyn honno'n debygol iawn o droi'n Seisnigaidd, nid lleiaf gan y byddai'r Archesgob yntau'n annerch y dorf yn Saesneg.

Y mis hwnnw yn *Y Faner*, cafwyd llu o feirniadaethau llenyddol gan academyddion ar ddarnau buddugol yr Eisteddfod Genedlaethol ac ar gyfansoddiadau eraill y cyfnod. Rhoddwyd peth sylw i chwaraeon yn rhai o rifynnau mis Awst, ond ar raddfa leol yn unig y trafodwyd byd y campau. Ni roddwyd unrhyw sylw i chwaraeon yn y rhifyn cyntaf, ond yn y

rhifyn nesaf (Awst 5), rhoddwyd sylw i 'Chwaraeon yn Llanrwst: Ymgyrch y Clwb Cricied' a diwrnod 'gymkhana' neu fabolgampau ar dudalen 4. Sylwer yma ar y sillafiad 'cricied'. Adlais o dafodiaith y gogledd a geir yma. Erthygl fach oedd hon o'i chymharu â'r dudalen gyfan a roddwyd yn y rhifyn hwn i feirniadaeth y Goron. Yn y rhifyn a gyhoeddwyd ar Awst 12, cafwyd rhagor o feirniadaethau o'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnwys yr awdl. Unwaith eto, doedd dim sylw o gwbl i fyd y campau. Cafwyd erthygl ar dudalen 3 rhifyn Awst 19 yn dwyn y teitl 'Chwaraeon yn Llangernyw: Hwyl a thywydd ffafriol'. Unwaith eto, gwedd leol oedd ar yr erthygl hon, yn trafod diwrnod mabolgampau'r fro. Ni chafwyd yr un gair am chwaraeon yn rhifyn Awst 26.

Ni roddodd *Y Cymro* unrhyw sylw i chwaraeon yn y ddau fis a astudiwyd ym 1926.

Ddegawd yn ddiweddarach ym 1936, ymddengys na roddid llawer iawn mwy o sylw i fyd y campau nag ym 1926. Ni chafwyd yr un erthygl am chwaraeon yn *Y Ddraig Goch* na'r *Faner*. Rhoddwyd tipyn mwy o sylw i fyd y campau yn *Y Cymro* nag yn y ddau arall, ond hynny ym mis Mawrth yn unig, ac nid ym mis Awst. Yn rhifyn Mawrth 7, cyfeiriwyd at achlysur Mabolgampau'r Urdd ar dudalen 11. O ddarllen yr erthygl, ymddengys fod tipyn mwy o fynd ar chwaraeon yn ysgolion y de na'r gogledd, gan yr anogir ysgolion y gogledd yn daer i gymryd rhan. Hefyd yn y rhifyn hwnnw o'r *Cymro*, cafwyd erthygl yn dwyn y teitl 'Un Ffordd i Atal Betio' ar dudalen 12, yn trafod moesoldeb betio ar y pwls pêl-droed. Cafwyd Mesur Seneddol y flwyddyn honno i geisio gwahardd y pwls am y rheswm hwn. Neilltuwyd pum colofn i'r pwnc hwn yng nghyd-destun effeithiau'r Ail Ryfel Byd ar y gymdeithas Brydeinig. Ymhellach, roedd rhifyn Mawrth 14 yn beirniadu chwarae marblis, gan gyfeirio at y gamp fel 'achos y drwg' ar dudalen 9. Dengys rhifyn Mawrth 21 o'r *Cymro* pa mor wahanol oedd erthyglau am ornestau rygbi yn y cyfnod hwn o'u cymharu ag erthyglau'r oes fodern. Ni chafwyd sôn am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y gêm. Yn hytrach, disgrifiad o'r dorf a'r awyrgylch a gafwyd yn yr erthygl 'Cymru ar ben y Tabl' ar

dudalen 15. Mae'r erthygl yn ffynhonnell ddefnyddiol er mwyn profi pwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd chwaraeon, gan i'r Gwyddelod ymweld â Chymru yn eu miloedd a gwario'u harian yn y siopau a'r tafarnau. Ar waelod yr erthygl, cynhwysir tabl y Bencampwriaeth, ond yn Saesneg.

Parhaodd yr un patrwm ym 1946, er y cafwyd erthygl yr un yn *Y Ddraig Goch* a'r *Cymro* ym mis Mawrth a mis Awst y tro hwn. Anwybyddwyd chwaraeon gan *Y Faner* y flwyddyn honno. Hysbyseb unwaith eto a gafwyd ar dudalen 4 yn *Y Ddraig Goch* ar gyfer yr apêl wyl Ddewi flynyddol. Cafwyd negeseuon yn yr hysbyseb gan gapteiniaid tîm rygbi Cymru, Bleddyn Williams a'r tîm pêl-droed, George Lowrie. Ni chyfeiriwyd o gwbl at chwaraeon ym mis Awst. Cafwyd nifer o erthyglau am chwaraeon yn *Y Cymro* ym misoedd Mawrth ac Awst y flwyddyn honno. Ar Fawrth 29, adroddwyd am achos llys Thomas Emllyn Davies, chwaraewr pêl-droed i dîm Nantlle. Honnwyd iddo daro'r 'gwyliwr' (term cynnar ar gyfer 'dyfarnwr') mewn gêm yn erbyn Llanberis ym Mhenygroes ar Chwefror 9 y flwyddyn honno. Yn ôl y barnwr, doedd Davies yn 'fawr o sportsman' am daro'r dyfarnwr. Cafodd Davies ddirwy o 30s, yn ôl yr erthygl 'Am Daro'r 'Referee' 30s' ar dudalen 6. Yn yr un rhifyn, ar dudalen 12, cafwyd erthygl yn dwyn y teitl 'Y Bêl Droed yn ôl i Fri', yn cyfeirio at adfywio'r gynghrair leol yn Nyffryn Clwyd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Yn rhifyn Awst 9 o'r *Cymro* ar dudalen 6, cynhwyswyd erthygl ar ornest griced rhwng Morgannwg ac India. Diddorol nodi yma'r cysylltiad llenyddol yn y pennawd 'Indiaid yn steddfod y pren helyg'. Unwaith eto, ni chynigiwyd disgrifiad manwl o'r gêm, ond cafwyd nifer o gyfeiriadau eisteddfodol, gan gynnwys cyfeirio at y chwaraewr Johnnie (J.C.) Clay fel 'archdderwydd cricedwyr Cymru'. Roedd Clay yn Gymro, ac yn huan o Fro Morgannwg, er iddo gael ei addysg yn Lloegr. Daeth yn gapten ar glwb Morgannwg ym 1946 yn dilyn marwolaeth ei gyfaill a chyn-gapten y clwb, Maurice Turnbull yn yr Ail Ryfel Byd. Chwaraewyd yr ornest ar y 'maes glas', a chyfeiriwyd at belawd fel 'chwechawd o bêl' sydd, i raddau helaeth, yn

ddisgrifiad manylach o'r hyn yw 'over' na'r term cyfoes 'pelawd'. Ym mis Awst y flwyddyn honno, cafwyd yr erthygl 'Cynghrair Newydd?' ar dudalen 6, yn trafod y tymor pêl-droed newydd yng nghynghrair Cymru.

Ymddengys i Eic Davies ddechrau ysgrifennu erthyglau i'r *Faner* ym mis Chwefror 1946, a honno'n erthygl am yr ornest ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban.¹³ Ymddangosodd yr erthygl gyntaf yn fy sampl innau ym 1956. Cyfeiria'r erthygl 'Camp ein bechgyn ysgol' ar dudalen 5 (Mawrth 7) at rygbi ac ieuenctid, yn enwedig pwysigrwydd rygbi mewn ysgolion. Yn yr erthygl, cafwyd lluo o dermau a fathwyd gan Eic Davies yntau, sef blaenwyr, lein, sgrymiau, cais, cic gosb, pàs, bôn y sgrym, maswr, y pump ar hugain, ystlys, cefnwr, tirio, olwyr ac asgell. Defnyddir y termau hyn hyd heddiw. Cafwyd ambell derm anghyfarwydd hefyd, gan gynnwys 'ffin man'. Awgryma cyd-destun yr erthygl mai hen derm ar gyfer y llinell gais oedd hwn. Defnyddiwyd 'rhuthro rhydd' ar gyfer yr hyn y cyfeirir ato heddiw fel 'chwarae agored', sef 'open play'. Defnyddiai Eic Davies y term tafodieithol 'sgori' ar gyfer 'sgorio'. Diddorol nodi'r sillafu 'Drifflyg' yn y term '[G]oron Drifflyg'. Disodlwyd 'ff' gan 'ph' erbyn heddiw. Defnyddiwyd 'y flaenasgell olau' ar gyfer yr hyn a adwaenir bellach yn 'flaenasgell agored'. Cafwyd 'y groesgic hir' ar gyfer y term cyfoes 'cic letraws'. Ychwanegwyd at y lluo o dermau yn ei erthygl 'Llongyfarchion Iwerddon' ar dudalen 8 ar Fawrth 14. Cafwyd trosgais, cic adlam a'r pac. Cafwyd ambell derm anghyfarwydd, gan gynnwys 'lletgam' ar gyfer 'sidestep', y cyfeirir ato erbyn hyn fel 'ochrgamu'. Defnyddiwyd 'ffin' ar gyfer 'llinell gais'. Ni chafwyd erthyglau chwaraeon yn rhifynnau mis Awst 1956, na chwaith yn rhifynnau mis Mawrth ac Awst *Y Ddraig Goch*.

Ymddengys mai yn y 1960au y dechreuwyd rhoi mwy o sylw i fyd y campau yn y cyhoeddiadau newyddiadurol Cymraeg, gyda'r tri phapur yn rhoi rhywfaint o sylw i'r maes ym mis Mawrth 1966, er mai prin yw'r erthyglau a gafwyd ym mis Awst y flwyddyn honno.

¹³ 'Eic Davies a Carwyn James yn sgwrsio', cyhoeddwyd yn *Barn Rhag/Ion* 82/83. Gw. yr adargraffiad yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* (Llanrwst, 1995), tt. 88-100.

Yng ngholofn Eic Davies, 'Rygbi' ar dudalen 4 *Y Fanner* ar Fawrth 10, cafwyd rhagflas o'r ornest rhwng Cymru ac Iwerddon, gyda'r newyddiadurwr yn cynnwys llu o dermau yn ei erthygl. Cafwyd 'trosi', 'sgrym osod', 'bachwr', 'y Goron Driphlyg' (sylwer mai 'ph' a ddefnyddiwyd erbyn hyn ar draul 'ff' yr erthygl gynt), 'ail reng', 'asgell dde' a 'chanolwr'. Cyfeiriwyd hefyd at 'y Pump Mawr', sef yr enw poblogaidd a roddid ar ddewiswyr tîm Cymru o'r 1960au ymlaen. Cafwyd ambell derm tafodieithol ganddo, gan gynnwys 'whare'. Cyfeiriwyd at 'sylwedyddion', y term a ddisodlwyd bellach gan 'sylwebyddion'. Gwelir hen arfer Eic Davies ar waith yma, sef treiglo enwau'r chwaraewyr. Rhoddwyd sylw 'i Friar Thomas' a 'Therry Price'. Ar Fawrth 17, cafwyd erthygl gan John Owen yn adolygu'r ornest rhwng Cymru ac Iwerddon yr ysgrifennodd Eic Davies amdani'r wythnos gynt. Ar dudalen flaen y papur yr ymddangosodd yr erthygl hon, sy'n dangos ei phwysigrwydd ar raddfa genedlaethol. Collodd Cymru'r Goron Driphlyg o ganlyniad i golli'r gêm hon. Roedd amrywiaeth yn nefnydd y ddau newyddiadurwr o dermau arbenigol. Yn hytrach na defnyddio 'croesgic', fel y gwnâi Eic Davies, gwell gan John Owen ddefnyddio'r term 'cic draws'. Ni chafwyd yr un cyfeiriad at fyd chwaraeon yn rhifynnau Awst o'r *Fanner*. Un erthygl fer a gafwyd yn *Y Ddraig Goch* ym mis Mawrth 1966, a honno ar dudalen 8, ond ni chafwyd yr un ym mis Awst. Cyfeiriodd yr erthygl hon ym mis Mawrth at fuddugoliaeth tîm rygbi Cymru ar gae Twickenham yn erbyn Lloegr. Ysgrifennwyd yr erthygl gan Chris Woodard yng nghydestun pwysigrwydd y fuddugoliaeth i Blaid Cymru yn erbyn yr hen elyn. Gellir yn hawdd iawn ddadlau mai erthygl llawn propaganda gwleidyddol ydoedd.

Rhoddodd *Y Cymro* gryn dipyn o sylw i fyd y campau ym misoedd Mawrth ac Awst 1966 hefyd. Ar Fawrth 3, cafwyd erthygl am y chwaraewr rygbi Gary Protheroe gan John Evans ar dudalen 13. Cafwyd erthygl 'Bachwr Gorau Prydain' am fachwr Cymru, Norman Gale ar Fawrth 10, ar dudalen 13. Ar Fawrth 17, cafwyd erthygl o'r enw 'Camp y Joci' ar y dudalen flaen, yn ogystal ag erthygl am y chwaraewr Keith Bradshaw, o'r enw 'Ciciwr

Medrus a Chywir' ar dudalen 13. Ar Fawrth 31, cafwyd erthygl am fuddugoliaeth Cymru yn erbyn Ffrainc o'r enw 'Yr Arwr yn Erbyn Ffrainc' ar dudalen 17, sy'n cyfeirio'n benodol at berfformiad Stuart Watkins, a'r olaf gan 'John y Gŵr' ynghylch yr ornest rhwng Cymru a Ffrainc ar dudalen 21. Yn yr erthygl olaf hon, cyfeiriwyd at chwarae'r gêm ar yr 'Arms Parc', a chanu 'God Save The Queen' ochr yn ochr â 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Cafwyd un erthygl ar Awst 11 ar dudalen 17 gan John Evans yn cwmpasu amryw gampau.

Mae Martin Johnes yn cynnig esboniad rhesymegol am y diffyg sylw hwn i chwaraeon yn y papurau Cymraeg (a Chymreig) ar hyd y blynyddoedd. Roedd elfennau o'r dosbarth canol Cymraeg ei iaith, a'r dosbarth gweithiol i ryw raddau, yn gwrthwynebu chwaraeon o fewn y diwylliant gan y'i gwelid yn weithgaredd a oedd yn perthyn i'r gymdeithas Brydeinig ehangach. Credai'r dosbarth cymdeithasol hwn fod chwaraeon yn peryglu Cymreictod traddodiadol a'i sefydliadau. Fel y dadleua Johnes, 'The cultural nationalism that sport represented was clearly distinct from the national consciousness promoted by Nonconformity, Liberalism and especially Eisteddfodau and the associated Welsh-language culture'.¹⁴ Fel yr atega Dai Smith, 'Rugby in its early days was not well-liked by those who saw it as another aspect of the intrusion of a non-Welsh secular world'.¹⁵ Roedd gwrthdaro amlwg, felly, rhwng cenedligrwydd gwleidyddol a chenedligrwydd diwylliannol, fel y'i diffinnid gan y sefydliad Cymraeg a chwaraeon poblogaidd Cymru. Dyma thema a gyrrhaeddodd ei hanterth yn y 1970au.

Historians have shown that political nationalism's origins were rooted in a desire to protect a Welsh cultural inheritance that centred on language and religion and which was in clear danger by the early twentieth century. Indeed the close identification of Plaid Cymru, the Welsh nationalist party, with a narrow cultural tradition was central to the party's struggle in making any significant advances.¹⁶

¹⁴ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales* (Cardiff, 2005), t. 116.

¹⁵ Dai Smith, *Aneurin Bevan and the World of South Wales* (Cardiff, 1993), t. 57.

¹⁶ Martin Johnes, 'For Class and Nation: Dominant trends in the historiography of twentieth-century Wales', *History Compass*, 8 (Oxford, 2010), 1257-74.

Rhydd Johnes enghraifft o'r wasg Gymraeg yn anwybyddu llwyddiant ar raddfa Brydeinig ym myd chwaraeon Cymru, sef buddugoliaeth tîm pêl-droed Caerdydd yng Nghwpan F.A. Lloegr.

While the English-language Welsh media celebrated the 1927 FA Cup Final as a national achievement, the Welsh-language press overlooked it or treated it as an English event. Such attitudes were shaped by wider fears for the future of the language and all it meant.¹⁷

Eithr, fel y dadleua Johnes, o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, rhoddwyd cryn dipyn o sylw i fyd y campau.

R. Merfyn Jones's study of quarrymen in Gwynedd in the late nineteenth and early twentieth centuries depicts a people immersed in a Welsh-language culture of prose and poetry. But Jones also shows that, alongside the eisteddfodau, sports such as football and billiards had their popular place in the lives of these Welsh speakers.¹⁸

Mae cyfeiriad Jones at gêm biliards yn arwyddocaol yma, gan i R. Williams Parry gyfeirio at yr un gamp mewn cerdd a luniodd ar gyfer Eisteddfod Flynyddol Annibynwyr Ffestiniog ym 1905. Cerdd yn moli bwrdd biliard a gafwyd ganddo ac ynnddi, pwysleisir pwysigrwydd y cyswllt rhwng y bwrdd ac iachusrwydd yr enaid. Meddai'r bardd,

Bwrdd hynaws i brudd enaid
Gael o'i boen hoff hoen na phaid.¹⁹

Yn wir, er mai ei fwrdd biliard oedd un o drysorau pennaf y bardd hwn, cyfeddyf nad oedd y testun yn un a oedd yn nodweddu'r cyfnod.

¹⁷ Idem, *A History of Sport in Wales*, t. 117.

¹⁸ Ibid.

¹⁹ R. Williams Parry, dyf. Bedwyr Lewis Jones (cwblhawyd gan Gwyn Thomas), *Dawn Dweud: R. Williams Parry* (Caerdydd, 1997), t. 27.

Nid yw y testun yn un ysgrythurol... a diamau nad yw y farddoniaeth a'r mydr yn glasurol iawn.²⁰

Cyhoeddwyd y gerdd hon ym mhapur bro Caernarfon, *Papur Pawb* ym 1906.

Diddorol yw nodi yma mai beirniad y gystadleuaeth hon oedd Dyfnallt, a oedd hefyd yn feirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan enillodd Cynan y Goron am ei bryddest 'Y Dyrfa' (cyfeiriaf at y digwyddiad hwnnw'n ddiweddarach yn y bennod hon).

Cyhoeddwyd rhai o awdlau buddugol R. Williams Parry ym mhapur bro Dyffryn Nantlle, *Y Sylwedydd* ym 1907 a'r awdl gyfan yn rhifyn eisteddfodol *Y Genhinen* y flwyddyn honno.²¹

Roedd R. Williams Parry yn barddoni mewn cyfnod pan oedd symudiad amlwg o edrych ar chwaraeon yn nhermau hunaniaeth leol ffyrnig tuag at ystyried ambell gamp yn rhan o hunaniaeth genedlaethol. Roedd gwreiddiau chwaraeon, er ar raddfa leol, yn y Gymru gyn-ddiwydiannol.

Chwaraeon a'r Gymdeithas Gymraeg

Ymddengys o edrych ar waith haneswyr mai ar raddfa leol iawn y ceid gweithgarwch ym myd chwaraeon yng Nghymru a Phrydain yn y cyfnod modern cynnar o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Hunaniaeth leol a geid, ac nid hunaniaeth genedlaethol. Yn hynny o beth, adlewyrchai'r byd chwaraeon y gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Dadleua Geraint H. Jenkins fod Cymru yn 'assemblage of tiny localities in which people thought in terms of counties rather than nations or kingdoms and in which face-to-face contacts were more important than

²⁰ *ibid.*

²¹ *ibid.*

printed culture'.²² Am ganrifoedd lawer, bu'r Cymry'n israddol o'u cymharu â'r Saeson. Gwelid y Cymry'n 'lesser beings to be pitied or derided'.²³ Ar y cyfan, nid cenedl oedd y Cymry yn y cyfnod hwn, eithr 'federation of small communities'.²⁴ Cymdeithas lafar, felly, oedd y gymdeithas Gymraeg, gyda phob ardal yn meddu ar ei hieithwedd ei hun.

The absence of an overarching national spoken language meant that a rich and colourful variety of local dialects and speech patterns flourished, so much so that there were constant, though exaggerated claims that the language and dialects of north and south Wales were mutually incomprehensible.²⁵

Golygai'r 'power of localism' fod y prif deyrngarwch ym myd chwaraeon, fel ym mhob agwedd ar y gymdeithas, i'r gymuned.²⁶ Adlewyrchai campau'r bobl eu bywydau. Roeddynt yn gorfforol galed gyda phwyslais ar y gymuned leol.²⁷

What survives in the written record is simply a small segment of long-forgotten traditions which had a vitality of their own in small communities. Even maypole customs and brutal popular recreations like knappan and bando demonstrated the singularity of individual parishes, as indeed did shaming rituals like y ceffyl pren (the Welsh equivalent of the skimmington ride) which heaped public ridicule on those who violated marital and communal obligations.²⁸

Arweiniodd y campau plwyfol yn ddiweddarach at gystadlaethau rhwng siroedd cyfagos. Roedd cyswllt agos rhwng y campau cynnar hyn a chrefydd a gwyliau crefyddol, a chynhelid gornestau ar dir eglwysi yn aml iawn. Ceir disgrifiad gan Matthew Owen (1769-1836) o un o'r cyfryw achlysuron yn y darn isod:

²² Geraint H. Jenkins, 'From Reformation to Methodism 1536-1750', yn Prys Morgan (gol.), *The Tempus History of Wales 25,000BC-AD2000* (Stroud, 2001), t. 142.

²³ Ibid.

²⁴ Ibid.

²⁵ Ibid, t. 144.

²⁶ Ibid, t. 142.

²⁷ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 1.

²⁸ Geraint H. Jenkins, 'From Reformation to Methodism 1536-1750', t. 144.

Ar fore Sul aem i'r fynwent, cyn yr addoliad, i ddweyd chwedlau, ac i frolio'r gore am gicio y bel [sic] droed, ymaflyd codwm, a thaflu maen, a'r cyffelyb; yna i fewn i'r gwasanaeth. Yn y prydawn aem i chwareu y bêl denis ar do y tŷ addoliad.²⁹

Roedd elfen stwrlyd a meddwdod yn bresennol, a oedd yn gwrthgyferbynnu'n llwyr ag egwyddorion crefydd, ac yn rhannol am y rheswm hwn y cafwyd gwrthwynebiad i fyd chwaraeon gan yr Anghydfurfwyr yn ddiweddarach. Gwrthwynebid y cyswllt rhwng gornestau rygbi, er enghraifft, ac alcohol. Ymddengys nad oedd unrhyw wrthwynebiad gan yr Eglwys ar y cyfan, serch hynny. Ystyrier sylw Geraint H. Jenkins:

Ar adeg yr wylmabsant, deuai cyfle i brofi hwyl a miri yn y dafarn, ar sgwâr y pentref neu mewn ffair a marchnad. Ymgasglai trigolion y fro i ddawnsio i gyfeiliant crwth a thelyn, i wrando ar gân y baledwyr neu'r anterliwtwyr, ac i fwynhau cwmnïaeth ddifyr mewn noson lawen. Erbyn y ddeunawfed ganrif, âi rhialtwch gwylmabsant ym Morgannwg ymlaen am wythnos gyfan. Trefnid y gwyliau gan dafarnwyr lleol, ymunai boneddigion ac offeiriaid yn y dathlu, ac yr oedd bri mawr ar ganu, dawnsio, ysbleddach, chwarae ac ymladd.³⁰

Roedd gan chwaraeon ran flaenllaw yn yr wylmabsant. Câi gwerinwyr hwyl anghyffredin wrth chwarae tenis, cwoits, bowls a cheilys, cicio pêl, taflu carreg a throsol, neidio ac ymaflyd codwm.³¹

Rhoddir sylw i'r hen gampau traddodiadol yng ngwaith G.J. Williams, *Glamorgan Customs in the Eighteenth Century*. Rhydd Williams y campau ('hen chwaraeon y Cymry', chwedl Iolo Morgannwg) yn eu cyd-destun crefyddol, a'u cysylltu â nawddsant.

Originally, it began on the Sunday following the festival of the Patron Saint, but by this time, it had lost its religious character, and people came together to dance and sing, and to witness different kinds of rustic games and contests, bandy play, football, bull-baiting, cock-fighting, etc.³²

²⁹ Matthew Owen, 'Hunan Hanes – Hanes Bywyd Matthew Owen o'r flwyddyn 1769 hyd y flwyddyn 1836', *Cymru*, 34, 1 (s.l., 1908), t. 255, yn Lowri Wyn Bevan, *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg*, (Traethawd PhD: Aberystwyth, 2002), t. 25.

³⁰ Geraint H. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar 1530-1760* (Caerdydd, 1983), t. 18.

³¹ *Ibid*, t. 18.

³² G.J. Williams, 'Glamorgan Customs in the Eighteenth Century', yn *Gwerin*, 1 (Oxford, 1956/7), t. 100.

Ymhelaetha Williams ar ragor o gampau na chyfeirir atynt mewn ffynonellau eraill, sef 'chware triphost, gwau'r garthen, bwbach darllain (which may, possibly, be a mistake for bwbach dallan 'blind-man's-buff), sallti, dwrdyn dai, pigwrda, llawfrenin'. Prin yw'r dystiolaeth am y campau hyn ac eithrio yng ngwaith Williams, sy'n awgrymu o bosib y gallent fod yn gynnyrch dychymyg Iolo Morganwg, fel yr oedd llawer traddodiad yn y cyfnod hwn. Ar ben hynny, roedd Iolo Morganwg yn feirniadol o'r gêm bando, gan ddweud, 'Bandy playing is a very popular diversion of young men that ought to be suppressed, and by severities if milder courses will not prevail'.³³

Manylir ar rai o'r hen gampau traddodiadol yng ngwaith Howard Lloyd. Cyfeirir yn benodol at yr hyn a elwir yn 'chwarae pêl', gêm blwyfol sy'n debyg i 'fives' yn Lloegr. Yma, unwaith eto, gwelwn gemau cyfochrog yng Nghymru a Lloegr, fel yn achos y ceffyl pren a ddisgrifiwyd gan Geraint H. Jenkins. Gêm blwyfol arall y cyfeirir ati gan Howard Lloyd yw 'cnapan'. Chwaraeid y gêm hon ar ddiwrnodau gwyliau arbennig ymhlith plwyfi. Credir i'r gêm ffynnu yn Sir Benfro yn bennaf, a 'myn rhai mai olion o chwaraeon llawer hŷn oedd yr ymrysonfeydd hyn: atgofion tywyll o hen rwygiadau a chwerylon y genedl'. Mor gynnar â 1603, ceir disgrifiad gan George Owen o ornest 'cnapan' yn cael ei chynnal, gyda 'great multitudes o wylwyr, a chyflwyno rheolau elfennol er mwyn ceisio atal trais'.³⁴ Gwelir mai arwydd o ddiffyg undod yng Nghymru oedd y gamp hon. Datblygodd gornestau rhyngwladol rhwng Cymru a Lloegr yn y pen draw, ac roeddynt mor ffyrnig nes peri i'r achlysuron gael eu gwahardd gan yr ynadon heddwch ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.³⁵

Ymhlith campau eraill y cyfnod, roedd col-a-bando a dogio cath glap. Er mwyn ceisio cynnal y campau hyn, er gwaethaf y gwrthwynebiad iddynt, rhoddwyd rheolau i'r chwaraewyr, gan sicrhau lle iddynt yn nhraddodiad plwyfol a rhanbarthol y Cymry. Ar lafar y

³³ Ibid, t. 103.

³⁴ George Owen. Dyf. gan Martin Johnes, A History of Sport in Wales, t. 1.

³⁵ Howard Lloyd, *Tri o Hen Chwaraeon Cymru* (Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, Llundain, 1960), 97-108.

ceid y rheolau wrth iddynt gael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Rhydd Iorwerth C. Peate ddarlun i ni o'r gymdeithas yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfeirir at rai o feysydd pwysicaf Cymru, sef addysg, bywyd cymdeithasol, a chwaraeon a champau. Ar unwaith, gwelwn fod chwaraeon yn haeddiannol o'u lle yn y gyfrol. Canolbwyntir ar elfen leol chwaraeon yng Nghymru, a'r addasiadau a geir ar chwaraeon Prydeinig. Ymhelaethir ar y tyndra a fodolai rhwng chwaraeon a chrefydd, gyda chryn dipyn o'r campau'n cael eu chwarae ar dir yr eglwys. Fel yr eglura'r awdur,

Y dyddiau gŵyl oedd dyddiau penllanw chwaraeon a champau ein hynafiaid - prif wyliau'r eglwys a'r gwyliau mabsant. Ac wrth gwrs y Sul, wedi'r ddyletswydd seremonïol o fynd i'r eglwys y bore. Parhaodd y dull hwn o dreulio'r Sul mewn rhai ardaloedd hyd yn bur ddiweddar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond yn gyffredinol rhoes y diwygiad crefyddol a weddnewidiodd y wlad ben arno, a phen yn anuniongyrchol ar lawer math o chwarae a champ a fu'n gyffredin gynt.³⁶

Rhydd yr awdur sylw hefyd i gamp y cnapan. Dadleua yntau mai gêm ranbarthol oedd hi, gan bwysleisio'i helpen blwyfol. Chwaraeid tenis, neu amrywiaeth arno, a elwid yn 'chwarae pêl'. Cyfeiria Peate at ragor o gampau hefyd, gan gynnwys pitsio, cath yn y twll a dandis. Ond un gamp a ddaeth i'r amlwg ac a gydiodd yn nychymyg y Cymry oedd ymladd ceiliogod. O'r Unol Daleithiau y daeth y gamp hon, ac roedd arian mawr i'w ennill. Yn wir, roedd hyd yn oed rhai offeiriaid yn frwd dros fetio ar ornestau. Ceisiwyd gwahardd y gamp nifer o weithiau yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond parhaodd i ryw raddau hyd flynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif.

Cyfeiria Martin Johnes at lu o gampau a oedd yn boblogaidd yn y cyfnod cyn-ddiwydiannol, megis 'pedestrianism',³⁷ ffurf ar rasio ar heolydd, campau ag anifeiliaid yr

³⁶ Iorwerth C. Peate, *Diwylliant Gwerin Cymru* (Lerpwl, 1942), t. 63.

³⁷ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 3.

ymosodwyd arnynt gan y dosbarth canol erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg³⁸ ac ymaflyd codwm. Tynna Guto'r Glyn sylw at bwysigrwydd y campau yn ei waith, fel y dengys y dyfyniad canlynol:

Ym mhob rhyw gamp mae praw gŵr.³⁹

Sonnir am rai o'r cyfryw gampau ganddo yn ei weithiau eraill, er enghraifft:

Pob gorchest, pen-fforestwr,
A wnâi dy gorff, annwyd gŵr;
Neidio, rhedeg naid rhydain,
Gyrru meirch dros gaerau main.⁴⁰

Pwysleisir yr elfen o ganu mab, neu ganu cynnar i rinweddau arwyr, yn ei waith yn y llinellau canlynol:

Gwawdydd i'r marchog ydwyf,
Ac erioed prydydd gŵr wyf.⁴¹

Chwaraeon a'r Gymdeithas Ddiwydiannol yng Nghymru

Yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cynyddodd poblogaeth Cymru'n syfrdanol, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth wedi'i lleoli yn y de wrth i drefi diwydiannol ddatblygu yn yr ardaloedd hynny. Cafodd dyfodiad y rheilffyrdd er hwyluso symudiad nwyddau diwydiannol, effaith ar natur y gymdeithas. Dadleua Johnes fod y rheilffyrdd, ynghyd â diddymu Deddfau'r Tlodion, wedi rhoi llai o awtonomiaeth a chymeriad unigryw i'r cymunedau.⁴² Ond rhaid dadlau, yng nghyd-destun chwaraeon, o leiaf, er lleihau amrywiaeth y campau yng Nghymru, i'r gystadleuaeth rhwng y cymunedau barhau'n ffyrnig.

³⁸ Ibid, t. 4.

³⁹ Guto'r Glyn, 'Ateb i Hywel Dafî' (ll. 50), yn Ifor Williams a J. Ll Williams (goln), *Gwaith Guto'r Glyn* (Caerdydd, 1961), t. 177.

⁴⁰ Idem, 'I ofyn wtgnaiff neu faslard i Ruffudd ap Rhys o Lanferres yn lâl' (llau. 13-16), t. 210.

⁴¹ Idem, 'I geisio Hywel ap Dd. ap Ieuan ap Rys Allan o Raglan', (llau. 45-46), t. 161.

⁴² Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 7.

Fel y dadleua Lowri Wyn Bevan, 'Yng nghanol bwrlwm y cymunedau deinamig amlgenhedlig hyn fe ddaeth rygbi ag elfen o undod i gymdeithas a oedd fel arall yn ei chael hi'n anodd iawn i ganfod ei hunaniaeth'.⁴³

Gwnaeth Holt waith ar sut y daeth rygbi i fod yn rhan o Gymru yn y cyfnod cym-ddiwydiannol. Nodir bod cnapan wedi goroesi'n hwy yn y cymoedd anghysbell yn y de nag yn unrhyw le arall, a cheir cymhariaeth ganddo rhwng cnapan a ffurf gynnar ar rygbi modern.⁴⁴ Ar arfordir y de yng Nghastell Nedd (1871), Abertawe (1873), Casnewydd (1875) a Chaerdydd (1876) y ffurfiwyd y clybiau cyntaf yng Nghymru.⁴⁵ Fel y dadleua K.O. Morgan, cyflwynwyd rygbi i gymoedd y de gan 'muscular Christians' o'r ysgolion bonedd Cymreig.⁴⁶ Yn awyrgylch caled y gymdeithas ddiwydiannol, daeth gweithgareddau hamdden yn gynyddol bwysicach.

Gyda'r cynnydd sylweddol yn y cynnyrch glo yn y 1880au, fe ddaeth mewnfudwyr ar raddfa eang. Yn gyffredinol, daeth mewnfudwyr o ardaloedd rygbi gorllewin Lloegr ac Iwerddon, yn hytrach nag ardaloedd pêl-droed yr Alban a gogledd Lloegr. Ymhellach, oherwydd bod pêl-droed yn gamp broffesiynol, roedd angen tyrfaoedd sylweddol i'w chynnal. Nid oedd tirlun y Cymoedd yn gwneud hyn yn bosib ac felly, roedd hi'n haws i rygbi amatur gydio. 'A soccer-playing tradition was not imported into Wales', chwedl Holt, ond ni ellir gwadu bod gan ogledd Cymru draddodiad pêl-droed yn sgil y ffaith ei bod mor agos yn ddaearyddol at ogledd Lloegr.⁴⁷ Rygbi a ddaeth yn brif gamp y de diwydiannol. Yn ôl Holt,

⁴³ Lowri Wyn Bevan, *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg*, t. 114.

⁴⁴ Richard Holt, *Sport and the British: A Modern History* (Oxford, 1989), t. 247.

⁴⁵ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 18.

⁴⁶ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales* (Oxford, 1982), t. 73.

⁴⁷ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 247.

More important in the success of Welsh Rugby Union was its new cultural role as Wales moved rapidly away from a rural and bardic past and into the industrial world. 'Welshness' had to be created amongst the migrants who flocked to the coalfields.⁴⁸

Parhaodd gelyniaeth leol fel y gwnaeth yn y cyfnod cyn-ddiwydiannol. Dadleua Holt ymhellach fod gan rygbi ran ddiwylliannol i'w chwarae ar unwaith yn y Gymru ddiwydiannol newydd. Gweithredai fel cwlwm wrth i fewnfudwyr o wahanol ardaloedd o Ynysoedd Prydain chwilio am hunaniaeth.

O ran y sefydliad Cymreig, diwydiannu a'r trefoliad a ddaeth yn ei sgil a gafodd y bai am dranc yr iaith frodorol. Fodd bynnag, daeth tipyn o'r mewnfudwyr i'r trefi diwydiannol o ogledd a gorllewin Cymru. Fel y dadleua Johnes,

This movement of people helped ensure that, unlike Irish, the Welsh language was not destroyed by the loss of people to foreign parts. Instead, the migration helped unite and forge a sense of nationhood in what had always been a divided and disparate nation.⁴⁹

Yn y 1880au y chwaraeodd Cymru mewn gornest ryngwladol am y tro cyntaf.

Enillodd y tîm cenedlaethol y Goron Driphlyg am y tro cyntaf ym 1893.

Dechreuadau Hunaniaeth Genedlaethol drwy Chwaraeon

Nodir enghreifftiau pellach o wrthwynebiad y byd crefyddol i fyd y campau yn y cyfnod hyd at fuddugoliaeth tîm rygbi Cymru dros Seland Newydd ym 1905, gan Gareth Williams yn 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru 1880-1914' yn *1905 and all that*. Roedd rhai cyhoeddiadau'n honni y byddai'r gamp yn disodli'r Eisteddfod fel un o nodweddion amlycaf y diwylliant Cymraeg a Chymreig. Yn *Y Cronicle* ym 1886, holodd y Parchedig John Roberts 'A glywodd neb erioed fod rhywun wedi derbyn lles ysbrydol wrth

⁴⁸ Ibid, t. 249.

⁴⁹ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 21.

gicio y bêl?'⁵⁰ Yn *Y Traethodydd* ym 1903, cyfeiriwyd at afael y 'chwaraeon ffôl a champau ofer'⁵¹ ar y Cymry. Roedd cysylltiad agos rhwng byd y campau a'r ddiod gadarn, a dywedodd y Parchedig W. Thomas ym 1887 na fu 'chwarae mor arswydus a pheryglus o gyfundrefnus ag yw yn awr ymhob man. Cellwair, rhegi, cablu, meddwi, ymladd, dial, hapchwarae, gwastraff ac ysbeilio'.⁵²

Roedd y wasg Gymraeg yn adlewyrchu teimladau'r Anghydfurfwyr a grwpiau eraill a oedd yn dechrau dominyddu crefydd yng Nghymru yn niwedd y ddeunawfed ganrif, ac a bregethai yn erbyn chwaraeon a lle'n bosib, sicrhawyd bod digwyddiadau crefyddol yn cael eu cynnal ar yr un diwrnodau â gornestau chwaraeon.⁵³ Mewn cyfnod pan oedd cynnydd sylweddol yn nifer y capeli a adeiladwyd a diddordeb cynyddol y dosbarth gweithiol mewn Anghydfurfiaeth, beirniadwyd y gwyliau mabsant ac mewn ardaloedd anghydfurfiol, dechreuodd y fath gampau ddiflannu erbyn y 1830au.⁵⁴ Daeth gornestau rygbi i ben yn rhai o gadarnleoedd rygbi'r de am nifer o flynyddoedd, ac aeth rhai chwaraewyr ym Mhontypridd cyn belled â llosgi crysau a chefnu ar rygbi'n gyfan gwbl.⁵⁵ Wedi dweud hynny, nid pob Cristion a wrthwynebai rygbi. Yn wir, honnai un gweinidog ym 1902 fod rygbi'n llai bygythiol a stwrllyd na chymanfa ganu, ac roedd capelwyr hwythau'n chwarae rygbi ddechrau'r ugeinfed ganrif.⁵⁶

Dadleua Gareth Williams mai llwyddiant rhyngwladol a wyrdrôdd ragfarnau a gwrthwynebiad y capeli i chwaraeon. Meddai, 'It was spectator sport that would now play the role that religion had once enjoyed as a popular mass activity...'.⁵⁷ Fel y dadleua Williams,

⁵⁰ Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru' yn *Idem (gol.), 1905 and all that* (Llandysul, 1991), t. 99.

⁵¹ *Ibid.*

⁵² *Ibid.*, t. 100.

⁵³ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 5.

⁵⁴ *Ibid.*

⁵⁵ Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru', t. 96.

⁵⁶ Gareth Williams, '1905 and all that', yn *ibid.*, t. 77

⁵⁷ *Ibid.*

rhoddodd buddugoliaeth 1905 gydnabyddiaeth fyd-eang i Gymru fel cenedl, er bod hyn ar y maes chwarae yn unig.

Roedd rygbi'n un o brif ffyrdd y Saeson o ddiffinio'r Cymry a'r brif ffordd y daeth y Cymry i'w hadnabod eu hunain. Fel y dadleua Richard Holt, 'cultural identity was a two-way process'.⁵⁸ Roedd y wasg Gymraeg yn parhau'n ddilornus. Y mae Gareth Williams yn priodoli hyn i anwybodaeth papurau newydd yn y gogledd, lle'r oedd pêl-droed yn cael y flaenoriaeth dros rygbi.⁵⁹ Yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith y cafwyd y gwrthwynebiad mwyaf i fyd y campau.⁶⁰ Er, parhaodd chwaraeon yn boblogaidd ochr yn ochr â chrefydd yn *psyche*'r Cymry. Roedd crefydd yn rhan annatod o hunaniaeth genedlaethol y Cymry i'r fath raddau na ellid fod wedi'i hanwybyddu a'i rhoi o'r neilltu. Yn wir, clywid 'Cwm Rhondda' (emyn a ddeilliodd o'r diwygiad crefyddol) ar derasau Parc yr Arfau a'r Stadiwm Genedlaethol ac fe'i clywir o hyd yn eisteddleoedd Stadiwm y Mileniwm.⁶¹ Ond am y tro, 'yn y Gymru Gymraeg Anghydfurfiol nid mater hawdd oedd derbyn bod i weithgareddau'r maes chwarae le o gwbl ym mywyd y genedl'.⁶² Ond fel y dadleua Holt, unodd rygbi'r gymdeithas mewn ffordd gryfach nag y gwnaeth gwleidyddiaeth a chrefydd.⁶³ Caeodd rygbi'r bwlch rhwng dosbarthiadau cymdeithasol a manau geni'r gymdeithas.

Buan y sylweddolwyd cymaint y gallai rygbi ei gyfrannu at yr ymdeimlad o Gymreictod. Roedd rhai gweinidogion, gan gynnwys y Parchedig W.M. Williams yn barod i groesawu rygbi, gan apelio ar weinidogion i ddod ynghyd i greu tîm. Fel y dadleua Williams, daeth Cymru'n enwog am dri pheth ymhlith y wasg yn Lloegr – 'ei chantorion, ei phregethwyr a'i chwaraewyr rygbi, gyda'r olaf yn gydradd a chyfuwch â'r ddau gyntaf'.⁶⁴ Yn arwyddocaol, felly, gosodai'r wasg Seisnig chwaraeon yn niwylliant ehangach y Cymry.

⁵⁸ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 237.

⁵⁹ Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru', t. 97.

⁶⁰ *Ibid.*, t. 96.

⁶¹ *Ibid.*

⁶² *Ibid.*

⁶³ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 250.

⁶⁴ Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru', t. 102.

Rhaid nodi, fodd bynnag, nad yn sgil crefydd yn unig y gwrthwynebwyd chwaraeon. Roedd pryderon ymarferol a gwleidyddol yn bodoli mewn cyfnod o ddiwydiannu ar raddfa eang.⁶⁵ Teimlid fod yr anhrefn a geid ym myd chwaraeon yn anaddas ar gyfer cymdeithas ac iddi drefn. Ymhellach, bu Brad y Llyfrau Gleision yn ergyd drom i'r Anghydfurfwyr. Ymosodwyd ar eu capeli, eu system addysg a'u hiaith. Ystyrid y Cymry'n bobl derfysglyd a gwrthryfelgar.⁶⁶ Mor fuan ar ôl Terfysgoedd Merthyr a Chasnewydd, nid yw'n syndod fod yr Anghydfurfwyr yn ymosod ar unrhyw weithgarwch y teimlent ei fod yn adlewyrchu'n negyddol ar y gymdeithas Gymraeg a Chymreig. Fel y noda Martin Johnes, roedd y sefyllfa'n fwy cymhleth yng Nghymru o safbwynt yr awdurdodau oherwydd bod bywydau'r Cymry'n bennaf yn eu hiaith eu hunain.⁶⁷

Chwaraeodd addysg ran hefyd yn natblygiad rygbi a'i lledaeniad drwy Gymru gan y'i chwaraeid yn yr ysgolion gramadeg a bonedd a sefydlwyd. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y gamp yn gyffredin drwy'r ysgolion. Fel y dadleua Johnes, rhoddodd i'r ysgolion yng Nghymru gyfle i gystadlu yn erbyn y fath ysgolion yn Lloegr ac i brofi eu goruchafiaeth.⁶⁸

Yr Oes Aur gyntaf ym myd rygbi yng Nghymru oedd y cyfnod rhwng 1900 a 1911, pan enillodd y tîm cenedlaethol chwe Choron Driphlyg. Dadleua Johnes, yn groes i'r Anghydfurfwyr, fod i rygbi le parchus yn hunaniaeth genedlaethol y Cymry. Ynghyd ag Anghydfurfiaeth, daeth rygbi'n rhan o'r Gymru newydd. Meddai Lowri Wyn Bevan:

Wrth i'r gymdeithas hynod, unigryw hon yn y de gael ei thraed dani a mynegi ei hun yn wleidyddol, diwydiannol a diwylliannol, daeth rygbi hefyd yn un o dafodau'r ddraig.⁶⁹

⁶⁵ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 6.

⁶⁶ Prys Morgan, 'Engine of Empire' yn Idem (gol.), *The Tempus History of Wales 25,000BC-AD2000*, t. 208.

⁶⁷ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 8.

⁶⁸ Ibid, t. 18.

⁶⁹ Lowri Wyn Bevan, *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg*, t. 118.

Fodd bynnag, ni olygai'r cenedlaetholdeb diwylliannol rhagor gwleidyddol hwn undod cenedlaethol i Gymru. Roedd y wlad yn rhanedig gyda pêl-droed yn gamp y gogledd a rygbi'n gamp y de, er y ceid clybiau pêl-droed yn y de yn y cyfnod hwn hefyd, gan gynnwys Caerdydd (1910) ac Abertawe (1912).⁷⁰ Ymhellach, fel y noda Johnes, roedd aflonyddwch cymdeithasol yn ardaloedd diwydiannol y de, a fynegwyd trwy helynt Tonypanyd ym 1910, a throdd yr ardaloedd diwydiannol at y Blaid Lafur i'w hachub.⁷¹ Parhaodd gogledd Cymru'n Rhyddfrydol am gyfnod.

Roedd y Crysau Duon wedi sgorio 800 o bwyntiau ar eu taith i Brydain ym 1905, ac wedi ildio 27 yn unig. Gyda'r fuddugoliaeth hon, nid yn unig y tîm rygbi cenedlaethol a gafodd lwyddiant, ond y genedl gyfan. Fel y dadleua Williams,

What the victory really indicated was a collective national achievement, and if there is any connection between sport and ideas of national character, then 1905 stands out as not merely a landmark in the history of Welsh rugby, or of rugby generally, but as a shaper of a wider set of images about the whole culture and identity of a nation. That December afternoon was a moment in the cultural history of Wales.⁷²

Ac fel yr atega Nia Cole, 'Roedd hyn yn orchest genedlaethol, ac nid carreg filltir yn hanes rygbi yn unig ydoedd, ond rhywbeth a barodd lunio sawl delwedd am ddiwylliant a hunaniaeth y genedl'.⁷³

Felly, sefydlwyd rygbi'n gadarn yn brif gamp y Cymry erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, er y dylid nodi bod campau eraill yn dechrau dod yn boblogaidd hefyd, gan gynnwys hoci, tenis, golff, beicio a chriced ymhlith eraill, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁷⁴

Daeth y gymuned honno o Gymry at ei gilydd i gefnogi Cymru yn eu hymgais i

⁷⁰ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 35.

⁷¹ *Ibid*, t. 33.

⁷² Gareth Williams, 'Introduction' yn *Idem (gol.)*, *1905 and all that*, t. 21.

⁷³ Nia Eleri Cole, *Hanes Datblygu'r Gymraeg fel Iaith Chwaraeon*, (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2006), t. 39.

⁷⁴ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, tt. 36-39.

faeddu Seland Newydd mewn gêm a ddisgrifiwyd fel pencampwriaeth y byd rhwng dau o dimau gorau'r byd. Trechodd y Crysau Duon y Saeson, yr Albanwyr a'r Gwyddelod ar y daith ym 1905 cyn wynebu Cymru mewn gornest a ddaeth bellach yn symbol o genedligrwydd y Cymry ym maes rygbi.

Yn y gyfrol *1905 and all that*, cyfeiria Gareth Williams at yr unig gofnod a geir yn y Gymraeg o fuddugoliaeth Cymru yn erbyn Seland Newydd yn yr ornest enwog honno ym 1905. Erthygl ydyw allan o'r *South Wales Daily News* sy'n debycach i ddisgrifiad llenyddol o'r olygfa na chofnod o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y gêm. Yn wir, prin iawn y cyfeirir at yr ornest, ac ni chyfeirir o gwbl at y sgôr. Yn wir, cwyno am y dorf 'llawn asbri' a wna'r gohebydd. Yn ogystal, cyfeddyf nad yw'n gwybod fawr ddim am rygbi, a bod ei ddi-ddordeb yntau ym myd yr eisteddfod a chrefydd. Fel y dywed y gohebydd anhysbys,

Rwy'n deall eisteddfod a chymanfa a ffair, ond y mae rhyw fusnes fel hyn y tu hwnt i'm amgyffred... Pwy ddywedodd fod y Diwygiad wedi lladd ysfa y bêl droed? Bychan yr arwydd o hynny heddiw, ond gadewch i ni gyfaddef mae y dyrfa aneirif hon mor ddeallgar, mor barchus ei golwg, mor weddaidd ei phryd ag un a welwyd ar faes erioed. Ni chlywais air anweddaidd ac ni welais arwydd y ddiod yn ystod y ddwy awr y buom ar y maes...⁷⁵

Y mae Gareth Williams yntau'n crisialu'r hyn a olygai i Gymru mewn cyfnod llewyrchus ar y cyfan i'r genedl, a chymaint yr ychwanegodd y fuddugoliaeth hon at yr ymdeimlad cryf o genedligrwydd a fodolai eisoes ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

I'r ddwy wlad, daethai llwyddiant ar y maes chwarae i olygu cryn dipyn mwy na dim ond gêm: yr oedd yn un o'r elfennau hynny a oedd yn diffinio eu cenedligrwydd iddynt hwy eu hunain ac i eraill.⁷⁶

Ar y cyfan, cynigiai'r tîm cenedlaethol obaith i Gymru gyfan mewn cyfnod pan oedd meysydd megis addysg, gwleidyddiaeth, diwylliant ac economi yn wynebu trafferthion.

⁷⁵ Gareth Williams, 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru', t. 92.

⁷⁶ *Ibid*, t. 93.

Roedd Cymru a Chymry'n chwarae rhan flaenllaw ym Mhrydain hefyd. Daeth buddugoliaeth Cymru dros y Crysau Duon o fewn deng niwrnod i benodi David Lloyd George yn aelod o Gabinet Llywodraeth San Steffan. Ychydig fisoedd ynghynt, rhoddwyd statws dinas i Gaerdydd fel arwydd o'i phwysigrwydd i ddiwydiant Prydain. A dyfynnu Holt, 'The rebirth of the Welsh nation had been signed by Lloyd George, sealed by the king of England, and delivered by Gwyn Nicholls'.⁷⁷

Ymdrinnir â'r berthynas rhwng y Celtiaid a Lloegr gan Richard Holt, sy'n honni bod ymdeimlad o genedligrwydd ymhlith y Cymry a'r Albanwyr yn deillio o ddyhead am oruchafiaeth dros y Saeson ar y maes chwarae, fel symbol o oruchafiaeth genedlaethol ar y cyfan. Fel y dywed Holt,

The cultural identity of modern Scotland and Wales was not so much a question of kilts or Eisteddfods as of 'fitba' at Hampden and rugby at the Arms Park... Sport acted as a vitally important channel for this sense of collective resentment, which was the nearest either people came to a popular national consciousness.⁷⁸

Mae Holt yn beirniadu cenedligrwydd yng Nghymru sy'n seiliedig ar lwyddiant ym myd rygbi, gan alw'r math hwn o genedligrwydd yn 'patriotic to the point of chauvinism'.⁷⁹ Dadleua Holt ymhellach fod poblogrwydd rygbi yng Nghymru'n ymgais i gynnal Cymreictod yn wyneb mewnlifiad o ganlyniad i'r Chwyldro Diwydiannol. Fel y dadleua,

More important in the success of Welsh Rugby Union was its new cultural role as Wales moved rapidly away from a rural and bardic past and into the industrial world. 'Welshness' had to be created amongst the migrants who flocked to the coalfields from Ireland and the west of England in the forty years before the First World War, giving Wales the highest immigration rate outside the United States.⁸⁰

⁷⁷ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 176.

⁷⁸ *Ibid*, t. 237.

⁷⁹ *Ibid*, t. 246.

⁸⁰ *Ibid*, t. 249.

Mae disgrifiad Holt o rygbi'n disodli diwylliant mwy traddodiadol yn gamarweiniol. Yr hyn a wnaeth rygbi a chwaraeon yng Nghymru oedd cyfoethogi'r diwylliant traddodiadol, nid ei orchfygu na'i ddisodli. Ond eir ymlaen i osod rygbi mewn cyd-destun diwylliannol ehangach hefyd, wrth iddo ddadlau, 'Rugby took its place alongside chapel choirs, self-education, and socialist unionism in the new canon of Welshness'.⁸¹ Yn wir, cyfeddyf Holt fod rygbi wedi ymwithio i wead y Cymry yn y pen draw, 'Rugby became a new Welsh myth, a unifying belief; a strand in the national character that gained strength from being so tightly entwined with the idea of ancient liberties reborn, of a rich and independent culture'.⁸²

Arweinia hyn at drafodaeth ar natur rygbi ym Mhrydain. Yng Nghymru, camp y dosbarth gweithiol ydyw, tra mae ei gwreiddiau yn Lloegr yn y dosbarth canol. Y mae'n rhan bwysig o'r diwylliant yn y de, ac i raddau llai yn y gogledd, tra mae'n rhan fach yn unig o ddiwylliant ehangach Lloegr. Fel y dadleua Holt,

The social structure of Welsh rugby needs to be set in the context of a new kind of 'Welshness' that grew out of the impact of economic growth and immigration upon pre-existing cultural traditions. Additionally this 'Welshness' of rugby has to be set against a kind of 'Englishness' based upon the triumph of a code of amateurism nurtured in the social elite.⁸³

Cynan: Y Dyrfa

Yn sicr, erbyn y 1930au, ymddengys fod chwaraeon yn bwnc derbyniol i ysgrifennu yn ei gylch mewn gweithiau llenyddol.

Wrth i'r 1930au ddechrau, cafwyd un arwydd pwysig o'r newid a fu yn agweddau'r sefydliadau Cymreig tuag at fyd y campau. Efallai mai'r un a gymerodd y cam mwyaf arwyddocaol tuag at uno'r traddodiadol gyda'r poblogaidd, y crefyddol gyda'r seciwlar o

⁸¹ Ibid.

⁸² Ibid, t. 250.

⁸³ Ibid, t. 359.

bosib, oedd Cynan, a enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor ym 1931.

Thema'r bryddest fuddugol oedd 'Y Dyrfa', a'r prif gymeriad John yn sgorio'r cais buddugol yn Twickenham yw sail y bryddest. Arwydd o obaith y genedl yw'r gerdd, efallai, sydd yn awgrymu bod Cynan yn gweld arwyddocâd i rôl chwaraeon yn y gymdeithas yr adeg honno. Ond nid oedd y beirniaid yn cytuno ar y cyfan.

Roedd ffafriaeth glir dros y crefyddol yn hytrach na'r seciwlar ym meirniadaeth W.J. Gruffydd, ond lle ceir elfennau diwinyddol, caiff Cynan ei feirniadu am fentro bod yn ddiwinydd yn hytrach nag yn brydydd. Fel y dadleua,

Wrth gwrs, naturiol yw i genedl sydd er's cymaint o flynyddoedd yn myfyrio yn y materion hyn godi prydyddion sy'n debyg o roddi mwy o sylw iddynt na phrydyddion gwledydd eraill. Ond y drwg ydyw fod y peth wedi myned yn ystrydeb.⁸⁴

Serch hynny, ceisia wadu'r ffaith ei fod yn 'diystyru tuedd y genedl i ymhyfrydu ym mhynciau crefydd'.⁸⁵ Mae'n bur amlwg yma fod cysylltiad agos yn bodoli rhwng crefydd a safon yr iaith a ddisgwylid yng nghystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, am fod y feirniadaeth ar sail crefydd yn mynd law yn llaw â beirniadaeth am safon yr iaith, hynny yw'r defnydd o eiriau sydd wedi eu Cymreigeiddio o eiriau Saesneg. Cymerer defnydd Cynan o'r term 'right-wing' er enghraifft. Cymysgir y crefyddol a'r seciwlar yn y llinellau canlynol:

Myfi, right wing y Tîm Cymreig
Yn gennad Iesu Grist.⁸⁶

Mae'n bosib iawn mai ieithwedd chwaraeon yw un o'r rhesymau y gwrthodwyd y maes gan feirniaid. Mae llu o enghreifftiau o eiriau wedi eu Cymreigeiddio'n ymddangos yn

⁸⁴ W.J. Gruffydd, yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)* (s.l., 1931), t. 55.

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Cynan, 'Y Dyrfa' (llau. 35-36), yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)* (s.l., 1931), t. 107.

y bryddest, megis refferi, tîm, scorio, trei, lein, gêm a nifer o rai eraill. Ar ôl derbyn bod lle i bêl-droed ym myd llenyddiaeth, hola'r beirniad a yw'r defnydd hyn o eirfa'n dderbyniol.

A ydyw disgrifiad gwir boëtig o ymrysonfa pêl droed ynddo'i hunan yn addas testun i brydyddiaeth?... Os atebir ei fod, yna cyfyd yr ail gwestiwn – a ellir disgrifio'n boëtig ymrysonfa pêl droed heb arfer y geiriau Saesneg hyn? Yr wyf yn berffaith sicr na ellir.⁸⁷

Cydnabu W.J. Gruffydd fod angen derbyn yr iaith os derbynnir y testun, hefyd.

Os ydyw'n angenrheidiol croesawu testun o'r fath [sic] hwn i lys yr awen Gymraeg, rhaid hefyd groesawu ei fynegiant priodol. Gwelsom na ellir heb wrthuni wrthod y testun; ni allwn felly wrthod ei fynegiant chwaith.⁸⁸

Cydnabu Dyfnallt, hefyd, fod yn rhaid rhoi lle teilwng i destun y bryddest hon os derbynnir ei bod yn deilwng o Goron yr Eisteddfod Genedlaethol. Y mae'n anghytuno yma â barn Saunders Lewis yn 'Egwyddorion Cenedlaetholdeb'. Fel y dywed Dyfnallt,

Hwyrach y cyfrifir awyrgylch y gerdd yn ddieithr i ddull ein canu'n gyffredin. Pe trawsai'r bardd ar Dyrfa Cwrdd Diwygiad, buasai'n fwy cydnaws â'n tymheredd. Nid yw'r gerdd yn cydymffurfio mewn llawer pwynt â thraddodiad barddoniaeth yng Nghymru, ond mae barddoniaeth, fel y gwynt, yn chwythu lle y mynno. Ni allwn gadw ysbryd awen yn hualau traddodiad ac arfer. Dylai Barddoniaeth feddiannu holl gwmpasoedd Bywyd.⁸⁹

Er mwyn i'r hunaniaeth Gymraeg a Chymreig ddatblygu, rhaid wrth iaith a themau newydd. Fel arall, erys yr estron yn estron a'r diffiniad o genedligrwydd yn gyfyng. Archwiliodd yr athronydd Dewi Z. Phillips berthynas gwrthrych a'r gair a fathir i ddisgrifio'r gwrthrych hwnnw, a'r cyswllt rhwng iaith a ffordd o fyw. Dadleua mai proses dorfol yw

⁸⁷ W.J. Gruffydd, yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)*, tt. 74-75.

⁸⁸ *Ibid.*

⁸⁹ Dyfnallt, yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)*, t. 79.

creu geirfa a bod y broses honno'n dibynnu ar 'ein cyfathrach â'n gilydd'.⁹⁰ Yn hynny o beth, mae termau a fathir yn ddibynnol i raddau helaeth ar brofiadau cyffredin unigolion o fewn yr un gymuned a thrwy hynny, atgyfnerthir cysyniad y gymuned ddychmygedig, a drafodir yn rhan nesaf y bennod. Meddai Phillips, 'Dywedodd Wittgenstein ein bod wrth ddychmygu iaith yn dychmygu ffordd o fyw ar yr un pryd'.⁹¹

Y mae Dyfnallt yn feirniadol o'r iaith a ddefnyddir gan Cynan, ond am fod y fath eirfa'n tarfu ar arddull y gerdd yn hytrach nag am y ffaith fod ynddi eiriau Saesneg. Y mae Dyfnallt yntau'n pwysu a mesur eu gwerth. Fel y dadleua,

Trewir ar eiriau, termau, ac ergydion yn bradychu llacrwydd mewn celfyddyd dda. Gallai gŵr o ddawn y bardd hwn osgoi'n hawdd bob dim y gellir ei gondemnio, eithr dewisodd o fwriad cyson a'i ddamcaniaeth a'i safbwynt ganu mewn iaith fyw – iaith, termau, ergydion Tyrfa cae pêl droed – nodweddion na chyfrifid yn barchus yn y dosbarth a gyfenwir yn urddasol.⁹²

'Iaith fyw' yw'r term allweddol yma, gan fod y beirniad yn honni bod 'pob dim sy'n gywir i Fywyd yn gyfreithlawn yn llaw artist'. Rhai o'r termau a geir ganddo na soniais amdanynt eisoes yw 'chipio', 'scrum' a 'left-back'. Mae eraill megis 'lein', '[d]aclo' a 'gôl' yn aros hyd heddiw. Defnyddir 'chwaraeon' yma i olygu gornestau. Cryfder arall y gerdd yw ei bod yn fath o ddisgrifiad o gymdeithas yr oes, gyda sôn am y

cyflogau'n ddigon prin
a'r fasnach lo ar drai.⁹³

⁹⁰ Dewi Z. Phillips, *Ffiniau* (Talybont, 2008), t. 132.

⁹¹ *Ibid.*

⁹² Dyfnallt, yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)*, t. 81.

⁹³ Cynan, 'Y Dyrfa' (llau 253-254) yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)*, t. 111.

Mae barn Moelwyn yn gwbl ddigamsyniol. Y mae 'Mordan' (llysenw Cynan) yn fardd 'o ddoniau goludog yn afradu ei etifeddiaeth fras'.⁹⁴ Ym marn Moelwyn, nid oes lle yn llenyddiaeth ein cenedl i'r fath iaith a ddefnyddir gan y bardd hwn. Fel y dadleua,

Beth a ddaw o'n hiaith os dyna ydyw Cymraeg ein beirdd i fod? Y beirdd, yn anad neb, sy wedi arfer â bod yn warchodwyr iaith. Ond, bellach, dyma wanu'r iaith yn nhŷ ei charedigion.⁹⁵

Y Gymuned Ddychmygedig

Mae rhai campau'n fwy effeithiol na'i gilydd wrth weithredu fel arwydd o genedligrwydd. Yn sicr, mae rygbi'n gweddu'n berffaith ar gyfer y Cymry. Yn ymhlyg yn y cysyniad hwn y mae'r ffaith fod y pymtheg dyn yng nghrys coch Cymru nid yn unig yn cynrychioli Cymru a dyheadau'r genedl, eithr, nhw yw Cymru.

The idea... that sport in general, or one sport in particular, creates or fosters a sense of nationhood is important, not least because international competition generates a seemingly endless number of occasions when nations are embodied in something manifestly real and visible.⁹⁶

Dadleua Smith a Porter fod cysylltu un gamp yn benodol â chenedligrwydd yn creu cymhlethdod, yn enwedig pan fo amodau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yn gwanhau'r cyswllt hwnnw. Dewisa Hobsbawm ganolbwyntio ar un gamp benodol i gyfiawnhau cysyniad y gymuned ddychmygedig. Ceisia esbonia'r ddadl yng nghyd-destun pêl-droed, ond y mae'n ddilys hefyd wrth ei chysylltu â rygbi.

⁹⁴ Moelwyn, yn E. Vincent Evans (gol.), *Cofnodion a chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (Bangor)*, t. 85.

⁹⁶ Ibid.

⁹⁶ Dilwyn Porter ac Adrian Smith, *Sport and National Identity in the Post-War Period* (Oxford, 2004), t. 1.

The imagined community of millions seems more real as a team of eleven named people. The individual, even the one who only cheers, becomes a symbol of his nation himself.⁹⁷

Diffinnir 'nationality' gan Anderson yn nhermau 'nation-ness' fel symbol diwylliannol. Hynny yw, gellir esgor ar deimladau o genedligrwydd trwy'r diwylliant. Yn wir, dywed Anderson, '...Nation-ness, as well as nationalism, are cultural artefacts of a particular kind'.⁹⁸

Diau fod y cyswllt rhwng cenedligrwydd a'r maes chwarae i'w weld yn y dyfyniad canlynol gan Anderson, sy'n cyfeirio at frawdgarwch fel cysyniad cyffredinol. Gwneir hyn yng nghyd-destun rhyfel yn yr enghraifft isod. Gellir yn hawdd iawn briodi'r cysyniad hwn gyda'r ymdeimlad o genedligrwydd a geir o fewn carfan neu dîm cenedlaethol.

The nation is always conceived as a deep, horizontal comradeship. Ultimately it is this fraternity that makes it possible, over the past two centuries, for so many millions of people, not so much to kill, as willingly to die for such limited imaginings.⁹⁹

Os gellir credu geiriau Anderson yma, yna rhaid derbyn mai profiad real iawn yw'r profiad o berthyn i gymuned o'r fath. Serch hynny, dadleua Dai Smith y gall unigolion o fewn yr un gymuned ddychmygedig ddychmygu cymuned hollol wahanol i'w gilydd, er eu bod yn rhannu'r un profiadau.¹⁰⁰

Yn ôl Gwyn A. Williams, mater o anghenraid daearyddol i'r Cymry oedd ffurfio cymuned ddychmygedig.

A country called Wales exists only because the Welsh invented it. The Welsh exist only because they invented themselves. They had no choice.¹⁰¹

⁹⁷ Eric Hobsbawm, *Nations and Nationalism since 1780* (Cambridge, 1980), t. 143.

⁹⁸ Benedict Anderson, *Imagined Communities* (London, 1983), t. 13.

⁹⁹ *Ibid.*, t. 16.

¹⁰⁰ Dai Smith, *Wales! Wales?* (London, 1984), t. 2.

¹⁰¹ Gwyn A. Williams, *When Was Wales?* (London, 1985), t. 2.

Mae Boyle a Haynes yn archwilio pêl-droed yn y gymuned ddychmygedig ond gellir priodi eu sylwadau â'r byd rygbi hefyd. Dadleuant fod arwyr a buddugoliaethau'n cael eu dathlu trwy eu plethu'n rhan o naratif pwerus sy'n cysylltu'r gorffennol â'r presennol. Trwy wneud hynny, dadleuant y tynnir ar y chwedlau, a'r chwedlau hynny'n mynd y tu hwnt i ffiniau'r gamp a chânt eu plannu yn y gymdeithas ehangach. Mae'r cyfryngau'n chwarae rhan yn y broses hon drwy ychwanegu at chwedloniaeth byd y campau.¹⁰² Rhaid dweud bod elfen o ddeuoliaeth yng nghysyniad y gymuned ddychmygedig. Ar y naill law, ceir Cymreictod. Ar y llaw arall, ceir Prydeindod. Ond nid yw'r ddau wedi ymwahanu'n llwyr oddi wrth ei gilydd i nifer o bobl. Dadleua Linda Colley, 'Identities are not like hats. Human beings can and do put on several at a time'.¹⁰³

Tra mae gwahaniaethau diwylliannol amlwg rhwng Cymru a Lloegr, mae'r gwahaniaethau hyn mewn cyfnodau peryglus i'r naill neu'r llall yn cael eu hanwybyddu. Roedd Cymry wedi cymryd rhan yn Rhyfel y Böer ac ymgyrchoedd yn Affrica, ac roedd y Cymry'n eu gweld eu hunain yn rhan hollbwysig o'r Ymerodraeth Brydeinig. Roedd hunaniaeth Cymru'n dechrau dod i'r amlwg a dadleua Colley, 'What distinguished the Welsh was their language'.¹⁰⁴

Yn ôl Glanmor Williams, yn gynnar yn y nawfed ganrif, sef cyfnod *Historia Britonum*, 'the inhabitants of Wales conceived of themselves as part of a people with a wider identity, the descendants of the ancient occupiers and lawful possessors of the whole island of Britain'.¹⁰⁵ Mae'n amlwg y bu'r ddeuoliaeth hon, ers tro byd, ym meddyliau'r Cymry a chanddynt '[t]he two concepts of being affiliated to a people of ancient British, ultimately

¹⁰² Raymond Boyle a Richard Haynes, *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture* (Edinburgh, 2009), t. 199.

¹⁰³ Linda Colley, *Britons: Forging the Nation 1707-1837* (Connecticut, 1994), t. 13.

¹⁰⁴ *Ibid.*

¹⁰⁵ Glanmor Williams, *Religion, Language and Nationality in Wales* (Cardiff, 1979), t. 4.

Trojan, stock and of belonging more nearly and more concretely to a gwlad...'¹⁰⁶

Dadleua Colley ei bod yn gyffredin meddwl yn nhermau hunaniaeth ddeublyg, hyd yn oed ymhlith y carfannau mwyaf gwleidyddol ddeallus yn y gymdeithas Gymraeg. Nid oeddynt yn meddu ar un hunaniaeth genedlaethol unigol. Cyfeiriai Iolo Morganwg at y Gymraeg a'r Saesneg fel ei ddwy famiaith. Roedd yn 'binational just as he was bilingual'.¹⁰⁷ Ymddengys mai cael llwyddiant ar y maes chwarae o fewn cyd-destun Prydeinig oedd bwysicaf yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru a thrwy chwaraeon, ac nid gwleidyddiaeth, y mynegai'r Cymry eu gwladgarwch.¹⁰⁸

Gwireddwyd y ddeuoliaeth hon gan unigolion yn y byd chwaraeon yn ddiweddarach. Ym myd rygbi, eu huchelgais yw cynrychioli Cymru ac yna'r Llewod Prydeinig. Ym myd criced, anelant at gynrychioli Morgannwg a Lloegr. A yw hyn, felly, yn awgrymu mai profiad tebyg i gynrychioli'r Llewod yw profiad y Cymro o gynrychioli Lloegr ar y llwyfan rhyngwladol ym myd criced, tra bo'r Sais yn teimlo ei fod yn cynrychioli Lloegr?

Gwelwyd dirywiad rygbi yng Nghymru ym mlynnyddoedd y Dirwasgiad rhwng y ddau ryfel, a effeithiodd yn ddirfawr ar y diwydiant glo. Ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd ar y maes chwarae. Nid enillodd Cymru'r un tlws yn y cyfnod rhwng Campau Llawn 1911 a 1950.¹⁰⁹ Fodd bynnag, parhaodd y gefnogaeth i'r tîm cenedlaethol ac yng nghyfnod Dirwasgiad y 1930au y cydiodd y traddodiad o ganu emynau yn ystod gemau.¹¹⁰ Ymhellach, roedd hyn yn wyneb bygythiad difrifol i rygbi'r undeb wrth i ddiweithdra ar raddfa fawr arwain at allfudiad i fyd rygbi'r gynghrair yng ngogledd Lloegr. Dyma nodwedd a ddaeth yn rhan ganolog o hunaniaeth y Cymry drwy fyd rygbi y mae crefydd yn rhan gynhenid ohoni. Ond fel y noda Martin Johnes, roedd hyn yng nghyd-destun diwylliant dosbarth gweithiol ehangach.

¹⁰⁶ Ibid, t. 5.

¹⁰⁷ Linda Colley, *Britons: Forging the Nation 1707-1837*, t. 373.

¹⁰⁸ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 29.

¹⁰⁹ Undeb Rygbi Cymru, www.wru.co.uk [Fel yr oedd ar Fedi 20, 2010].

¹¹⁰ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 252.

For much of the working-class Welsh patriotism sat quite comfortably alongside a wider consciousness of class... Industrial Wales was very much rooted in the wider culture of working-class Britain.¹¹¹

Y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru

Yn nhermau'r cyfryngau, roedd y cyfnod hwn yn un arwyddocaol i Gymru ac i weddill Prydain gyda dyfodiad y radio. Cynigiai'r radio her i rym y wasg o'r cychwyn cyntaf. Câi gornestau pêl-droed ac ymrysonfeydd paffio eu darlledu yn y dyddiau cynnar. Dadleua Aled Jones fod y wasg eisoes wedi ceisio hybu ymdeimlad o genedligrwydd ymhlith y Cymry cyn dyfodiad y radio, ond bod y radio hefyd wedi dangos potensial i wneud yr un peth.¹¹²

Mor gynnar â 1925, yn ôl John Davies, mynnai'r Cymry gael darllediadau yn Gymraeg. Ffurfiwyd Plaid Cymru'r flwyddyn honno, ac roedd yna ofid y câi pwysau sylweddol eu rhoi ar yr awdurdodau darlledu. Mynegodd E.R. Appleton, cyfarwyddwr yr orsaf ddarlledu yng Nghaerdydd, bryderon enbydus erbyn 1935 ynghylch y ffaith '[that] the 'extreme' political Nationalists were seizing the initiative from the 'moderate' cultural Nationalists'.¹¹³ Roedd y cenedlaetholwyr diwylliannol hyn hefyd yn dechrau dod yn ymwybodol o fanteision y byd darlledu. Bu darllediadau prin yn y Gymraeg yn ystod y 1920au. Ond fel y noda Davies, roedd y pynciau a drafodwyd a'r gynulleidfa – 'the old and the sick' a phlant - a dargedwyd, ill dau, yn gyfyng. Serch hynny, darlledwyd *Buchedd Garmon* ar Ddydd Gŵyl Dewi 1937. O ran darllediadau chwaraeon yn gyffredinol, cafwyd nifer gynyddol ohonynt drwy gydol y 1930au, er roeddynt bron i gyd yn Saesneg, 'although the *mabolgampau* of Urdd Gobaith Cymru were described in Welsh'.¹¹⁴ Dyma'r cyfnod pan

¹¹¹ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 62.

¹¹² Aled Jones, *Press, Politics and Society*, t. 234.

¹¹³ John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff, 1994), t. 32.

¹¹⁴ *Ibid.*, tt. 32, 96, 99, 144.

oedd termau newydd yn cael eu bathu yn y Gymraeg, a ddeuai'n rhan o'r sylwebaethau'n ddiweddarach. Roedd y termau hyn yn cynnwys 'mewnwr' a 'maswr'.¹¹⁵ Serch y cyfieithiadau hynod syml hyn, dadleua Davies, 'Many of their terms have a vividness lacking in the English originals'.¹¹⁶

Ymddengys na roddwyd lle i chwaraeon, fodd bynnag, ymhlith rhai o beuoedd eraill y Gymraeg pan ddeuai i ddarlledu. Ymddengys fod ansicrwydd ynghylch dyddiad darlledu'r sylwebaeth lawn gyntaf ar ornest rygbi yn y Gymraeg, gyda Davies yn honni mai ar Fedi 14, 1951 y'i cafwyd,¹¹⁷ tra mae J.T. Davies yn honni y cafwyd y sylwebaeth rygbi gyntaf o unrhyw fath yn y Gymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi 1952.¹¹⁸ Cofier na ddaeth Radio Cymru i fod tan 1975.

Yn ddiau, un o'r ffyrdd y gweddnewidiwyd chwaraeon drwy ddarllediadau oedd y derminoleg newydd a ddyfeisiwyd ar gyfer sylwebu. Gwnaethpwyd hyn yn Saesneg yn y 1920au. Yn wir, dadleua Holt yng nghyd-destun Prydain mai darlledu fu'r 'single most important influence on the development of sport in this century'.¹¹⁹ Yn yr un modd, aethpwyd ati i ddyfeisio termau cyffelyb a chyfatebol yn y Gymraeg. Yn ôl Nia Cole, roedd chwaraeon yn rhan o'r chwyldro a wynebai Prydain yn sgil dyfeisio'r teledu.

Yn ystod ugeiniau'r ganrif ddweithaf [sic], yn sgil dyfeisio'r radio a'r teledu, cafwyd newidiadau yn y ffordd y synnid am chwaraeon. Byddai'r cyfryngau newydd hyn yn ffordd arall, fel y papurau newydd, i roi sylw i bynciau'r dydd... Roedd yn sicr y byddai'r datblygiadau technolegol hyn yn gweddnewid byd chwaraeon yng Nghymru a ledled y byd.¹²⁰

¹¹⁵ 'Eic Davies a Carwyn James yn sgwrsio', cyhoeddwyd yn *Barn Rhag/Ion* 82/83. Gw. yr adargraffiad yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies*, t. 90

¹¹⁶ John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 114.

¹¹⁷ *Ibid.*, t. 196.

¹¹⁸ J.T. Davies, 'Eic a Darlledu', yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* (Llanrwst, 1995), t. 102.

¹¹⁹ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 311.

¹²⁰ Nia Eleri Cole, *Hanes Datblygu'r Gymraeg fel Iaith Chwaraeon*, t. 41.

Yng Nghaerdydd yr oedd y stiwdio radio Brydeinig gyntaf y tu allan i Lundain, ac agorodd honno ym 1923.¹²¹ Rhannai'r orsaf donfedd â radio'r BBC yng ngorllewin Lloegr hyd at 1937. Flwyddyn yn ddiweddarach, gwnaeth Eic Davies ei adroddiad cyntaf ar chwaraeon yn y Gymraeg, sef adroddiad ar Fabolgampau'r Urdd yng Nghaerdydd.¹²² Plant o gefndiroedd di-Gymraeg oedd y rhan fwyaf o'r cystadleuwyr, ac felly roedd angen gwneud cryn dipyn o waith i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg. Trefnwyd clwb penwythnos iddynt gael chwarae rygbi a bu'n rhaid iddynt siarad Cymraeg wrth chwarae. Y cam naturiol nesaf oedd bathu termau i'w defnyddio. Daeth triawd o arbenigwyr - Eic Davies, Victor Hampson Jones a Gwyn M. Daniel - ynghyd i drafod y termau rygbi cyntaf yn y Gymraeg. Safleoedd y chwaraewyr a'r dulliau sgorio a ddaeth gyntaf.¹²³ Dysgodd Eic Davies y termau hyn i'r Cymry ledled y wlad trwy adroddiadau yn *Y Faner*. Datblygwyd ar waith Eic Davies gan ohebydd *Y Cymro*, Dr. Gwent Jones. Fel y dadleuai Eic Davies,

Trwy ddarlledu cyson a storïau a nofelau ar y Meysydd Chwarae –trwy'r cyfryngau hyn y mae cael gan y gwrandawr ymgyfarwyddo â'r termau. Gwnaeth yr Urdd waith da ar y pen hwn eisoes...¹²⁴

O ran rygbi, nid Eic Davies oedd y sylwebydd cyntaf yn y Gymraeg, eithr Delfan Lewis.¹²⁵ Ni chlywyd llais Eic Davies ar y radio ar ôl ei adroddiad cyntaf hyd nes ei adroddiad nesaf ym 1946.¹²⁶ Bu'n darlledu adroddiadau'n gyson wedi 1946, a darlledwyd ei sylwebaeth fyw gyntaf ar Ddydd Gŵyl Dewi 1952, ar ornest rhwng Gorseinon a Phontarddulais.¹²⁷ Bedair blynedd yn ddiweddarach, clywyd y rhaglen boblogaidd *Y Maes Chwarae* ar y radio am y tro cyntaf, a honno dan ofal Eic Davies, Carwyn James, Gwynedd

¹²¹ J.T. Davies, 'Eic a Darlledu', yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies*, t. 101.

¹²² 'Eic Davies a Carwyn James yn sgwrsio', cyhoeddwyd yn *Barn Rhag/Ion* 82/83. Gw. yr adargraffiad yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies*, t. 89.

¹²³ Eic Davies, 'Os Modd Cael Tocyn?' yn Howard Lloyd (gol.), *Crysau Cochion* (Llandybïe, 1958), t. 113.

¹²⁴ *Ibid*, t. 120.

¹²⁵ J.T. Davies, 'Eic a Darlledu', yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies*, t. 101.

¹²⁶ *Ibid*, t. 102.

¹²⁷ *Ibid*.

Pierce, Howard Lloyd ac eraill. Y rhain a fu'n bennaf cyfrifol am drafod rhai o'r termau chwaraeon Cymraeg cynharaf, a rhoddwyd sêl bendith arnynt gan Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, Stephen J. Williams.¹²⁸ Serch y gwaith tîm a wnaethpwyd er mwyn bathu a derbyn y termau, Eic Davies sy'n cael y clod mwyaf am y gwaith hwnnw. Fel y dywedai ei gyn-ddisgybl, Dafydd Rowlands amdano, 'Fe, yn wir, oedd yr arloeswr'.¹²⁹

Ategir hyn gan T.J. Davies, sy'n cyfeirio at y cyffro a geid 'wrth ddisgwyl am ryw berl o air bob tro y darlledent'.¹³⁰ Crisielir cyfraniad Eic Davies i fyd y campau ac i'r Gymraeg gan Bill Samuel, a ddywed,

Ro'dd e'n bathu terme pan o'dd pawb arall yn meddwl nad o'dd hi'n bosib bathu terme o'r fath ac ro'dd e'n mynnu eu defnyddio nhw a gwneud y cyfan drwy'r Gwmrâg. Ac er mor galed o'dd gofynion y dyddie cynnar rheiny, roedd hi'n rhaid wrthyn nhw cyn ein bod ni'n cyrraedd ble yn ni heddiw. Ac o'dd hi'n rhaid wrth rhywun [sic] fel Eic wrth y llyw hefyd.¹³¹

Yn fwy na bathu termau, prif lwyddiant Eic Davies oedd rhoi'r modd i Gymry Cymraeg drafod y campau yn eu hiaith gyntaf, a hynny gan ddefnyddio iaith gyfoethog na fyddai'n frith o dermau Saesneg. Yn wir, cyfeiria Bill Samuel at yr anhawster a geid wrth geisio canfod arbenigwyr ym myd chwaraeon a fedrai siarad am y campau unigol mewn ffordd ddealladwy a deallus.¹³²

Wrth geisio bathu'r termau, y mae'n gwbl amlwg fod ystyriaethau ieithyddol a diwylliannol yn rhan o'r broses. Yn wir, cyfeiriai Eic Davies yntau at y penderfyniadau a wnaed er mwyn canfod termau a fyddai'n addas ar gyfer yr oes ac ar gyfer Cymru gyfan. Wrth drafod y term rygbi 'scissors', ceisiwyd pwysu a mesur rhinweddau'r termau 'gwelle' a 'siswrn', y naill yn hen derm arbenigol a'r llall yn derm cyfoes mwy cyffredinol:

¹²⁸ Ibid, t. 103.

¹²⁹ Dafydd Rowlands, 'Eic', yn *Cyfrol Deyrnged Eic Davies*, t. 109.

¹³⁰ T.J. Davies, 'Eic Davies(1909-1993)', yn *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* t. 17.

¹³¹ Bill Samuel, 'Mater o Raid', yn *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* t. 75.

¹³² Ibid, t. 74.

Oherwydd fod gwelle ei hunan wedi mynd allan o fod, dyw pobol ddim yn gwybod beth yw gwelle, ond, mae ffermwyr canolbarth Cymru yn gwybod beth oedd e yn iawn, ontefe, ac yna doedd dim iws defnyddio fe gyda'r to newydd... Mae rhywbeth llawer mwy Cymraeg ynddo na 'siswrn' yn does e?¹³³

Trafodaf yr ystyriaethau ieithyddol a diwylliannol yn y broses o fathu termau ym mhennod 3. Fel yr atega Onllwyn Brace am ddoniau bathu Eic Davies,

...gosododd batrymau ac, yn bwysicach na dim, gosododd safonau sy'n cael eu derbyn fel y norm erbyn heddiw.¹³⁴

Erbyn 1956, câi pêl-droed sylw yn *Y Cymro* a'r *Faner*. Gyda sylw cynyddol y wasg i fyd y campau, cynyddodd y galw am raglen deledu. Rhaglen fisol oedd *Y Maes Chwarae* i fod ar y dechrau, ond buan y daeth yn rhaglen bythefnosol oherwydd ei phoblogrwydd. Câi termau newydd eu bathu cyn y rhaglenni a'u defnyddio'n hyderus yn ystod y darllediadau wedi cryn drafod arnynt. Proses o gyfaddawdu oedd y broses o fathu termau ar y dechrau.¹³⁵ Aeth tîm *Y Maes Chwarae* ati i olygu a gwella termau Eic Davies a'i gyfoedion.

Cafwyd adfywiad yn economi Cymru a'i llwyddiant ar y cae rygbi yn y blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Yn ystod y 1950au, cafodd Cymru rywffaint o lwyddiant, gan ennill y Bencampwriaeth dair gwaith a'i rhannu ddwywaith.¹³⁶ Yn fwy arwyddocaol, o'r 1950au ymlaen arweiniodd y teledu at newidiadau sylweddol ym myd chwaraeon, ac fe sicrhodd erbyn yr ail Oes Aur yn y 1970au fod y chwaraewyr eisoes yn adnabyddus ac yn cynrychioli'r hyn a olygai i fod yn Gymro. Ond nid oedd y blynyddoedd ar ôl dyfodiad y teledu'n rhai llewyrchus i Gymru ar y llwyfan rhyngwladol. Cafwyd Camp Lawn ym 1952, ond bu'n rhaid aros tan 1965 ar gyfer y Goron Driphlyg nesaf, a 1970 ar gyfer y Gamp Lawn unwaith eto.

¹³³ Eic Davies, 'Eic Davies a Carwyn James yn sgwrsio', t. 89.

¹³⁴ Onllwyn Brace, 'Cawr Bach y Cyfryngau', yn *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* t. 106.

¹³⁵ Eic Davies, 'Os Modd Cael Tocyn?' yn Howard Lloyd (gol.), *Crysau Cochion*, t. 121.

¹³⁶ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 73.

Newidiodd hyn oll ddiwedd y 1960au, fodd bynnag, pan ddechreuodd Cymru ddominyddu ym myd rygbi rhyngwladol. Dyma gyfnod y Stadiwm Genedlaethol newydd a chyfnod cyflwyno'r system ddebentur ar gyfer y sawl a oedd am sicrhau tocynnau er mwyn blasu'r mynegiant hwn o hunaniaeth Gymraeg drostynt eu hunain. Roedd hwn yn gyfnod pwysig o ran twf ymwybyddiaeth genedlaethol wleidyddol yng Nghymru, gyda sefydlu'r Swyddfa Gymreig a swydd Ysgrifennydd Gwladol ym 1964, gweithgarwch Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a buddugoliaeth Plaid Cymru a Gwynfor Evans yng Nghaerfyrddin yn Etholiad Cyffredinol 1966. Gallai'r sawl nad oeddynt yn ddigon ffodus i gael gafael ar docyn ddibynnu ar y teledu. Dadleua Johnes y cynyddodd y diddordeb yn y tîm cenedlaethol o ganlyniad i'r cyfryngau gwladgarol. Daeth y gornestau rhyngwladol yn ddigwyddiadau rheolaidd yn sgil y cyfryngau Saesneg eu hiaith, a hynny y tu allan i gadarnleoedd arferol y byd rygbi. Arweiniodd hyn at sefydlu clybiau rygbi newydd yn y gogledd.¹³⁷ Dyma gyfnod yr amheuaeth fawr ynghylch rygbi amatur, a fu'n gymaint o sefydliad yng Nghymru cyhyd. Fel y dadleua Johnes, roedd amaturiaeth yn wynebu cryn fygythiad oherwydd y cyfleoedd masnachol a geid o ganlyniad i'r teledu, megis nawdd a hysbysebu.¹³⁸

Erbyn y 1970au, Oes Aur rygbi yng Nghymru, roedd sylwebaeth rygbi yn y Gymraeg eisoes wedi hen ymsefydlu ar y radio. Dywed John Davies fod Glanmor Williams wedi cyfeirio ym 1971 at 'the increasing competence of Welsh-language commentators'.¹³⁹ Dadleua Davies fod BBC Cymru, yn ystod yr Oes Aur, yn gweld y gêm 'as an instrument of nation-building'.¹⁴⁰ O ran y teledu, dadleua Davies fod y pwyslais ar grefydd, a fu'n un o nodweddion darlledu sain Cymru ers cyhyd, wedi'i barhau trwy gyfrwng y teledu. Yn arwyddocaol, o safbwynt y diwylliant, pan fu gwrthdaro rhwng Cwpan Pêl-Droed y Byd

¹³⁷ *Ibid*, t. 80.

¹³⁸ *Ibid*, t. 83.

¹³⁹ John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales*, t. 319.

¹⁴⁰ *Ibid*, t. 320.

1978 ac Eisteddfod yr Urdd, cwtogwyd y darllediad o'r brifwyl.¹⁴¹ Dengys hyn agwedd gwbl groes i agwedd y papurau newydd a fynegwyd gan Saunders Lewis ym 1926.

Roedd cryn drafod ar y taliadau anuniongyrchol i'r chwaraewyr. Wrth i'r Oes Aur ddirwyn i ben ac wrth i'r mynegiant o genedlaetholdeb diwylliannol gyrraedd ei anterth, roedd cyfle i'r Cymry gyfleu hyn oll drwy wleidyddiaeth a'r refferendwm ar ddatganoli ym 1979. Mae Johnes wedi archwilio'r methiant i drosi cenedlaetholdeb diwylliannol ar y cae rygbi yn genedlaetholdeb gwleidyddol mewn ymgais i ennill tir i Gymru o fewn cyd-destun Prydeinig.¹⁴² Dyma'r cyfnod y byddaf innau'n ei archwilio ymhellach yn y gymhariaeth rhwng hunangofiannau J.P.R. Williams a Ray Gravell ym mhennod 2. Yma, archwiliaf y ffaith nad oedd cenedlaetholdeb diwylliannol wedi'i drosi'n genedlaetholdeb gwleidyddol ym 1979.

Roedd y 1980au yn gyfnod pan gafwyd diweithdra sylweddol unwaith eto yng Nghymru, a llywodraeth Doriaidd Margaret Thatcher yn sathru ar ddiwydiant a bron pob pwll glo ynghau erbyn diwedd y degawd. Unwaith eto, roedd economi gostyngol y genedl wedi'i adlewyrchu ar y cae rygbi. Ac eithrio Coron Driphlyg 1988 a gorffen yn y trydydd safle yng Nghwpan y Byd y flwyddyn gynt, ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd.

Casgliadau

Felly, erbyn sefydlu S4C ym 1982, roedd chwaraeon wedi'i sefydlu'n un o beuoedd y cyfryngau yng Nghymru, a galluogai'r sianel newydd hon i'r Gymraeg ddatblygu ymhellach drwy ddarpariaeth gynyddol o sylwebaeth chwaraeon, nid yn unig ym maes rygbi ond hefyd ym myd snwcer, rasio, pêl-droed, rasio harnais ac yn fwy arwyddocaol, efallai, criced.

¹⁴¹ *Ibid*, t. 358.

¹⁴² Martin Johnes, 'A Prince, a King and a Referendum: Rugby, Politics and Nationhood in Wales 1969-79', *Journal of British Studies*, 47 (2008), 129-148.

Archwiliad fydd criced yn y Gymraeg ym mhennod 3.

Daeth proffesiynoldeb i'r byd rygbi yn y 1990au, wedi'i ddylanwadu gan ofynion y cyfryngau ac yn benodol, teledu lloeren SKY a brynodd yr hawliau i ddarlledu gornestau pêl-droed a rygbi'r gynghrair, a orfododd rygbi'r undeb i ddilyn yr un trywydd. Yn arwyddocaol yng Nghymru, arweiniodd y system broffesiynol yn y pen draw at system ddeublyg y rhanbarthau. Diddymwyd gelyniaeth trefi cyfagos wrth eu huno i ffurfio timau rhanbarthol yn y gobaith o gryfhau'r tîm cenedlaethol. Rhoddwyd ystyr newydd i'r ymdeimlad o fro a fu'n nodwedd amlwg ym myd rygbi yng Nghymru erioed, a theimlai clybiau Llanelli a Chaerdydd fod perygl i'w hunaniaeth wrth uno â chlybiau eraill.

Cafwyd stadiwm newydd ar gyfer mileniwm newydd yng Nghaerdydd, lleoliad Cwpan Rygbi'r Byd ym 1999. Yn wleidyddol, byddai Cymru'r dyfodol yn Gymru wahanol iawn. Bellach, roedd gan Gymru Gynulliad Cenedlaethol ac yn arwyddocaol, defnyddiwyd sêr o fyd y campau yng Nghymru yn yr ymgyrch datganoli gan y naill ochr a'r llall. Chwifiai Neil Jenkins a Ryan Giggs y faner o blaid datganoli tra defnyddiwyd ei gyd-chwaraewr Gary Speed yn yr ymgyrch yn ei erbyn.¹⁴³ Yn yr ymgyrch dros bwerau deddfu llawn yn 2011, dylid nodi i Brif Weithredwr Undeb Rygbi Cymru, Roger Lewis arwain yr ymgyrch 'Ie'. Dyma ymgais amlwg i drosi cenedlaetholdeb diwylliannol yn genedlaetholdeb gwleidyddol. Ni ellir gwadu lle chwaraeon yn y broses o geisio sefydlu hunaniaeth genedlaethol, felly, er dylid cydnabod mai diwylliannol ei naws ydyw, ac nid gwleidyddol. Yn ddiweddar iawn, cydnabuwyd arwyddocâd chwaraeon yn yr hunaniaeth genedlaethol Gymreig gan Archdderwydd Cymru, Jim Parc Nest fel pau ddiwylliannol sy'n sefyll ochr yn ochr â'n sefydliadau cenedlaethol mwyaf blaenllaw.

¹⁴³ Leighton Andrews, 'Too important to be left to the politicians: the "Yes" for Wales story' yn James Barry Jones a Denis Balsom (goln), *The Road to the National Assembly for Wales* (Cardiff, 2000), tt. 50-69. Dyf. Martin Johns, *A History of Sport in Wales*, t. 120.

Galwaf ar i bob sefydliad Cymreig - yr Orsedd, y Llywodraeth, yr Eglwysi, Merched y Wawr, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau'r Ffermwyr Ifainc, y Prifysgolion a'r awdurdodau lleol - i ddwyn perswâd ar awdurdodau'r Gêmau [sic] Olympaidd i godi'r Ddraig Goch, yn hytrach na Jac yr Undeb, uwchben pob medalydd unigol o Gymru, a chanu Hen Wlad Fy Nhadau wrth anrhydeddu medalydd aur Cymreig.¹⁴⁴

Fel y dadleua R. Merfyn Jones,

Nid yw chwaraeon yn ychwanegiad at hanes nac yn atodiad iddo. Yn hytrach, mae chwaraeon yn rhan ganolog o ymwybyddiaeth pobl ac o sut mae'r bobl hynny'n llunio eu teyrngarwch a'u hunaniaeth.¹⁴⁵

Ni ellir gwadu mai rygbi fu'r brif gamp i fynegi hunaniaeth y Cymry ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Dadleua Holt i rygbi ddod yn rhan o gymeriad y genedl ac o ddiwylliant cyfoethog a gwahanol i ddiwylliant ei chymydog. Cred Holt i'r Cymry gymryd y gamp a berthynai i ysgolion bonedd Lloegr a'i defnyddio ganddynt fel rhan o 'Celtic nationalism'.¹⁴⁶ Fodd bynnag, roedd y Cymry'n awyddus i bwysleisio gwreiddiau'r gamp a'i chysylltiad â gêm y cnapan.¹⁴⁷ Dengys hyn, felly, ei bod yn fanteisiol i'r Cymry bortreadu'r gamp fel rhan gynhenid o'r diwylliant brodorol yng Nghymru. Mae'r ffaith fod Cymru, trwy ei Harchdderwydd, yn galw ar ei chymydog i gael yr hawl i fynegi ei hunaniaeth drwy chwaraeon yn cynnig tystiolaeth gyfoes fod y sefydliad Cymreig a wrthododd chwaraeon gynt, bellach yn ei amgyffred ac yn ei groesawu'n rhan o'i hunaniaeth.

Er mwyn i'r hunaniaeth Gymreig ddatblygu'n gadarn, rhaid datblygu'r modd y mae'r Cymry yn eu dychmygu eu hunain, drwy'r cyfryngau, yn genedl sy'n ymrafael â chenhedloedd eraill ar faes y campa

¹⁴⁴ Archdderwydd Cymru, <http://www.eisteddfod.org.uk/cymraeg/content.php?nID=535> [Fel yr oedd ar Awst 30, 2011].

¹⁴⁵ R. Merfyn Jones, *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 1999), t. 33.

¹⁴⁶ Richard Holt, *Sport and the British*, t. 247.

¹⁴⁷ A.G. Bradley, *Highways and Byways in South Wales* (London, 1914), t. 319.

Pennod 2: Yn Eu Geiriau Eu Hunain

Rhan 1: Y Cefndir

Bydd archwilio hunangofiannau chwaraeon Cymraeg yn dangos bod themâu a chonfensiynau a fu'n gymaint rhan o'r traddodiad llenyddol ers canrifoedd yr un mor berthnasol i hunangofiannau chwaraeon Cymraeg cyfoes, ac y dylid eu pwysu a'u mesur o ddifrif fel rhan o ganon llenyddiaeth Gymraeg.

Gellir dadlau mai'r ugeinfed ganrif oedd canrif yr hunangofiant, a dynnai ar rai o gonfensiynau a nodweddion sawl *genre* arall megis y fuchedd. Un o'r nodweddion hynny yw trafod genedigaeth a magwraeth y gwrthrych.

Ond cyn mynd i dir nodweddion yr hunangofiant chwaraeon, edrychwn ar ystyr y gair 'hunangofiant' fel man cychwyn. Mae'r term 'hunangofiant' yn derm eglurach nag 'autobiography' yn Saesneg. Mae'r elfennau 'hunan' a 'chofiant' yn ddealladwy i'r Cymro Cymraeg, ond tipyn anos yw didoli'r gair 'autobiography' heb ymwybyddiaeth o'r ieithoedd clasurol. Ceir tair elfen yn y gair 'autobiography'. Gellir ei rannu yn 'autos' (yr hunan), 'bios' (bywyd) a 'graphein' (ysgrifennu). O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai ysgrifennu am fywyd yr hunan y mae awdur hunangofiant, tra mae awdur cofiant yn ysgrifennu am fywyd, ond nid o reidrwydd ei fywyd ei hun. Tipyn haws yw esbonio mai cofiant a lunnir gan yr hunan yw 'hunangofiant'. Yn yr un modd, mae 'bywgraffiad' yn derm arall a ddefnyddir i olygu 'biography'. Mae'r gwahaniaeth rhwng 'cofiant' a 'bywgraffiad' yn gynnil ond yn bwysig hefyd. Tueddir yn gyffredinol i ddefnyddio'r term 'cofiant' wrth gyfeirio at wrthrych marw, a gwir ystyr bywgraffiad yw hanes y sawl sy'n dal ar dir y byw.

Cryfder sawl hunangofiant yw'r graddau y mae'r gwrthrych yn barod i fod yn onest. Ar y llaw arall, rhaid derbyn bod diffyg gonestrwydd, felly, yn wendid. Un o'r enghreifftiau

gorau o onestrwydd mewn hunangofiant, ond nid yng nghyswllt chwaraeon, yw Wynford Ellis Owen yn adrodd stori ei frwydr yn erbyn alcoholiaeth.¹

Daeth hunangofiannau'n fwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae iddynt ran fwy blaenllaw yn arferion darllen y Cymry. Ni ddylid tanseilio gwerth yr hunangofiant fel *genre* o bwys. Mae'r *genre* yn boblogaidd, ond nid yn ddi-sylwedd. Mae poblogrwydd cofiannau a hunangofiannau fel arfer yn fwyaf amlwg adeg y Nadolig. Enwogion o fyd diwylliant poblogaidd sy'n hawlio'r sylw fel gwrthrychau cofiannau a hunangofiannau erbyn hyn, er y daw ambell bregethwr i'r amlwg o hyd.

Yn ôl beirniaid, gwendid pennaf yr hunangofiant yw bod y gwrthrych wedi dewis cofnodi ei hanes ei hun yn ei ffordd ei hun heb ddylanwad annibynnol, allanol. Dyma amlygu syniad Bobi Jones mai 'ef yw pob fi',² a gyflwynodd yn ei hunangofiant ei hun, wrth i'r awdur feddwl amdano ef ei hun yn y trydydd person.

Cyfiawnha Dafydd Johnston y ffaith na roddir sylw i'r ffurf yn y gyfrol *A Guide to Welsh Literature* a olygwyd ganddo. Dyma brawf nad yw academyddion yn draddodiadol wedi rhoi llawer iawn o bwys ar yr hunangofiant fel ffurf lenyddol. Dywed:

...It was judged best to concentrate on the mainstream literary forms, poetry, prose fiction, and drama. Other types of prose-writing, such as the essay and autobiography, are not discussed as forms in their own right...³

Derbyniwyd ar y cyfan mai un o'r prif broblemau wrth gyfiawnhau gwerth yr hunangofiant fel ffynhonnell yw'r ffaith y llunnir llawer iawn ar y cyd ag awdur cydnabyddedig. Confensiwn y *genre* yw nodi i'r llyfr gael ei ysgrifennu 'gyda(g)....' neu 'with....' yn Saesneg. Mae enw'r rhith-awdur fel arfer yn ymddangos ar y clawr blaen, ond weithiau, caiff ei guddio a'i osod yn nhudalennau cyntaf y gyfrol. Dadleua Joyce Woolridge mai un o ystyriaethau haneswyr wrth ddadansoddi'r hunangofiant pêl-droed yw'r ddadl

¹ Wynford Ellis Owen, *Raslas Bach a Mawr* (Llandysul, 2004), t. 11.

² Bobi Jones, *O'r Bedd I'r Crud* (Llandysul, 2000), t. 246.

³ Dafydd Johnston, 'Preface' yn idem (gol.) *A Guide to Welsh Literature c.1900-1996* (Cardiff, 1998), t. vii

foesol ynghylch cyfleu meddyliau gwreiddiol y gwrthrych drwy eiriau rhith-awdur.⁴ Mae dwy ysgol feddwl yn bodoli ynghylch y defnydd o rith-awduron.

Dadleua Woolridge fod awduron megis Garry Whannel wedi amddiffyn gwerth hunangofiannau sydd wedi eu llunio gan rith-awduron.⁵ Mae Whannel wedi ymchwilio i'r cwestiwn o adnabod dull y rhith-awdur. Mae eraill wedi gwrthod gwerth yr hunangofiant, gan gyfeirio at yr hyn a elwir gan Woolridge yn 'fictive production'.⁶ Dadleua Woolridge ymhellach mai cysyniad Lejeune o'r 'autobiographical pact' yw'r ddamcaniaeth fwyaf gwerthfawr.⁷ Gwêl Lejeune yr hunangofiant fel cytundeb rhwng yr awdur a'r darllynydd, lle mae disgwyliadau penodol yn bodoli. Un o'r cyfryw ddisgwyliadau yw fod y darllynydd yn ymwybodol y lluniwyd y gyfrol gan rywun heblaw'r gwrthrych, ond derbynnir yr hunangofiant, serch hynny, fel cynnyrch y gwrthrych yntau. Dadleua Woolridge fod damcaniaeth Lejeune, felly, yn golygu bod yr awdur arall, hynny yw y rhith-awdur, yn rhan organig o gynhyrchu'r hunangofiant. Mae elfen o gydweithio yn y berthynas hon er mwyn cynhyrchu rhyw fath o gynrychioliad o'r gwrthrych i'w gyflwyno i'r darllynydd. Yn hynny o beth, y mae'n anodd penderfynu ai creu adlewyrchiad o'r gwrthrych yw diben defnyddio rhith-awdur neu greu darlun creadigol a'r gwrthrych yn gymeriad mewn stori.

Problem ychwanegol wrth ddadansoddi ieithwedd hunangofiannau ac iddynt rith-awdur yw gwahaniaethu rhwng tafodiaith y rhith-awdur a'r gwrthrych. Yn Saesneg, tueddir i ddefnyddio iaith safonol. Yn y Gymraeg, defnyddir tipyn mwy o dafodiaith, ac os credir mai annog Cymry Cymraeg i ddarllen yw pwrpas nifer fawr o'r hunangofiannau chwaraeon (fel yn achos y gyfres *Stori Sydyn*), yna gellir disgwyl ieithwedd lafar ar draul Cymraeg safonol a llenyddol. Ceisiaf ddadansoddi ieithwedd y casgliad o hunangofiannau dan sylw yn y bennod hon lle bo hynny'n bosibl. Y mae'n haws o lawer ddadansoddi tafodiaith y sawl y mae ei

⁴ Joyce Woolridge, 'These Sporting Lives: Football Autobiographies 1945-1980', *Sport in History*, 28:4 (December 2008), 620-640.

⁵ Ibid.

⁶ Ibid, 620.

⁷ Ibid, 623.

broffil yn uwch yn y cyfryngau. Nid cynnig dadansoddiad ieithyddol cynhwysfawr yw bwriad y bennod hon, fodd bynnag.

Mae gan y *genre* y gallu i gynnig darlun clir o'n diwylliant a'n harferion ym maes chwaraeon fel cenedl ac yn sgil hynny, dadleuaf fod gwerth academaidd cryf iddo. Fel y dadleuodd Alun Pugh yn ei swydd fel Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn y Cynulliad, 'Mae darllen yn weithgaredd hamdden sy'n boblogaidd iawn a'r amrywiaeth o lyfrau ar gael gan gyhoeddwyr Cymru yn denu ystod eang o ddarllenwyr o bob oedran a chefnidir'.⁸

Mae dyfodiad *genre* yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg wedi ymestyn yr arlwy sydd ar gael o ran llyfrau Cymraeg, ac mae gan bob un rôl i'w chwarae yn yr hunaniaeth Gymraeg a Chymreig.

Hunangofiannau Chwaraeon Cymraeg 1985-2011

Although the Welsh language, music and Nonconformity have also played their part, few other cultural forms are as well equipped as sport to express national identity.⁹

Un dull o fynegi cenedligrwydd a drafodir yn y rhan hon yw drwy gyfrolau hunangofiannol ym myd y campau. Byddaf yn ceisio dangos sut y mae hunangofiannau chwaraeon yn dilyn arferion yr hunangofiant ar y cyfan, ac yn ceisio dadlau dros roi lle teilwng iddo yn y traddodiad llenyddol Cymraeg.

Er i hunangofiant Ned Thomas, 'Bydoedd', ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2011, a bod cyfrol Elin Haf am hwylio ymhlith y cyfrolau ar y restr fer hir, ychydig iawn o sylw academaidd ar y cyfan a gafodd *genre* yr hunangofiant erioed. Ac eto, yr academyddion

⁸ BBC Cymru, http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_627000/newsid_6270900/6270943.htm [Fel yr oedd ar Fehefin 30, 2010].

⁹ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales* (Cardiff, 2005), t. 109.

Gerwyn Williams a Simon Brooks oedd dau o feirniaid y gystadleuaeth hon. Serch yr hyn y gellir ei ystyried yn agwedd snobyddlyd y byd academiaidd yn gyffredinol tuag at yr hunangofiant, rhaid nodi bod rhai o'n prif lenorion yn yr ugeinfed ganrif wedi cyhoeddi hunangofiannau. Ymhlith y rhain, ceir Kate Roberts, D.J. Williams a Caradog Prichard.

Rhoddodd academyddion lai fyth o sylw i *is-genre* yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg na *genre* yr hunangofiant Cymraeg yn gyffredinol. Un rheswm posib am hyn yw'r ddadl gyffredin nad yw hunangofiannau chwaraeon ar y cyfan yn dweud rhyw lawer am fywyd y gwrthrych. Meddai Martin Johnes, 'Autobiographies in all sports tend to reveal little about their subjects.'¹⁰

Dadleuwn i, fodd bynnag, y datgelir yr hunan cymaint o fewn hunangofiannau chwaraeon ag a wneir yn *genre* yr hunangofiant yn gyffredinol. Yr hunan yng nghyd-destun y gymdeithas a rydd ddilysrwydd i'r ffynhonnell.

Mae'n bosib, fodd bynnag, fod sêr o fyd y campau yn llunio cyfrolau yn bennaf er mwyn ymestyn apêl chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na'u cyflwyno'u hunain i'r darlennydd. Rhaid cwestiynu a fyddai gwrthrychau'r hunangofiannau Cymraeg yn llunio'r un fath o gyfrol yn Saesneg pe na baent yn Gymry Cymraeg. Hynny yw, a oes digon ynddynt er mwyn dadlau nad rhoi darlun ystrydebol Gymraeg o'r hunan a'r gymdeithas yw eu nod?

Fel y dangosais ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon, ac fel y dadleua Dai Smith, mae chwaraeon yn ganolog i 'psyche' y Cymry. Rydym yn aml yn byw ein bywydau trwy brofiadau pobl eraill, megis y chwaraewyr eu hunain. Cydnabu Dai Smith ddefnyddioldeb *genre* yr hunangofiant wrth geisio darlunio bywyd Cymreig, gan ddadlau bod 'memoirs,

¹⁰ Ibid, t. 142.

diaries, autobiographies, poems, plays and above all else, short stories and novels' sy'n dangos i ni sut yr oedd pobl yn byw eu bywydau yng Nghymru.¹¹

Ategir barn Smith gan yr hanesydd Gareth Williams, sy'n dadlau y gall awduron a gohebwy'r chwaraeon gyfleu cryn dipyn am fywyd yng Nghymru drwy eu herthyglau a'u cyfrolau, a bod y wybodaeth a gyflwynir yn llwyr ddibynnol ar safon yr ysgrifennu. Dywed Williams fod awduron yn 'well aware that fancy sports writing is some of the worst writing of any kind; yet, at its best, writing about sport can carry symbolic overtones, address human relationships and engage with human frailties'.¹² Cyfeiria Williams yn benodol at erthyglau chwaraeon yma, ond gellir honni bod yr un peth yn wir am ysgrifennu hunangofiannau chwaraeon.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd darllen hunangofiannau chwaraeon Cymraeg yn y blynyddoedd diweddar, ac yng nghyfanswm yr arian y maent yn ei gynhyrchu o ran eu gwerthiant (gweler Atodiad 1).

Yn ôl Stan Hey, dim ond 'regional appetite for sporting biographies'¹³ a geid yn Saesneg, a hynny mor ddiweddar â'r 1970au. Yng Nghymru, a rygbi'n brif gamp y genedl, bodolai amaturiaeth hyd ganol y 1990au ac roedd hyn yn atal cyhoeddiadau rhag dod i'r amlwg. Yn y byd sydd ohoni heddiw, o safbwynt cynhyrchu cofiannau a hunangofiannau ar raddfa eang, mae'r 'regional appetite' yn dal i fodoli wrth edrych ar y cyhoeddiadau. Cyfeiria Gareth Williams at y llu o awduron sy'n cyhoeddi cyfrolau er mwyn cyfrannu nid yn unig at y toreth o lenyddiaeth sydd ar gael ym maes chwaraeon, ond hefyd at ddiwylliant poblogaidd a'r gymdeithas Gymraeg a Chymreig yn yr oes sydd ohoni. Dywed Williams am yr awduron hyn:

¹¹ Dai Smith [mewn cyfweiliad â Cathryn Ings], 'South Wales Evening Post', 'Giving a Voice to Forgotten Authors' (Gorffennaf 13, 2006), t. 14.

¹² Gareth Williams, 'Writing the Character of Welsh Rugby' yn Richards, Stead a Williams (goln), *Heart and Soul* [:] *the character of Welsh rugby* (Cardiff, 1998), t. 8.

¹³ Stan Hey, 'Book-ends for goalposts: it's sport writ large', *The Independent* (4 Tachwedd 2007) [Fel yr oedd ar Orffennaf 1, 2008]. <http://www.independent.co.uk/news/media/bookends-for-goalposts-its-sport-writ-large-398869.html>

They sense its meaning beyond the field of play...especially given rugby's status as a key component of Welsh popular culture in the twentieth century where it embodies some of the most meaningful constituents in the formation of our identity, personal and collective, social and national.¹⁴

Dadleua ymhellach y gall cyhoeddiadau o'r fath gyfrannu'n sylweddol at greu darlun diwylliannol o'r gymdeithas ar ryw adeg arbennig, gan ddweud rhywbeth am y diwylliant a'r cyfnod. Un enghraifft arbennig o hyn yw Oes Aur rygbi yng Nghymru, lle'r oedd cymaint o ymdeimlad o genedligrwydd yn sgil gorchestion y tîm cenedlaethol. Yr hyn sy'n creu amwysedd o ran y cyswllt rhwng cenedligrwydd y maes chwarae ac ymdeimlad o genedligrwydd gwleidyddol yw'r ffaith i Gymru bleidleisio yn erbyn datganoli ym 1979 yng nghanol yr Oes Aur honno. Ar y llaw arall, pleidleisiwyd o'i blaid ym 1997 pan oedd dyfodol rygbi yng Nghymru'n ansicr iawn. Cenedlaetholdeb diwylliannol sydd ar waith yma, felly, ac nid cenedlaetholdeb gwleidyddol.

Cafwyd yr un ymdeimlad o genedligrwydd, chwedl Williams, ym Mrasil adeg Cwpan Pêl-Droed y Byd ym 1970. Wrth drafod cyfrol y pêl-droediwr o Gymro, Garry Jenkins, yn y cyd-destun hwn, gofynna Williams, 'Would not a similar retrospective portrait of the 'beautiful' Welsh rugby team of 1971 yield both a sobering human document and a contribution to the social history of Wales in the last quarter of the twentieth century?'.¹⁵

Geni'r genre

Daeth hunangofiannau chwaraeon yn rhan o'r traddodiad llenyddol Saesneg yn gymharol ddiweddar. Yng Nghymru, datblygodd y traddodiad yn hwyrach fyth, ac yn hwyrach eto yn y Gymraeg. Yn gyffredinol yn Saesneg, bu hunangofiannau chwaraeon yn

¹⁴ Gareth Williams, 'Writing the character of Welsh Rugby', *Heart and Soul* [:] *the character of Welsh rugby*, t. 13.

¹⁵ *ibid*, t. 14.

boblogaidd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. O ran y Gymraeg, fodd bynnag, nid yw'r *genre* yn ymddangos hyd nes yr wythdegau. Mae'r hunangofiant chwaraeon yn un o'r prif ffyrdd o gyflwyno'r seren o fyd chwaraeon i'r cyhoedd yn ysgrifenedig, gan drafod hefyd ei fagwraeth a'i gymdeithas. Felly, dylai fod yn ffynhonnell allweddol ar gyfer haneswyr.

Oherwydd bod y traddodiad o gyhoeddi hunangofiannau chwaraeon yn y Gymraeg wedi dechrau'n gymharol hwyr, oherwydd y gwrthwynebiad crefyddol i fyd y campau a drafodwyd ym mhennod 1, ni welir eto yr un datblygiad o ran y *genre* ag a geir yn Saesneg. Mae Woolridge yn olrhain datblygiad yr hunangofiant pêl-droed Saesneg drwy dri chyfnod.¹⁶

Y cyntaf yw 1945-53, sy'n gyfnod o ddangos esiampl o ran byw bywyd da. Dyma gyfnod hefyd pan fyddai'r dyn cyffredin yn dyheu am wella'i fyd ei hun a chael efelychu ei arwyr. Un o arwyr pennaf y cyfnod oedd Stanley Matthews, a luniodd *Feet First* ym 1946. Un o'r prif themâu a geir yng nghyfrolau'r cyfnod hwn yw'r rhyfel a chodi hwyliau'r gymdeithas. Ym marn Woolridge, mae'r cyfnod 1946-53 yn un pan fyddai'r chwaraewr pêl-droed yn ceisio ei sefydlu ei hun yn rhan ganolog o'r gamp.¹⁷

Yr ail gyfnod yw 1954-67. Cyfnod o ddangos esiampl oedd hwn o hyd, ond dadleua Woolridge fod newid agwedd yn dechrau dod i'r amlwg.¹⁸ Teimlai'r chwaraewyr yr angen a'r rhyddid i leisio'u barn ac yn ôl Woolridge, roedd elfen o 'exposé' yn perthyn iddynt. Un enghraifft o hyn yw hunangofiant Trevor Ford, *I lead the attack!* Esbonia Woolridge fod gan y cyfryngau ran i'w chwarae yn y newid a ddigwyddodd yn y cyfnod hwn, ac roedd cryn dipyn o arian i'w ennill o ddatgelu arferion llai dymunol y byd pêl-droed.¹⁹

Yn y cyfnod 1968-80, cafwyd llawer mwy o hunangofiannau realistaidd. Roedd hunangofiannau Saesneg y cyfnod, yn enwedig hunangofiant Derek Dougan, yn cynnwys sylwadau am wleidyddiaeth y cyfnod. Hwn hefyd yw cyfnod y dyddiadur cyffes. Yn ôl

¹⁶ Joyce Woolridge, 'These Sporting Lives: Football Autobiographies 1945-1980', 620-640.

¹⁷ Ibid.

¹⁸ Ibid, 630.

¹⁹ Ibid, 631.

Woolridge, mae'r dyddiadur cyffes yn dilyn traddodiad *Pilgrim's Progress* gan Bunyan.²⁰

Hwn hefyd yw cyfnod yr hunangofiant cyffes, ac un o'r chwaraewyr amlycaf a gyhoeddodd hunangofiant o'r math hwn oedd Jimmy Greaves o'r enw *This One's On Me*. Yn y gyfrol hon, trafodir ei frwydr yn erbyn alcoholiaeth. Fel y dadleua Woolridge:

It was not until the 1970s that some autobiographies exposed the seamier, less conformist behaviour of their protagonists, but these revelations were never couched in a style that invited approbation of their peccadilloes, but always presented as cautionary tales.²¹

Erbyn hyn, mae'r math hwn o hunangofiant dadlennol a dadleuol wedi datblygu'n gyffredin, a hynny i raddau helaeth oherwydd dylanwad y cyfryngau. Mae'r elfen rybuddiol a phregethwrol bellach wedi diflannu, ac nid yw'r bywyd delfrydol yr un mor amlwg. Gyda galw cyson am gael gwybod manylion mwyaf dirgel bywyd yr unigolyn, cynyddodd y galw am y math hwn o hunangofiant, sy'n ymdebygu i erthyglau papur newydd tabloid, megis a geid yn hunangofiant Meic Povey. Yn hynny o beth, mae cymhelliad y gwrthrych yn wahanol i'r hyn a arferai fod.

In a digital age where all sports – and publishers – are competing for media and public attention, and there is money to be made by selling controversy within a celebrity obsessed, expanding 24/7 media network, then one can expect the age of revelation to continue.²²

Pedwar Cyfnod

Gan na chafwyd hunangofiannau chwaraeon Cymraeg tan ar ôl 1980, ac ychydig iawn o lyfrau chwaraeon Cymraeg yn gyffredinol cyn y cyfnod hwn, ni wynebodd awduron y cyfrolau hyn yr un rhwystrau a chyfyngiadau ag awduron Saesneg yn y cyfnodau blaenorol. Ymhellach, gellir disgwyl elfennau o bob un o'r cyfnodau Saesneg yn yr hunangofiannau

²⁰ Ibid, 635.

²¹ Ibid, 638.

²² Raymond Boyle a Richard Haynes, *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture* (Edinburgh, 2009), t. 181.

Cymraeg am fod y cyfnod cynharaf yn y Gymraeg yn dechrau ar ôl y cyfnod diweddaraf a nodir yn Saesneg yn astudiaeth Woolridge.

Roedd y gymdeithas erbyn 1985, pan gyhoeddwyd yr hunangofiannau chwaraeon Cymraeg cyntaf, yn wahanol iawn i'r gymdeithas ym 1945. Fodd bynnag, roedd yr awduron yn dal yn cael eu dylanwadu gan yr oes yr oeddent yn ysgrifennu ac yn cyhoeddi ynddi, a hinsawdd gymdeithasol y cyfnod hwnnw hefyd.

Un arall a geisiodd grwpio cyfnodau'r hunangofiant yw James Pipkin o Brifysgol Houston. Mewn seminar yn 2007, trafododd y newidiadau yn natur yr hunangofiant yn yr Unol Daleithiau drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Mae'r gwrthrychau a astudiwyd yn cwmpasu'r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, cyfnod ymgyrchoedd cydberthynas hil y pedwardegau a'r pumdegau, chwyldro'r chwedegau a chyfnod 'selebs' yr wythdegau a'r nawdegau.

The historical component of the readings allowed us to consider the way in which identity is a social construction as well as a product of individual uniqueness.²³

Yn hynny o beth, dadleua Pipkin yma fod angen ystyried ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a gwleidyddol wrth ymdrin â'r hunangofiant chwaraeon. Wrth gwblhau'r astudiaeth hon o hunangofiannau chwaraeon Cymraeg, gobeithiaf ddangos bod yr holl ffactorau hyn ar waith yn y cyfrolau dan sylw. Y cymdeithasegol yw'r ffordd yr ymdrinnir â'r gymdeithas a rôl y gymdeithas ym mywyd y gwrthrych. Y seicolegol yw'r ffordd y mae'r gymdeithas honno wedi dylanwadu ar y gwrthrych. Gall fod y gwleidyddol wedi'i ddylanwadu gan y ddau ffactor arall, gan fod gwleidyddiaeth yr unigolyn fel arfer wedi'i lywio gan y gymdeithas y mae'n byw ynddi neu'r fagwraeth a gafodd ar yr aelwyd.

Yn y Gymraeg, oherwydd natur ysbeidiol yr hunangofiant chwaraeon, y mae'n anodd sefydlu patrwm a'u rhannu'n gyfnodau olynol ac iddynt themâu amlwg. Rydym, felly, yr un

²³ James Pipkin, 'Sports Autobiographies: Mirrors of American Culture', <http://hti.math.uh.edu/curriculum/units/2002/07/intro.php> [Fel yr oedd ar Orffennaf 31, 2008].

mor debygol o weld pynciau llosg megis hunanladdiad yn cael eu trafod yn hunangofiannau'r wythdegau (tad Ray Gravell), ag yr ydym yn hunangofiannau'r unfed ganrif ar hugain (ymgais Nigel Owens). Yn yr un modd, mae crefydd yn bwnc sy'n rhedeg trwy'r cyfrolau o ganol yr wythdegau hyd at y cyfrolau diweddaraf, ond nid yw o reidrwydd yn thema ganolog yn yr un o'r cyfrolau serch hynny. Yn y deugain mlynedd rhwng 1945 a 1985, gwelwyd seciwlareiddio sylweddol yng Nghymru, a hynny i raddau helaeth yn sgil dirywiad y traddodiad Anghydfurfiol. Oherwydd hynny, mae'n anodd dadlau bod crefydd yn un o themâu'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg cyfoes, er bod dylanwad crefydd ar rai o'r gwrthrychau.

Am nad oes modd olrhain newid yn nodweddion yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg, penderfynais ganolbwyntio ar y pedwar cyfnod dan sylw yn yr astudiaeth hon a gosod y cyfrolau yn eu cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol. Ceisiais eu gosod mewn cyd-destun sy'n adlewyrchu nid yn unig lewyrch i Gymru ar y maes chwarae, ond hefyd pan fo proffil Cymru a rhai o sêr byd y campau'n uwch yn sgil sylw'r cyfryngau.

O grwpio'r hunangofiannau yn ôl cyfnodau cyhoeddi, gobeithiaf ddangos fod prif elfennau hunaniaeth Gymreig, hynny yw brogarwch, iaith, addysg, crefydd, diwylliant, gwleidyddiaeth, y ddeuliaeth rhwng Cymreictod a Phrydeindod, a Chymreictod, yn nodweddion cyffredin yn yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg ym mhob cyfnod. Nid themâu ydynt fel y cyfryw ond yn hytrach, nodweddion yng nghymeriad y gwrthrychau ac yng nghymeriad a *psyche* y gymdeithas ehangach. Gosodir yr holl nodweddion hyn i wahanol raddau yng nghyd-destun y cyfryngau.

Pedwar cyfnod yr astudiaeth hon yw 1985-86, 1993-96, 1999 a 2006-11. Dyma amlygu natur ysbeidiol yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg ar unwaith. Dadansoddir y cyfrolau yn y bennod hon fesul cyfnod, ond at ddibenion hwyluso'r gymhariaeth rhyngddynt, nid ydynt o reidrwydd yn cael eu trafod yn eu trefn gronolegol ym mhob cyfnod. Ar wahân

i'r pedwar cyfnod hyn, ceir cyfres y 'Stori Sydyn' a ymddangosodd yn ystod y pedwerydd cyfnod, ond at ddibenion yr astudiaeth hon, edrychaf ar y gyfres honno ar ei phen ei hun.

Y Cyfnod Cyntaf: 1985-1986

Hwn yw'r cyfnod ar ôl sefydlu S4C a'r cyfnod cyntaf yn hanes cyhoeddi hunangofiannau chwaraeon yn y Gymraeg. Yn wir, gellir dadlau mai S4C a greodd y farchnad yn y lle cyntaf ar gyfer hunangofiannau chwaraeon Cymraeg, am mai'r sianel a fu'n bennaf gyfrifol am greu'r diwylliant 'selebs' Cymraeg am y tro cyntaf. Yn sicr, daeth Ray Gravell ac Orig Williams (a Dai Davies i raddau llai) yn enwog yn sgil y sylw a roddwyd iddynt ar raglenni chwaraeon Cymraeg, y naill fel sylwebydd, a'r llall fel cystadleuydd yn y gyfres deledu *Reslo*. Ym 1985, bu farw Saunders Lewis. Daeth streic y glowyr i ben ym mis Mawrth 1985 ar ôl blwyddyn o brotestio yn erbyn dirywiad y diwydiant glo yng Nghymru. Caewyd dau bwl glo yn y Rhondda ym 1986, a olygai mai'r Tŵr oedd y pwl olaf yn yr ardal. Yn y cyfnod cynnar hwn yn hanes yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg, ceir hunangofiannau Orig Williams, Dai Davies (1985) a Ray Gravell (1986). Gweler yr adran sy'n cynnwys cymhariaeth rhwng hunangofiannau J.P.R. Williams a Ray Gravell am drafodaeth fanylach ar yr olaf o'r rhain. Roedd y tri gwrthrych naill ai'n feibion i lowyr a/neu wedi byw mewn cymdeithas ddiwydiannol ar hyd eu hoes.

Trwy groesgyfeirio rhwng hunangofiannau Orig Williams a Dai Davies, gwelir bod rhai themâu a nodweddion y *genre* yn gyffredin i'r ddwy gyfrol. Ond wrth gymharu reslwr a chwaraewr pêl-droed, mae rhai gwahaniaethau hefyd.

Orig Williams

Yn y rhagair i *Cario'r Ddraig: Stori El Bandito* (gol. Myrddin ap Dafydd), hunangofiant y reslwr Orig Williams, mynegir gan Ray Gravell ei syndod fod y fath gymeriad wedi mynd ati i lunio hunangofiant. Meddai, 'Reslwr yn trin beiro! – Mae'r peth yn annisgwyl, bron iawn â bod yn anhygoel!'²⁴

Yn wir, gellir dadlau mai sefydlu S4C ym 1982 a arweiniodd at y ffaith fod cymeriadau annisgwyl yn llunio cyfrolau hunangofiannol, a hynny yn sgil dyfodiad diwylliant y seleds. Syndod, felly, yw cyn lleied y cyfeiria Williams at y cyfryngau yn y gyfrol hon.

Cyd-awdur y gyfrol hon yw Myrddin ap Dafydd, y cyfeirir ato yn nhudalennau cyntaf y llyfr fel golygydd y gyfrol yn hytrach na'r cyd-awdur nodweddiadol a drafodir yn helaeth yng ngwaith Woolridge. Pan fu Orig Williams farw, cyfeiriodd Myrddin ap Dafydd at y profiad o gael cyd-ysgrifennu'r hunangofiant ag ef.

Roedd rhaid i fi ei helpu i'w orffen ac mi fyddai'n dod draw ... tebot ar y bwrdd ac yntau'n cerdded rownd y bwrdd, y tebot a fi yn pregethu. Roedd o'n gallu crynhoi ei feddyliau i baragraffau cryno...Rhwyng gornestau y dechreuodd sgwennu ei hunangofiant mewn copi bwcs mawr.²⁵

Pwysleisia Myrddin ap Dafydd fod Williams yn gymeriad amlweddog, yn gyhoeddus ar y naill law ac yn breifat ar y llaw arall. Dyma dyndra cyffredin yn *genre* yr hunangofiant.

Un oedd y dyn ffair, y rôg yn y ring, oedd wedi dysgu ei grefft yn ymladd yn y bythau reslo a bocsio mewn ffeiriau... Yr ochr arall oedd y dyn cynnes ac annwyl oedd yn meddwl y byd o Gymru ac o'i ardal yn Ysbyty Ifan...²⁶

Un rheswm am boblogrwydd reslo, yn ôl Williams, yw'r ffaith ei bod yn un o'r hen gampau traddodiadol Cymreig, fel y dangoswyd ym mhennod 1.²⁷ Y mae'n rhan naturiol, os nad amlwg, o hunaniaeth y Cymry, felly. Gesyd Williams reslo mewn cyd-destun Celtaidd

²⁴ Ray Gravell, 'Gair Bach', yn Orig Williams (gol. Myrddin ap Dafydd), *Cario'r Ddraig* (Llanrwst, 1985), t. 8.

²⁵ <http://www.golwg360.com/archif/19841-el-banditon-marw>, Golwg360 [Fel yr oedd ar Orffennaf 1, 2011].

²⁶ Ibid.

²⁷ Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 115.

sy'n tarddu o'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid. Dengys ffynonellau hanesyddol fod reslo'n rhan gynhenid o'r wyl fabnant yng Nghymru. Cyfeiria Martin Johnes at gampau dydd Llun y Sulgwyn ym 1851, pan hysbysebwyd gornestau reslo ym mhapur newydd y *Cambrian* yn un o'r prif atyniadau.²⁸ Gan fod reslo'n rhan mor bwysig o'r traddodiad Cymreig, felly, gallwn ddisgwyl i hunangofiant reslwr o Gymro adlewyrchu elfen o'r hunaniaeth Gymraeg a Chymreig.

Esbonia Williams fod tipyn o fynd ar reslo yn y gymuned, ond na ddatblygodd y gamp yn un genedlaethol er gwaethaf sylw'r cyfryngau iddi.²⁹ Credir mai S4C oedd y sianel deledu gyntaf ym Mhrydain i ddangos reslo menywod, hyd yn oed. Un rheswm a gynigir am y diffyg diddordeb hwn ar raddfa genedlaethol yw brogarwch, sydd ynddo'i hun, yn eironig ddigon, yn nodwedd ar hunaniaeth y Cymry.

Poblogeiddiwyd y gamp pan ddechreuodd ITV ddarlledu'r gornestau. Trwy'r darllediadau hyn, roedd reslo eisoes yn boblogaidd cyn i S4C ddarlledu'r rhaglen *Reslo* ym 1982. Roedd darpariaeth ITV eisoes wedi dod i ben cyn hynny. Roedd S4C yn dangos gornestau reslo'n wythnosol, gyda rhaglenni'n cael eu darlledu o neuaddau a chanolfannau hamdden ledled Cymru.

Roedd Williams yn flaenllaw yn y broses o hyrwyddo'r gamp fodern yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt. Cynigia *Cario'r Ddraig* adloniant i'r darlennydd, yn ogystal â mewnwleidiad i Orig y reslwr a'r hyrwyddwr reslo ac Orig y Cymro. Y mae'n gyfrol sy'n cyflwyno rhai o sêr y byd reslo i'r darlennydd – gan gynnwys Jackie Pallo, Giant Haystacks a Klondyke Kate. Ond ymhellach, y mae'n gyfrol sy'n cynnig golwg ar hanes cymdeithasol Cymru, yn enwedig yng nghyfnod llencyndod Orig Williams yn y pedwardegau hyd at dwf ei ymwybyddiaeth wleidyddol yn y chwedegau.

Gesyd Ray Gravell, yn ei ragymadrodd, wrthrych yr hunangofiant hwn yng nghyd-

²⁸ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 9.

²⁹ Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 217.

destun ei wreiddiau. Hynny yw, gosodir yr hunan yng nghyd-destun ei gymdeithas. Mae'r gwreiddiau hynny yn Nant Conwy, ac mae tipyn o hanes yn perthyn i'r ardal. Gesyd hanes yr ardal yn ei chyd-destun cyfoes hefyd. Ar unwaith, felly, gwelwn trwy'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg fod bro a brogarwch yn un o nodweddion hunaniaeth, fel y trafodwyd ym mhennod 1.

Yno yr oedd Rhys Gethin, prif gadfridog Owain Glyndŵr yn byw. Oddi yno y daeth y Gwylliaid Cochion yn wreiddiol – ac mae rhai'n dal i fyw yno heddiw ac yn mynd i'r Clwb Ffermwyr Ifanc lleol, medden nhw!³⁰

Felly, gosodir Orig Williams yng nghyd-destun traddodiad cenedlaetholgar a hanes ei fro. Yn ei fro y bu Orig Williams yn byw ar hyd ei oes. Amlinella Orig Williams ei frogarwch o'r cychwyn cyntaf, a gesyd ei fro yn ei gyd-destun daearyddol gan ddweud nad yw llawer o'r Cymry'n gwybod unrhyw beth am y fro honno. Ceir cymhariaeth grefyddol ganddo.

Yli di, 'ngwas i, os wyt ti fyth am fynd i'r nefoedd, mi fyddi di'n troi oddi ar yr A5 wrth Bentrefoelas, mynd drwy bentref Ysbyty Ifan, ac yna i fyny heibio Pennant a Blaen Coed am y Migneint Mawr. Os byddi di'n ddigon lwcus, rhywle'n y fan honno y doi di o hyd i'r palmant aur... at Giatiau Pedr. 'Sbyty Ifan ydi'r 'last stop'.³¹

Ymfalchïa Williams yng Nghymreictod ei fro gan ddatgan mai bro Gymraeg yw hi, ac ni fu llawer o niwed iddi o'r tu allan erioed, ac eithrio rhai craciau. 'Rhyw benderfyniad annibynnol ymysg y bobol sy'n byw yno' sy'n gyfrifol am gynnal yr iaith yn y fro, yn ôl Williams.³² Yma, felly, mae'r fro a'r iaith yn un. Mae'r ddadl iaith yn un y cyfeirir ati'n gyson gan Orig Williams. Yn wir, honnir gan Williams nad yw Cymro di-Gymraeg gystal Cymro â'r Cymro Cymraeg, boed hynny ym myd chwaraeon neu fywyd bob dydd. Agwedd yr Anghydfurfwyr a welir yma, wrth geisio amddiffyn y diwylliant unigryw drwy amddiffyn yr iaith. Dyma ddadl a archwiliaf innau ymhellach wrth gymharu hunangofiannau Ray

³⁰ Ray Gravell, 'Gair Bach', yn *Ibid*, t. 8.

³¹ Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 12.

³² *Ibid*.

Gravell a J.P.R. Williams. Meddai Orig Williams, 'I ni, wrth gwrs, roedd pawb nad oedd yn siarad Cymraeg yn Sais – dim ots os oedd o wedi'i eni ym Mangor neu Frynsiencyn a bod ei fam a'i dad o'n Gymry Cymraeg'.³³

Ochr yn ochr â'r Cymreictod hwn, gan ei bod hi'n adeg yr Ail Ryfel Byd pan oedd Williams yn blentyn, bu'n rhaid iddo gyd-fyw â faciwís o Loegr. Dyma amlygu tyndra rhwng Cymreictod, a Phrydeindod y Saeson. Dyma ddeuoliaeth a deimlir gan lawer Cymro erbyn hyn. Ategir ei hanesion am y faciwís gan K.O. Morgan, sy'n disgrifio'r newidiadau cymdeithasol a welwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd oherwydd mewnlifiad o faciwís o rai o ddinasoedd mwyaf Lloegr.³⁴ Âi'r Llundainwyr i Forgannwg, tra âi'r gogleddwyr a'r rheini o'r canolbarth i rannau o ogledd Cymru. Yn ogystal, canlyniad arall oedd i garcharorion rhyfel o'r Almaen a'r Eidal gael eu hanfon i Ysbyty Ifan gan Brif Weinidog Prydain, Winston Churchill i weithio ar ffermydd.³⁵ Yn hynny o beth, wrth iddo drafod y rhyfel, dyma un tebygrwydd rhwng yr hunangofiant chwaraeon Saesneg o'r pedwardegau a'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg yn y cyfnod hwn.

Ar y cyfan, trwythwyd y Saeson yn y diwylliant Cymreig, ond cawsant effaith negyddol ar y Gymraeg ymlith plant a phobl ifanc. Cynyddodd dylanwad y Saeson ar Gymru drwy'r cyfryngau hefyd, wrth i'r cyfryngau torfol Seisnig gael eu defnyddio fel arf ar gyfer lledaenu propaganda yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Darlledwyd areithiau gan wleidyddion ar y radio ac mewn rîliau newyddion, ac fe'u cyhoeddwyd yn y papurau newydd.

Dioddefodd y gogledd yn fwy nag ardaloedd eraill Cymru o ran Seisnigrwydd adeg yr Ail Ryfel Byd, a hynny oherwydd mai yn ardaloedd y gogledd yr oedd yr iaith a'r diwylliant ar eu cryfaf. Cyfeiria John Davies at ddadl W. J. Gruffydd yn *Llenor* ym 1939, ac yntau'n nodi bod cynifer o Saeson ag o Gymry yn byw yn y gogledd yn sgil dyfodiad y faciwís.³⁶

³³ Ibid, t. 97.

³⁴ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales* (Oxford, 1982), t. 270.

³⁵ Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 16.

³⁶ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1992), t. 579.

Ond dadleua John Davies fod y Gymraeg wedi aros yn gryf yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Seisnigwyd yr ardaloedd a oedd eisoes yn dechrau cael eu Seisnigo cyn y rhyfel. Cyfeiria J. Graham Jones at bryder y byddai'r Cymry'n wynebu 'an assault on the Welsh identity' yn sgil mewnlifiad o faciwîs.³⁷ Arweiniodd hyn yn y pen draw at sefydlu'r ysgol gynradd Gymraeg gyntaf gan Urdd Gobaith Cymru yn Aberystwyth ym 1939. Sefydlwyd Undeb Cymru Fydd ym 1941 fel ymgais pellach i amddiffyn y Gymraeg.³⁸

Cyfrannodd y cyfryngau ymhellach at Seisnigo Cymru adeg yr Ail Ryfel Byd, gyda chyfyngiad ar nifer yr oriau o ddarpariaeth Gymraeg a ganiatawyd ar donfeddi Prydain. Tair awr a hanner yr wythnos o raglenni Cymraeg a ganiatwyd ym 1940. Ychydig iawn o ddarllediadau Cymraeg a gafwyd yn ystod blynyddoedd y rhyfel, ond ailgyflwynwyd rhanbarth Cymru y B.B.C. ar ddiwedd y rhyfel.³⁹ Mae'n siŵr fod hyn yn rhannol gyfrifol am feirniadaeth Orig Williams ar y cyfryngau yng Nghymru drwyddi draw.

Roedd cenedlaetholwyr megis Saunders Lewis yn gwrthwynebu gorfod mynd i ryfel yn enw Prydain am y credent mai rhyfel Prydain oedd hwn, ac nid rhyfel Cymru, yn ôl R. Merfyn Jones.⁴⁰ Nid oedd modd gwrthwynebu'r rhyfel ar sail cenedlaetholdeb, ac felly penderfynwyd brwydro achos ar sail gwleidyddiaeth a chrefydd. Ar y cyfan, roedd y gwrthwynebwyr yn y lleiafrif. Fel y dadleuai Saunders Lewis yr adeg honno, 'Pe bai dim ond deg o fechgyn ifainc y Blaid yn cyhoeddi nad ymunant â byddinoedd Lloegr am mai Cymry ydynt, yna y mae brwydr Cymru wedi ei hennill'.⁴¹

O ran ei addysg, cafodd Orig Williams addysg uniaith Saesneg yn Llanrwst Grammar School, yr hyn a elwir ganddo'n 'Ysgol Rad Llanrwst'. Mae'n feirniadol o'r Seisnigrwydd yno, ac yn fwy beirniadol fyth o'r ffaith fod yr ysgol newydd ar y safle hwnnw, Ysgol

³⁷ J. Graham Jones, 'Wales since 1900' yn Prys Morgan (gol.), *The Tempus History of Wales 25,000BC-AD2000*, t. 231.

³⁸ Ibid.

³⁹ John Davies, *Hanes Cymru*, t. 580.

⁴⁰ R. Merfyn Jones, *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif*, t. 106.

⁴¹ Saunders Lewis. Dyf. yn Ibid.

Dyffryn Conwy, sy'n ysgol Gymraeg, yn fwy Seisnig fyth.⁴² Serch hynny, mae'n cydnabod ansawdd yr addysg a gafwyd yno gan fod cymaint o ddisgyblion wedi mentro i amryw feysydd deallusol ar ôl gadael – ac yntau i fyd reslo. Mae'n debygol mai rygbi oedd y gamp yno, nid pêl-droed.

Yn y prolog, rhydd Orig Williams le i drafod crefydd. Gwelwn yma draddodiad crefyddol cynhenid y gymdeithas Gymraeg. Wrth ymbaratoi i fynd i'r cylch reslo ym Mhacistan, clywir torf o Foslemiaid yn gweiddi am ei waed drwy lafarganu '*Allah Madhat!*', sef rhyw fath ar weddi Foslemaidd.⁴³ Caiff ei atgoffa o'r ysgol Sul, gan gwestiynu a oes yna Dduw yn bresennol ar ddechrau'r ornest a all ei achub rhag cael crasfa. Breuddwydia am gael dychwelyd yn ddiogel i Ysbyty Ifan – 'lle cychwynnodd fy nhaith ar y ddaear hon' – 'i fyw ymhlith fy mhobol fy hun...'⁴⁴

Cafwyd amheuaeth ynghylch ei grefydd unwaith ym Mhacistan. Wrth lenwi ei gerdyn pasbort, nododd ei fod yn Fethodist Calfinaidd, heb sylweddoli 'nad oeddau nhw erioed wedi clywed am Fethodistiaeth Galfinaidd' ac y gelwid y ffydd honno o'r tu allan yn Gristnogaeth.⁴⁵

O ran chwaraeon, pêl-droed oedd prif ddiddordeb bechgyn y fro, ac edrydd hanes ei ffrind ac yntau'n chwarae yn y stryd.⁴⁶ Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafwyd datblygiadau sylweddol, yn enwedig yng ngogledd ddwyrain Cymru.⁴⁷ Nid pawb ym mhentref Williams oedd yn hoff o bêl-droed. Yn wir, gwrthwynebai rhai'r gamp yn ffyrnig, gan gynnwys perchennog y siop leol a roddodd siars i fam-gu Williams ei anfon i'r weinidogaeth, ac yntau'n nai i weinidog.⁴⁸ Mae hyn yn ategu barn Saunders Lewis, a gredai fod gan chwaraeon ddylanwad negyddol ar bobl.

⁴² Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 19.

⁴³ Ibid, t. 10.

⁴⁴ Ibid.

⁴⁵ Ibid, t. 129.

⁴⁶ Ibid, t. 13.

⁴⁷ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 34.

⁴⁸ Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 38.

Mynegir gwladgarwch Orig Williams ar ffurf pêl-droed drwy sôn am gael cynnig treial â chlwb Oldham Athletic. Ar y llaw arall, pe bai'n aros yn amatur, câi gynrychioli tîm Cymru. Dyma adlewyrchu tyndra rhwng datblygu gyrfa a'i wladgarwch. Meddai, 'Yr oeddwn, yn wir, ar frig y don. Cael cyfle i chwarae dros Gymru! Go brin bod gwladgarwr tanbeidiach na fi.'⁴⁹

Mynegir y gwladgarwch hwn i raddau helaeth drwy ei deimladau gwrth-Seisnig gan amlaf, ac yng nghyd-destun yr Ail Ryfel Byd. Cofnodir hanes ymgais Lloegr i newid amser y cloc yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond nid oedd hyn wrth fodd y Cymry gan ei fod yn tarfu ar yr amser godro. Gwrthodai trigolion Ysbyty Ifan ufuddhau i'r drefn. Holai, 'Sut oedd modd dweud wrth fuwch bod y Saeson wedi newid yr amser a'i bod hi i fod i odro ddwyawr ynghynt erbyn hyn?'⁵⁰

Nid pawb yn yr ardal oedd yn dymuno mentro i fyd ffermio'r pryd hwnnw, fodd bynnag, ac o ganlyniad, honnir gan Williams i'r ardal golli'r to iau a thrwy hynny, genhedlaeth o Gymry Cymraeg.⁵¹ Mae hyn yn nodweddiadol o'r trafferthion a wynebai'r Gymru wledig ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Yn wahanol i hanes de Cymru, lle'r oedd twf diwydiannol sylweddol, profodd gogledd a chanolbarth Cymru ddirywiad ym myd amaeth. Fel yr esbonia K.O. Morgan, roedd peth tystiolaeth o ddatblygiad ym maes amaeth, a gafodd hwb drwy brisiau gwarantiedig a sicrhawyd drwy Ddeddf Amaethyddiaeth 1947.⁵² Daeth rhai ffermwyr mynyddig yn gyfoethocach ac yn aelodau o gynlluniau ffermio cydweithredol. Fodd bynnag, roedd cynnydd ym maes mecaneiddio a chyfuno tiroedd ffermio'n golygu bod llai o alw am lafur ar ffermydd, ac ychwanegodd hyn at ddiboblogi yn yr ardaloedd gwledig. Rhwng Cyfrifiad 1931 a 1951, gwelwyd cwmp yn nifer y gweithwyr ym myd amaeth o 91,000 i 77,000.

⁴⁹ Ibid, t. 58.

⁵⁰ Ibid, t. 16.

⁵¹ Ibid, t. 55.

⁵² K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales*, t. 326.

Ar ddiwedd y rhyfel ac yng nghyfnod cyflwyno gorfodaeth filwrol, derbyniodd Williams yr alwad i wasanaethu'r 'king an' country bondigrybwyll'.⁵³ Y mae dicter Williams tuag at y drefn yn amlwg yma. Wynebair ddirmyg ei gyfeillion wrth ddychwelyd i'r pentref ar ddiwedd cyfnod o hyfforddiant yn Swydd Gaer, a chyhuddwyd ef o ddod yn Sais. Dyma arwydd unwaith eto o'r ddeuoliaeth rhwng Cymreictod a Phrydeindod. Hynny, yn ôl Williams a daniodd ei genedlaetholdeb.⁵⁴ Serch hynny, ni wrthododd fynd i'r Fyddin pan dderbyniodd yr alwad. A gosod yr hanes yng nghyd-destun yr hyn a ddywed Linda Colley, nid oedd cap y Fyddin Brydeinig yn eistedd yn esmwyth ar ei ben.

Roeddwn yn casáu'r gyfraith estron 'ma oedd wedi 'ngorfodi i adael fy nghynefin a mynd i fyd hollol ddiethr. Roedd y gyfraith hon wedi fy nghodi a'm diwreiddio, heb wneud dim i drïo fy mhlannu'n ôl yn yr ardal honno wedi hynny.⁵⁵

Amlygir ei wleidyddiaeth drwy gydol y gyfrol, ac ymfalchïa yn ei genedlaetholdeb, a chael clywed Gwynfor Evans yn annerch rali ym mro Orig yntau.⁵⁶ Dywed am y cymeriad hwn ei fod 'wedi aros gyda fi ar hyd fy oes'.⁵⁷ 'Dim ond un blaid oedd yna' yn Ysbyty Ifan, hefyd, ym marn Williams, a'r blaid honno oedd Plaid Cymru,⁵⁸ a

...[ph]etai Gwynfor wedi cychwyn casglu byddin ynghyd i ymosod ar Gaer y nos Sadwrn honno, gwn y buasai dau o 'Sbyty y tu ôl iddo fo. A hyd yn oed pe bai ond y tri ohonom yn y fyddin, mi fuasem wedi trechu'r ddinas gyfan y noson honno, cymaint oedd y tân oedd yn ein gwythiennau.⁵⁹

Mynegir hyn mewn modd eithriadol o gryf wrth drafod ei deimladau o wylïo Cymry Cymraeg yn cynrychioli eu gwlad ochr yn ochr â'r di-Gymraeg.

Mae hyn yn destun dadl gyson, debyg iawn, ond rhyw deimlo y bydda i nad ydi'u gwaed nhw cyn goched â'n gwaed ni. Mi rydw i fel petawn i'n credu bod tîm rygbi Cymru'n chwarae tipyn gwell pan oedd 'na fwy o Gymry Cymraeg ynddo fo.⁶⁰

⁵³ Orig Williams, *Cario'r Ddraig*, t. 29.

⁵⁴ Ibid, t. 38.

⁵⁵ Ibid, t. 56.

⁵⁶ Ibid, t. 70.

⁵⁷ Ibid.

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Ibid, t. 71.

⁶⁰ Ibid.

Er bod Orig Williams yn enwog fel seren reslo unigol, ymhyfryda yn y gefnogaeth dorfol a gafodd ar hyd ei yrfa. Dywed nad yw'r un Cymro arall yn debygol o fod wedi sefyll o flaen torf o 130,000, boed yn sêr diwylliannol neu'n sêr o fyd y campau.⁶¹

Er ei hoffter o chwaraeon a'r feirniadaeth a gâi yn yr ysgol gan yr athrawon oherwydd hynny, nodir mai ei ail ddiddordeb ar ôl chwaraeon oedd llenyddiaeth Gymraeg. Yn wir, gellir yn hawdd iawn ddadlau mai dyn diwylliedig oedd Orig Williams.

Mi fydda i wastad yn diolch 'mod i'n medru siarad Cymraeg ac yn medru dallt a mwynhau ei barddoniaeth hi. Mae'n saff gen i nad oes 'na iaith arall yn y byd gyda chymaint o deimlad y tu ôl i'w geiriau hi.⁶²

Defnyddir hen benillion llafar gwlad ganddo er mwyn pwysleisio pan fydd mewn rhyw gyfyng-gyngor neu'n cofio rhyw gyngor a roddwyd iddo'n blentyn. Yn hynny o beth, dyfais yw llenyddiaeth i alluogi'r darllenydd i fentro y tu fewn i feddwl yr awdur.

Defnyddiai farddoniaeth i ysbrydoli ei dîmau pan oedd yn rheolwr pêl-droed.⁶³ Serch hynny, cyfeddyf nad ef yw'r ysgrifennwr gorau yn y byd, a hynny oherwydd ei Fethodistiaeth. Meddai, 'Mae'r pregethwr ynof i yn drech na'r sgwennwr o dro i dro'.⁶⁴

Fodd bynnag, yn yr ysgrifennu hwn, cawn yma gyfrol arloesol yn *genre*'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg, lle amlygir nodweddion hunaniaeth genedlaethol drwy lygaid reslwr, ym maes unigolion, a hynny yng nghyd-destun ei wlad a fu'n llawer mwy brwd dros gampau tîm ar hyd y blynyddoedd.

Dai Davies

Mae'r gyfrol *Hanner Cystal â 'Nhad: Hunangofiant Gólgeidwad Rhyngwladol* yn wahanol i *Cario'r Ddraig* am nad oes iddi ragarweiniad cyn y bennod gyntaf. Nid oes iddi olygydd chwaith. Yn hytrach, fe'i lluniwyd ar y cyd â Nic Parry. Dyma gydweithio, felly,

⁶¹ Ibid, t. 114.

⁶² Ibid, t. 24.

⁶³ Ibid, t. 96.

⁶⁴ Ibid, t. 85.

rhwng gwrthrych o'r de a chyd-awdur o'r gogledd. Gall hyn beri penbleth i'r darllenydd ar adegau am nad oes sicrwydd llais pwy sy'n adrodd y stori. Yr hyn sy'n sicr, fodd bynnag, yw fod Davies wedi mynd ati'n onest i adrodd ei stori.

Nid elfen o gyffes a geir yn y gyfrol hon, eithr adrodd yr hanes o gofio'n ôl, a hynny'n weddol agos at ei ymdeoliad fel pêl-droediwr proffesiynol. O ddiwedd y gyfrol y daw'r dyfyniad canlynol, wrth iddo geisio dod i gasgliad am ei fywyd a'i yrfa yng nghyd-destun y broses o lunio'r hunangofiant.

Does gen i ddim amheuaeth y byddai [sic] wedi digio rhai pobl wrth sôn amdanyn nhw yma. Fy unig sylw fydde dweud nad oes 'na fymryn o falais y tu ôl i unrhyw frawddeg. Yn fy stori, fel yn fy ngwaith, ceisiais beidio cuddio rhag yr hyn oedd, i mi, yn wirionedd.⁶⁵

Dechreuwa Dai Davies ei gyfrol yn y ffordd draddodiadol, sef adrodd hanes ei enedigaeth. Gwelir nifer o gonfensiynau llenyddol eraill ar waith yn nhudalennau agoriadol y gyfrol. Egyr gyda breuddwyd am gynrychioli Cymru ar y cae pêl-droed.

Honno mae'n debyg oedd y freuddwyd fwya byw o'r cannoedd o freuddwydion ges i yn y gwely bach cul hwnnw yn ôl yn y tŷ teras, 21 Heol y Bont, Glanamau. Newidiodd yr amgylchiade bob un tro ond arhosodd y freuddwyd yr un; cael chwarae yn y gôl i Gymru.⁶⁶

Yn debyg i gyfrol Gareth Edwards (2007), ceir stori'r geni a'r enwi, a'i osod ei hun yn dwt yng nghyd-destun y teulu. Adwaenid Davies yn lleol fel 'mab merch Davies y gof', sy'n adlewyrchu arfer nodweddiadol y bröydd diwydiannol.⁶⁷

Plentyn ffŵl Ebrill ydy William David Davies er na fŵm i 'rioed mor barod i gyfadde hynny o'r blaen.... Ond do, fe'm ganed ar Ebrill y cynta 1948 yn fab i William John, gweithiwr, a Ceinwen, merch bert a glanhawraig Capel y pentre; yn frawd bach i Thomas Howard, pedair oed.⁶⁸

⁶⁵ Dai Davies (gyda Nic Parry), *Hanner Cystal â Nhad: Hunangofiant Gôlgeidwad Rhyngwladol* (Wrecsam, 1985), t. 160.

⁶⁶ Ibid, t. 7.

⁶⁷ Ibid, t. 120.

⁶⁸ Ibid.

Ardal wledig yng ngogledd Cymru oedd cartref Orig Williams, tra mai ardal ddiwydiannol Glanaman, Dyffryn Aman oedd cartref Dai Davies. Gesyd Davies ei hun yng nghyd-destun y dosbarth gweithiol yn y fro hon. Y mae'n falch iawn o'i dad a oedd wedi byw drwy ddirwasgiad y 1930au a'r caledi yn sgil yr Ail Ryfel Byd. Glöwr ym mhwill glo'r Betws oedd ei dad o ran ei alwedigaeth. Mae hoffter Davies o bêl-droed yn groes i arfer y de, a gysylltir yn bennaf â rygbi. Yn hynny o beth, nid yw Dyffryn Aman a'i draddodiad pêl-droed yn nodweddiadol o drefi bach y de ar y cyfan. Fel y soniais yn y bennod gyntaf, yn y trefi mawr, h.y. Abertawe a Chaerdydd, yr oedd y bêl gron yn boblogaidd ar y cyfan.

Gan ei dad yr etifeddodd ei frwdfrydedd am y bêl gron, am fod hwnnw'n bêl-droediwr amatur cydnabyddedig yn y fro. Am resymau economaidd y methodd â dod yn broffesiynol.⁶⁹ Roedd amgylchiadau tad Davies yn nodweddiadol o'r cyfnod. Fel y nodir gan Martin Johnes, roedd y ffaith fod yr yrfa bêl-droed yn un fer yn golygu nad oedd digon o arian yn y gamp i olygu newid byd i'r chwaraewyr.⁷⁰ Yn Nyffryn Aman y mae gwreiddiau diddordeb Davies ym myd pêl-droed. Roedd yn aelod o dîm Glanaman yng Nghynghrair Dyffryn Aman. Yn ddiweddarach, cynrychiolodd dîm tref Rhydaman.

Wedi'r cyfan, roedd o'n gymaint rhan o gêm y werin i fechgyn Glanaman ag oedd strydoedd Belfast i George Best a thraethau Rio i Pele.⁷¹

Er ei fod wedi ei blannu'n ddwfn yn nhraddodiad pêl-droed ei fro, roedd Dai Davies yn nodweddiadol o lawer o'i gyfoedion am iddo ddilyn y byd pêl-droed yn Lloegr. Dyma dystiolaeth o ddylanwad y cyfryngau. Hwn oedd cyfnod dyfodiad y teledu, ac ymhyfrydai Davies yn y ffaith y câi fynd i dŷ ei fodryb i wyllo *Match of the Day*. Doedd yna'r un set deledu yng Nglanaman, a defod wythnosol oedd mynd i Rydaman i gael gwrandao ar sylwebaethau Kenneth Wolstenholme.⁷² Roedd dylanwad Prydeinig ar y gymdeithas ar ôl yr

⁶⁹ Ibid, t. 8.

⁷⁰ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 72.

⁷¹ Dai Davies (gyda Nic Parry), *Hanner Cystal â Nhad*, t. 11.

⁷² Ibid.

Ail Ryfel Byd, a sicrhaodd sylw'r cyfryngau i chwaraeon Prydeinig, a Saesneg yn benodol, fod cryn dipyn o ddiddordeb ymhlith y Cymry yn Adran Gyntaf Lloegr.⁷³ Yn y gynghrair Seisnig hon y sefydlodd Davies ei enw ymhlith cewri'r byd pêl-droed.

Mapia ei yrfa o'i ymddangosiad cyntaf dros dîm Glanaman hyd at ei ymddeoliad ym 1984. Yn ystod ei yrfa, cynrychiolodd Abertawe, Everton, Wrecsam a Tranmere. Daeth yn ôl i'r gêm am gyfnod byr gyda chlwb Bangor ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Enillwyr Cwpan Ewrop ar ôl i'r hunangofiant hwn gael ei gyhoeddi. Chwaraeodd dros Gymru 52 o weithiau. Sonnir iddo gwblhau ei yrfa gyda chlwb Tranmere ym 1984, a bod yn rhan o'r sylwebaeth Gymraeg gyntaf ar rownd derfynol Cwpan F.A. Lloegr.⁷⁴ Dyma ddangos datblygiad sylweddol yn y byd darlledu ers dyddiau'i lencyndod yn mynd i dŷ ei fodryb i wyllo gornestau yn Saesneg.

Wrth gymharu Dai Davies ag Orig Williams, felly, gellir dadlau mai Cymro alltud fu Davies am y rhan fwyaf o'i yrfa tra oedd Williams wedi'i leoli'n bennaf yng Nghymru er y treuliodd gyfnodau'n teithio.

Amlygir agosatrywydd Davies at y cwm glofaol hwn wrth iddo ddisgrifio'r profiad o orfod gadael ei gartref i symud i ddinas Lerpwl pan gafodd ei arwyddo gan glwb Everton. Mae'n amlwg y bu'r profiad yn un a adawodd ei ôl ar y llanc ifanc gan ei fod yn gyndyn o drafod yr achlysur mewn manylder.

Does dim pwrpas ymhelaethu ar y profiad ond fe ellir dychmygu'r dagfa yn fy ngwddw wrth i deulu agos mewn pentre glofaol, clos wahanu.⁷⁵

Am y fraint o gael cynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, dywed Davies fod hynny'n bwysicach yn ei yrfa nag unrhyw beth arall. Meddai, 'Unwaith y byddwn i'n cael fy enwi yng ngharfan Cymru byddai fy mherfformiade yn y cynghrair yn gwella'n syth.'⁷⁶

⁷³ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 91.

⁷⁴ *Ibid*, t. 159.

⁷⁵ Dai Davies (gyda Nic Parry), *Hanner Cystal â 'Nhad*, t. 32.

⁷⁶ *Ibid*, t. 89.

Dadleua Davies na fyddai wedi cael hanner cymaint o lwyddiant pe na byddai wedi ei eni'n Gymro, sy'n ategu'r hyn a ddywed Orig Williams.⁷⁷ Serch hynny, nid oedd ei yrfa ryngwladol yn fêl i gyd. Yn wir, câi ei hun ar adegau'n amau a oedd am gynrychioli Cymru wedi'r cyfan.⁷⁸ Ond roedd ei Gymreictod bob amser yn gadarn. Ei brif ysgogiad wrth geisio sicrhau y cyrhaeddai Cymru rowndiau terfynol Cwpan y Byd ym 1986 oedd cael y cyfle i ymweld â'r Wladfa ym Mhatagonia.⁷⁹

Dywedir yn aml mai pinacl gyrfa unrhyw chwaraewr sy'n chwarae yn y Gynghrair Bêl-Droed yw cael cynrychioli'i glwb ar gae Wembley, ond nid felly yn achos Cymro mor wladgarol â Davies, a fethodd â gwneud hynny.

Doedd 'na ddim Wembley am fod wedi'r cyfan, a dyna pryd y sylweddolais mor ychydig mewn gwirionedd oedd y peth wedi ei olygu i mi... dwn i ddim oes a wnelo'r ffaith fy mod i yn Gymro rywbeth â'r peth.⁸⁰

Yn wir, ei Gymreictod oedd un o'r rhesymau pennaf fod rheolwr Everton, Harry Catterick wedi ei arwyddo yn y lle cyntaf. Trwy ddenu chwaraewr o Gymru, yn enwedig o dde Cymru, ceisiai sicrhau mwy fyth o gefnogaeth i glwb Everton ymhlith trigolion gogledd a de Cymru. Meddai, 'Fe fydde wedi synnu mae'n siŵr o ddeall mor ychydig a olygai hynny ar y pryd I rywun nad oedd ganddo syniad o gwbl am Ogledd Cymru!'⁸¹

Yn wir, ceir trafodaeth ar y gwahaniaethau rhwng y de a'r gogledd o safbwynt pêl-droed a'r pwyslais a roddir ar y gamp yn y ddwy ardal, yn ogystal â ffafriaeth Cymru ar un adeg o ogleddwyr ar draul hwntws. Mae gwreiddiau Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn Wrecsam, ar ôl iddi gael ei sefydlu gan gyfreithiwr o Wrecsam ym 1876. Daeth gogledd ddwyrain Cymru'n gonglfaen pêl-droed yng Nghymru o'r herwydd. Deuai'r rhan fwyaf o

⁷⁷ Ibid, t. 160.

⁷⁸ Ibid, t. 93.

⁷⁹ Ibid, t. 108.

⁸⁰ Ibid, t. 72.

⁸¹ Ibid, t. 31.

chwaraewyr Cymru o'r parthau hynny, ac o ardaloedd y ffin â Lloegr.⁸² Cofia Davies ei ddiacter o gael ei adael allan o dîm Colegau Cymru ar draul gogleddwr.

Mae testun canu'r anthem genedlaethol yn un a gaiff gryn dipyn o sylw gan Davies, sy'n feirniadol o'r sawl sy'n methu â'i chanu. Serch hynny, cyfeddyf nad yw'n cofio canu'r anthem cyn ei gêm gyntaf dros Gymru.

Heddiw, o bopeth, o achos holl emosiwn yr achlysur, dydi'r dyn sy' wedi cael ei ddangos mor aml yn morio'r anthem genedlaethol cyn geme rhyngwladol ddim hyd yn oed yn cofio a chwaraewyd Hen Wlad Fy Nhadau yn Budapest ar y noson pan enillodd ei gap llawn cynta dros Gymru!⁸³

Gellir priodoli trafodaeth Davies ar yr anthem, tra na cheir yr un drafodaeth gan Williams, i'r ffaith fod canu'r anthem yn llawer iawn mwy cyffredin mewn campau tîm na champau i unigolion yn y cyfnod hwn. Pwysleisia Davies mai o dan Sais o reolwr, Mike Smith, y profodd y tîm cenedlaethol y teimladau cryfaf o genedligrwydd. Mewn gornest yn erbyn Lloegr yn Wembley, penderfynwyd peidio â chwarae 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Arweiniodd Smith brotest ar y cae yn erbyn y penderfyniad, a hynny o flaen aelodau'r teulu brenhinol.⁸⁴

Cyfeirir at 'fy niddordeb yn y "Pethe" Cymreig'.⁸⁵ Penllanw'r diddordeb hwn, yn sicr, oedd cael ei urddo'n aelod o'r Orsedd am ei wasanaeth i'r byd pêl-droed. Cyfeddyf iddo fod yn gryn dipyn o sioc iddo, a'i fod wedi ystyried gwrthod yr anrhydedd. Yn wir, un o'r prif resymau iddo ei derbyn oedd ymateb ei rieni a'u balchder ynddo.⁸⁶

⁸² Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 34.

⁸³ Dai Davies (gyda Nic Parry), *Hanner Cystal â 'Nhad*, t. 51.

⁸⁴ *Ibid*, t. 104.

⁸⁵ *Ibid*, t. 38.

⁸⁶ *Ibid*, t. 77.

Siaradai Davies Saesneg â'i wraig gartref am nad oedd yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad Cymraeg â hi, a hithau'n dod o'r gogledd.⁸⁷ Amlygir yr agendor ddaearyddol yma, a fynegir yn nhermau'r iaith.

Erbyn hyn, wrth gwrs, mae Davies yn parhau i siarad Cymraeg ag acen y de, ond â thafodiaith y gogledd, a hynny'n gwbl amlwg pan fydd yn sylwebu ar y rhaglen *Sgorio*, ac yn y gyfrol dan sylw yma ar adegau. Defnyddir y gair 'efo' nifer o weithiau, er enghraifft.

Teimlai Davies yn gwbl gartrefol yn y gogledd erioed, a hynny drwy gydol ei gyfnodau gyda chlybiau Everton a Wrecsam.⁸⁸

Nid oes llawer o sôn am ei addysg, ond cyfeiria'n fras at ei ysgol. Er ei ddiffyg hyder yn ei Gymraeg, a'r ffaith mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd, roedd yn benderfynol o sicrhau addysg Gymraeg i'w blant, gan fod '...y dinc o 'sgows yn eu hacenion yn dechrau fy mhoeni o ddifri! Roedd hi'n beth gwirioneddol drist eu clywed nhw'n siarad Saesneg gyda'u tad-cu a'u mam-gu'.⁸⁹ Roedd y cyfnod pan oedd plant Davies yn ifanc yn gyfnod o ddatblygiadau sylweddol o ran addysg Gymraeg.

Cafodd Davies fagwraeth yn y capel, fel a oedd yn gyffredin yn y cyfnod hwnnw. Yn wir, parhaodd y traddodiad yn rhan bwysig o'i fywyd wrth iddo fynychu'r capel tra oedd yn byw yn y gogledd. Mae'n amlwg felly fod y fagwraeth gapelyddol honno wedi aros gydag ef ar hyd ei fywyd a bod crefydd yn rhan o'i wead bellach. Yr oedd yn rhan o'r traddodiad crefyddol bellach yr oedd yn dymuno ei drosglwyddo i'w blant maes o law. Yn y traddodiad capelyddol hwn hefyd y magwyd Orig Williams.

Roedd gan gapel Bethesda atyniad. Does 'na ddim amheuaeth fod gan y ffaith ei fod e'n gapel llewyrchus lawer i'w wneud â'r peth a'r ffaith fod yno gymdeithas ardderchog. Ond rhywsut gallwn fynd yno hefyd i'r gwasanaeth a theimlo'r rhyddhad mwya ar ei ddiwedd.⁹⁰

⁸⁷ Ibid. t. 41.

⁸⁸ Ibid, t. 65.

⁸⁹ Ibid, t. 66.

⁹⁰ Ibid, t. 74.

Tanlinellir pwysigrwydd crefydd gan Davies wrth iddo ddweud bod magu plant yn y capel yr un mor bwysig iddo ag ydyw eu magu i fod yn Gymry Cymraeg.⁹¹ Yma, gwelwn ddylanwadau'r gymdeithas gapelyddol, Gymraeg ei hiaith.

Gwelwn yn y gyfrol hon, felly, gymaint o Gymro nodweddiadol yw Davies. Y mae'n gapelwr, yn frwd dros addysg Gymraeg, a'i Gymreictod yn gwbl amlwg drwy ei gysylltiad â'i fro.

Mae'r ddwy gyfrol hyn yn y cyfnod cyntaf hwn, ynghyd â chyfrol Ray Gravell (1986), yn cynnig sylfeini ar gyfer datblygiad yr hunangofiannau a ddeuai yn y cyfnodau i ddilyn. Sefydlwyd nodweddion y *genre* yn gadarn yng nghyfrolau'r tri hyn, ynghyd â disgwyliadau pendant iawn o safbwynt y gynulleidfa. Gellir dadlau, yn wir, fod rhoi ystyriaeth i'r gynulleidfa yn hollbwysig yn y broses o lunio hunangofiant. Fel y dadleua Gareth Miles wrth drafod cyfrol Ned Thomas, *Bydoedd*, mae nifer o nodweddion y nofel yn berthnasol i'r hunangofiant hefyd. Y nodweddion hynny, chwedl Miles, yw 'cymeriad canolog atyniadol, lluo o is-gymeriadau diddorol, digwyddiadau cyffrous ac iddynt arwyddocâd hanesyddol a stori sy'n cydio'.⁹² Yn sicr, fe geir yr holl nodweddion hynny ym mhob un o'r cyfrolau a gyhoeddwyd yn y cyfnod cyntaf hwn.

Yr Ail Gyfnod: 1993-1996

Cyfnod o gryn newid deddfwriaethol oedd hwn i Gymru. Pasiwyd yr ail Ddeddf Iaith ar Hydref 21, 1993. Bwriad y ddeddf hon oedd sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n darparu gwasanaethau dwyieithog. Parhad ydyw hon o Ddeddf Iaith 1967, a oedd yn

⁹¹ Ibid, t. 75.

⁹² Gareth Miles, www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/638-saunders.shtml [Fel yr oedd ar Fai 4, 2008].

ymwneud yn bennaf â sicrhau bod lle i'r Gymraeg mewn llysoedd barn.⁹³ Bwriad arall ym 1993 oedd hwyluso defnydd y Cymry o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd.⁹⁴

Gellir dadlau mai un ffordd ymarferol o wneud hyn drwy fyd llenyddiaeth oedd cyhoeddi dyddiaduron dau o sêr chwaraeon amlycaf Cymru ar y pryd, y naill yn gricedwr a'r llall yn chwaraewr rygbi. Roedd Morgannwg wedi ennill y Gynghrair Undydd ym 1993, a Chymru wedi ennill y Goron Driphlyg ym 1994. Roedd y ddwy gamp, felly, yn flaenllaw yng Nghymru ar y pryd. Ym 1994, y flwyddyn dan sylw yn nyddiadur Robert Croft, daeth y Tywysog Charles i Gymru i dathlu chwarter canmlwyddiant ei deyrnasiad fel Tywysog Cymru, a hynny yn wyneb cryn dipyn o brotestio a theimladau oeraidd tuag ato. Ym 1995, penderfynodd Comisiwn y Mileniwm glustnodi arian i adeiladu stadiwm genedlaethol newydd yng Nghaerdydd ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd bedair blynedd yn ddiweddarach. O ran y cyfryngau, beirniadwyd Radio Cymru ym 1996 am i'r orsaf, ym marn rhai, droi'n rhy Seisnigaidd. Newidiwyd daearyddiaeth wleidyddol Cymru ym 1996 hefyd, wrth i'r wyth sir gael eu disodli gan 22 o awdurdodau lleol. Yn hynny o beth, roedd y cyfnod hwn yn gyfnod o newid diwylliannol, diwydiannol, ieithyddol a sefydliadol yng Nghymru.

Hwn yw cyfnod y dyddiadur, gyda chyhoeddi cyfrolau Robert Croft (1995) a Jonathan Humphreys (1996).

Robert Croft

Hanes tymor criced 1994 a geir yn *Dyddiadur Troellwr* gan gyn-gapten Morgannwg, Robert Croft (gydag Andrew Bennett). Mae traddodiad hir a sefydlog yn perthyn i *genre*'r dyddiadur, ac mae ei wreiddiau yn nyddiaduron cyffes yr unfed ganrif ar bymtheg. Serch hynny, gellir dadlau o blaid ac yn erbyn cyfeirio at y dyddiadur fel math o hunangofiant. Fel

⁹³Deddf Iaith 1967, <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/487.pdf>. [Fel yr oedd ar Fai 4, 2008].

⁹⁴Deddf Iaith 1993, <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/522.pdf>. [Fel yr oedd ar Fai 4, 2008].

yr eglura Woolridge, 'Diaries are omitted from the autobiographical canon by some theorists because they do not conform to the classic structure, presenting not a whole life but a fragment.'⁹⁵

Un ddadl yn erbyn cynnwys y dyddiadur ymhlith cyfrolau hunangofiannol yw'r ffaith mai rhan o fywyd yn unig a geir ynddynt, tra mai bywyd cyfan a geir rhwng cloriau hunangofiant. Mae hyn yn sicr yn wir yn achos cyfres o ddyddiaduron gan R. Gerallt Jones, *Dyddiaduron India*. Disgrifiwyd y gyfres hon fel 'trysor i ni droi ato i elwa o brofiadau byw a bod'.⁹⁶

Mae'r dyddiadur hwn yn wahanol i *Capten Cymru* gan Jonathan Humphreys gan fod Croft yn Gymro Cymraeg, tra mae Humphreys yn Gymro di-Gymraeg.

Ychydig iawn o sylw a roddwyd i gyfrolau criced yn y gorffennol, yn enwedig ymhlith Cymry Cymraeg gan fod cyn lleied o chwaraewyr ac awduron criced sy'n medru'r iaith. Cyfeiria Bennett at ddiffyg llwyddiant cyffredinol cyfrolau criced Saesneg hefyd.⁹⁷

Cyfeiria Bennett hefyd at yr 'elfen o hunanddadsoddiad' a geir yn y gyfrol.⁹⁸ Dyma amlygu un o nodweddion yr hunangofiant. Ychydig iawn o sylwedd sydd i *Dyddiadur Troellwr* o ran yr hyn a ddywed am fywyd y gwrthrych. Yn yr ystyr hynny, ychydig iawn o werth sydd i'r gyfrol hon fel ffynhonnell hanesyddol hefyd. Prin yw'r sôn am y gymdeithas ychwaith. Serch hynny, y mae'n dangos cymaint o Gymro yw Croft.

Yn nhraddodiad rhai o'r hunangofiannau eraill a drafodir yn y bennod hon, ceir trafodaeth ar ei enw. Sonnir am y cyfenw 'Croft' mewn darn o'r dyddiadur ar Ebrill 23. Gesyd yr hanes yng nghyd-destun ei hen-hen-dad-cu yn dod o Lundain i weithio yn yr Hendy. Wearcraft oedd enw'r dyn hwn pan adawodd Lundain, a chael ei Gymreigeiddio ar ôl cyrraedd de-orllewin Cymru.

⁹⁵ Joyce Woolridge, 'These Sporting Lives: Football Autobiographies 1945-1980' yn *Sport in History*, 28:4 (Rhagfyr 2008), 635.

⁹⁶ Tom Evans, 'Rhagair', yn R. Gerallt Jones *Dyddiaduron India* (Talybont, 2003), t. 6.

⁹⁷ Andrew Bennett, 'Diolchiadau' yn Robert Croft (gydag Andrew Bennett), (Talybont, 1995), t. 6.

⁹⁸ Idem, yn Robert Croft (gydag Andrew Bennett), *Dyddiadur Troellwr*, clawr cefn.

Cymry Cymraeg yr Hendy a Llannon yn methu â chael eu tafodau o gwmpas enw mor estron a doedd ganddo ddim dewis ond ein troi i gyd yn Croft!⁹⁹

Amlygir Cymreictod Croft mewn darn ar Ebrill 25, lle mae'n trafod ymestyn ei gytundeb gyda Morgannwg. Trwy hyn, gwelwn ei atyniad i'w fro. Am y penderfyniad hwnnw, cyfeddyf Croft, 'Gan fy mod yn hanu o'r Hendy ac wedi byw yn yr ardal honno'n unig, does 'na ddim ond un tîm i mi.'¹⁰⁰

Dyma amlygu'r ffaith fod Morgannwg ar lefel sirol yn cynrychioli Cymru gyfan. Ymhelaethir ar y thema hon ym mhennod 3. Sonnir ar bob cyfle am ei Gymreictod a'i hoffter mawr o ganu, sydd yn rhan mor adnabyddus a chwedlonol o'i gymeriad bellach i lawer o gefnogwyr Morgannwg. Sonnir am fynychu rhyw gaffi di-nod yn Lloegr, lle'r oedd 'y canu Cymreig yn gwella wrth i'r noson fynd yn ei blaen'.¹⁰¹ Ar achlysur arall tra oedd hi'n bwrw glaw yn ystod gêm (Mai 5), cafwyd canu yn yr ystafell newid yn Northampton gan Croft a Steve Watkin, ac yn ôl Croft, 'does dim modd cadw pob Cymro'n dawel pan fo cyfle i ganu'.¹⁰²

O ran y Gymraeg, ni châi Croft lawer o gyfle i siarad Cymraeg ym myd criced gan mai ef oedd yr unig Gymro Cymraeg yn nhîm Morgannwg bron bob tymor drwy gydol ei yrfa. Ond ceir sôn am yr amryw ieithoedd a oedd i'w clywed yn yr ystafell newid yn ystod y tymor penodol hwnnw.

Yng nghanol y cymysgedd o Saesneg a Chymraeg yng nghaffi'r pafiliwn, Roly'n siarad ei famiaith gydag un o'r ymwelwyr cyson o'r Iseldiroedd.¹⁰³

Yn yr epillog (Tachwedd 19), ceisia Croft annog y darlennydd i siarad Cymraeg ag ef y tymor canlynol, gan fod hynny, yn ei farn ef, yn 'dangos 'y mod i ymhlith ffrindie'.¹⁰⁴

⁹⁹ Robert Croft (gydag Androw Bennett), *Dyddiadur Troellwr*, t. 23.

¹⁰⁰ Ibid, t. 27.

¹⁰¹ Ibid, t. 16.

¹⁰² Ibid, t. 36.

¹⁰³ Ibid.

¹⁰⁴ Ibid, t. 175.

Yn ogystal, ceir nifer sylweddol o gyfeiriadau at ddiwylliant Cymraeg a Chymreig, a'r Eisteddfod yn benodol. Wrth ddisgrifio Gŵyl Griced Southend (Gorffennaf 16), caiff ei chymharu â nifer o sefydliadau diwylliannol Cymru.

Yma yn Southend ar lan y môr, mae'r penwythnos yn Wyl Griced ac ma'r pebyll a'r stondinau fel Maes yr Eisteddfod neu'r Sioe Amaethyddol.¹⁰⁵

Dyma osod criced ym myd yr Eisteddfod ac amaethyddiaeth, a adlewyrchir bellach yn y sylwebaethau T20 a astudir ym mhennod 3.

Cyfeirir yn fras, hefyd, at gymryd rhan yn rhaglen Radio Cymru a chael ei gyfweld gan Alun Jenkins yn ystod yr ornest ar Barc Ynys Angharad ym Mhontypridd yn erbyn De Affrica.¹⁰⁶ Bellach, caiff Croft ei gyfweld ar y cae yn ystod gornestau T20 ar S4C yn sgil datblygiadau technolegol. Trafodir y sgysiau hynny'n fanylach ym mhennod 3.

Neilltua gryn dipyn o le i drafod y wasg Gymraeg a Chymreig, ond hynny mewn ffordd arwynebol yn unig. Ar Ebrill 27 ar ddechrau'r tymor, sonnir am archebu'r papurau newydd er mwyn darllen yr hyn yr oedd y newyddiadurwyr yn ei ddweud am obeithion Morgannwg am y tymor i ddod.¹⁰⁷ Y mae'n amlwg fod y tîm yn teimlo dan bwysau o gyfeiriad y wasg a'r cyfryngau ar adegau, wrth i Croft obeithio am berfformiad da o flaen y camerâu teledu.¹⁰⁸ Yn y dyddiau hynny, ychydig iawn o griced a oedd ar y teledu yn Saesneg, a llai fyth yn Gymraeg. Cofier mai'r dyddiau cyn Sky Sports oedd hyn.¹⁰⁹ Bellach, mae cricedwyr yr un mor debygol o ddod yn selebs ag ydyw pêl-droedwyr neu chwaraewyr rygbi. Am y cyfryngau'n gyffredinol, dywed Croft, 'Roedd hi'n un rownd hir o gyfweiliadau i'r radio, teledu a'r papurau. Pleser yw gwneud hynny ar ddiwrnod o lwyddiant; mor wahanol i ddiwrnod o fethiant.'¹¹⁰

¹⁰⁵ Ibid, t. 105.

¹⁰⁶ Ibid, t. 135.

¹⁰⁷ Ibid, t. 28.

¹⁰⁸ Ibid, t. 47.

¹⁰⁹ Ibid, t. 43.

¹¹⁰ Ibid, t. 165.

Ceir sylwadau'r Cymro Cymraeg gwladgarol am ymweliad brenhinol y Tywysog

Charles â'r Fenni. Mae'r Tywysog yn Noddwr Anrhydeddus ar Forgannwg. Gwelir

ffraethineb Croft yma. Ai awgrym a geir yn y dyfyniad canlynol nad yw'n fawr o

Brydeiniwr? Oni fyddai brenhinwr neu Brydeiniwr yn llai tebygol o wneud y fath jôc?

Gohirio dechre'r chwarae heddiw am chwarter awr am fod y Tywysog Charles yn ymweld â Gwent... 'Yng ngobaith i oedd y byddai'i hofrennydd e'n glanio ar y llain a gwneud twll neu ddau yn y manau iawn i'm helpu...!¹¹¹

Amlygir brogarwch Croft ar brydiau hefyd, yn enwedig wrth drafod ei briodas, lle'r

oedd llawer iawn o drigolion lleol yn bresennol, ynghyd â'i gyd-chwaraewyr a ffrindiau.

Cyfeirir hefyd at y ffaith fod ei was priodas a'i gyd-chwaraewr, Tony Cottey yn dipyn o

fardd, a'i fod yn edrych ymlaen at glywed ei farddoniaeth yn y brecwast priodas.¹¹²

Gellir casglu, felly, fod cryn dipyn o nodweddion yr hunangofiant chwaraeon

Cymraeg i'w gweld yn y gyfrol hon, er na cheir ymdriniaeth fanwl o bob un. Cyffyrddiadau

yn unig a geir o'r rhan fwyaf ohonynt.

Jonathan Humphreys

Nid yw Humphreys, wrth gwrs, yn Gymro Cymraeg, ac felly mae'n anodd

gwerthfawrogi'r gyfrol Gymraeg, *Captan Cymru* (gydag Androw Bennett) yn llawn, ac yn

anos fyth ei chymharu â chyfrol Robert Croft. Dyma godi'r ddadl unwaith yn rhagor

ynghylch awduraeth. Y mae'r cyhoeddwyr yn cymryd yn ganiataol fod y darlennydd yn

ymwybodol nad yw'r gwrthrych yn medru'r Gymraeg, sydd i ryw raddau'n dyrchafu'r

cyd-awdur i safle amlycach na'r arfer. Rhaid ystyried hefyd a fyddai Humphreys wedi bod yn

ddigon o enw mawr i lunio hunangofiant yn Saesneg ar y pryd, er ei fod yn gapten ar ei wlad.

¹¹¹ Ibid, t. 111.

¹¹² Ibid, t. 171.

Trwy anogaeth ei gyd-awdur, Andrew Bennett, y lluniwyd y gyfrol hon yn y Gymraeg, a chafwyd awgrym gan ambell un, yn ôl Bennett, y dylai Humphreys fod wedi ei chyhoeddi yn Saesneg. Noda Bennett ei edmygedd o Humphreys am iddo barhau â'i addewid i'w chyhoeddi yn y Gymraeg.

Hoffai'r ddau ohonom feddwl y bydd y gyfrol yn hwb i fechgyn (a merched) o bob oedran i ymddiddori yn 'Ail Grefydd' Cymru – rygbi'r undeb. Ein gobaith hefyd yw y bydd y gyfrol yn ddefnyddiol i athrawon sy'n dysgu'r Gymraeg, i Gymry Cymraeg neu ddysgwyr fel Jonathan, gyda chymorth y dyddiadur hwn.¹¹³

Cyfeiria Humphreys at gael ei gyfweld ar raglen *Heno* gan Roy Noble ynghylch y gyfrol, ond fod rhaid iddo siarad Saesneg am nad oedd ei Gymraeg yn ddigon da.¹¹⁴ Ai doeth, felly, oedd cyhoeddi cyfrol yn y Gymraeg a chyfaddef oddi mewn i'w chloriau fod ei Gymraeg yn annigonol? I raddau, gellir dadlau na fyddai plant, efallai, yn sylweddoli arwyddocâd hynny wrth ddarllen y llyfr. Cyfeiria'n arwynebol ar achlysur arall at gymryd rhan mewn rhaglen deledu i ddysgwyr Cymraeg, a'r ffaith fod hynny'n ei ysgogi i fwrw ati i ddysgu Cymraeg.¹¹⁵

Ceir ambell gyfeiriad ganddo at ei fro, a'r teimlad braf a gâi o ddychwelyd adref i Fynydd Cynffig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Y fi yw'r un sydd wedi symud i ffwrdd o'm milltir sgwâr ond mae'n braf i ddod 'nôl i'r ardal lle tyfais lan, ymhell o fwrlwm y Brifddinas.¹¹⁶

Sonnir yn fras am ddiffyg rygbi yng Ngheredigion a'r rhan a oedd gan Humphreys i'w chwarae fel capten Cymru wrth hyrwyddo'r gamp yn yr ardal honno.¹¹⁷ Cofier i rygbi wreiddio yn yr ardaloedd diwydiannol, nid yr ardaloedd gwledig.

¹¹³ Andrew Bennett, 'Rhagair', yn Jonathan Humphreys (gydag Andrew Bennett), *Capten Cymru* (Talybont, 1996), t. 6.

¹¹⁴ Jonathan Humphreys (gydag Andrew Bennett), *Capten Cymru* (Talybont, 1996), t. 26.

¹¹⁵ *Ibid.*, t. 55.

¹¹⁶ *Ibid.*, t. 54.

¹¹⁷ *Ibid.*, t. 61.

Yn ogystal â'r sylw amlwg a rydd i rygbi, cyfeirir ar ddechrau'r gyfrol at lwyddiant tîm criced Morgannwg. Mynegir ei siom fod Morgannwg wedi methu â chyrraedd rownd derfynol y gwpan yn Lord's am y byddai'r ornest honno wedi'i chynnal yr un diwrnod â gêm brawf Cymru yn erbyn De Affrica. Dywed y byddai 'wedi bod yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes chwaraeon Cymru'.¹¹⁸ Dyma gysylltu campau rygbi a chriced gyda hunaniaeth genedlaethol y Cymry, a hynny yng nghyd-destun y cyfryngau.

Caiff y wasg ei beirniadu ganddo hefyd, a hynny yng nghyd-destun darogan y gallai'r tîm cenedlaethol gael crasfa yn yr ornest honno y sonnir amdani uchod.¹¹⁹ Caiff y *South Wales Echo* ei feirniadu ganddo hefyd, am iddo gyhoeddi stori ynghylch chwaraewyr Cymru'n mynd allan i yfed yn ystod Cwpan y Byd, a'r stori honno'n ymddangos yn y papur ddeuddydd cyn gornest ryngwladol.

Mae'r math yma o stori yn peri dyn i ofyn a yw ambell adran o'r Wasg yng Nghymru am ddiflasu'r chwaraewyr a'n gweld ni'n gwneud cawlach o bethe?¹²⁰

Yn benodol, caiff un aelod dienw o'r wasg ei alw'n 'aelod bradwrus' ganddo am iddo'i gamddyfyngu mewn erthygl.¹²¹

Serch hynny, adlewyrchir natur newidiol y cyfryngau ganddo, wrth iddo edrych ymlaen at ddarllen sylwadau cadarnhaol yn dilyn buddugoliaeth Cymru yn erbyn Ffrainc, 'i weld ffor' mae'r sylwebyddion wedi newid dros nos o fod yn feirniadol i fod yn gefnogwyr brwd o'n harddull chwarae'.¹²² Yma, adlewyrchir y ffaith fod llwyddiant ar y maes chwarae yn debygol iawn o liwio hwyliâu'r genedl, cysyniad a gaiff sylw gan Croft hefyd.

Yn debyg i Croft, ni sonnir yn fanwl am ei addysg yn y dyddiadur hwn. Cyfeiria nifer o weithiau at drosglwyddo cyngor i ddisgyblion ysgol ledled Cymru am fyd rygbi. Yr unig

¹¹⁸ Ibid, t. 10.

¹¹⁹ Ibid, t. 13.

¹²⁰ Ibid, t. 39.

¹²¹ Ibid, t. 115.

¹²² Ibid, t. 139.

gyfeiriad o bwys at ei addysg ei hun yw'r ffaith iddo nodi na chafodd ddim 'llawer o hwyl 'da pethe academiaidd'.¹²³

Ymddengys fod Humphreys yn ymwybodol iawn o'r diwylliant Cymraeg a Chymreig. 'Cymro i'r carn' yw Humphreys, a gwelwn edmygedd Bennett ohono pan ddywed, 'Roedd gweld Jonathan yn arwain ei gôr o bymtheg ar faes Lansdowne Road yn canu 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn un o'r atgofion hynny fydd yn ei roi yn ei wir safle fel Cymro'.¹²⁴

Hwn hefyd oedd y cyfnod y dechreuwyd trafod yr oes broffesiynol yng Nghymru a bu Humphreys, yn rhinwedd ei statws fel capten Cymru, yn rhan bwysig o'r trafodaethau hynny.

I grynhoi, felly, gwelir rhai o nodweddion yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg yma. Yn debyg i Croft, ymdriniaeth arwynebol yn unig o'r nodweddion a geir. Wedi dweud hynny, nid yw hyn yn syndod o gofio mai dyddiaduron sy'n trafod un cyfnod ym mywyd y gwrthrych yw'r cyfrolau hyn. Dyma ddadl Woolridge yn Saesneg, sy'n gosod *genre*'r dyddiadur ar wahân i'r hunangofiant.

Traethu'n fewnol a wneir, ar draul yr allanol. Hynny yw, yr unigolyn yw canolbwynt y dyddiaduron hyn yn hytrach na'r gymdeithas. Am fod angen gosod y gwrthrych yn ei gymdeithas er mwyn dilysu'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg, yna gellir casglu nad yw'r dyddiaduron hyn yn ddilys i gael eu hystyried yn hunangofiannau chwaraeon cyflawn. Hawdd yw gwneud hynny pan fo cannoedd, os nad miloedd o gyfrolau sydd ar gael yn Saesneg. Gan mai cyfyng yw'r ddarpariaeth yn y Gymraeg, mater o raid yw eu dosbarthu'n hunangofiannau os am ehangu'r maes.

¹²³ *Ibid*, t. 161.

¹²⁴ Andrew Bennett, 'Rhagair', *Ibid*, t. 7.

Y Trydydd Cyfnod: 1999

Dyma'r flwyddyn y cynhaliwyd Cwpan Rygbi'r Byd yng Nghymru am y tro cyntaf yn hanes fer y gystadleuaeth. Curwyd De Affrica am y tro cyntaf erioed gan Gymru y flwyddyn honno hefyd, yn yr ornest gyntaf a gynhaliwyd yn Stadiwm y Mileniwm.

Hon hefyd oedd blwyddyn agor Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n swyddogol gan y Tywysog Charles gydag araith yn Gymraeg yng nghartref dros dro'r sefydliad newydd. Ar yr achlysur hwnnw, dywedodd:

Mae'r corff hwn yn fynegiant o anian Cymru, yr ysbryd sydd wedi magu gwreiddiau cadarn dros y canrifoedd, fel coeden braff... Blagurodd yr ysbryd mewn cân a chelfyddyd a llenyddiaeth gain y mae eu tras yn ymestyn yn ôl tros fil pedwar cant o flynyddoedd.¹²⁵

Diddorol yw nodi nad yw'r dyfyniad uchod yn cyfeirio at chwaraeon fel un o brif nodweddion Cymru fel cenedl. O ran gwleidyddiaeth, cyfnod Llafur Newydd oedd hwn, a hynny i raddau ar draul sosialaeth fwy traddodiadol y degawdau cynt. Gellir dadlau bod blynyddoedd cynnar y Cynulliad wedi cau'r agendor a fu rhwng sosialaeth y Plaid Lafur a chenedlaetholdeb Plaid Cymru, wrth i Plaid Cymru symud ymhellach i'r chwith.

Y ddau wrthrych a drafodir yn y cyfnod hwn yw Clive Rowlands a Gwyn Pierce Owen.

Clive Rowlands

Cyhoeddwyd y gyfrol hon ychydig cyn dechrau'r gystadleuaeth a ddenodd gryn dipyn o gyhoeddusrwydd o bedwar ban y byd, ac roedd Clive Rowlands yn ganolog yn y ddarpariaeth a gafwyd yn y cyfryngau.

¹²⁵http://www.princeofwales.gov.uk/speechesandarticles/a_speech_by_hrh_the_prince_of_wales_at_the_opening_of_the_na_1902332940.html - Araith gan y Tywysog Charles ar achlysur agor Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Fel yr oedd ar Awst 30, 2011].

Gellir dadlau i ryw raddau fod elfen ad hoc yn perthyn i'r gyfrol hon am ei bod yn cyd-daro â phroffil uchel y tîm rygbi cenedlaethol yn y cyfryngau ond ar y llaw arall, pe bai'r gyfrol yn un llwyr ad hoc, gellid disgwyl mwy o gyfrolau tebyg yn yr un cyfnod. Mae gwerth amlwg i'r gyfrol hon ac y mae'n llawer iawn mwy tebygol mai amseru cyfleus sy'n gyfrifol am y ffaith ei bod wedi ymddangos yn y flwyddyn honno.

Ni ddechreuwa'r gyfrol *Clive: Cawr Cicio Cwmtwrch* (gyda John Evans) yn y ffordd draddodiadol a welwyd yn y cyfnodau cynharach, eithr mewn ffordd sy'n nodweddiadol o rai o'r hunangofiannau chwaraeon Cymraeg diweddarach wrth blymio i fanylion mwyaf preifat y gwrthrych. Yn dilyn y rhagair gan Gareth Edwards, ceir hanes ei frwydr yn erbyn cancr ym 1995.

O ran ei Gymraeg, nid oes amheuaeth mai Clive Rowlands yntau a oedd yn bennaf cyfrifol am lunio'r gyfrol hon gan ei bod yn gyfoethog o eiriau ac ymadroddion Cwm Tawe. Mae'n amlwg mai Rowlands sydd fwyaf blaenllaw yn y berthynas â'r cyd-awdur John Evans. Ceir sôn am 'oifad' am 'nofio' ac 'ots' i olygu 'gwahanol'.¹²⁶ Gwelir enghraifft o'i dafodiaith ar ei gorau pan bwysleisia bwysigrwydd ei Gymreictod iddo, a chymaint a olygai'r Urdd iddo, wrth iddo ddweud iddo gael y cyfle i 'chware, cymdeithasu a chystadlu yn Gwmra'g'.¹²⁷ Sonir hefyd am annerch chwaraewyr Cymru a Lloegr mewn cinio pan oedd yntau'n chwaraewr, ac annerch y dorf yn Gymraeg, 'arferiad sydd wedi para gyda mi, ar bob achlysur hyd heddi!'¹²⁸

Chwaraeodd Rowlands dros glybiau Pontypŵl, Abertawe a Llanelli, a chynrychiolodd ei wlad bedair ar ddeg o weithiau.

Mae thema'r fro yn amlwg yn y gyfrol hon unwaith eto. Gwelwn ei agosatrwydd tuag

¹²⁶ Clive Rowlands (gyda John Evans), *Clive! Cawr Cicio Cwmtwrch* (Llandysul, 1999), tt. 13, 16.

¹²⁷ *Ibid*, t. 24.

¹²⁸ *Ibid*, t. 58.

at Gwm Tawe ar unwaith, yn yr un modd ag y mae Dyffryn Aman yn agos at galon Dai Davies. Mae olion ei fro lofaol i'w gweld yn glir ar ei gymeriad.

Yng Ngwaith Glo Brynhenllys yr enillai Nhad [sic] 'i geiniog brin. Cartre'r glo carreg caleta'n y byd ac yn sgil hynny yn hawlio bod y glo gore'n y byd!¹²⁹

Yng nghyd-destun profiadau preifat a phersonol y mynegir ei frogarwch. Bu bywyd cymunedol yn hanfodol bwysig i Clive Rowlands a'i deulu erioed, yn enwedig yn sgil colli ei dad pan oedd yn blentyn (yn debyg i Ray Gravell), ac yna'i chwaer yn ddiweddarach pan oedd yntau yn yr ysbyty yn dioddef o'r diciáu, ac yna cael ei drosglwyddo i Landrindod ymhell o'i gartref. Cyfeiria at y ffaith na fedrai siarad Cymraeg yn yr ysbyty hwnnw ar ôl symud. Cysylltir iaith a'r fro ganddo, a wneir hefyd gan Orig Williams. Pêl-droed oedd y brif gamp yn Llandrindod am ei bod yn nes i'r gogledd na'r de.

Rhydd Rowlands sylwebaeth ar gymdeithas Gymraeg a Chymreig ei blentyndod a'i lencyndod. Rhydd fewnwelediad i drafferthion iechyd cyhoeddus Cymru'r 1930au a'r 1940au. Trwy lygaid plentyn yr edrydd y stori hon, a cheir hanesion ynghylch cael ei fwydo ar datws, uwd a *Marmite*, a chael ei bwysu bob wythnos gyda'r plant eraill, a chael ei orfodi i fwyta mwy o fwyd afiach os oedd wedi colli pwysau ers y darlleniad diwethaf. Defnyddid ymarfer corff fel moddion ar gyfer y cyflwr.¹³⁰ Fel y noda K.O. Morgan, ymddengys fod y diciáu yn salwch a oedd bron yn gyfan gwbl Gymreig.¹³¹ Yn sicr, roedd y salwch ar wasgar drwy gymoedd y de yn y 1940au. Esbonia Morgan fod safon tai'r dosbarth gweithiol yng Nghymru dipyn yn is na thai cyffelyb yn Lloegr, ac roedd Cymru wedi manteisio llai ar ddeddfau'n ymwneud â chartrefi nag ardaloedd eraill ym Mhrydain.¹³² O ganlyniad i hyn, roedd gan Gymru lawer iawn mwy o dai nad oedd o'r safon briodol, a gweithwyr yn byw dan amodau afiach, a alluogai afiechydon megis y diciáu i ledu drwy'r gymuned. Yn yr ardaloedd

¹²⁹ *Ibid*, t. 3.

¹³⁰ *Ibid*, t. 11.

¹³¹ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales*, t. 234.

¹³² *Ibid*, t. 232.

diwydiannol y cafwyd y nifer fwyaf o achosion o'r salwch, er yr effeithiwyd ar ardaloedd gwledig hefyd. Colodd Rowlands ei dad yn sgil llwch ar y frest, a oedd mor gyffredin ymhlith glowyr ar hyd y degawdau. Fel yr eglura am y cyfnod hwnnw, roedd y fro'n bwysicach yn sgil colli'i dad. Meddai, 'Ar waetha'r tristwch a'r tlodi ro'dd cwmnïaeth a chyfeillgarwch y gymdeithas yn parhau'n elfenne allweddol amlwg.'¹³³

Mae brogarwch Clive Rowlands yn amlwg iawn drwy gydol yr hunangofiant, gyda chyfeiriadau di-ben-draw at y pentref lle y ganed ef.

Amlygir pwysigrwydd crefydd yn y gymuned yn y gyfrol hon. Yn wir, cyfeiria Gareth Edwards yn ei ragair at gael pregeth gan Clive Rowlands pan oedd y naill yn cael ei hyfforddi gan y llall.¹³⁴ Trafodir rhai o brif nodweddion y pentref, 'sef Ebenezer, Capel yr Annibynwyr; Neuadd y Glowyr; Ysgol Cwm a siop chips Mag'.¹³⁵ Cyfeirir at fyd crefydd unwaith eto wrth iddo sôn am gyfeillgarwch caplan yr ysbyty pan gafodd ei daro'n wael â chancr. Meddai, 'Fe hoffwn i nodi hefyd fod ymweliade caplan yr ysbyty wastad yn hwb i'r galon.'¹³⁶

Yn yr un modd â chyfrol Orig Williams, gwelwn yma fod cysylltiad agos rhwng iaith, diwylliant a chrefydd a bod y nodweddion hyn yn cyfrannu'n helaeth at ei hunaniaeth. Er bod y capeli'n dirywio yn wyneb canolfannau megis neuaddau'r glowyr, roeddynt yn parhau'n gryf yn ddiwylliannol hyd at yr Ail Ryfel Byd.¹³⁷ Cyfrannodd neuaddau'r glowyr yn sylweddol at fywyd y gymuned yn ystod y cyfnod hwn. Dadleua K.O. Morgan eu bod yn hybu deallusrwydd a brawdgarwch.¹³⁸ Roedd nifer sylweddol o'r cyfryw neuaddau drwy dde

¹³³ Clive Rowlands (gyda John Evans), *Clive! Cawr Cicio Cwmtwrch*, t. 15.

¹³⁴ Gareth Edwards, 'Rhagair', yn *Ibid*, t. xii.

¹³⁵ Clive Rowlands (gyda John Evans), *Clive! Cawr Cicio Cwmtwrch*, t. 3.

¹³⁶ *Ibid*, t. 197.

¹³⁷ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales*, t. 198.

¹³⁸ *Ibid*, t. 239.

Cymru yn y cyfnod hwn, ac roeddynt yn gyfrifol am gryfhau'r ymdeimlad o berthyn i'r gymuned ac o fod yn berchen ar dreftadaeth gyffredin.¹³⁹

Tra mae Dai Davies yn ei gyfrol yntau'n trafod yr anthem mewn modd arwynebol, cawn drafodaeth ddyfnach ar yr un pwnc gan Clive Rowlands. Cyfeirir at achlysur pan oedd hi'n rhy oer i'r chwaraewyr fynd allan ar y cae ar gyfer yr anthemau, a bu'n rhaid i'r chwaraewyr gwrando arni yn y pellter.

O'r siom a ymylodd ar fod yn gynddaredd! Y dorf yn morio 'Hen Wlad Fy Nhade' a ninne yn yr ystafell wisgo!¹⁴⁰

Ni chanwyd yr anthem o gwbl ar gae Twickenham pan gyfarfu Cymru â Lloegr o flaen y Prif Weinidog, Syr Alec Douglas-Home. Nid oedd yn hollol gyfforddus yn ysgwyd llaw â'r Prif Weinidog, a hynny yn sgil Ceidwadaeth y Brif Weinidog a'i Sosialaeth ei hun. Ond roedd y ffaith na chwaraewyd yr anthem ar ben hynny'n ormod i'w dderbyn i'r Cymro gwladgarol.

Cynddeiriogodd y Cymry ymysg y dorf a chafwyd datganiad byrffyr, soniarus ond tagodd y node ola yn 'u gwddwg gan fod Lloegr wedi sgorio cyn i'r anthem gwpla.¹⁴¹

Dyma bwysigrwydd yr anthem yn wleidyddol ac fel ffordd o dynnu ynghyd y gymuned ddychmygedig (a drafodwyd ym mhennod 1). Wrth drafod yr unig brofiad personol positif o ganu'r anthem, edrydd hanes gornest rhwng Cymru ac Awstralia yn Sydney, a'r stadiwm yn llawn alltudion o Gymru a oedd bellach wedi ymgartrefu yn y ddinas honno. Am y rheswm hwnnw, 'canwyd yr emyne Cymra'g gydag arddeliad...'¹⁴²

Mae ei ddiddordeb yn y 'pethe' yn ymestyn i fyd llenyddiaeth hefyd (fel yn achos Orig Williams), ac fe ddaeth i gysylltiad â'r byd hwnnw fel disgybl ysgol. Wrth drafod

¹³⁹ Ibid, t. 240.

¹⁴⁰ Clive Rowlands (gyda John Evans), *Clive! Cawr Cicio Cwmtwrch*, t. 58.

¹⁴¹ Ibid, t. 75.

¹⁴² Ibid, t. 120.

dylanwad ei athro, ymfalchïa yn y ffaith iddo ddod wyneb yn wyneb â rhai o'r clasuron yn y Gymraeg, gan gynnwys gwaith 'Ambrose Bebb a T.H. Parry-Williams'.¹⁴³

O ran y diwylliant, cyfeiria Rowlands, fel nifer o chwaraewyr eraill o'r cyfnod hwnnw, fod ffurfio côr yn rhan hanfodol o fod yn rhan o unrhyw garfan Cymru ar daith. Yn Ne Affrica, ceir sôn am ganu '... 'Calon Lân', 'Cwm Rhondda' a 'Sosban Fach' ymysg y dege o emyne a chaneuon a gafodd ddatganiad o flaen torf a dyfodd yn gannoedd...!¹⁴⁴

Tra oedd y gymdeithas yn cyd-dynnu ar adegau o brofedigaeth, caiff arholiad yr 11+ ei feirniadu gan Rowlands yn ei drafodaeth ar addysg, am ei fod yn 'holhti pentrefi' a theuluoedd mewn rhai achosion. Tra âi'r rhai mwyaf galluog yn y fro i'r ysgol ramadeg, bu'n rhaid i'r gweddill fynd i'r ysgol uwchradd. Am yr annhegwch hwn ac am sefydlu ysgol gyfun leol, dadleua Rowlands, 'Ro'dd hi'n hen bryd ca'l gwared ar yr arholiad o'dd wedi holhti pentrefi, cymdeithas a chyfeillgarwch. O'r diwedd ro'dd ieuenctid Cwmtwrch yn mynychu'r un ysgol.'¹⁴⁵ Dyma sylw eironig, efallai, o ystyried dylanwad yr ysgolion gramadeg ar ddatblygiad rygbi yng Nghymru.

Mynegir ganddo uchafbwyntiau ei Gymreictod yn ei gyfrol, ac yn enwedig cael ei urddo'n aelod o'r Orsedd ym 1986, a 'braint yn wir o'dd hynny...'.¹⁴⁶

Thema amlwg arall a geir yn y gyfrol hon yw'r ddeuoliaeth rhwng Cymreictod a Phrydeindod. Wrth drafod gwahoddiad i fynd i Downing Street ar gyfer cyfarfod â'r Prif Weinidog, Harold Wilson, dywedir mai 'braint, myn yffach i!' oedd derbyn y gwahoddiad hwnnw.¹⁴⁷

Edrydd stori hefyd am gael ei gludo yng nghar preifat Jim Griffiths i un o'r cyfryw gyfarfodydd. 'Cymro ardderchog' oedd Griffiths, yn ôl Rowlands.¹⁴⁸ Dyma'r sosialydd yn

¹⁴³ Ibid, t. 38.

¹⁴⁴ Ibid, t. 81.

¹⁴⁵ Ibid, t. 19.

¹⁴⁶ Ibid, t. 154.

¹⁴⁷ Ibid, t. 85.

¹⁴⁸ Ibid, t. 87.

siarad unwaith eto. Cymreictod sosialaidd yw ei Gymreictod, ac nid cenedlaetholdeb.

Cymreictod diwylliannol ydyw, ac nid Cymreictod gwleidyddol.

Mae'n anodd mesur, serch hynny, sut mae'n teimlo am y teulu brenhinol. Er gwaethaf ei falchder amlwg o gael ei anrhydeddu, y mae'n cyflwyno'r teulu brenhinol mewn ffordd ffraeth â'i dafod yn ei foch, yn yr un modd ag y gwna Croft. Edrydd hanes derbyn yr O.B.E. mewn ffordd ffwrdd-â-hi. Fel pawb sy'n ansicr ynghylch y system o wobrwyo, dywed Rowlands ei fod yn ystyried yr anrhydedd 'yn wobr i'r teulu, i Gwmtwrch ac i rygbi'n gyffredinol'.¹⁴⁹ Serch ei ansicrwydd, ymfalchïa yn y ffaith mai ef oedd 'y cynta o'r pentre i ga'l 'i anrhydeddu gan y Frenhines ac yn hynny o beth rwy'n falch fy mod wedi dod â rhywbeth heblaw cryse rygbi yn ôl yno!'¹⁵⁰

Mewn stori goeglyd (a ffug) am y Dywysoges Anne, dywed iddo sgwrsio â hi cyn gornest pan oedd yn rheolwr ar Gymru, gan ddweud wrthi ei fod yn dod o Gwmtwrch, a'i hateb hithau oedd 'Is that Upper or Lower Cwmtwrch?'¹⁵¹ Dyma ffraethineb Rowlands ar ei orau a'i agosatrydd tuag at ei fro yn amlwg unwaith eto.

Ceir rhywfaint o drafodaeth ynghylch y wasg a'r cyfryngau. Yn achos Clive Rowlands, bu'r profiadau'n rhai positif ar y cyfan. Disgrifir y profiad o weld ei enw yn y papurau yn cael ei enwi'n un o sêr y dyfodol ar ddechrau ei yrfa. Sonnir yn benodol am gynchwaraewyr a oedd wedi troi at fyd y cyfryngau. Un o'r newyddiadurwyr oedd yn ei glodfori oedd J.G.B. Thomas o'r *Western Mail*, yr un a fu'n beirniadu Ray Gravell ar adegau.

Wrth drafod yr ornest enwog yn erbyn yr Alban pan giciodd Rowlands tuag at yr ystlys dros gant o weithiau, cymherir gweisg Cymru a Lloegr yn y ffordd yr ymdriniodd y ddau â'i gicio parhaus – y Cymry'n canmol ond y Saeson yn feirniadol.¹⁵²

¹⁴⁹ Ibid, t. 165.

¹⁵⁰ Ibid.

¹⁵¹ Ibid, t. 189.

¹⁵² Ibid, t. 65.

Yn y pen draw, ymunodd Rowlands yntau â rhengoedd y cyfryngau, gan ddod yn ail sylwebydd ar Radio Cymru. Meddai, ‘Cefais fodd i fyw unwaith eto, oherwydd gwyddwn fy mod yn gallu cyfrannu ar bwnc ro’dd gen i ddiddordeb aruthrol ynddo a gwybodaeth eang amdano.’¹⁵³

Rhydd yr hunangofiant hwn ddarlun go dda o’r gwrthrych a’r gymdeithas y magwyd ef ynddi. Mae’n sicr mai ei ymrwymadau â’r cyfryngau a’i cadwodd yng ngolwg y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn, ac fe fanteisiodd i ryw raddau ar gyhoeddusrwydd i Gymru yn sgil Cwpan Rygbi’r Byd. Serch hynny, mae yma stori afaelgar am un o arwyr y byd rygbi yng Nghymru, ac mae ganddo ddigon o gyfiawnhad dros lunio hunangofiant mewn unrhyw gyfnod. Os oes blas yr ad hoc ar y gyfrol hon, gellir dadlau i’r gwrthwyneb y byddai’r gyfrol hon, yn sgil poblogrwydd Clive Rowlands, yn denu darllenwyr lu mewn unrhyw gyfnod.

Gwyn Pierce Owen

Lluniwyd y gyfrol *C’mon Reff* ar y cyd â Dylan Llewelyn. Hunangofiant traddodiadol ydyw o ran ei nodweddion, ond y mae’n cynnwys darnau o ddyddiaduron a llythyron yn ogystal.

Cyfeiria Llewelyn yn ei ragair at y profiad o gyd-awdura. Caiff ffeithiau a digwyddiadau moel sylw blaenllaw ganddo.

Yn syml iawn, mae’r llyfr yn llawn dop o straeon difyr, doniol a dadlennol gyda Gwyn yn gwisgo sawl het, yn aml iawn, ar yr un pryd.¹⁵⁴

Ar unwaith, dyma ddilysu’r gwrthrych ar y dudalen gyntaf, gan ategu damcaniaeth Linda Colley ynghylch hetiau niferus y gwrthrych. Wrth i’r gwrthrych ddechrau ar ei stori, gwelwn elfen o gyffes wrth iddo gyfaddef mai Sais ydyw o ran genedigaeth. Fe’i ganed ym

¹⁵³ Ibid, t. 192.

¹⁵⁴ Dylan Llewelyn, ‘Rhagair’, yn Gwyn Pierce Owen, *C’mon Reff* [:] *Cyfes y Cewri 20* (Caernarfon, 1999), t. 9.

Mhenbedw ym 1934.¹⁵⁵ Serch hynny, yn Rhoscefn-hir ym Môn y mae ei filltir sgwâr, ac i'r fro honno y perthyn.¹⁵⁶ Hwn yw'r gwrthrych cyntaf sy'n perthyn i fro nad yw'n fro enedigol arno, a hwn yw'r tro cyntaf y cawn feirniadaeth o'r fro gan wrthrych. Gwelir ar adegau mor fewnblyg y gall y gymdeithas ym Môn fod, a chydnebydd fod yr ynys yn derbyn cryn dipyn o feirniadaeth am fod yn 'hynod blwyfol'.¹⁵⁷ Cyfeirir hefyd at 'hafan ddiogel y teulu bach yng Nghlai Coediog, Pentraeth'.¹⁵⁸ Wrth drafod ei gyfnod yn y fyddin, nodir ganddo mai Sutton Coldfield yng Nghanolbarth Lloegr oedd ei gynefin.¹⁵⁹ Nid oes ganddo atyniad i fro ei blentyndod fel y cyfryw, eithr i'r fro y mae'n digwydd byw ynddi ar y pryd.

Ar ôl dod yn ddyfarnwr yn Lloegr, ni fyddai fyth yn anghofio'i wreiddiau, gan mor bwysig iddo oeddynt.¹⁶⁰ Ymfalchïa yn y ffaith y'i magwyd yn Gymro Cymraeg, er yn Lloegr, ac i'w rieni y mae'r diolch am hynny.¹⁶¹ Cyfeirir at gamgymeriad 'enllibus' stadiwm yn Efrog Newydd a'i cyhoeddodd fel dyfarnwr o Sais yn hytrach na Chymro.¹⁶² Serch hynny, cyfeiria nifer o weithiau at ei falchder o gyrraedd uchelfannau dyfarnu yn Lloegr. Dyma'r tyndra rhwng y Cymro a'r Prydeiniwr unwaith eto.

O ran yr iaith Gymraeg, cyfeirir at siarad Cymraeg o flaen George Best, a hwnnw'n teimlo cywilydd nad oedd yn medru'r Wyddeleg, er bod ganddo gryn ymwybyddiaeth ohoni.¹⁶³ Dyma dystiolaeth, o bosib, o'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng y gwledydd Celtaidd yn hynny o beth. Sonnir droeon am yr arfer o ganu ar deithiau tramor, fel y gwneir yn nifer o'r hunangofiannau chwaraeon eraill, a hynny fel petai'n nodwedd ar nifer helaeth o'r hunangofiannau chwaraeon Cymraeg.¹⁶⁴

¹⁵⁵ Gwyn Pierce Owen (gyda Dylan Llewelyn), *C'mon Reff: Cyfres y Cewri 20*, t. 11.

¹⁵⁶ *Ibid*, t. 12.

¹⁵⁷ *Ibid*, 51.

¹⁵⁸ *Ibid*, t. 40.

¹⁵⁹ *Ibid*, t. 43.

¹⁶⁰ *Ibid*, t. 111.

¹⁶¹ *Ibid*, t. 204.

¹⁶² *Ibid*, t. 179.

¹⁶³ *Ibid*, t. 91.

¹⁶⁴ *Ibid*, t. 124.

O ran ei addysg, mynychodd Ysgol Pentraeth, ond ychydig iawn o sylw a rydd i'w amser yn yr ysgol honno ar y cyfan.¹⁶⁵ Aeth yn y pen draw i'r Coleg Normal ym Mangor, ac astudio Cymraeg, Daeryddiaeth, Hanes ac Ysgrythur. Ond nid oedd yn unrhyw fath o academydd.¹⁶⁶ Serch ei ddiffyg llwyddiant yn yr ysgol, daeth yn athro maes o law. Er gwaethaf ei sylw arwynebol i'r teulu ar y cyfan, dywed y bu teulu ei fam yn ddylanwadol yn ei benderfyniad i fentro i fyd addysg.¹⁶⁷

Y mae nifer o nodweddion Seisnig neu Brydeinig yn perthyn i'w gymeriad, ac adlewyrchir hyn drwy ei wleidyddiaeth yn bennaf. Ceidwadwr ydyw ond eto i gyd, y mae'n wladgarol hefyd. Yn wir, ef yw'r unig Dori ymhlith holl wrthrychau'r cyfrolau a astudir yn y bennod hon. Y mae'n amlwg ei fod yn hoff o dynnu coes y Saeson ynghylch y tai haf yn y gogledd, a rhai o swyddogion yr awdurdodau pêl-droed yn eu plith.¹⁶⁸ Cofier y bu'r mater hwn yn un sensitif ar hyd y degawdau. Edrydd hanes ei ornest ryngwladol gyntaf fel dyfarnwr, a honno'n ornest i ddathlu jiwibili'r Frenhines. Nid yw'n mynegi ei farn yn wleidyddol am y mater.¹⁶⁹ Serch hynny, cyfeiria at wyllo'r briodas frenhinol ym 1981 ar y teledu yn yr Unol Daleithiau.¹⁷⁰ Elfen arall o Brydeindod y cyfeiria ati yw hela, er mai diddordeb ei dad oedd hwnnw. Yn wir, cysylltid yr arfer yn draddodiadol â'r bonedd yng Nghymru, yn ogystal â chymunedau gwledig (fel y gwelwn yn hunangofiant Dafydd Jones yn y pedwerydd cyfnod dan sylw yn y bennod hon). Nid yw Gwyn Pierce Owen yn lleisio'i farn y naill ffordd na'r llall ar y mater.¹⁷¹

¹⁶⁵ Ibid.

¹⁶⁶ Ibid, t. 24.

¹⁶⁷ Ibid, t. 13.

¹⁶⁸ Ibid, t. 85.

¹⁶⁹ Ibid, t. 86.

¹⁷⁰ Ibid, t. 161.

¹⁷¹ Ibid, t. 17.

Cyfalafwr ydyw, a bu'n rhaid iddo ymweld â rhai o'r gwledydd Comiwnyddol tra'n dyfarnu, a phrofiad 'od, anghyffyrddus ond eto hynod addysgiadol' oedd hwn iddo.¹⁷²

Cyfeiria ato'i hun yn 'gyfalafwr pybyr'.¹⁷³

Ceir hanesion am yr Ail Ryfel Byd, a'r atgofion hynny'n rhai byw iawn yn ei feddwl. Yn wahanol i ymdriniaeth Orig Williams o fewnfudwyr adeg y Rhyfel, agwedd bositif sydd gan y gwrthrych hwn tuag at fewnfudwyr, ac yn enwedig carcharorion rhyfel. Yn wir, cyfeiria at rai ohonynt fel ffrindiau.¹⁷⁴

Cyfeiriadau digon arwynebol a geir at grefydd yn y gyfrol hon. Er ei bod yn amlwg bod Gwyn Pierce Owen yn Gristion, mynegir ei deimladau'n gynnill heb fanylu arnynt, a hynny drwy gyfeirio nifer o weithiau at y 'Bod Mawr'. Gyda'i dafod yn ei foch wrth gyfeirio at ddiwydiant rhyw yr Almaen, noda mai gwyllo yn unig a wnaeth, a hynny oherwydd ei fagwraeth yn yr Ysgol Sul. Cyfeiria ato'i hun 'fel hogyn da o Gymro diolch i'r Ysgol Sul'.¹⁷⁵ Gwna jôc wrth drafod potel chwisgi ei gyd-ddyfarnwr ei fod yn ddirwestwr, er y mae'r ebychnod yn awgrymu fel arall.¹⁷⁶ Y mae'n datgan yn gwbl argyhoeddiedig ar un achlysur fod 'na'r fath beth â Duw'.¹⁷⁷

Cyflwynir thema'r Cymro alltud ganddo (fel y gwna Dai Davies i ryw raddau), a mynegir ei hiraeth o fod ymhell oddi cartref, a hynny yn yr Unol Daleithiau. Cofia ofyn am glywed 'Green Green Grass of Home' mewn bar yno, a theimlo'r hiraeth gwaethaf erioed yn Seattle yn yr un cyfnod.¹⁷⁸

O ran y cyfryngau, ychydig iawn o gyfeiriadau a safbwyntiau a geir. Teimla, serch hynny, fod dyfarnwyr o dan y chwyddwydr fwyfwy yn sgil dyfodiad y teledu ac yn enwedig raglenni megis *Match of the Day* lle caiff pob symudiad ei ddadansoddi a'i ddehongli'n

¹⁷² Ibid, t. 119.

¹⁷³ Ibid.

¹⁷⁴ Ibid, t. 14.

¹⁷⁵ Ibid, t. 142.

¹⁷⁶ Ibid, t. 74.

¹⁷⁷ Ibid, t. 22.

¹⁷⁸ Ibid, t. 177.

fanwl.¹⁷⁹ Am ddatblygiadau diweddar ym maes darlledu chwaraeon, dadleua nad oedd darpariaeth y cyfryngau ugain mlynedd yn ôl 'mor soffistigedig â thriciau Sky Sports heddiw.'¹⁸⁰

Math gwahanol o wrthrych a geir yn y gyfrol hon, felly, nad yw wedi'i wreiddio yn ei Gymreictod i'r un graddau â rhai Cymry eraill. Mae'n Geidwadwr, yn Brydeiniwr o Gymro heb fod ganddo gysylltiad agos iawn â'i fro. Y mae'n llawer iawn debycach i J.P.R. nag i Ray Gravell (gweler y gymhariaeth yn nes ymlaen yn y bennod hon am drafodaeth ehangach).

Y Pedwerydd Cyfnod: 2006-2011

Y pedwerydd cyfnod yw'r blynyddoedd ar ôl Camp Lawn 2005. Enillodd Cymru eu Camp Lawn gyntaf ers 1978 yn 2005, a'r ail yn 2008. Yn 2006, pasiwyd Deddf Llywodraeth Cymru a olygai sefydlu Llywodraeth y Cynulliad o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd elfen o rym i Lywodraeth y Cynulliad a sefydlwyd swydd Prif Weinidog Cymru i ddisodli hen swydd Ysgrifennydd Cymru. Ar ôl methiant y Blaid Lafur i ennill mwyafrif yn y Cynulliad, cyhoeddwyd rhaglen Cymru'n Un rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru i lywodraethu Cymru ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Un o brif addewidion y rhaglen hon oedd cynnal refferendwm ar bwerau deddfu llawn yn y meysydd datganoledig cyn 2011, ac fe'i gwireddwyd erbyn hyn.¹⁸¹ Caeodd pwll glo'r Tŵr yn derfynol yn 2008 ar ôl brwydr galed i'w gadw ar agor. Roedd y flwyddyn honno'n flwyddyn fawr i'r Gymraeg yn Ewrop, gyda'r iaith yn derbyn statws cyd-swyddogol yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd. Alun Ffred Jones, Gweinidog Trefnadaeth y Cynulliad oedd y cyntaf i annerch y Cyngor yn Gymraeg.

¹⁷⁹ Ibid, t. 110.

¹⁸⁰ Ibid, t. 112.

¹⁸¹ Gw. http://news.bbc.co.uk/democracylive/hi/guides/newsid_8242000/8242653.stm - Cymru'n Un.

Collodd y Blaid Lafur rym ym Mhrydain ac felly, am y tro cyntaf yn hanes y Cynulliad, byddai pleidiau gwahanol yn llywodraethu yn San Steffan a Chaerdydd o 2009 ymlaen.

Wrth reswm, blas yr ad hoc sydd ar rai o gyfrolau'r cyfnod hwn. Mae'r rhestr yn cynnwys Gareth Edwards, Robin McBryde, Nigel Owens, Non Evans ac eraill. Mae'r bwrlwm yn sgil llwyddiannau'r tîm cenedlaethol yn fath o gyd-destun ynddo'i hun. Wrth i'r llwyddiannau ddod, mae'r farchnad ar gyfer y fath gyfrolau'n cynyddu'n sylweddol dan ddylanwad y cyfryngau. Mae'r patrwm i'w weld yn gliriach fyth yn Saesneg, gyda chyhoeddi cyfrolau Gavin Henson, Gareth Thomas a Martyn Williams ar ôl Camp Lawn 2005. Mae llwyddiant ar y maes chwarae bob amser yn ennyn diddordeb y cyhoedd, ac yn cryfhau cenedligrwydd i raddau helaeth. Adlewyrchir hyn, felly, drwy lenyddiaeth fywgraffyddol.

Gareth Edwards

Ma' plant a phobl ifanc yn ca' l eu dylanwadu a'u mowldio gan gymdeithas. Ar y Waun y gosodwyd y sylfeini yn fy hanes i, a'm rhieni a'r teulu a sicrhodd fod gwerthoedd bywyd wedi'u plannu'n ddwfn ynof.¹⁸²

Yn *Y Crwt o'r Waun* (gydag Alun Wyn Bevan), gesyd Gareth Edwards ei enedigaeth mewn cyd-destun daearyddol, sydd hefyd yn nodwedd o arddull y bucheddau, lle gesyd yr awdur ei wrthrych yn y gymdeithas y magwyd ef ynddi. Cymerer y paragraff canlynol fel man cychwyn ar gyfer y drafodaeth hon. Yma, cawn fraslun o'r hyn a ddigwyddodd i Non, mam Dewi Sant, wrth iddi gwrdd â'r brenin Sant a chael ei threisio ganddo. Ganed plentyn yn sgil y weithred.

¹⁸² Gareth Edwards (gydag Alun Wyn Bevan), *Y Crwt o'r Waun* [:] *Cyfes y Cewri 21* (Caernarfon, 2007), t. 64.

Ac ympenn y deng mlyned ar hugeint gwedy hynny, ual yd oed y brenin a elwit Sant yn kerdet ehun, nachaf leian yn kyfaruot ac ef. Sef a oruc ynteu, ymauael a hi a dwyn treis arnei. A'r lleian a gafas beichogi (enw y lleian oed Nonn), a mab a anet idi, a Dauyd a rodet yn enw arnaw. A gwr ny bu idi hi na chynt na gwedy: diweir oed hi o vedwl a gweithret.¹⁸³

Gan ddefnyddio arddull debyg, ond â chyd-destun y cyfryngau'n gefndir iddo, gesyd Gareth Edwards ei hanes yntau o fewn yr un patrwm. Ceir 'trawsgrifiad' o sylwebaeth gan Cliff Morgan sy'n disgrifio'r mewnwr yn sgorio cais cofiadwy dros y Barbariaid ar Barc yr Arfau ym 1973.

Kirkpatrick... to Brian Williams... this is great stuff... Phil Bennett covering... chased by Alistair Scown... brilliant... oh, that's brilliant... John Williams... Pullin... John Dawes, great dummy... David, Tom David... the half way line... brilliant by Quinnell... this is Roger Edwards... a dramatic start... what a score!¹⁸⁴

Darn o sylwebaeth Cliff Morgan a geir uchod, ond a newidiwyd gan wrthrych yr hunangofiant er mwyn pwysleisio'r enw yr oedd ei rieni am ei roi iddo cyn i'r cofrestrydd eu darbwyllo i'w newid i Gareth Owen Edwards. Enghraifft yw hyn, felly, i ddangos bod gwreiddiau *genre* cymharol newydd yn y traddodiad llenyddol ehangach.

O ran ei fro, magwraeth draddodiadol a gafodd Edwards yn ardal lofaol Gwauncaegurwen, ac aelodau'r teulu'n lowyr ers cenedlaethau. Ym mhentref Tairgwaith y magwyd ei dad, ond fel yr esbonia, er bod traddodiad glofaol cryf yno, nid oedd yn bentref nodweddiadol o Ddyffryn Aman ar y cyfan. Dyma'r dyffryn y ganwyd ac y magwyd Dai Davies ynddo hefyd. Dywed Edwards,

Cymra'g o'dd iaith Gwauncaegurwen, Brynaman, Cwmllynfell, Cwm-gors, y Garnant, Glanaman a'r Betws, ond ro'dd sefyllfa ieithyddol Tairgwaith yn dipyn o ddirgelwch. Yn y pentre hwnnw yr ymgartrefodd y mewnfudwyr o Loegr, Iwerddon a'r Alban a byw mewn math o ghetto ieithyddol.¹⁸⁵

¹⁸³ D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi* (Caerdydd, 1965), t. 3.

¹⁸⁴ Gareth Edwards (gydag Alun Wyn Bevan), *Y Crwt o'r Waun*, t. 11.

¹⁸⁵ *Ibid*, t. 14.

Ymddengys mai'r pentref hwn a ddiodeffodd waethaf yn sgil mewnlifiad Prydeinwyr a oedd yn chwilio am waith, fel y trafodwyd ym mhennod 1. Ond dadleua John Davies mai ardaloedd mwy dwyreiniol de Cymru a ddiodeffodd waethaf o ran tranc y Gymraeg yn sgil y mewnlifiad hwn.¹⁸⁶ Er gwaethaf adeiladu delwedd ramantus o gymuned lofaol Gwauncaegurwen, trafodir tranc y gymdeithas honno gan Gareth Edwards hefyd, yn enwedig o safbwynt colli cymeriadau lleol.¹⁸⁷ Dyma nodwedd a geir yn yr hunangofiant hwn nas ceir mewn llawer iawn o hunangofiannau chwaraeon eraill.

Er nad oedd gan Dairgwaith dîm rygbi fel pentref, byddai'r plant yn dal i gynnal gornestau ymhlith ei gilydd, ond hefyd yn mwynhau pêl-droed a chriced yn yr un modd. Mewn oes lle nad oedd llawer o fynd ar chwaraeon yn y cyfryngau, rhaid oedd dibynnu i raddau ar dîmau lleol, ac felly fe ddeuai dynion y pentref yn arwyr i Edwards a'i debyg. Dyma fath gwahanol o eilunaddoli ag a geir yn oes y cyfryngau ddegawdau'n ddiweddarach.

Wrth gymharu'r cyfnod hwnnw â'r oes broffesiynol fodern yng nghyd-destun y cyfryngau torfol, dadleua Edwards, mai cysyniad newydd ydyw hybu a marchnata timau Uwch Gynghrair Lloegr. Cofier i Dai Davies gyfeirio at wyllo *Match of the Day* yn y cyfnod hwn a gellir dadlau, felly, fod pêl-droed yn Lloegr eisoes yn cael ei hybu drwy'r rhaglen hon. Meddai Gareth Edwards mai 'chwaraewyr tîm y pentre o'dd ein harwyr; y nhw o'dd Giggsys, Flintoffs a Peels y cyfnod.'¹⁸⁸

Yn wir, gall Edwards gofio'r tro cyntaf iddo wyllo rygbi ar sgrîn sinema a chlywed sylwebaeth yn Saesneg. Dywed, 'Dwi'n dal i weld y llunie du a gwyn ar y sgrîn anferthol, a'r llais Seisnig dosbarth canol yn adrodd hanes y gêm.'¹⁸⁹

Dengys y sylw uchod pa mor bwysig yw ceisio sylwebaeth yn y Gymraeg, gyda'r holl gysylltiadau diwylliannol sy'n mynd law yn llaw â'r sylwebaeth honno. Roedd y profiad o

¹⁸⁶ John Davies, *Hanes Cymru*, t. 371.

¹⁸⁷ Gareth Edwards (gydag Alun Wyn Bevan), *Y Crwt o'r Waun*, t. 133.

¹⁸⁸ *Ibid*, t. 18.

¹⁸⁹ *Ibid*, t. 20.

glywed y sylwebaeth Saesneg yn y sinema'n brofiad gwahanol iawn i'r hyn a gâi maes o law pan ddeuai'n ffrindiau â Huw Bach, Huw Llywelyn Davies, mab Eic Davies. Hwn oedd cyfnod sefydlu'r rhaglen *Y Maes Chwarae* ar y BBC, a'r cyfnod pan oedd Eic yn prysur fathu termau ar gyfer adroddiadau i'r wasg a sylwebaethau ar y radio. Gwêl Edwards eironi'r ffaith fod y ddau fachgen ifanc bellach yn sylwebyddion ill dau. Dywed ei bod yn 'rhyfedd meddwl bod y ddau o'dd yn cadw cwmpani iddo yn yr hen gar wedi cyfrannu'n helaeth i'r campe dros y blynyddoedd – Huw fel cyflwynydd a sylwebydd proffesiynol a chraff ar S4C a'r BBC, a finne ar y ca' yn chwaraewr... ac yn ail lais a pundit...'190

Yn wir, mae'n cydnabod cyfraniad Eic Davies i'r maes ac i'r Gymraeg yn gyffredinol. Dywed fod dyled y genedl yn fawr iddo, a'i fod wedi dyfeisio termau 'sy'n ca'l eu defnyddio mor naturiol bellach gan fechgyn a merched, gwŷr a gwragedd o Gaerdybi i Gaerdydd ac o Glawdd Offa i Gwm Tydu'.¹⁹¹ Manylir yn y drydedd bennod ar rai o'r termau a fathwyd ganddo. Cyfeiria Edwards at ddarllediadau cyfoes o ornestau rygbi yng Nghymru.

Hanner cant a phump o flynyddoedd yn ddiweddarach, ma' S4C yn darlledu'n fyw ac yn wythnosol o gae [sic] rygbi'r gwledydd Celtaidd a ledled byd, a Radio Cymru'n gwasanaethu am bron i chwech awr bob prynhawn Sadwrn.¹⁹²

Yn debyg i Clive Rowlands, gwêl Gareth Edwards anghyfiawnder system addysg 11+. Yn wahanol i Rowlands, methodd Edwards yr arholiad a fyddai'n sicrhau mynediad i'r ysgol ramadeg. Ategir barn Rowlands yma ynghylch holli cymunedau yn sgil y system, wrth i Edwards fyfyrrio ar y ffaith y byddai'n mynd i ysgol wahanol i'w gyfeillion. 'Wal a weiren bigog', yn ôl Edwards, oedd system yr 11+.¹⁹³ Cyfeddyf Edwards mai diffyg diddordeb oedd yn gyfrifol am iddo fethu'r arholiad, ond daeth yn fwy cydwybodol yn ddiweddarach ar ôl i'w dad fygwth ei anfon dan ddaear i weithio pe na bai'n llwyddo'n academiaidd. Dyma

¹⁹⁰ Ibid, t. 27.

¹⁹¹ Ibid, t. 29.

¹⁹² Ibid, t. 103.

¹⁹³ Ibid, t. 31.

ddangos bod yna gynodiad negyddol bellach i'r traddodiad o fynd i weithio yn y pyllau glo, a fu'n cymaint rhan o'r gymdeithas ers degawdau.

Cafodd Gareth Edwards ei addysg yn ddiweddarach, fel J.P.R. Williams, yn Ysgol Fonedd Millfield yn Lloegr, sef ysgol i'r dosbarth canol Seisnig ar y cyfan. Fe'i hamddifadwyd o'r cyfle i gael prawf gyda chlwb pêl-droed Abertawe am fod ei fam yn dymuno iddo fynd i gael addysg. Cyfeiria Edwards at 'amlen ar y mantelpiece wedi'i chyfeirio at Gareth Edwards, a'r geirie Swansea Town Football Club ar y top'.¹⁹⁴ Dyma arwydd o bwysigrwydd addysg i'r gymdeithas Gymreig yn y cyfnod hwn.

Amlygir y gwahaniaethau sylfaenol rhwng ei ardal enedigol ac ardal Millfield yn ne orllewin Lloegr yn ei ddisgrifiad o'r lle megis un o wledydd '[p]en draw'r byd'.¹⁹⁵ Cyfeddyf Edwards fod ei fagwraeth yn un o ardaloedd glofaol Cymru wedi bod o gymorth iddo wrth symud i Millfield. Yn wir, roedd Edwards bellach yng nghanol y traddodiad dosbarth canol Seisnig a fu'n gyfrifol am gyflwyno rygbi i Gymru. Cymdeithas glòs oedd honno yng Ngwauncaegurwen, ond cafodd brofiadau mwy aml-ddiwyllynnol ac eangfrydig yn yr ysgol fonedd yn Lloegr. Wrth gymharu cartrefi rhai o'i gyfoedion ym Millfield â'i gartref yn Nyffryn Aman, dywed fod ystafell wely un o'r bechgyn yn 'fwy na Coelbren Square'.¹⁹⁶

Cyfeirir at sgwrs rhyngddo ef a'i brifathro ym Millfield, a ddywedodd wrtho, 'Gobeithio bo ti ddim yn anwybyddu'r disgyblion eraill am eu bod nhw'n blant i filionêrs, a gobeithio 'dyn nhwthe ddim yn edrych lawr arnat ti sy'n fab i goliar'.¹⁹⁷

O ran ei wleidyddiaeth, nid yw Edwards yn mynegi unrhyw dueddiadau pleidiol. Y mae'n gwbl amlwg fod Edwards yn ymwybodol o'r elyniaeth rhwng Cymru a Lloegr ac yn deall tipyn ar yr hanes a'r cefndir, fel y profir yn y dyfyniad canlynol. Awgrymir ei genedlaetholdeb gwleidyddol drwy fynd y campau yn y dyfyniad canlynol:

¹⁹⁴ Ibid, t. 48.

¹⁹⁵ Ibid.

¹⁹⁶ Ibid, t. 56.

¹⁹⁷ Ibid, t. 55.

Glyndŵr, Llywelyn, Statud Rhuddlan 1284, Deddf Uno 1536, Brad y Llyfrau Gleision, y 'Welsh Not', terfysg Tonypanyd 1911 a Thryweryn yn cyfuno, mae'n debyg, i greu drwgdeimlad rhyfeddol adeg gême rhyngwladol. Ro'dd y cyfle'n dod bob hyn a hyn i dalu'r pwyth yn ôl, a'r gwŷr yn y cryse gwynion o'dd yn 'i cha'l hi.¹⁹⁸

Serch ei Gymreictod, bu'n rhaid iddo gynrychioli Ysgolion Lloegr mewn athletau yn Ysgol Millfield. Cyfeddyf hefyd iddo gynrychioli Ysgolion Lloegr ar un achlysur yn erbyn Ysgolion Cymru, a hynny'n destun embaras a chywilydd iddo.¹⁹⁹ Nid deuliaeth yn null yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg a geir yma, eithr deuliaeth a orfodir ar y gwrthrych.

Wrth sôn am ei deulu a'i fagwraeth ar yr aelwyd, cyfeirir cryn dipyn at y 'Pethe', yn enwedig y ffaith fod nifer o aelodau'r teulu'n gerddorion neu'n gantorion. Nodir mai Bill Samuel oedd yn gyfrifol am fagu'i ddiddordeb mewn rygbi, gan osod chwaraeon ymhlith rhai o weithgareddau diwylliannol y clwb ieuentid lleol. Yn wir, dadleua na fyddai, o bosib, wedi dod i gysylltiad â Samuel pe bai wedi canolbwyntio ar ei addysg.

Gesydd rygbi yng nghyd-destun crefydd a'r cyfryngau hefyd, drwy gyfeirio at bapur newydd y *Western Mail* fel 'Beibl rygbi y genedl Gymreig'.²⁰⁰ Yn wir, deuai rygbi'n grefydd y Cymry yng nghyfnod Gareth Edwards yn nhîm Cymru, ac ategir hyn gan John Davies, a ddywed fod rygbi wedi dod yn fwy o arwydd o Gymreictod yn y cyfnod hwn na chrefydd.

Yr oedd cymaint o fri ar rygbi nes peri ailddiffinio priodoleddau'r Cymry. Nid fel capelwyr pwritanaidd yr oeddid yn synied amdanynt mwyach, eithr fel llymeitwyr cyhyrog oedd heb fod yn siŵr a oedd yna fywyd y tu draw i'r llinell gwsg.²⁰¹

Dyma brofi'r hyn yr oedd Saunders Lewis a'r dosbarth canol Cymreig yn ei ofni yn eu gwrthwynebiad i fyd y campau. Bu'r cyfryngau'n gyfrifol am ddod â byd rygbi'n nes at y bobl i raddau helaeth iawn, fel y gwelir yn y broses o ddewis a chyhoeddi'r tîm cenedlaethol yng nghyfnod Gareth Edwards yn nhîm Cymru. Dadleua fod y broses yn cyrraedd y cyhoedd

¹⁹⁸ Ibid, t. 58.

¹⁹⁹ Ibid, t. 64.

²⁰⁰ Ibid, t. 77.

²⁰¹ John Davies, *Hanes Cymru*, t. 620.

dipyn yn gynt erbyn hyn, a hynny oherwydd fod 'bwletine newyddion ar yr awr, safleoedd chwaraeon ar y we a chydweithrediad rhwng yr Undeb Rygbi a'r cyfrynge...' ²⁰²

Ond nid ochr bositif y cyfryngau yn unig a drafodir gan Edwards, wrth iddo bwysu a mesur cyfraniadau'r Wasg i'r ffordd y gwelid y byd rygbi gan chwaraewyr, eu teuluoedd a chefnogwyr.

Ma' 'na bleser a balchder wrth ddarllen y penawde canmolus, ond rhywfaint o anfodlonrwydd pan fydd rhyw ohebydd sy'n amal yn gwbod dim am y gamp yn feirniadol ac yn awgrymu y dylse'r dewiswyr neu'r hyfforddwr ymddiried mewn chwaraewr arall. ²⁰³

Dyma ategu barn Robert Croft, sydd hefyd yn pwysu a mesur dwy ochr y cyfryngau.

Mae lle i gredu bod dylanwad negyddol y Wasg yn dod yn sgil y sylw cynyddol a gaiff y chwaraewyr yn yr oes fodern, ond dengys ambell stori yn yr hunangofiant hwn fod y fath adroddiadau negyddol yn ymddangos yn y 1970au hefyd. Fel yr esbonia Edwards, 'celwydd noeth yw'r mwyafrif o'r ffeithie'. ²⁰⁴

Un digwyddiad a ddenodd gryn dipyn o sylw'r wasg ar y pryd oedd priodas Gareth Edwards yntau, ond â'i dafod yn ei foch, dywed Edwards mai'r 'South Wales Guardian a Llais Llafur o'dd Hello ac OK y cyfnod'. ²⁰⁵

Unwaith eto, trafodir y weithred o ganu'r anthem genedlaethol. Manylir ar ei emosiwn wrth ganu Hen Wlad Fy Nhadau ar y maes. Fe'i gesyd yng nghyd-destun hanesyddol gornestau rhwng y gelynyon.

A chronni wna'th y dagre adeg yr antheme, a finne'n canu 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn uwch ac yn gliriach nag unrhyw chwaraewr oddi ar yr ornest gynta un rhwng Cymru a Lloegr ar ga' Mr Richardson yn ardal Blackheath o Lundain yn Chwefror 1881! ²⁰⁶

²⁰² Gareth Edwards (gydag Alun Wyn Bevan), *Y Crwt o'r Waun*, t. 86.

²⁰³ Ibid, t. 137.

²⁰⁴ Ibid, t. 139.

²⁰⁵ Ibid, t. 160.

²⁰⁶ Ibid, t. 94.

Wrth gyfeirio'n benodol at ornestau rhwng Cymru a Lloegr, disgrifia Edwards un o'r gornestau hynny fel 'rhan o hanes ein cenedl'.²⁰⁷ Yn wir, gesyd chwaraeon ar y cyfan yng nghyd-destun hanes y genedl. Trwy osod chwaraeon ymhlith rhai o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes Cymru, dengys bwysigrwydd byd y campau wrth ddiffinio'r hyn yw cenedl yn ogystal â'i hunaniaeth ei hun fel Cymro. Gellir cymharu'r darn canlynol â'r darn gan Ray Gravell sy'n ei osod ymhlith byddin Glyndŵr, a drafodwyd ar ddechrau'r bennod hon, ac sy'n dangos bod cyswllt agos rhwng hanes, y diwylliant a chwaraeon.

Petai Llywelyn wedi cipio buddugoliaeth yng Nghilmeri yn 1282, ma'n o debyg y bydde'r darn tir y tu hwnt i Glawdd Offa yn llawn o Gymry Cymra'g naturiol. Petai Charles Evans wedi bod yn holliach ym mis Mai 1953, yna Cymro fydde wedi bod y cynta i gyrra'dd copa Everest. A phetai dau o ffwtbolers gore Ewrop (Ray Daniel a Trevor Ford), ac un o bêl-droedwyr gore'r byd (John Charles) wedi whare yn rownd Wyth Olaf Cwpan y Byd mas yn Sweden yn 1958, yna Cymru, o bosib, fydde wedi ennill Tlws Jules Rimet.²⁰⁸

Wrth geisio crynhoi ei yrfa, dadleua Gareth Edwards mai'r 1970au oedd y cyfnod pan newidiodd y cyfryngau gwrs hanes rygbi yng Nghymru. Wrth gyfuno hynny â llwyddiant y tîm cenedlaethol yn y degawd hwnnw, efallai'n wir bod y cyfryngau wedi chwarae rhan bwysig yn yr hunaniaeth Gymraeg ar hyd y blynyddoedd. Fel y dadleua Edwards,

Diolch i dwf a datblygiad yn y maes technolegol, bu'r cyfnod yn un cofiadwy os nad yn *fythgofiadwy* i fyd y campe. Ro'dd modd i drwch y boblogaeth dystio i'r holl lwyddianne yn y parlwr o fla'n y set deledu...²⁰⁹

Ar ben hyn oll, dadleua Edwards fod gan y cyfryngau rym i lywio hanes yn y ffordd y darlledir gornestau ac y dangosir uchafbwyntiau dro ar ôl tro dros gyfnod hir o amser. Tuedd i ramantu sy'n gyfrifol am hyn, yn nhyb Edwards. Dyma awgrym y gall y cyfryngau lywio chwedlau am y dyddiau a fu. Wrth drafod gornest rhwng Cymru a'r Alban, eglura Edwards,

²⁰⁷ Ibid, t. 96.

²⁰⁸ Ibid, t. 141.

²⁰⁹ Ibid, t. 208.

Pawb, i radde, wedi anghofio 'ma Gerald sgoriodd y cais yna yn Murrayfield – John Taylor sy wedi derbyn y clod a'r anrhydedd gan ma'r gic seliodd y fuddugoliaeth. Yna, wyth mlynedd yn ddiweddarach, mewn gêm gartre yn Wembley, Scott Gibbs o'dd yn ca'l ei glodfori am chwalu amddiffyn Lloegr er ma' trosiad Neil Jenkins sicrhaodd y fuddugoliaeth. Rhyfedd o fyd!²¹⁰

Gyda mwy fyth o gefnogwyr yn cael gweld y gornestau ar y teledu, cynyddodd ddiddordeb y wasg hefyd, gan olygu fod rygbi yng Nghymru wedi'i phoblogeiddio i'r fath raddau nes iddi ddod yn ffenomen genedlaethol, ac yn rhan annatod o'r hunaniaeth Gymraeg i lawer. Yn wir, dadleua Gareth Edwards fod dylanwad y cyfryngau ar gwrs rygbi yng Nghymru yn fawr, gyda mwy o sylw'n cael ei roi ar raddfa fyd-eang i'r chwaraewyr a'r hyfforddwyr.²¹¹

Yn eironig ddigon, dadleua Edwards ymhellach mai'r llwyddiant hwn a arweiniodd at ddangos rhagor fyth o gampau ar y teledu, gan beri bod rhai o chwaraewyr y dyfodol yn troi at gampau eraill llai traddodiadol na rygbi.²¹² Dyma'r math o graffu ar fyd rygbi sy'n rhoi dilysrwydd i'r gwrthrych a'i gyfrol.

Neilltuir tudalennau olaf y gyfrol i roi sylwadau am y cyfryngau o bellter ymddeoliad, yn hytrach na mewn cyfnod lle'r oedd Gareth Edwards yn gyson o dan y chwyddwydr. Erbyn hyn, cyfranna Edwards yntau at dudalennau chwaraeon y *Western Mail*. Caiff straeon 'poblogaidd' y wasg sylw ganddo.²¹³

Mae'r gyfrol hon yn nodweddiadol o'r math o hunangofiannau y mae Ned Thomas yn rhoi dilysrwydd iddynt, sef y rhai sy'n gofyn bod y gwrthrych yn rhoi ystyriaeth i ddau gyfnod. Meddai, 'Mae angen dwy oes, un i gael y profiadau a'r llall i geisio eu deall.'²¹⁴

Yn sicr, ceir gan Gareth Edwards ddau gyfnod – cyfnod y digwyddiadau a chyfnod yr adrodd amdanynt. Mae hyn yn cryfhau'r gyfrol hon, yn sicr, gan y cawn sylwadau cyn-

²¹⁰ *Ibid*, t. 143.

²¹¹ *Ibid*, t. 209.

²¹² *Ibid*.

²¹³ *Ibid*, t. 213.

²¹⁴ Ned Thomas, *Bydoedd: Cofiant Cyfnod* (Talybont, 2010), t. 18

chwaraewr am oes fodern rygbi yng Nghymru a sylwadau ar gymdeithas y cyfnod y chwaraeodd ynddo. Gwneir hyn yng nghyd-destun y cyfryngau, ac yntau bellach yn un ohonynt. O'r holl hunangofiannau chwaraeon Cymraeg dan sylw yn y bennod hon, hon yw'r gyfrol sy'n dangos orau y berthynas rhwng iaith, diwylliant a chwaraeon yng nghyd-destun y cyfryngau.

Robin McBryde

Un elfen o hunangofiant Robin McBryde, *Y Cymro Cryfa* (gyda Lynn Davies) sy'n wahanol i'r rhan fwyaf o hunangofiannau eraill yw'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r gyfrol. Mae hyn, o bosib, yn dyst i'w boblogrwydd eang fel cymeriad fel ei fod yn teimlo y gallai apelio at y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg. Ffenomen ddiweddar ydyw hon, gyda Nigel Owens ymhlith yr enwogion eraill sydd wedi cyhoeddi fersiynau yn y ddwy iaith. Rhydd McBryde resymau dros lunio fersiwn Saesneg, ond nid yw'r un o'r gwrthrychau eraill yn cynnig esboniad. Am y rheswm hwnnw y penderfynais ganolbwyntio ar y ddwy gyfrol yn yr achos hwn.

Yn fersiwn Saesneg *Y Cymro Cryfa*, sef *My Story So Far – Staying Strong*, rhydd ei gyfiawnhad dros gyfieithu ac addasu'r gyfrol. Mae modd dadlau, wrth gwrs, mai cymhelliad ariannol sydd y tu ôl i'r penderfyniad. Meddai,

When Y Lolfa, the Welsh publishing company, first asked me early in 2006 whether I'd like to write my autobiography my first reaction was to doubt whether there would be much interest in a book about a retired rugby hooker from North Wales. Yet the more I thought about the matter I realised that it was perhaps because I came from a comparatively unfashionable area, as far as top-class rugby in Wales is concerned, that I should consider putting pen to paper.²¹⁵

Ond rhydd y paragraff isod esboniad pellach a mwy personol dros gyfieithu'r gyfrol:

I was approached by many non-Welsh-speaking friends and colleagues who told me they would have really liked to know what I had to say about various matters and

²¹⁵ Robin McBryde (gyda Lynn Davies), *Staying Strong: My Story So Far* (Talybont, 2007), t. 6.

events in that book. Others kindly mentioned that they had been given to understand that the book was of great interest to followers of rugby in Wales and beyond and that it should be translated into English.²¹⁶

Dyma ddadl a fu ynghylch llyfrau Cymraeg ers tro byd. Gall cylch llenyddol Cymru a'r iaith Gymraeg fod mor fewnblyg weithiau fel nad yw'r cynnyrch yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymreig. Ond yn eironig, am yr union reswm hwn y mae natur arbennig i gyhoeddiadau Cymraeg. Unwaith y bydd awdur yn torri'n rhydd ac yn mentro y tu allan i'w fyd Cymreig, fe gaiff ei feirniadu am fradychu'r iaith, er bod budd amlwg o fentro i dir newydd. Dyma bwnc y drafodaeth gan Tudur Hallam yn ei erthygl ar gyfieithiadau o waith Menna Elfyn.²¹⁷

Aeth McBryde ymhellach na chyfieithu'r gyfrol, gan ychwanegu dimensiwn newydd i'r llyfr. Rhwng llunio'r ddwy gyfrol, roedd eisoes wedi dod yn hyfforddwr, ac felly yn y fersiwn Saesneg, ceir ei argraffiadau o fyd rygbi o'r ochr arall, fel petai. Dyma'r pellter, o bosib, y cyfeiria Ned Thomas ato. Prin yw'r datganiadau newydd a geir gan y testun, ond fe'u cyflwynir mewn goleuni newydd bob tro.

Er nad yw ei fro yn ymddangos yn elfen ganolog o'i gymeriad, ceir ambell sylw ganddo o bellter y gorffennol am fro ei febyd. Cyfeiria at edrych yn ôl ar ei ddyddiau yn Llanfechell 'trwy'r sbectol binc'.²¹⁸ Ychwanega mai'r 'atgo rwy'n ei drysori mwya yw'r rhyddid y byddwn yn ei gael i grwydro'r fro ac i fwynhau'r bywyd gwledig hwnnw...'²¹⁹ Er nad yw'n trafod crefydd ryw lawer yn y gyfrol hon, bu Llanfechell yn allweddol yn nhwf Anghydffurfiaeth yng Nghymru, ac yn arbennig ar fater dirwest. Yn y pentref hwnnw y cafwyd 'yn 1835 gymdeithas lwyrymwrthodol gyntaf Cymru', yn ôl John Davies.²²⁰ Hybu

²¹⁶ Ibid, t. 6.

²¹⁷ Tudur Hallam, 'When a Bardd Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts', yn Daniel G. Williams (gol.), *Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend, 2010), tt. 89-111.

²¹⁸ Robin McBryde (gyda Lynn Davies), *Y Cymro Cryfa'* (Talybont, 2006), t. 12.

²¹⁹ Ibid, t. 12.

²²⁰ John Davies, *Hanes Cymru*, t. 361.

moesau'r gymdeithas oedd y nod i ddechrau, ond gyda chefnogaeth ehangach yr

Anghydfurfwyr a gwleidyddion, trodd y frwydr yn ymgyrch wleidyddol.

Ychydig iawn y cyfeirir at grefydd yn y gyfrol hon, ac eithrio sylw ffwrdd-â-hi am fynychu'r Ysgol Sul yng Nghapel Jerusalem. Er bod yr Ysgol Sul wedi chwarae rhan ganolog yn ei fagwraeth, dywed fod teithio yng nghar ei gymydog yn fwy cofiadwy na'r hyn a ddysgid yn y dosbarthiadau.²²¹ Dyma arwydd o ddirywiad crefydd y cyfeiria Nigel Owens ato'n fanylach.

Rhydd ddarlun o'r Cymoedd drwy ei lygaid ei hun yn ystod ei gyfnod yno'n gweithio i gwmni SWALEC ar ddechrau ei yrfa fel chwaraewr rygbi. Cymherir yr hyn a brofai â'i gymdeithas ei hun gartref yn y gogledd.

O 'mhrofiad i yn y Rhondda mae'r bobl yno'n fwy parod i dderbyn rywun [sic] dieithr yn syth i gymdeithas neu gwmni arbennig nag yr ydan ni yn y gogledd. Mi rydan ni, falle, yn fwy gwylidwrus i gychwyn ac yn cymryd mwy o amser cyn gwneud i rywun deimlo'n gartrefol.²²²

Aeth yn drydanwr i'r Cymoedd, a'i deulu wedi'i wreiddio yn nhraddodiad y chwareli.

Ychydig iawn o Gymraeg a glywai ar y stryd yn y Cymoedd, a'i unig gyfle bron i ddefnyddio'r iaith oedd wrth chwarae i Abertawe. Bu'n byw yn y ddwy ardal, ond penderfynodd nad oedd yr un ohonynt yn ddigon Cymraeg, ac aeth i fyw i gymuned Gymraeg Llandysul, a'i gael ei hun unwaith eto'n byw mewn cymdeithas glòs a Chymraeg ei hiaith.

Dadleua John Davies fod astudiaeth o feysydd glo de Cymru yn allweddol wrth geisio llunio delwedd o Gymreictod sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru.²²³ Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt y cyfnod pan fu McBryde yn byw yno.

Ychydig iawn a sonnir am addysg ar y cyfan. Mae'r hyn a ddywedir yn adlewyrchiad positif o'i addysg ym mhentref Llanfechell. Symudodd yn ddiweddarach i ysgol gynradd Cae

²²¹ Robin McBryde (gyda Lynn Davies), *Y Cymro Cryfa'*, t. 12.

²²² Ibid, t. 29.

²²³ John Davies, *Hanes Cymru*, t. 480.



Top am mai ei dad oedd prifathro newydd yr ysgol. O ystyried traddodiad yr ardal, nid yw'n syndod mai pêl-droed oedd camp yr ysgol ar y dechrau, er mai ar iard goncrit y chwaraeid.²²⁴

Ar dir Prifysgol Bangor y chwaraeid rygbi ar y cyfan, am nad oedd glaswellt yn agos i'r ysgol.²²⁵

Roedd tipyn mwy o fri ar bêl-droed Adran Gyntaf Lloegr yn y gogledd pan oedd McBryde yn blentyn. Cyfeddyf mai ychydig iawn o rygbi ar y lefel uchaf a welsai cyn symud i'r De i ymuno â chlwb Abertawe. Mae'n debyg bod a wnelo hynny â'r pellter daearyddol rhwng ei gartref a rhai o dimau pêl-droed gogledd orllewin Lloegr. Roedd eisoes wedi cynrychioli tîm dan 21 Cymru, ac wedi chwarae yn y de, ond McBryde oedd yr unig chwaraewr yn y garfan bryd hynny nad oedd yn cynrychioli tîm ar y lefel uchaf yng Nghymru.

Er ei brofiadau hapus yn yr ysgol gynradd, i'r gwrthwyneb yr oedd ei argraff o Ysgol Uwchradd Tryfan. Cyfeddyf iddo fod yn 'dipyn o rebel', a bod hynny wedi suro'i gyfnod yn yr ysgol honno.²²⁶ Yn yr ysgol honno y plannwyd y duedd ynddo i frwydro yn erbyn y sefydliad. Serch hynny, nodir ei hoffter o grefft a Chymraeg.²²⁷

O ran y Gymraeg a Chymreictod, fe ddaeth un o brofiadau mwyaf cofiadwy McBryde ym myd rygbi pan oedd Steve Hansen wrth y llyw gyda Chymru. Roedd hwnnw'n annog McBryde i ddyfeisio codau yn Gymraeg ar gyfer leiniau fel arf yn erbyn y gwrthwynebwy. Trueni'r sefyllfa yw bod Hansen wedi cyrraedd y tîm cenedlaethol ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o'r Cymry Cymraeg bellach wedi ymddeol. Dyma ddangos o bosib nad yw'r Cymry fel cenedl bob amser yn gwerthfawrogi defnyddioldeb ac ymarferoldeb y Gymraeg. Un ffordd wreiddiol ac unigryw arall a oedd gan Hansen o danio'r chwaraewyr oedd trwy eu

²²⁴ Robin McBryde (gyda Lynn Davies), *Y Cymro Cryfa'*, t. 12.

²²⁵ *Ibid*, t. 13.

²²⁶ *Ibid*, t. 15.

²²⁷ *Ibid*.

galw'n 'cottage burners' cyn iddynt gamu i'r cae.²²⁸ Gellir cymharu agwedd Hansen at Gymreictod ag agwedd Mike Smith, rheolwr tîm pêl-droed Cymru yng nghyfnod Dai Davies.

Gydag amaeth yn wynebu trafferthion mewn rhannau helaeth o gefn gwlad Cymru yn sgil uno tiroedd, gwerthwyd ffermydd, a olygai fod mewnlifiad uwch nag arfer o Saeson yn chwilio am dai i'w rhoi ar osod ym misoedd yr haf. Cododd pris tir yn y 1970au, a olygai bellach na allai'r Cymry fforddio ei brynu. Fel y dadleua John Davies, 'Bu'r gwladychu Seisnig yng nghefn gwlad Cymru mor helaeth nes peri newid yng nghymeriad ethnig aml i fro.'²²⁹

Ymddengys, drwy gyfrol McBryde, i'r broses o gyflwyno'r oes broffesiynol i fyd rygbi gael cryn effaith ar genedligrwydd yn yr un modd, gan i gymaint o dramorwyr gyrraedd er mwyn ennill mwy o arian, a rhai ohonynt yn cynrychioli Cymru yn y pen draw. Dan hyfforddiant Graham Henry, cyflwynwyd dau chwaraewr anghymwys o Seland Newydd mewn sefyllfa a elwid yn 'Grannygate'. Taenodd gwmwl dros y gamp yng Nghymru, ac fe gafodd y cyfryngau dipyn o sbri o'r herwydd. Cynyddodd nifer y tramorwyr yng Nghymru'n sylweddol o'r herwydd. Ar y llaw arall, hwn oedd cyfnod cryfhau Cymreictod Llanelli, gyda'r clwb yn mabwysiadu 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan fel cân swyddogol, a hynny ar gais McBryde.²³⁰

Wrth drafod ei genedligrwydd mewn cyd-destun Prydeinig y daw ei wir deimladau i'r amlwg. Nid yw'r Cymro gwladgarol hwn yn Brydeiniwr o gwbl a llwyddodd i'w gyflwyno'i hun yn Gymro balch mewn cyd-destun hollol Brydeinig gyda'r Llewod, fel y gwnaeth Robert Croft i raddau tra'n cynrychioli Lloegr ar y cae criced. Yn wir, cymharai Croft y profiad o gynrychioli Lloegr ar y cae criced â chynrychioli'r Llewod ar y cae rygbi.

²²⁸ Robin McBryde (gyda Lynn Davies), *Staying Strong: My Story So Far*, t. 159.

²²⁹ John Davies, *Hanes Cymru*, t. 607.

²³⁰ Robin McBryde (gyda Lynn Davies), *Y Cymro Cryfa*, t. 100.

Cawn hanesion McBryde y Cymro ar daith gyda'r Llewod yn Ne Affrica yn 2001.

McBryde oedd yr unig Gymro Cymraeg ar y daith cyn i Scott Gibbs ymuno'n ddiweddarach fel eilydd. Y bachwr, felly, oedd yn gyfrifol am gyflwyno'i ddiwylliant a'i iaith i Dde Affrica ac i weddill y byd. McBryde hefyd oedd yn cael ei gyfweld gan y wasg a'r cyfryngau Cymraeg. Wrth i'r garfan eu cyflwyno'u hunain ar raglen deledu, penderfynodd McBryde ei gyflwyno'i hun yn Gymraeg. Gofynnwyd i'r chwaraewyr pa un gair sy'n eu hysbrydoli ar y cae. Ateb McBryde oedd 'Sais'.²³¹ Un o'r profiadau mwyaf pleserus iddo ar daith oedd cael cyfarch Haka'r Maori yn Gymraeg yn Seland Newydd.

Unwaith eto wrth gofio'r hyn a ddywed Ned Thomas am y ddwy oes, cawn ddarlun o'r byd rygbi drwy lygaid McBryde yr hyfforddwr. Daw'n amlwg fod McBryde wedi dechrau teimlo bod ganddo gyfrifoldeb fel hyfforddwr gyda thîm Cymru i ennyn ymdeimlad o Gymreictod ymhlith y chwaraewyr. Cyfeiria'n benodol at ddau o'i gyd-chwaraewyr o Loegr, Tony Copley a Rupert Moon, a benderfynodd gynrychioli Cymru. Mae'n feirniadol o'r ddau yn *Y Cymro Cryfa*, gan honni na allent deimlo'r un balchder â gweddill y tîm. Yn *Staying Strong*, nodir edmygedd McBryde o'r ddau am ddewis chwarae dros Gymru, eu gwlad fabwysiedig, a chyfeiria at eu cyfraniad fel aelodau gwerthfawr o'r tîm. Cyfeddyf nad oedd yn adnabod y chwaraewyr yn ddigon da ar y dechrau i allu gosod ei ragfarn o'r neilltu.

Roedd gan y chwaraewyr yng ngharfan Cymru enwau barddol, hyd yn oed, trefn a gyflwynwyd gan Hansen ei hun. Ymgais oedd hyn i ennyn ymdeimlad o genedlaetholdeb diwylliannol. Byddai hynny hefyd yn ffordd o sicrhau bod y chwaraewyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ac arwyddocâd eu treftadaeth. Yn eu tro, byddai'r chwaraewyr hefyd yn dysgu am ddiwylliant y gwledydd y byddent yn teithio iddynt, a hynny'n bennaf oherwydd dylanwad Hansen (a'i gynorthwydd, yr Awstraliad Scott Johnson). Meddai McBryde am

²³¹ *Ibid*, t. 149.

Hansen, ‘...he considered that the amount of passion we could bring to the Welsh cause was directly related to the “Welshness” we conveyed.’²³²

Cafodd McBryde y cyfle i osod ei farc ar y garfan genedlaethol yn fuan ar ôl dod yn hyfforddwr, ar daith i Ariannin, ac i ardal Gymreig Patagonia. Cryfhaodd hyn yr ymdeimlad o genedligrwydd ymhlith y garfan. ‘Cymreictod 80 munud’ oedd gan lawer o’r chwaraewyr, ac nid oedd nifer wedi dod i gyswllt â’r diwylliant ar ei gryfaf fel hyn. Sonnir am drefnu sesiwn hyfforddi yn y Gaiman i’r bobl leol, a’r angen i gael cyfieithydd ar y pryd yno er mwyn i McBryde gael siarad Cymraeg. Cymraeg a Sbaeneg oedd iaith y sgwrs y diwrnod hwnnw, wedi’i chyfieithu i Saesneg.

Yn eironig, roedd McBryde ym Mhatagonia pan glywodd ei fod yn cael ei dderbyn i’r Orsedd. Derbyniwyd McBryde yn aelod o’r Orsedd, ac yn ddiweddarach yn Geidwad y Cledd, fel olynnydd i’r diweddar Ray Gravell yn 2007. Yn wir, dyma adleisio barn Grav:

Mi gefis i’n synnu o glywed y newydd, achos do’n i erioed wedi dychmygu y baswn i’n deilwng o’r fath glod. I’r Cymro Cymraeg, mae’n debyg mai hon yw’r anrhydedd fwy a gall o ei derbyn y tu allan i’w briod faes, anrhydedd sydd yn gydnabyddiaeth cenedl.²³³

Rhydd fwy o le yn y fersiwn Gymraeg i drafod yr anrhydedd hon, er ei fod yn neilltuo cryn dipyn o le yn y fersiwn Saesneg hefyd. Rhydd fwy o bwyslais ar deimladau ei deulu yn y Saesneg, tra bo’n cymryd y balchder hwnnw’n ganiataol yn y Gymraeg. Cyfeirir at ‘swydd Orseddol’ Ray Gravell yn y Gymraeg, tra esbonia yn Saesneg ei fod yn ‘Keeper of the Sword’. Cynhwysir ei enw barddol ‘Robin o Fôn’ yn y Gymraeg, ond ni cheir hynny yn Saesneg. Pwysleisir emosiwn y profiad yn y Gymraeg mewn darn nas ceir yn Saesneg ganddo. Dyma awgrym fod McBryde yn teimlo mai’r Cymry Cymraeg yn unig sy’n medru uniaethu â’r fath emosiwn.

²³² Idem, *Staying Strong: My Story So Far*, t. 140

²³³ Idem, *Y Cymro Cryfa*, t. 183

Am fod y tywydd mor anwadal, bu'n rhaid symud y seremoni urddo o'r Maes i'r Babell Lân, ac am a wn i mi arweiniodd hynny at awyrgylch cartrefol braf heb gymaint o rwysg ag arfer falle.²³⁴

Mae'n rhyfedd na thrafodir yr anthem fel y cyfryw yn y gyfrol hon, o astudio'r cyfrolau eraill. Agwedd ddiymhongar sydd gan McBryde wrth gofio'n ôl i'r adeg y cafodd ei ddewis i gynrychioli Cymru. Meddai mai'r 'hyn a'n synnodd i oedd bod cymaint o bobl yng Nghymru wedi'u plesio gan y newyddion.'²³⁵

Sonnir tipyn am ddiwylliant yn y gyfrol, gan gyfeirio at ei ymrwymadau yn sgil bod yn chwaraewr rygbi ac yn ffigwr cyhoeddus amlwg. Roedd McBryde yn ymwybodol iawn o'r 'Pethe' pan oedd yn blentyn, ond fe ddiflannodd y diddordeb hwnnw wrth iddo droi at fyd rygbi, yn eironig ddigon. Serch hynny, parhaodd ei ddiddordeb drwy fod yn drefnydd ar amryw gorau tîm Cymru a'r Llewod ar deithiau tramor.

Oherwydd ei genedligrwydd a'i hoffter o'r diwylliant, gall McBryde fod yn feirniadol ar adegau o unigolion ym myd rygbi sydd naill ai'n cefnu ar yr iaith a'r diwylliant, neu'n eu trin yn ystrydebol. Cawn hanes Gareth Jenkins, cyn-hyfforddwr Llanelli a'r Scarlets, yn annog ei chwaraewyr i ganu emynau cyn gornestau i'w hatgoffa o'u gwreiddiau, a hynny'n ystrydebol braidd. Cymharer hyn â Carwyn James flynyddoedd ynghynt yn cyd-ganu caneuon Dafydd Iwan â Ray Gravell yn yr ystafell newid.

Ceidw McBryde yn driw i'w dafodiaith drwyddi draw, ond nid yw'n taro deuddeg ar adegau, a hynny, mi dybiaf, oherwydd dylanwad Lyn Davies fel cyd-awdur. Dyma amlygu'r berthynas ddryslyd honno unwaith eto. Nid ydyw, serch hynny, yn tarfu ar lif y llyfr, ac mae'r stori'n gredadwy ac yn ddarllenadwy hyd y diwedd. Un amrywiad sy'n amlygu'r diffyg cysondeb ieithyddol hwn yw'r defnydd o'r terfyniadau lluosog '-au', '-a' ac '-e'.

²³⁴ Ibid.

²³⁵ Ibid, t. 54.

Mae ei dafodiaith yn gymysgedd o'r de a'r gogledd i raddau helaeth, sy'n dangos ei fod yn gyfarwydd â siarad yr iaith ledled Cymru yn gwbl gyfforddus. Un o'r eithriadau amlycaf yn nhafodiaith McBryde yw ei ddefnydd o'r gair 'falle', sy'n ddeheuol, tra y byddai 'falla' neu 'ella' yn adlewyrchu ei dafodiaith ogleddol yn fwy. Bu McBryde yn chwarae yn y de ers pymtheg mlynedd, ac felly mae hi'n anochel y bydd rhai o arferion ieithyddol Cymoedd y De yn dylanwadu arno o dro i dro. Hefyd, defnyddia 'yn' yn lle 'fy', sydd yn ddiau yn rhan o dafodiaith y de.

O ran y cyfryngau, cyfeddyf McBryde fod S4C wedi dylanwadu'n fawr ar ei yrfa fel chwaraewr ac ar ei Gymreictod ar hyd y blynyddoedd. Drwy'r sianel honno y daeth i sylw'r genedl am y tro cyntaf, fel chwaraewr rygbi ac fel cystadleuydd yn 'Wales' Strongest Man'.

Meiddia McBryde ymdrin â pherthynas Cymru â Lloegr. Ceisia ddadansoddi ymateb y Cymry a'r Saeson i'w gilydd yng nghyd-destun chwaraeon ar y cyfan, gan honni bod y cyfryngau'n tanio'r berthynas sydd eisoes yn chwervw. Meddai, 'History has conditioned us to believe that victory against England will always be sweeter and our supporters, along with our national press, contribute to that psyche.'²³⁶

Am y cyfryngau eu hunain, dywed McBryde fod ganddynt rôl i'w chwarae wrth geisio cynnal ysbryd a brwdfrydedd y Cymry a'u balchder yn y tîm cenedlaethol. Yn sicr, er mwyn esgor ar gyfnod llwyddiannus yn hanes rygbi yng Nghymru, rhaid wrth chwyldro diwylliannol, ac mae hynny'n cynnwys y cyfryngau.²³⁷

Mae gwerth diwylliannol sylweddol i'r ddwy gyfrol hyn, felly, gan roi darlun cyflawn o ddwy ochr cymeriad y Cymro dwyieithog o ran ei fro, ei iaith, ei addysg, ei Gymreictod, ei grefydd a rhywfaint o'i wleidyddiaeth. Mae'r ddwy gyfrol yn apelio at gynulleidfaoedd gwahanol, ond rygbi a hunaniaeth y Cymry yw'r llinynnau sy'n eu clymu ynghyd, gan beri bod y ddwy gynulleidfa'n medru mwynhau'r hyn sydd gan y gwrthrych i'w ddweud.

²³⁶ Idem, *Staying Strong: My Story So Far*, t. 197.

²³⁷ Idem, *Y Cymro Cryfa*, t. 223.

Nigel Owens

Er mai hunangofiant ydyw *Hanner Amser* (gyda Lynn Davies) gan y dyfarnwr rygbi Nigel Owens, defnyddia ffurf y dyddiadur i gyflwyno'r gyfrol, gan dynnu ar ddau ddigwyddiad arwyddocaol yn ei fywyd. Ei ymgais i gyflawni hunanladdiad ym 1996 yw'r cyntaf, a'r ail yw cyhoeddi hanes ei yrfa a'i fywyd yn 2008. Mae'r darn yn gyfuniad o'i deimladau ar y pryd a'i feddyliau wrth lunio'r gyfrol. Caiff ei ganmol gan Lowri Wyn Bevan am ei onestrwydd a'i ddiffuantrwydd, a'i resymau personol dros lunio'r gyfrol. Meddai fod 'hynny ynddo'i hun yn chwa o awyr iach mewn oes lle mae 'enwogion' yn cyhoeddi hunangofiannau yn unig er mwyn gwneud arian a dim mwy.'²³⁸

Nid er mwyn ennill arian yr ysgrifenna unrhyw un hunangofiant yn y Gymraeg. Prif werth y gyfrol hon fel ffynhonnell yw'r ffaith mai Owens oedd y person cyntaf yn y byd rygbi proffesiynol i gyhoeddi ei fod yn hoyw. Mae elfen o'r hyn a elwir gan Woolridge yn 'confessional' yn y gyfrol hon, felly. Gellir dadlau mai hon yw'r gyfrol gyffesol gyntaf ymhlith y casgliad o hunangofiannau chwaraeon Cymraeg.

Cyfeiria Owens at gael sylw gan y cyfryngau yn sgil ei gyhoeddiad, ond esbonia na ddaeth y sylw tan flwyddyn a mwy ar ôl hynny. Ymddangosodd stori yn y *Wales on Sunday* yn honni i'r papur gyfweld ag ef, ond roedd y cyfan wedi'i ysgrifennu ar sail cyfweliad a wnaeth ar gyfer Radio Wales fisoedd ynghynt.

Esbonia Owens, yng ngoleuni ei benderfyniad i 'ddod allan', ei fod wedi amau a ddylai lunio'r gyfrol o gwbl.

Yn sicr do'n i ddim am achosi mwy o ofid i Mam a 'Nhad a do'n i ddim yn siŵr chwaith a o'n i am i bawb wybod am 'y mywyd preifet i. Ond do'n i ddim isie gweld pobol erill yn diodde'r un problem ag a wnes i ac ro'n i'n gwbod y bydde 'mhrofiade i'n gallu bod o gymorth i rai fydde mewn sefyllfa debyg.'²³⁹

²³⁸ BBC Cymru'r Byd: Llyfrau, <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/853-nigel.shtml> [Fel yr oedd ar Orffennaf 1, 2010].

²³⁹ Nigel Owens (gyda Lynn Davies), *Hanner Amser* (Talybont, 2008), t. 92.

Mae gwrywdod yn thema ymchwil gyffredin, lle caiff dynion, yn enwedig dynion ym maes chwaraeon, eu portreadu fel bodau cryf a pharchus yn y gymdeithas sy'n cyfleu nerth a chadernid. Pan fo dynion yn dangos rhinweddau sy'n groes i'r rhain, cânt eu beirniadu a'u pardduo mewn rhai achosion. Meddai Boyle a Haynes, 'Where a sportsman's masculinity is brought into question.... the abuse gains its power from society's wider prejudice against gay and lesbian groups.'²⁴⁰

Ar y cyfan, mae achos Owens yn gwrthbrofi barn Boyle a Haynes gan nad ydyw, ar y cyfan, wedi wynebu beirniadaeth ar raddfa eang, os o gwbl, ar sail ei rywioldeb. Tystia hyn, mae'n siŵr, i boblogrwydd Owens a'i safle fel cymeriad parchus yn y gymdeithas. Ond roedd ei sefyllfa'n anos hefyd oherwydd y ffaith ei fod yn ffigwr cyhoeddus.

Fe ddes i i benderfyniad yn gynnar wedyn y bydde 'dod mas', a chyhoeddi ble ro'n i'n sefyll o ran 'yn nheimplade rhywiol, yn llawer gwell na bod pobol yn dod i wybod trwy ryw stori mewn rhyw bapur newydd tabloid. Nid chwifio rhyw faner ar ran pobol hoyw odd y bwriad ond yn hytrach jest bod yn onest.'²⁴¹

Mae nifer o gonfensiynau'r hunangofiant i'w gweld yn y bennod gyntaf, wrth i Owens drafod rhinweddau'r fro, gwreiddiau a'r teulu. Fe'n cyflwynir i aelodau'r teulu ac i rai o gymeriadau ei filltir sgwâr, gan osod y cyfan mewn cyd-destun daearyddol. Dywed Owens mai 'bachan y filltir sgwâr ydw i yn y bôn a fyddwn i byth isie gadel yr ardal lle ces i 'magu'.²⁴²

Ceir llawer iawn o ddadansoddi rygbi drwy lygaid y dyfarnwr, a thrwy hynny, fe geir nifer o gyfeiriadau at y defnydd o'r Gymraeg ar y cae gan Owens ei hun a'r chwaraewyr. I Owens, mater o deimlo'n naturiol yw siarad Cymraeg ar y cae rygbi, ond nid profiadau cadarnhaol a gafwyd ganddo bob tro.

²⁴⁰ Raymond Boyle a Richard Haynes, *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture*, t. 136.

²⁴¹ Nigel Owens (gyda Lynn Davies), *Hanner Amser*, t. 86.

²⁴² *Ibid*, t. 89.

Rwy wedi clywed nad yw rhai pobol yn hapus mod i'n siarad Cymraeg ar y cae...
Nage trio neud pwynt y bydda i wrth siarad Cymraeg 'da nhw, yn hytrach rwy'n neud
'ny am ei fod e'n beth naturiol i fi 'i neud.²⁴³

Er nad yw'n ymddangos bod crefydd yn chwarae rhan ganolog yn ei fywyd, cyfeiria
at ganu mewn triawd yn yr Ysgol Sul ac mewn cymanfaoedd lleol. Cofia hefyd iddo ddarllen
ambell adnod yn y capel. Cyfeiria ymhellach at gau'r capel lleol erbyn hyn, a'r ffaith i'r
adeilad gael ei werthu i ffermwr lleol. Siom i Owens yw'r ffaith nad yw crefydd a'r Ysgol
Sul yn chwarae rhan gyn bwysiced ymhlith to iau'r gymdeithas ym Mynyddcerrig erbyn hyn.
Meddai, 'Do's dim rhyfedd nad yw plant na phobol ifanc yn gwbod geiriau rhai o'n hemynau
mwyaf fel cenedl.'²⁴⁴

Yn y 1920au y mae gwreiddiau'r cyswllt rhwng canu emynau a byd y campau, ac yn
enwedig y byd rygbi. Gwelir y berthynas hon orau yn y dosbarth gweithiol. Yn y cyfnod
hwn, dywedodd gohebydd o Loegr fod islais crefyddol i'r profiad o glywed yr anthem yn cael
ei chanu a bod yr anthem hithau'n 'not so much a challenge to the enemy as a universal and
tremendous prayer for their overthrow'.²⁴⁵

Gellir ymestyn y ddadl honno, o bosib, a'i chysylltu â chenedligrwydd y maes rygbi,
lle nad yw'r dorf bob amser yn gwybod y geiriau i'r hen ffefrynnau a gysylltir erbyn hyn yn
fwy cyffredin â byd chwaraeon na chrefydd. Gellir ystyried bod dirywiad ym myd crefydd yn
batrwm nodweddiadol o'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Aeth y dirywiad hwn law yn llaw â
gwanhau'r Gymraeg, sef iaith y rhan fwyaf o wasanaethau'r capel. Mewn ardaloedd gwledig,
fodd bynnag, roedd traddodiad y capel yn gryfach nag yn yr ardaloedd diwydiannol.²⁴⁶

Disodlwyd y Saboth traddodiadol yng Nghymru gan ddydd Sul nodweddiadol gyfandirol, y
mae K.O. Morgan yn ei weld fel 'new battleground for the age old conflict between the

²⁴³ Ibid, t. 65.

²⁴⁴ Ibid, t. 13.

²⁴⁵ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 61.

²⁴⁶ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales*, t. 352.

pulpits and the forces of secularism and material comfort'.²⁴⁷ Agorwyd sinemâu ar ddydd Sul, yn ogystal â chanolfannau ffurfiau eraill ar adloniant. Yn ogystal, diddymwyd Deddf Cau ar y Sul 1881 yn raddol dros gyfnod o flynyddoedd hyd at basio deddf er mwyn cael agor ar y Sul unwaith eto ym 1961. Daeth siopa ar y Sul yn ffenomen newydd hefyd.²⁴⁸ Honnir gan J. Graham Jones ymhellach mai'r hyn a fu'n gyfrifol am ddirywiad crefydd oedd 'rampant individualism' yn ystod yr wythdegau.²⁴⁹ Câi ardaloedd gwledig megis Mynyddcerrig eu heffeithio'n waeth gan gau'r capeli nag ardaloedd eraill gan fod y capel yn ganolbwyt i'r gymdeithas ynghyd â'r ysgol gynradd.

Yn groes i'r hyn a ddisgwylir yng Nghwm Gwendraeth, ac yn groes i dystiolaeth Stephen Jones a Ray Gravell ynghylch natur y gymuned a'i diddordeb yn y bêl hirgron, dadleua Nigel Owens nad oedd llawer o fynd ar rygbi ym mhentref Mynyddcerrig ac nad oedd 'tîm rygbi yn y pentre o gwbl, yn wir traddodiad o bêl-droed odd yno'.²⁵⁰

Ymhellach, dadleua Owens nad arf i gadw'r di-Gymraeg draw yw siarad yr iaith ar y cae, a'i fod yn troi at Saesneg pan fydd angen eglurhad ar y tîm cyfan. Meddai, 'Un o 'nghas bethe yw clywed pobol sy'n Gymry Cymraeg rhugl yn siarad Saesneg â'i gilydd'.²⁵¹

Nid yn unig y byd rygbi sy'n mynd â bryd y dyfarnwr o Fynyddcerrig. Nigel Owens yw un o'r ychydig rai sydd wedi creu cyswllt rhwng byd rygbi a'r diwylliant mewn ffordd weithgar, gan iddo ymddangos fel cyd-gyflwynydd ar y rhaglenni poblogaidd ar S4C, *Jonathan a Bwrw'r Bar*, yn ogystal â *Noson Lawen* cyn hynny. Roedd yn allweddol yn yr ymgais i boblogeiddio rygbi ymhlith to iau gwylwyr y sianel, ac fe wnaethpwyd hynny'n lled lwyddiannus ar y dechrau. Yn wir, fe ddaeth Owens yr un mor adnabyddus fel cyflwynydd

²⁴⁷ *Ibid.*

²⁴⁸ *Ibid.*, t. 353.

²⁴⁹ J. Graham Jones, 'Wales since 1900', yn Prys Morgan (gol.), *The Tempus History of Wales: 25,000BC-AD2000*, t. 241.

²⁵⁰ Nigel Owens (gyda Lynn Davies), *Hanner Amser*, t. 17.

²⁵¹ *Ibid.*, t. 66.

teledu ag am fod yn ddyfarnwr, a hynny ymhlith pobl ddi-Gymraeg a ddenwyd i wyllo'r rhaglenni hyn.

Yn wir, roedd gan y rhaglen gymaint o wahanol elfennau nes bod yn rhaid tynnu pobl i mewn o nifer o wahanol agweddau ar y diwylliant a'r cyfryngau. Bu'r sgriptiau ar gyfer y gyfres gyntaf o *Jonathan* yn nwylo'r brodyr Daniel a Matthew Glyn, a'r ail yng ngofal y cyflwynydd a'r cynhyrhydd Kevin Davies a'r cyflwynydd Gary Slaymaker. Dywed Nigel Owens am y brodyr Glyn, 'Mae'n syndod ar un ystyr eu bod nhw wedi ca'l cystal hwyl arni, yn enwedig ar y dechre achos yn y dyddie cynnar dodd dim cliw 'da nhw am rygbi na llawer o ddiddordeb mewn chwaraeon.'²⁵²

Cyfeddyf Owens nad oedd erioed wedi disgwyl dilyn gyrfa ym myd y cyfryngau.²⁵³

Yn bennaf oll, prif rinwedd y rhaglen *Jonathan* oedd ei bod yn tynnu ynghyd y sêr o fyd rygbi a chlybiau a chwaraewyr rygbi cymunedol, ac yn apelio cymaint at y dyn cyffredin ag yr oedd at chwaraewyr, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg. Yn wir, dadleua Owens, '...Dodd byth prinder o glybie na chymdeithase odd yn awyddus i fod yn rhan o'r sbort'.²⁵⁴

Y syndod mwyaf, o bosib, oedd cymaint yr oedd y rhaglen yn apelio at bobl ifanc, a hithau'n cael ei darlledu ar ôl y trobwynt amser oherwydd natur anweddu y sgript. Dyma un agwedd ar y rhaglen y synnwyd Nigel Owens yn ei chylch.

Yr hyn fydde'n rhoi tamed bach o fraw i fi bob amser fydde ca'l plant tuag wyth neu naw mlwydd oed yn dod lan ata i ac yn dweud gymaint ro'n nhw'n joio rhaglen Jonathan....²⁵⁵

Yn arwyddocaol, mae gan raglenni megis *Jonathan* yn arf i roi hwb i'r iaith ymhlith pob oedran. Gweler y drydedd bennod am drafodaeth ehangach ar y pwnc hwn.

Mae *Hanner Amser* yn gyfrol sy'n torri tir newydd yn y Gymraeg am ei bod yn mentro i fanylion mwyaf preifat y gwrthrych, a hynny i raddau llawer iawn mwy helaeth na'r

²⁵² *Ibid*, t. 128.

²⁵³ *Ibid*, t. 136.

²⁵⁴ *Ibid*, t. 132.

²⁵⁵ *Ibid*, t. 133.

un o'r gwrthrychau eraill a fentrodd gyfeirio at ambell ddigwyddiad tywyll yn eu bywydau. Yn hynny o beth, gellir dadlau mai'r gyfrol hon sydd fwyaf tebyg i gyfrol Jimmy Greaves, y personoliaeth chwaraeon cyntaf i fynd ati i lunio cyfrol gyffesol yn Saesneg. Rhydd Owens fewnwelediad i fywyd dyn hoyw ym myd y campau. Yn ogystal, cynigia sylwadau am y gymdeithas Gymraeg a Chymreig yn yr oes ar ôl sefydlu S4C, yn enwedig yng nghyd-destun ei ymwneud â rhai o raglenni cyfoes mwyaf poblogaidd y sianel.

Non Evans

Ym myd y cyfryngau y gwnaeth Non Evans hithau ei henw, fel cyflwynwraig ac fel cystadleuydd ar y gyfres deledu *Gladiators*. Mae hi'n un o'r ychydig fenywod sydd wedi gwneud enw iddi hi ei hun ym myd y campau yng Nghymru. Hi yw'r gyntaf mewn camp flaenllaw a'r aelod tîm merched cyntaf i lunio hunangofiant yn y Gymraeg. Daeth yn adnabyddus ledled y byd erbyn hyn ym meysydd rygbi, jiwdo, reslo a chodi pwysau. Ac eithrio rygbi, mae'r campau'n rhai nad ydynt yn derbyn llawer iawn o sylw'r cyfryngau, a llai fyth yn y Gymraeg, ac yn hynny o beth, mae prinder termau ar gael wrth drafod y meysydd hyn. Oherwydd hynny, nodir termau'r campau hynny gan Evans yn Saesneg. Nodir termau megis *powerlifting, clean and jerk a snatch*.²⁵⁶

Egyr y gyfrol *Non: yn erbyn y ffactore* (gydag Alun Gibbard) gyda limrig gan ffrind i'r teulu a alwai hi'n ewythr, yn clodfori ei llwyddiannau ym myd y campau, ac yn crisialu'r hyn a gyflawnodd yn ystod ei gyrfa.²⁵⁷ Dyma nodwedd ar yr hunangofiant nas ceir yn aml iawn. Caiiff y rhagair nodweddiadol ei hepgor yma, a'r limrig yn ei ddisodli.

Sylwer hefyd mai teitl albwm Edward H. Dafis a ddefnyddir yn is-deitl ar y llyfr hwn. Dyma arwydd, o bosib, fod ganddi dipyn o ddiddordeb yn y diwylliant, er na roddir llawer

²⁵⁶ Non Evans (gydag Alun Gibbard), *Non: Yn erbyn y ffactore* (Talybont, 2010), t. 49.

²⁵⁷ *Ibid*, t. 6.

iawn o le i drafod y diwylliant yn y gyfrol. Ar y cyfan, trafodir ei magwraeth yn Sir Gaerfyrddin, ei gyrfa ym myd y campau a'i gwaith yn y cyfryngau.

Nid hunangofiant chwaraeon Cymraeg nodweddiadol mo hwn, wrth iddi ganolbwyntio ar ei gyrfa ym myd chwaraeon a'r cyfryngau, yn hytrach na chofnodi ei hanes. Trafodaeth eithaf arwynebol o'i magwraeth a'i haddysg a geir, wrth iddi esbonio iddi gael ei geni ym Mhontarddulais ond iddi fynd i'r ysgol leol yn Llanelli gan mai yn yr ardal honno y gweithiai ei thad fel meddyg.²⁵⁸ Yn ddiweddarach, aeth Evans i ysgol breifat St. Michael's yn Llanelli gan fod ei mam yn athrawes yno.²⁵⁹ Mae hi'n unigryw yn y ffaith iddi gael addysg breifat yng Nghymru. Bu'r rheini a aeth i ysgolion bonedd Lloegr yn ddeiliaid ysgoloriaethau chwaraeon ar y cyfan. Yn hynny o beth, nid addysg nodweddiadol Gymreig a gafodd hi, ac nid oes unrhyw atyniad amlwg i'w bro ychwaith. Er bod y teulu'n amlwg yn gefnog, nid oedd y ferch o deulu Cymraeg y tu allan i'r dref am fynd i'r ysgol breifat. Meddai, 'Mae'n siŵr nad oedd St. Mike's yn ddrwg i gyd... Y broblem oedd fy niddordeb i mewn dilyn gweithgareddau tu fas i'r cwricwlwm.'²⁶⁰

Serch hynny, nid profiadau positif o weithgareddau allgyrsiol a gafodd o gwbl. Er bod rhywfaint o sylw i'r diwylliant, ychydig iawn o sylw a roddid i gampau tîm yn yr ysgol. Meddai, 'Roedd tamed bach o siâp ar y gerddoriaeth. Ond am y chwaraeon, wel, doedd dim siâp o gwbl.'²⁶¹

Dyma pam, efallai, iddi droi'n nes at gerddoriaeth yn yr ysgol na chwaraeon. Yn wir, caiff cyfleusterau cerddoriaeth yr ysgol eu canmol ganddi, ac atgofion hapus sydd ganddi o fod yn y côr a'r gerddorfa ar y cyfan.²⁶²

²⁵⁸ Ibid, t. 18.

²⁵⁹ Ibid, t. 30.

²⁶⁰ Ibid, t. 31.

²⁶¹ Ibid.

²⁶² Ibid, t. 39.

Cyfeddyf fod y ffaith ei bod hi'n siarad Cymraeg wedi ei helpu i barhau i fyw o fewn y gymuned Gymraeg, hyd yn oed pan oedd hi mewn ysgol Saesneg ei hiaith.

Er bod St. Mike's yn ysgol breifat, roedd hi wedi ei lleoli yng nghanol awyrgylch Gymreig gorllewin Cymru. Fe helpodd hynny i fi deimlo dipyn mwy 'normal' wrth gymryd fy lle mewn ysgol breswyl breifat... Mae'n wir hyd heddi bo fi'n teimlo'n fwy fel fi fy hunan gyda phobol sy'n Gymry Cymraeg, o ran ffrindiau a chyd - chwaraewyr yn nhîm rygbi Cymru.²⁶³

Ar y cyfan, cafodd ei phrofiad diwylliannol yn Ysgol Howell's gryn ddylanwad arni tra ei bod hi'n dilyn y cwrs Safon Uwch yn y Gymraeg, am mai gwraig y sylwebydd Huw Llywelyn Davies oedd ei hathrawes. Roedd teithiau i weld dramâu Cymraeg yn beth cyffredin yn yr ysgol honno. Wrth drafod ei hathrawes a'i gŵr, dywed Evans,

Sdim cof 'da fi o fod yn starstruck cyn hynny, ond roeddwn i'r noson honno wrth sefyll a siarad gyda Mr Rygbi, Huw Llywelyn Davies. O'r foment honno mlaen, roedd 'da fi fwy o ddiddordeb o lawer yn y sylwebaeth ar gemau rygbi.²⁶⁴

O safbwynt chwaraeon, nid tan iddi fynd i'r coleg yng Nghaerdydd y dechreuodd Evans chwarae rygbi. Yn y 1960au y ceisiwyd rhoi cyfleoedd i fenywod ym myd chwaraeon, a hynny'n unol ag ymgais ehangach i roi lle mwy teilwng i fenywod yn y gymdeithas. Yn y 1970au yn y prifysgolion y sefydlwyd rygbi menywod yn y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd Undeb Rygbi Menywod ym 1983, ac ym 1987 y cynhaliwyd gornest ryngwladol gyntaf Cymru, a honno'n erbyn Lloegr ym Mhontypŵl. Cymru a gynhaliodd Gwpan Rygbi Menywod y Byd cyntaf ym 1991.²⁶⁵ Er bod rygbi menywod yn dal i fod yn gamp gymharol newydd bryd hynny, dim ond un Cwpan y Byd i ddynion a gynhaliwyd erbyn hynny, a hwnnw bedair blynedd yn unig cyn hynny ym 1987.

²⁶³ Ibid, t. 40.

²⁶⁴ Ibid, t. 42.

²⁶⁵ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 103.

Pwysleisir y ffaith mai campau llai traddodiadol yng Nghymru a geid yn yr ysgol breifat. Meddai, 'Daeth cyfle hefyd i drïo ambell gamp nad oeddwn wedi eu trio o'r blaen, yn enwedig lacrosse, sydd bron â bod yn gyfan gwbl gyfyngedig i ysgolion preifat.'²⁶⁶

Enillodd ei chap rygbi cyntaf dros Gymru yn erbyn yr Alban ym 1996, ac erbyn i'r gyfrol gael ei chyhoeddi, roedd hi wedi sgorio 64 cais mewn 87 o gemau, a hi oedd sgoriwr uchaf y byd (pwyntiau a cheisiau) ym maes rygbi menywod pan benderfynodd ymddeol ar ddiwedd 2010.

Rhydd Evans ddarlun o fyd rygbi menywod ac agweddau tuag at y gamp, yn enwedig o du'r cyfryngau. Ar y cyfan, agwedd rywiaethol a oedd gan y cyfryngau tuag at fyd rygbi menywod ar y dechrau. Ymddangosai lluniau awgrymog o'r chwaraewyr ynghyd ag erthyglau di-nod amdanynt. Cyfeiria at ambell bennawd papur newydd a luniwyd amdani yn ystod ei gyrfa, e.e. 'Aint She Scrummy', a oedd yn canolbwyntio ar y ffaith ei bod hi'n fenyw yn hytrach na'i bod yn chwaraewraig rygbi.²⁶⁷ Nid tan ddiwedd y 1990au y cafwyd y sylw hyn hyd yn oed. Yn sgil y sylw arwynebol a gafwyd, crëwyd y ddelwedd fod menywod rygbi'n lesbiaid ac felly, roedd hi'n annhebygol y gallai'r gamp ddatblygu ar raddfa eang o'r herwydd. Dadleua Evans nad oes mwy o ferched hoyw yn y byd rygbi nag yn unrhyw gamp arall trwy'r byd.

Yn ogystal, portreadwyd y menywod fel cefnogwyr yn unig i dîm y dynion, a chafwyd hysbysebion gyda lluniau awgrymog gyda'r pwrpas o ysbrydoli'r dynion i berfformio'n well ar y cae. Doedd braidd dim sylw i ddoniau'r menywod o hyd. Nid tan 2001 y newidiodd y sefyllfa honno, a nodi Evans fod y menywod erbyn hynny yn cael eu trin yn yr un modd â'r dynion o ran cyhoeddusrwydd i'r gamp. Cyfeiria'n benodol at gynnal sesiwn gyhoeddusrwydd cyn cystadleuaeth i fenywod yng Nghymru.

²⁶⁶ Non Evans (gydag Alun Gibbard), *Non: Yn erbyn y ffactore*, t. 39.

²⁶⁷ *Ibid*, t. 80.

Dros dudalen gyfan o'r *Mirror* a phapurau eraill, roedd llun o Clare Flowers, Pip Evans, Dawn Mason a fi a'r stori'n sôn am glybiau Llanelli, Pontypridd, Casnewydd ac Abertawe ... Dyna ddechre ar gael yr un fath o sylw cyn cystadleuaeth fawr ag y byddai'r dynion wedi'i gael...²⁶⁸

Dadleua Boyle a Haynes mai portread y cyfryngau o fyd campau menywod sy'n bennaf cyfrifol am y ffaith na chafwyd datblygiadau helaeth ynddynt ar hyd y blynyddoedd. Cyfeiria'r ddau at chwaraeon fel byd y dynion yng ngolwg y cyfryngau. Mae hyn yn sicr yn wir o edrych ar wefannau BBC Cymru'r Byd a Golwg360, lle na cheir ond llond dwrn o erthyglau'n cyfeirio at fenywod. Does dim adrannau penodol ar gyfer campau menywod gan y BBC y mae modd cael mynediad uniongyrchol iddynt, heb fynd drwy adrannau'r dynion yn gyntaf. Meddai Boyle a Haynes:

Sport has always been a sexual battlefield. The issue of gender and the representation of biological difference between the sexes have long been central to our perceptions of sport in society. The media representation of sport is no different and... no analysis of media sport would be complete without an understanding of how patriarchal structures are constructed through media institutions and their coverage of sport.²⁶⁹

Cafodd Evans gryn dipyn mwy o sylw ar ôl y gyfres *Gladiators*, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Sonia am raglen chwaraeon y cafodd wahoddiad i fod arni ar S4C na chafodd ei chomisiynu yn y pen draw. Ond daeth ei chyfle gyda chwmini 10 i gyflwyno rhaglen rygbi. Roedd yr ymgeiswyr eraill ar gyfer *Y Clwb Rygbi* yn cynnwys menywod a ddaeth yn flaenllaw yn y byd teledu megis Lowri Morgan, Eleri Sion a Sarra Elgan. Pan gafodd Evans y swydd, hi oedd y fenyw gyntaf yng Nghymru i gael swydd fel darlledwraig chwaraeon yn y Gymraeg. Dyma gyfnod penodi Gabby Yorath a Sue Barker i raglenni a fyddai'n draddodiadol wedi cael eu cyflwyno gan ddynion. Roedd Evans eisoes yn darlledu yn y Gymraeg erbyn i'r ddwy hyn ddod i'r amlwg yn Saesneg.

²⁶⁸ Ibid, t. 86.

²⁶⁹ Boyle a Haynes, *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture*, t. 122.

Mae wedi cymryd hyd nawr i'n presenoldeb fod yn gwbl dderbyniol, a dim ond ambell fenyw gaiff roi adroddiadau ar gemau pêl-droed o hyd. Fe glywir yr un hen gwyn weithiau, sef nad yw menywod sy'n cyflwyno yn gwbod am beth maen nhw'n siarad.²⁷⁰

Mae'r ddadl honno'n sicr yn bodoli yn y Gymraeg hefyd, lle mae Non Evans hithau, Sarra Elgan, Angharad Mair, Lowri Morgan a Dot Davies, ymhlith eraill, yn dueddol o fod yn ohebwy'r ar ymyl y cae ac yn gyflwynwyr, ond nid yn brif sylwebyddion. Yn wir, bu Angharad Mair a Dot Davies yn rhan o dîm cyflwyno'r criced T20 ar S4C a drafodir yn y drydedd bennod.

Y ddadl gyson yw fod angen i sylwebydd fod wedi chwarae'r gêm y mae'n sylwebu arni. Fe wnaeth Non Evans hynny, ond cyflwynwraig a gohebydd yw hi o hyd. Ategir y ddadl hon am safle'r fenyw yn y blwch sylwebu gan Georgina Turner.

If Barry Davies and David Coleman have first-hand, let alone first-class, experience of all the sports they've been asked to describe to us, they are remarkable men indeed.²⁷¹

Mae hyn yn sicr yn wir yn achos y sylwebyddion Cymraeg. Ychydig iawn ohonynt sydd wedi chwarae ar y lefel uchaf ym myd chwaraeon, os o gwbl. Y menywod ar y cyfan sydd â'r arbenigedd honno'n fwy na'r dynion.

Serch y profiad positif hwn ar y dechrau, negyddol fu ei phrofiadau o'r cyfryngau ers hynny ar y cyfan, boed fel cystadleuydd neu gyflwynwraig. Cafodd gyfnod o brofiad gwaith gydag adran chwaraeon BBC Cymru yn Llandaf, a dim ond atgofion negyddol sydd ganddi o'r profiad hwnnw. Meddai, 'Wnes i ddim byd mwy na logio tapiau di-ri a dilyn John Hardy

²⁷⁰ Non Evans (gydag Alun Gibbard), *Non: Yn erbyn y ffactore*, t. 81.

²⁷¹ Georgina Turner, 'Women can talk sport' (Mehfin 4, 2010)

<http://www.guardian.co.uk/commentisfree/2010/jun/04/women-sport-commentary> [Fel yr oedd ar Awst 30, 2010].

o gwmpas fel oen bach, ond roedd bod yn y BBC wedi cynnig y blas cynta o fyd teledu i fi.²⁷²

Daeth i sylw'r wasg a'r cyfryngau'n gyffredinol rai blynyddoedd yn ddiweddarach fel cystadleuydd ar y rhaglen ITV, *Gladiators*. A phrofiad digon negyddol oedd hwnnw hefyd. Mae Evans yn feirniadol o'r rhaglen am mai delwedd a sioe oedd y cyfan, yn hytrach na chystadleuaeth. Agwedd ychydig yn naïf a ddengys yma, efallai. Amlygir cymaint o sioe oedd *Gladiators* wrth i'r holl raglen gael ei llwyfannu er mwyn i'r Gladiator ennill. Cyhuddir y cynhyrchwyr a'r cystadleuwyr o benderfynu canlyniad yr ornest cyn iddi fynd rhagddi.²⁷³

Cafodd gyfle'n ddiweddar i fod yn feirniad ar raglen ffitrwydd a oedd yn gysyniad cwbl newydd i S4C. Ar *10 Jonathan*, â'r cystadleuwyr yn erbyn ei gilydd mewn amryw brofion ffitrwydd, a chaiff y rhan fwyaf o'r cystadlaethau eu penderfynu gan Evans hithau.

Rhan o fformat y rhaglen oedd dod wyneb yn wyneb â'r cystadleuwyr a dweud wrthyn nhw shwd oedden nhw wedi perfformio yn eu tasgau ac yna dweud pa un oedd yn gorfod gadael y sioe yr wythnos honno am beidio â pherfformio cystal. Dyna lle ges i'r enw Simon Cowell!²⁷⁴

Dyma brawf, felly, fod gan chwaraeon a'r Gymraeg le yn ffenomen teledu realaidd.

Er gwaethaf yr holl sylw fel darlledwraig, un feirniadaeth gyson oedd safon ei

Chymraeg ar y rhaglen.

Ond roedd 'da fi Gymraeg naturiol a graenus, hyd yn oed os nad oedd i safon lenyddol. Roeddwn yn y sefyllfa sy'n dal i wynebu sawl un – y ddadl rhwng Cymraeg teledu a fy Nghymraeg i, sef y Gymraeg roeddwn wedi ei siarad ers dweud fy ngeiriau cynta.²⁷⁵

O ran ei chenedligrwydd a'i Chymreictod hithau ym myd y campau, y mae'n ymfalchïo yn y ffaith iddi gael cynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Cyfeiria at y

²⁷² Non Evans (gydag Alun Gibbard), *Non: Yn erbyn y ffactore*, t. 43.

²⁷³ *Ibid*, t. 64.

²⁷⁴ *Ibid*, t. 138.

²⁷⁵ *Ibid*, t. 76.

ffaith yr hoffai ddychwelyd i Gymru i orffen ei gyrfa rygbi.²⁷⁶ Am y tro, mae'n ceisio brwydro am le yn nhîm reslo Prydain, a hynny yn erbyn merch o'r Iwcrain sydd yn gymwys i fod yn y garfan am iddi fyw yma'n ddigon hir bellach. Cymharer hynny ag agwedd nifer o chwaraewyr rygbi yng Nghymru a oedd yn gweld anghyfiawnder yn y ffaith y gallai tramorwyr ddod i Gymru a chymhwyso i chwarae dros y wlad ar ôl ychydig flynyddoedd.

Gallen i, felly, roi'r gorau i rygbi yn gyfan gwbl, gyda'r holl aberth fyddai ynghlwm â hynny, ond wedyn methu'n llwyr â chyrraedd y rank [sic] angenrheidiol i gynrychioli Prydain yn y Gemau Olympaidd oherwydd ei bod hi yno'n cynrychioli'r wlad.²⁷⁷

Gellir dadlau mai un o'r digwyddiadau sy'n amlygu ei Chymreictod a'i diffyg Prydeindod yw'r achlysur pan wrthododd wahoddiad i ginio gyda'r Tywysog Charles yn Delhi adeg Gemau'r Gymanwlad. Ceisir cyfiawnhau'r penderfyniad trwy ddweud bod yn rhaid iddi gysgu'r diwrnod cyn iddi gystadlu. Yn y pen draw, cyfarfu Evans â'r Tywysog. Adroddir y cyfan yn blwmp ac yn blaen heb fawr o emosiwn na theimlad.²⁷⁸ Dyma amlygu'r ddeuoliaeth unwaith eto.

Mae'r gyfrol hon yn ddiddorol am fod y pwyslais ar yr unigolyn yn hytrach nag ar yr unigolyn o fewn y gymdeithas. Ei dylanwad hi ar y gymdeithas a geir yma, yn hytrach na dylanwad y gymdeithas arni hithau. Ychydig iawn o drafodaeth a geir ar grefydd. Rhydd rywfaint o sylw i'w haddysg breifat. Fe'n cyflwynir i ferch ym myd y dynion, sydd wedi mynd ati i dorri tir newydd mewn campau a gysylltir yn draddodiadol â dynion. Ei phrofiadau negyddol personol o'r cyfryngau a geir, yn ogystal â sylw negyddol y cyfryngau i gampau menywod yng Nghymru. Teimla bod rygbi menywod wedi'i niweidio gan y cyfryngau. Nid yw hyn yn wir o ran rygbi dynion, wrth gwrs, lle mae gan y cyfryngau rôl flaenllaw yn y broses o hyrwyddo'r gamp ledled Cymru.

²⁷⁶ Ibid, t. 151.

²⁷⁷ Ibid, t. 153.

²⁷⁸ Ibid, t. 145.

Stephen Jones

Gwerth y gyfrol hon yw yr hyn a ddywed y gwrthrych am y cyfryngau, y defnydd a wneir o dermau rygbi a Chymreictod. Mae *O Clermont i Nantes* gan Stephen Jones (gyda Lynn Davies) yn un o hunangofiannau mwyaf poblogaidd y degawd. Hoffwn awgrymu mai un o'r rhesymau am lwyddiant y gyfrol hon yw apêl eang rhanbarth y Scarlets yng Nghymru, a hefyd y ffaith fod nifer uchel o Gymry Cymraeg yn byw o fewn y rhanbarth o ystyried bod y rhanbarth honno bellach yn cwmpasu ardaloedd yn y gogledd. Trodd rygbi'n gêm ranbarthol yng Nghymru yn 2003 yn wyneb cryn dipyn o feirniadaeth. Ond erbyn 2007, nodir manteision y system newydd gan Jones, sy'n falch fod timau Cymru bellach yn cystadlu ymhlith timau gorau Ewrop.²⁷⁹

Stephen Jones yw un o'r chwaraewyr cyfoes amlycaf yn y tîm cenedlaethol. Mae'r gyfrol yn adrodd ei hanes dros gyfnod o un tymor gyda chlwb Clermont Auvergne yn 2007. Dyddiadur ydyw, i raddau, gan ei fod yn cyfeirio at ddyddiadau penodol ar hyd y tymor, ac yn canolbwyntio ar ornestau rygbi penodol yn bennaf. Yn hynny o beth, gellir disgwyl na fyddai pob un o nodweddion yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg yn bresennol yn y gyfrol hon.

Cymro alltud yw Jones yn y gyfrol hon, a chawn ei deimladau fel Cymro balch yn cael blas ar ddiwylliant gwahanol, mewn gwlad sydd mor ddiwylliannol gryf â Chymru. Honnir ganddo nad yw ei Ffrangeg yn eang iawn ac 'wrth drafod pethe'n ymwneud â rygbi rwy i hapusa o hyd wrth siarad yr iaith honno'.²⁸⁰

Daeth i gysylltiad â'r wasg ar raddfa eang am y tro cyntaf pan gafodd ei benodi'n gapten ar ei wlad. Bu'n rhaid iddo addasu i rôl a oedd yn denu cryn dipyn o sylw gan y wasg.

²⁷⁹ Stephen Jones (gyda Lynn Davies), *O Clermont i Nantes* (Talybont, 2007), t. 108.

²⁸⁰ *Ibid*, t. 9.

Ar y diwrnod y wynebodd y cyfryngau am y tro cyntaf fel capten Cymru, dywed Jones iddo gael ei drwytho yn y math o agweddau a chwestiynau negyddol a wynebai.²⁸¹

Bu Jones yn destun tipyn o sylw negyddol o du'r cyfryngau ar hyd ei yrfa, yn enwedig pan fu'n aflwyddiannus fel capten Cymru. Mae'n nodi ar nifer o adegau fod yna wahaniaeth rhwng y cyfryngau Cymreig a'r cyfryngau Seisnig, gan deimlo mwy o bwysau o gyfeiriad y Cymry eu hunain na'r Saeson. Meddai, 'Wrth gwrs mae 'na adegau pan fyddwn ni'n haeddu beirniadaeth ond yr hyn sy'n gadel blas cas yw'r ffordd mae ambell i bapur yn mynd mas o'i ffordd yn gyson i sgrifennu adroddiade negyddol.'²⁸²

O safbwynt termau rygbi, cyfeirir at y rhai mwyaf cyffredin yn gyson yn y gyfrol, ond ceir rhai sy'n llai cyfarwydd a safonol hefyd. Y term a ddefnyddir ar gyfer 'grubber kick', fel y darganfuwyd eisoes yn yr astudiaeth hon, yw 'cic botel bop', a fathwyd yn wreiddiol gan Clive Rowlands. Ond yma, cyfeirir at gic 'tin dros ben'.²⁸³ Nid yw'r term hwnnw i'w gael yn yr un o'r hunangofiannau eraill y cyfeirir atynt yma. Gellir cysylltu'r term hwnnw â byd gymnasteg, lle y'i defnyddir i ddisgrifio 'somersault'. Caiff ei ddefnyddio ar lafar hefyd ar gyfer 'overhead kick' ym myd pêl-droed. Oherwydd naws lafar y gyfrol hon, rhaid cwestiynu a fyddai term o'r fath yn dderbyniol mewn sylwebaeth fyw ar y teledu neu'r radio. Mae'n debygol iawn y byddai'n esgor ar gwynion oherwydd ei gynodiad anweddus.

Mae gan Jones afael dda ar dermau rygbi Cymraeg, ac fe wna ddefnydd helaeth ohonynt drwy'r dyddiadur. Ceir rhywfaint o amrywiaeth sillafu ar y termau safonol oherwydd ei dafodiaith, ond gellir derbyn yr amrywiadau hyn. Defnyddir 'ceisie', 'agwedd' ('phase') a 'whare gosod' ganddo yn gyson, yn bennaf oherwydd mai dyma'r rhan o'r chwarae y mae'n ymwneud â hi fwyaf yn safle'r maswr. Mae'n ddiddorol nodi y defnyddir rhai termau technegol ganddo nad oes cyfieithiad ar eu cyfer hyd yn hyn. Mae'r rhain yn

²⁸¹ Ibid, t. 33.

²⁸² Ibid.

²⁸³ Ibid.

cynnwys ‘key performance indicators’.²⁸⁴ Defnyddir term arall hefyd nad oes llawer o fynd arno mewn sylwebaethau, sef ‘trawiad benben’ ar gyfer ‘big hit’.²⁸⁵

Un o gryfderau’r gyfrol hon, yn wir, yw’r defnydd o dermau safonol a chywir. A yw ymgais Eic Davies a Victor Hampson Jones i greu geirfa ac ieithwedd chwaraeon ganol yr ugeinfed ganrif wedi talu ar ei ganfed o safbwynt Stephen Jones? Mae cryn dipyn o’r termau hynny wedi goroesi yn eu ffurfiau gwreiddiol neu’n ffurfiau tafodieithol arnynt, a llawer ohonynt yn ymddangos yn y gyfrol hon.

Byddai’n ddiddorol astudio’r dafodiaith yma a phatrymau’r brawddegau. Defnyddir y terfyniad luosog ‘-e’ yn lle ‘-au’ gan amlaf, gyda’r eithriad amlwg, y ‘Crysau Duon’.²⁸⁶ Mae’r term ‘Crysau Duon’ yn un cyfarwydd iawn ym myd rygbi, ac felly byddai’n amhriodol ei newid, hyd yn oed mewn dyddiadur o’r math hwn. Fe dry’r ferf ‘chwarae’ yn ‘whare’ gan Jones, gan ddangos ei dafodiaith ar ei gorau.²⁸⁷ Mae’r ‘ch’ yn cael ei cholli ar ddechrau’r gair, ond fe gedwir y gytsain ‘h’ er mwyn caledu’r gair. Fe gollir ‘ae’ a’i amnewid ag ‘e’. Mae rhagenwau blaen yn cael eu newid hefyd, wrth i ‘fy’ droi’n ‘yn’ ac ‘ein’ droi’n ‘yn’ hefyd.²⁸⁸ Serch hynny, pery un anhawster ieithyddol i’r darlennydd, gan fod Jones yn defnyddio’r ferf ‘rwy’n’.²⁸⁹ Yn anaml iawn y ceir y ffurf ar lafar. Byddai’n fwy naturiol o lawer yn ei dafodiaith ei hun pe byddai’n glynu at ‘dwi’n’ neu ‘wi’n’. Mae’n bosib ei fod yn rhy ymwybodol yma o ddefnyddio gormod o ffurfiau llafar ar draul iaith safonol.

Un nodwedd a welwn droeon yn yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg yw’r drafodaeth am yr anthem genedlaethol. Wrth drafod Hen Wlad Fy Nhadau, dywed Jones gymaint y mae’n ei olygu iddo i sefyll i ganu’r anthem. Dyma un o ddisgrifiadau mwyaf emosiynol yr holl gyfrolau a drafodir yn y bennod hon. Meddai,

²⁸⁴ Ibid, t. 37.

²⁸⁵ Ibid, t. 45.

²⁸⁶ Ibid, t. 62.

²⁸⁷ Ibid, t. 84.

²⁸⁸ Ibid, tt. 87, 85.

²⁸⁹ Ibid, t. 100.

Mae'n anodd iawn ffocysu ar y gêm sy i ddod pan fydd y band yn taro 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Mae 'na berygl, yn 'yn achos i, y galle emosiwn yr anthem ga'l y gore arna i. Felly bydd hi'n ymdrech fawr i fi beidio ag ymgolli gormod yn y canu, neu fe fyddwn i'n ei chael hi'n anodd, am sbel, i ganolbwyntio ar y dasg sy o 'mhlân i.²⁹⁰

Gwerth nodi yma iddo dreiglo 'blaen' i 'o 'mhlân i' yn hytrach nag 'o 'mlân i'.

Tafodiaith Jones sy'n gyfrifol am hyn ac nid yw'n arfer a welir yn yr un o'r hunangofiannau eraill.

Gwerth ychydig yn wahanol i'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg nodweddiadol sydd i'r gyfrol hon. Hanes un tymor ydyw, gyda phwyslais ar drafod rygbi. Yn hynny o beth, mae'r iaith yn fwy technegol na'r un o'r cyfrolau eraill. Ar y llaw arall, nid yw'n canolbwyntio cymaint ar agweddau eraill ar fywyd y gwrthrych, hynny yw ei fro, ei addysg, ei iaith na'i grefydd, er y ceir trafodaeth eithaf sylweddol am ei Gymreictod.

Dafydd Jones

Mae'r cyn-chwaraewr Dafydd Jones wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ei fro ac yn ei Gymreictod. Un o Geredigion ydyw'n wreiddiol, ac y mae bellach yn byw ym Mhorthyrhyd yn Sir Gaerfyrddin. Yn wir, mae ei fro a chefn gwlad yn thema sy'n amlwg iawn yn ei hunangofiant, *Dal Fy Nhir* (gydag Alun Gibbard). Chwaraeodd dros 200 o gêmiau dros Lanelli a chynrychiolodd Gymru 42 o weithiau. Atgyfnerthir dilysrwydd yr hunangofiant hwn yn y sylw ar y clawr cefn fod y chwaraewr a ystyrir yn chwaraewr gorau'r byd, Richie McCaw (capten Seland Newydd) yn honni mai Jones yw'r chwaraewr caletaf iddo chwarae yn ei erbyn.

Gesyd Dafydd Jones ei hun yn ei fro enedigol gan roi disgrifiad i'r darlennydd o

²⁹⁰ Ibid, t. 73.

bentref Llanarth, gan ddweud mai 'rhan o ramant Llanarth i fi, wrth gwrs, yw cael y cyfle yno i fwynhau bywyd cefn gwlad.'²⁹¹

Serch ei agosatrwydd tuag at ei fro enedigol, trafodir ochr negyddol byw yn y fro honno i chwaraewr rygbi, sef y ffaith ei bod ymhell i ffwrdd o gadarnleoedd y campau ar y lefel uchaf. Gesyd yr hanes yng nghyd-destun y byd pêl-droed, ond hefyd yng nghyd-destun rygbi ar lefel bersonol. Cyfeiria at nifer o fechgyn ifanc a roddodd y gorau i'r freuddwyd o chwarae rygbi ar y lefel uchaf am resymau'n ymwneud â theithio, a'r pellter hwnnw'n eu gorfodi i roi mwy o bwyslais ar eu cyfrifoldebau ar y ffermydd yng nghefn gwlad Cymru. Dadleua y collwyd nifer sylweddol o ddarpar-chwaraewyr am y rheswm hwn. Cyfeiria Martin Johnes at y ffaith fod campau traddodiadol megis rygbi wedi ymledu i ardaloedd cefn gwlad Cymru yn sgil y radio yn y 1940au, a'r teledu'n ddiweddarach.²⁹² Serch hynny, prin iawn oedd y cyfleoedd i chwarae rygbi o hyd.²⁹³

Gwelir bod Dafydd Jones wedi'i ymdrwytho yn y diwylliant Cymraeg pan oedd yn blentyn yng Ngheredigion, wrth iddo ddweud ei fod wedi cystadlu dros yr ysgol mewn dawnsio gwerin. Fel yr esbonia,

Mae dweud hyn bron fel cyffesu rhywbeth cudd na ddylen i fod yn ei ddatgelu. Ond fe 'nes i ddawnsio, ac un gyffes arall yw cyfadde i mi fwynhau'r profiad o gystadlu gyda'r dawnsio gwerin yn fawr iawn, a hynny am bedair blynedd.²⁹⁴

Nid cynnwys nodweddiadol yr hunangofiant cyffesol a geir yma, wrth gwrs.

Wrth gyfeirio at adrodd yn yr eisteddfod, fe'n cyflwynir ni i'w fagwraeth gapelyddol ac yn yr Ysgol Sul.

Profiad arall fuodd o help yn y blynyddoedd cynnar, ac unwaith eto ym myd y steddfod, oedd adrodd – a hynny ar fy mhen fy hun. Ro'n i wedi cael profiad o ddweud adnod yn yr ysgol Sul ers oedran ifanc iawn, wrth gwrs.²⁹⁵

²⁹¹ Dafydd Jones (gydag Alun Gibbard), *Dal Fy Nhir* (Talybont, 2011), t. 76.

²⁹² Martin Johnes, 'A History of Sport in Wales', t. 74.

²⁹³ Dafydd Jones (gydag Alun Gibbard), *Dal Fy Nhir*, t. 36.

²⁹⁴ *Ibid*, t. 44.

²⁹⁵ *Ibid*, t. 45.

Yn wir, caiff byd yr ysgol Sul ei gyfuno â byd rygbi, wrth i Jones drafod digwyddiad a fu'n destun embaras iddo ar hyd y blynyddoedd, sef cael ei anfon oddi ar y cae tra'n cynrychioli capel Pencae mewn gêm bêl-droed. Cymherir y digwyddiad hwnnw â'r tro cyntaf iddo gael ei anfon o'r cae tra'n cynrychioli tîm rygbi Llanelli.²⁹⁶ Cywilydd yr Anghydfurfiwr a geir yma.

Agwedd arall o frogarwch a gaiff gryn dipyn o sylw gan Jones yw'r brogarwch a oedd yn rhan gynhenid o'r byd rygbi pan oedd hi'n gamp amatur. Cynrychioli'r dref enedigol neu leol oedd yr uchelgais bryd hynny, ac roedd gwir atyniad i'r tîm. Dechreuwyd ail-strwythuro'r gamp yng Nghymru ar ddechrau'r 1990au, a hynny'n bennaf yn sgil cystadleuaeth i'r gêm amatur o gyfeiriad proffesiynoldeb rygbi'r gynghrair. Collwyd degau o chwaraewyr a groesodd y ffin i fynd i Ogledd Lloegr am symiau sylweddol o arian. Cyhuddwyd y fath chwaraewyr o fradychu'r gamp genedlaethol. Yng nghyd-destun y tîm cenedlaethol, cafwyd newid rheolwr ym mlynyddoedd cynnar proffesiynoldeb wrth benodi'r gŵr a welwyd yn 'Great Redeemer', Graham Henry.²⁹⁷

Un anfantais yn sgil yr oes broffesiynol o safbwynt y clybiau, yn sicr, oedd datblygiad y gêm ranbarthol yng Nghymru. Dadleua Jones yn gryf o blaid cadw hunaniaeth Llanelli pan gyflwynwyd y cynllun i uno timau cyfagos â'i gilydd. Amlygir yma fod perthynas agos rhwng iaith a hunaniaeth, a bod y Scarlets yn ganolog yn yr ymgais i gynnal y berthynas honno. Dadleua hefyd fod y rhanbarth yn cynnwys trwch o'r boblogaeth sy'n dilyn rygbi ac sy'n Gymry Cymraeg.

Mae'r iaith yn rhan o'n treftadaeth a'n hunaniaeth ni. Nid dim ond fi oedd yn credu hynny ar y pryd; roedd yn farn gyffredinol, hyd yn oed ymhlith y rhai nad oedden nhw'n siarad yr iaith.²⁹⁸

²⁹⁶ Ibid, t. 97.

²⁹⁷ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 88.

²⁹⁸ Dafydd Jones (gydag Alun Gibbard), *Dal Fy Nhir*, t. 73.

I raddau helaeth, er bod ei yrfa wedi ei gludo i bedwar ban y byd, gwelir gwahaniaethau diwylliannol syfrdanol tra mae tîm Llanelli yn teithio i Ffrainc. Un o'r cyfryw wahaniaethau yw'r ffaith i Dafydd Jones ddarganfod twll o doiled yn yr ystafell newid, gan gyflwyno'r cysyniad estron hwn i'r darlennydd mewn ffordd ffraeth a diniwed. Ai awgrym yw hyn, o bosib, o'r Cymro nad yw wedi bod allan o'i fro ddigon o weithiau i werthfawrogi diwylliant gwahanol? Yn hynny o beth, gellir ei gymharu â Ray Gravell. Eto i gyd, elfen o'r Cymro mewnblyg y cyfeiria J.P.R. ato sydd yma, o bosib. Meddai, 'Do'n i ddim wedi gweld dim byd tebyg i hynny yn Llanarth!'²⁹⁹

Profiad cyffredin yng nghefn gwlad a gaiff sylw ganddo yw hela, gan ymfalchïo yn y ffaith y bu'n rhan o ambell helfa gartref yng Ngheredigion. Ceir disgrifiad o'r mwynhad a deimlai wrth hela, gan roi pwyslais cymunedol ar y cyfan.

Doedd dim yn well na hela i greu teimlad o gymuned, a hynny'n cynnwys pobl o bob oedran. Dwi ddim yn dilyn y cŵn hela nawr ond dw i'n teimlo y bydde fe'n drueni mawr petai'r arferiad yn diflannu o gefn gwlad.³⁰⁰

Bu'r weithred o hela'n gysylltiedig ar hyd y blynyddoedd â dosbarthiadau uchaf y gymdeithas ac i raddau helaeth, yn sgil hynny, ni cheisiwyd erlyn y sawl a fu'n torri rheolau hela gan fod yr unigolion hynny ymhlith y bobl fwyaf pwerus yn y wlad. Cynhelid ciniawau yn dilyn y fath helfeydd, a gwelir trwy'r gyfrol hon y bu i'r traddodiad hwnnw barhau. Serch hynny, mewn rhai rhannau diwydiannol o Gymru, credir bod glöwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn helfeydd, yn enwedig yn y Rhondda. Bu undod cymdeithasol yn un o'r nodweddion cyffredin ym mhob ardal ar hyd y blynyddoedd.³⁰¹

Y mae'n amlwg cymaint o Gymro yw Dafydd Jones, a hynny drwy un o gonfensiynau'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg, sef trafod yr anthem genedlaethol. Sonnir am y ffaith fod cyn-hyfforddwr Llanelli, Gareth Jenkins yn hoff o chwarae'r anthem ar gasét

²⁹⁹ Ibid, t. 89.

³⁰⁰ Ibid, t. 48.

³⁰¹ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 10.

cyn gêmâu pwysig. Sonnir yn benodol am un achlysur pan wnaethpwyd hynny cyn gornest oddi cartref yn erbyn Caerloyw.

A dyma nodau cynta 'Hen Wlad fy Nhadau' yn llanw'r bws a phob un ohonon ni'n sefyll yn yr unfan ac yn dechre canu. Wel, 'na beth oedd emosiwn. Roedd ein hysbryd ar dân wrth inni godi'n bagiau a cherdded i mewn i'r stadiwm.³⁰²

Diddorol yw nodi yma i'r agwedd hon ar Gymreictod Gareth Jenkins gael ei beirniadu gan Robin McBryde am fod yn rhy ystrydebol.

Law yn llaw â Chymreictod Dafydd Jones, gellir disgwyl ei fod yn gwrthwynebu nifer y tramorwyr sy'n chwarae rygbi'n broffesiynol yng Nghymru erbyn hyn. Yng nghyd-destun derbyn y Sais Anthony Copsey i grombil Llanelli a Chymru, cŵyn Jones, fel llawer un arall, yw fod cymaint o chwaraewyr o dramor yn cael cynrychioli Cymru bellach dim ond iddynt ddod o hyd i deulu o dras Gymreig.³⁰³

Yn sgil ei genedligrwydd amlwg, y mae'n syndod iddo gynnal un o ddigwyddiadau ei flwyddyn dysteb yn Nhŷ'r Arglwyddi, a'r diwrnod, ym marn Jones, yn un 'sbesial iawn'.³⁰⁴ Cyferbynnir Seisnigrwydd yr adeilad a'r hyn yr oedd yn ei gynrychioli, gyda Chymreictod y gwesteion yn y neuadd fawr. Wrth gyfeirio at yr Arglwydd Rowlands, a'u tywysodd o amgylch yr adeilad, dywed Jones:

Aeth â ni i mewn i siambr Tŷ'r Arglwyddi, oedd yn sicr yn brofiad gwerthfawr na wna i ei anghofio. Ond allwn i ddim peidio â meddwl am y lleill yn yr ystafell fwyta yn disgwyl am eu pwddin, a rhaid oedd mynd 'nôl atyn nhw.³⁰⁵

Trafodir y wasg gan Dafydd Jones hefyd, wrth iddo gyfeirio at y ffordd y mae'r cyfryngau'n defnyddio rygbi fel arf i danio cenedligrwydd adeg llwyddiant cenedlaethol neu ranbarthol. Trwy hynny, adlewyrchir natur newidiol y berthynas rhwng y cyfryngau a'r Cymry. Gwelwyd ochr bositif y berthynas ym 1992, wrth i Lanelli guro Awstralia ar Barc y

³⁰² Dafydd Jones (gydag Alun Gibbard), *Dal Fy Nhir*, t. 63.

³⁰³ *Ibid*, t. 65.

³⁰⁴ *Ibid*, t. 139.

³⁰⁵ *Ibid*, t. 142.

Strade. Meddai fod 'penawdau'r papurau y bore wedyn yn llawn canmoliaeth i berfformiad bois y Scarlets.'³⁰⁶

Gellir dweud â sicrwydd bod Dafydd Jones yn Gymro i'r carn, a gwelir hynny drwy ei agwedd at Gymreictod a'i fagwraeth draddodiadol. Serch hynny, y mae ambell nodwedd yn ei gymeriad, megis hela, a allai awgrymu ei fod wedi etifeddu nodweddion Prydeinig yn ogystal â rhai Cymreig.

Malcolm Allen

Thema'r Cymro alltud a gyflwynir yn hunangofiant y cyn-bêl-droediwr Malcolm Allen (gyda Geraint Jones). Dyma thema y gwelwn gyffyrddiadau ohoni yng nghyfrol Dai Davies ond mae Malcolm Allen yn wahanol yn yr ystyr ei fod wedi treulio ei yrfa gyfan y tu allan i Gymru.

Cyflwynir hanes Cymro Cymraeg o Landdeiniolen yng ngogledd Cymru y bu'n rhaid iddo symud i gyrion Llundain i ddilyn gyrfa ym myd pêl-droed gyda chlwb Watford. Chwaraeodd dros glybiau Watford, Aston Villa, Norwich, Millwall a Newcastle, a chynrychiolodd Gymru bedair ar ddeg o weithiau a sgoriodd dair gôl.

Yn debyg i gyfrol Non Evans, caiff y rhagarweiniad traddodiadol ei hepgor, a hynny yn yr achos hwn er mwyn rhoi lle i amryw deyrngedau gan reolwyr a chyd-chwaraewyr. Crisielir Cymreictod Allen gan ei reolwr cyntaf, Graham Taylor, y cyfieithir ei eiriau yn y darn canlynol:

O'r cychwyn roedd hi'n mynd i fod yn anodd i Malcolm adael cymdeithas glòs ei bentref fel y gwnaeth. Ond yn fwy na hynny roedd yn symud i ddiwylliant cwbl wahanol i'w ddiwylliant ei hun.³⁰⁷

³⁰⁶ Ibid, t. 53.

³⁰⁷ Graham Taylor, 'Barn y Mawrion', yn Malcolm Allen (gyda Geraint Jones), *Hunangofiant* (Talybont, 2009), t. 2.

Ategir hyn gan reolwr arall, Tom Walley, a bwysleisia y bu'n rhaid i Allen symud i wlad arall i hogi'i grefft.³⁰⁸

Magwraeth draddodiadol a gafodd Malcolm Allen ym mhentref Llanddeiniolen, a'i dad a'i daid yn chwarelwyr a fu yn yr ardal ar hyd eu hoes. Rhoddir disgrifiad y gellir ei alw'n llenyddol o'r golygfeydd ym mro Allen.

Ym mhlwyf Llanddeiniolen mae ein pentref ni, ynghanol mynyddoedd Eryri, gydag Elidir Fawr i'r dwyrain yn gaer amddiffynnol gadarn, a'r Garn a'r Glyderau y tu cefn iddi. I'r de y mae'r Wyddfa a gallwn weld Abermenai, Ynys Llanddwyn a thraethau euraid Môn draw yn y pellter, a llwybr haul diwedydd haf yn goch ar yr heli.³⁰⁹

Yn fwriadol neu beidio, gellir cymharu'r disgrifiad hwn â disgrifiad Islwyn Ffowc Elis o Leifior yn *Cysgod y Cryman*, wrth iddo leoli Llefior yn ddaearyddol:

O'r afon i fin y Foel, dros y gweirgloddiau gwastad ac i fyny'r llethrau, yr oedd tir Llefior yn wyn gan wllith. Ym mhen isa'r dyffryn, tua Henberth, yr oedd niwlen wen, a honno'n driffio i fyny'r llechweddau coediog, yn fysedd ac yn fodiau i gyd.³¹⁰

Yn ddiweddarach yn y gyfrol, rhydd ddarlun i'r darllenydd o dref Newcastle y symudodd iddi o Millwall ar ddiwedd ei yrfa fel pêl-droediwr proffesiynol. Yma, disgrifir y dref, nid yn nhermau ei lleoliad yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ond yn nhermau'r Hen Ogledd. Dyma'i hoffter o ddisgrifiadau llenyddol yn dod i'r wyneb unwaith eto.³¹¹

Gwelwn ar unwaith, felly, fod brogarwch yn nodwedd amlwg yng nghymeriad Malcolm Allen. Ceisia esbonio'r brogarwch hwn yn hollol onest ac agored, ac ef yw'r unig un i wneud hynny o blith y cyfrolau a drafodir yma. Meddai:

Mor bwysig, mor hanfodol yw gwreiddiau. Yr un mor hanfodol yw eu hadnabod. Wrth garu'ch pentref a'ch bro, rydych yn caru'ch gwlad, yn caru'ch pobl.³¹²

³⁰⁸ Tom Walley, 'Barn y Mawrion', yn Malcolm Allen (gyda Geraint Jones), *Hunangofiant*, t. 2.

³⁰⁹ Malcolm Allen (gyda Geraint Jones), *Hunangofiant*, t. 9.

³¹⁰ Islwyn Ffowc Elis, *Cysgod y Cryman* (Llandysul, 15fed argraffiad, 1990), t. 18.

³¹¹ Malcolm Allen, *Hunangofiant*, t. 157.

³¹² *Ibid*, t. 10.

Am y rheswm hwn, efallai, mae Allen yn amddiffynol iawn o'r ardal lle y ganwyd ac y magwyd ef.

Os oes angen beirniadu, neu hyd yn oed gondemnio, ni sydd â'r hawl i wneud hynny. Penra gwaith, penra chwarel ydi penra Deiniolen.... Diolch, ddwedaf fi, am bobl sydd â'u traed ar y ddaear, baw dan eu hewinedd a phridd dan eu sodlau.³¹³

Tua diwedd y gyfrol, disgrifir y fro o bellter y gorffennol, ond yr un yw'r agosatrwydd flynyddoedd yn ddiweddarach.

I'r de ar Elidir cwyd ponciau digyffro Dinorwig, y chwarel fu'n ffon fara cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth teulu a chydnabod, bellach yn fud-ddisgleirio yn llewyrch y machlud.³¹⁴

Gwelir bod ei Gymreictod ar ei gryfaf pan fo'n alltud, a cheir paragraffau o hiraeth am Gymru tra bu yn Llundain ac yn Newcastle yn ystod ei yrfa. Cofier nad oedd wedi gadael Cymru lawer iawn o weithiau cyn symud i Loegr. Yn wir, dywed mai'r ail waith iddo adael Cymru oedd achlysur treial gyda Manchester United, gan ychwanegu mai'r tro cyntaf oedd ar gyfer 'Cân Actol Neuadd Albert'.³¹⁵

Yn Watford, cafodd gwmmi'r Cymro Cymraeg, Iwan Roberts, a ddaeth yn gyfaill agos ar hyd y blynyddoedd. Gwelai Allen fod cyfle yma i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn wir, gwnaethpwyd hynny ar y cae lawer gwaith, gyda'r naill yn rhoi cyfarwyddiadau i'r llall yn y Gymraeg.³¹⁶ Dyma weithred naturiol y bu'n rhaid ei meithrin ymhlith chwaraewyr rygbi Cymru, fel yr esbonia Robin McBryde. Pan ymunodd Allen â Watford, bu'n rhaid iddo adael ei gartref am y tro cyntaf erioed, a hynny'n esgor ar deimladau o hiraeth difrifol. Meddai, 'Fy mhryder oedd fod mynd i Watford yn golygu gadael cartref, gadael Mam a Dad, gadael Deiniolen, gadael Cymru.'³¹⁷

³¹³ Ibid, t. 32.

³¹⁴ Ibid, t. 271.

³¹⁵ Ibid, t. 29.

³¹⁶ Ibid, t. 78.

³¹⁷ Ibid, t. 44.

Sylweddolodd mor real oedd y teimladau yr oedd wedi clywed cymaint amdanynt droeon.

Gwn fod cenedl y Cymry, gydol y blynyddoedd, wedi canu am hiraeth mewn modd hollol sentimental a ffals lawer tro; gwn o brofiad, ar y llaw arall, pa mor ingol a dirdynol y gall fod go-iawn.³¹⁸

Ychwanegwyd at ei hiraeth gan rai o'r chwaraewyr yn Watford a'i dirmygai am nad oedd ei Saesneg gystal â'u Saesneg hwy, 'yn union fel petai eu Saesneg hwy yn llenyddol a chaboledig'.³¹⁹ Mae'n bosib iawn mai dyma un o'r rhesymau y troes yn gymaint o Gymro ar hyd ei oes.

Atgyfnerthir Cymreictod Malcolm Allen pan fo'n beirniadu'r sawl sy'n cynrychioli ei wlad ac yn methu canu'r anthem. Dyma gadarnhad, unwaith eto, fod trafodaeth ar yr un anthem yn un o gonfensiynau'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg. Dadleua nad oes gwladgarwch yn perthyn i Gymry'r cae pêl-droed bellach, sy'n adleisio'r hyn a ddywed Orig Williams am angerdd ychwanegol y Cymro Cymraeg yn y tîm cenedlaethol, o'i gymharu â'r Cymro di-Gymraeg. Meddai, 'All tîm Cymru ddim canu'r anthem o'r galon a hynny'n syml oherwydd does fawr neb ohonyn nhw'n gwybod ei geiriau, heb sôn am ystyr y geiriau hynny'.³²⁰

Amlygir pa mor bwysig oedd y 'Pethe' ym magwraeth Allen, a chymaint oedd ei ymwybyddiaeth o'r diwylliant tra oedd yn blentyn yn y pentref. Er y cyfeddyf nad yw'n mynd i'r capel bellach, cafodd ei fagu'n Fethodist ar yr aelwyd. Yn wir, disgrifia'r byd pêl-droed fel 'nefoedd ar y ddaear'.³²¹ Cyfeddyf, 'Nid fy mod yn gwybod llawer bryd hynny mwy na heddiw am y gwahaniaethau sylfaenol rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth...'³²²

³¹⁸ Ibid, t. 54.

³¹⁹ Ibid, t. 55.

³²⁰ Ibid, t. 256.

³²¹ Ibid, t. 12.

³²² Ibid, t. 21.

Ceir ambell gyfeiriad arall ganddo at grefydd yn ei fywyd yn ystod ei yrfa yn Lloegr, wrth iddo ddweud ei fod yn gapelwr yn nhref yr eglwys tra oedd wedi treulio cyfnod ar fenthyg gyda chlwb Norwich yn ne-ddwyrain Lloegr.³²³ Wrth drafod lle crefydd ym myd chwaraeon, cyfeiria Allen at hen draddodiad o beidio â chwarae ar y Saboth. Gwelir deuoliaeth yn hynny o beth gan mai un clwb a wrthododd cynnal gemau ar y Sul oedd Millwall, sy'n enwog am fod yn un o'r clybiau mwyaf treisgar yn Lloegr.³²⁴

Yr hyn a newidiodd y drefn honno, wrth gwrs, oedd dyfodiad Sky Sports, sydd bellach yn darlledu dwy, os nad tair gêm bob dydd Sul. Y teledu bellach sy'n rheoli pryd y caiff gornestau eu cynnal, a nifer o'r rheini ar brynhawn Sul, yn enwedig ym myd pêl-droed.³²⁵ Yn y 1990au, buddsoddwyd yn sylweddol gan deledu lloeren, yn bennaf gan gwmni Rupert Murdoch, yn y byd pêl-droed. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y gornestau a ddangoswyd, yn ogystal â chodiad cyflog i nifer sylweddol o chwaraewyr. Yn hynny o beth, roedd gan Sky reolaeth dros y byd pêl-droed. Clywai Allen y cefnogwyr yn 'siantio pethau nas clywais yn yr ysgol Sul yn Llanbabo erstmalwm'.³²⁶

Er gwaethaf cael ei wawdio am ansawdd ei Saesneg yn Watford, ar ôl dychwelyd i Gymru y daeth ansicrwydd iddo ynghylch ei Gymraeg. Yr oedd erbyn hyn yn sylwebu ar Radio Cymru, ac yn benderfynol o brofi ei allu yn y Gymraeg. Ceir hanesion doniol am gyfieithu dywediadau yn Saesneg, e.e. 'eirin gwllannog o gôl'.³²⁷ Mewn cyfweiliad ar Uned 5, esbonia Allen y broses yr âi drwyddi er mwyn sicrhau ei fod yn sylwebu mor gywir â phosib.

O'n i'n gwyllo'r gêmau yn Saesneg a wedyn o'n i'n sylwebu ar y gêmau yn Saesneg, rhaid i fi ddeud, a wedyn efo'r geiriadur bach yn cyfieithu'r geiriau i Gymraeg. Wedyn o'n i'n mynd â'r darn papur efo fi lle bynnag o'n i'n mynd.³²⁸

³²³ Ibid, t. 89.

³²⁴ Ibid, t. 116.

³²⁵ Boyle a Haynes, *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture*, t. 50.

³²⁶ Malcolm Allen, *Hunangofiant*, t. 151.

³²⁷ Ibid, t. 210.

³²⁸ Malcolm Allen, Cyfweiliad ag Uned 5. Gw. <http://www.uned5.co.uk/gwyllo/sgwrs-malcolm-allen-mai-9.html> [Fel yr oedd ar Fai 30, 2010].

Elfen amlwg o'i sylwebu erbyn hyn yw ei gywirdeb ieithyddol ar y cyfan, gydag elfen o acen Llundain yn dod i'r wyneb. Honna iddo ystyried yn ddwys a ddylai barhau fel sylwebydd am fod ei Gymraeg mor ddiffygiol ac yn destun embaras iddo ar adegau.

Eistedd wrth fwrdd bwyd yn Lwcsembwrg ddiwedd y nawdegau yng nghwmni rhai fel Meilir Owen, John Hardy a Nic Parry. Gwrandawn arnynt yn sgwrsio'n braf a rhugl yn y Gymraeg ac wrth wrando arnynt teimlwn fy hun, o ran iaith, yn bur annigonol.³²⁹

Bellach, manteisia Allen ar y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg bob cyfle, a defnyddia un o gyfnodau isaf ei fywyd i gyfiawnhau hynny, sef achos llys ar ôl cael ei ddal yn yfed a gyrru. Mynnai bryd hynny gael achos llys trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy adrodd y stori hon, amlygir elfen gyffesol yr hunangofiant hwn. Daw ei gariad at ei fro i'r amlwg unwaith eto wrth adrodd yr hanes, gan iddo deimlo ei fod wedi siomi ei fro a'i bobl.³³⁰

Yn sgil yfed a gyrru ar achlysur blaenorol, cafodd gryn dipyn o sylw gan y wasg yn Saesneg ac yn Gymraeg, yng Nghymru ac yn Lloegr. Yn y dyddiau tywyll hynny, sylweddolai y câi gryn dipyn o gyhoeddusrwydd negyddol yn sgil yr hyn a wnaeth. Yn eironig, ond efallai'n ddisgwyliedig o ystyried pa mor fach yw Cymru, roedd mwy o embaras ganddo am y sylw a gâi yng Nghymru nag yn Lloegr. Dyma elfen o'r hunangofiant gyffesol. Meddai, 'Bu fy hanes ar deledu Sky ac ar S4C, ac o'r ddau, yr olaf oedd y gwaethaf i mi. Dychmygwn fy rhieni'n gwyllo'r holl gythrwfl a gwarth.'³³¹

Yn sgil torri'r gyfraith, roedd Allen hefyd wedi dioddef oherwydd chwant y gynulleidfa am straeon sy'n nodweddiadol o'r wasg tabloid. Mae tyndra cyson yn y cyfryngau rhwng sêr chwaraeon y gellir eu galw'n arwyr, a'r rheini y gellir eu galw'n ddihirod. I'r ail garfan y perthyn Allen ar y cyfan yng nghyd-destun y wasg. Ar y llaw arall, ceir y rheini sy'n arwyr a dry'n ddihirod hefyd, fel yr esbonia Boyle a Haynes, 'Where the

³²⁹ Malcolm Allen, *Hunangofiant*, t. 215.

³³⁰ *Ibid*, t. 204.

³³¹ *Ibid*, t. 175.

details of sordid private lives invade the public domain of sports performance, the favours enjoyed under the media spotlight can quickly disappear...'.³³²

Boed arwr neu ddihiryn, y cyfryngau sy'n bennaf cyfrifol am greu darlun eilradd o sêr o fyd y campau, ond rhydd cyfrwng yr hunangofiant gyfle i'r gwrthrych ei gyflwyno'i hun ac i'r darlennydd gael golwg oddi mewn, fel petai, yn hytrach nag o'r tu allan. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'r cyfryngau'n ceisio tynnu llun negyddol o'r unigolyn ac yn defnyddio agweddau ar ei gymeriad i werthu copïau. Dyma ddangos, felly, rym yr hunangofiant cyffesol fel yr un hwn, fel cystadleuydd i'r tabloid.

Mark Aizelwood

Mae hunangofiant Mark Aizelwood (mewn cydweithrediad â Ioan Kidd), *Amddiffyn Fy Hun* yn gyfrol lwyr gyffesol sy'n ymdebygu i gyfrol Saesneg pêl-droediwr arall a fu'n brwydro yn erbyn alcoholiaeth, Jimmy Greaves, a chyfrol Malcolm Allen. Ymhelaethir ar ei frwydr yn erbyn alcoholiaeth yn sgil y cyfnod isel hwn yn ei fywyd, a daw i'r casgliad fod yn rhaid brwydro i oresgyn y broblem.³³³ Adlais a geir yma o linellau agoriadol hunangofiant Greaves, lle y tywysir y darlennydd i ystafell yn y clinig Alcoholics Anonymous: 'My name is Jimmy G, and I am an alcoholic.'³³⁴

Mae'n bosib iawn fod ei alcoholiaeth yntau'n deillio o alcoholiaeth ei dad a'r diffyg agosatrwydd teuluol a oedd yn nodweddu ei blentynod. Dyma nodwedd o blentynod Yogi a drafodir yn olaf yn y bennod hon. Bu ei fam yn yfed yn drwm am gyfnod hefyd a bu ei dad yn alcoholig.³³⁵ Am ei sefyllfa deuluol, dywed na fu'r teulu'n uned glòs erioed.

³³² Raymond Boyle a Richard Haynes, *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture*, t. 90.

³³³ Mark Aizelwood (mewn cydweithrediad â Ioan Kidd), *Amddiffyn Fy Hun* (Llandysul, 2009), t. 17.

³³⁴ Jimmy Greaves. Dyf. yn Norman Giller, <http://www.sportsjournalists.co.uk/the-giller-memorandum/time-to-praise-the-man-who-set-the-goals-standard/> [Fel yr oedd ar Ionawr 27, 2012].

³³⁵ Mark Aizelwood (mewn cydweithrediad â Ioan Kidd), *Amddiffyn Fy Hun*, t. 62.

Welais i erioed arwyddion cariadus, amlwg, agored gan neb o'r teulu fel y cyfryw... Anaml iawn y byddwn i'n gweld fy nhad a hyd yn oed pan fyddwn i'n ei weld e byddai fe'n aml yn feddw. Ac roedd fy mam wastad yn gweithio.³³⁶

Yn hynny o beth, mae'n bosib iawn fod yna broblemau yn isymwybod Aizelwood ac y'u dwysawyd gan bwysau'r byd pêl-droed yn ddiweddarach.

Y mae'r gyfrol hon yn ymdebygu hefyd i *Hanner Amser* gan Nigel Owens yn sgil y ffaith y trafodir ymgais i gyflawni hunanladdiad ynddi. Cyfrol bur negyddol ydyw hon drwyddi draw, sy'n datgelu mwy am frwydrau bywyd personol pêl-droediwr na'i orchestion ar y cae. Yn hynny o beth, y mae'n wahanol i'r rhan fwyaf o hunangofiannau chwaraeon Cymraeg eraill sydd, ar y cyfan, yn dewis canolbwyntio ar fyd y campau a'r nodweddion eraill a drafodwyd eisoes yn y bennod hon. Yn ogystal, trafodir perthynas y tu allan i'w briodas gyntaf gyda menyw a ddaeth yn ail wraig iddo maes o law. Efen gyffesol arall sydd i'r drafodaeth honno.³³⁷

Y mae'n wahanol ac yn unigryw am fod y rhagair yn Saesneg, a hwnnw wedi'i lunio gan y Cymro di-Gymraeg, Ian Rush a fu'n cyd-chwarae i Gymru ag Aizelwood.³³⁸ Ochr yn ochr â'r defnydd o Saesneg yn y gyfrol hon, nid ymdrechir i lanhau'r iaith o gwbl fel a wnaethpwyd gan Myrddin ap Dafydd gyda chyfrol Orig Williams.

Ceir rhywfaint o sôn am ei reswm dros lunio'r gyfrol a thrwy hynny, y rheswm pam fod yr hunangofiant chwaraeon hwn yn un dilys, sef nodi taith bywyd unigolyn sy'n dipyn mwy na phêl-droediwr.³³⁹ Y mae'n berson crwn, cyffredin y gellir uniaethu â nifer fawr o'i hanesion a geir rhwng cloriau ei gyfrol. Yr elfennau amlycaf y gellir uniaethu â hwy o ran yr unigolyn yw'r ffaith ei fod yn '[w]r, tad, dyn teulu, dyn cyhoeddus...'³⁴⁰

³³⁶ Ibid, t. 33.

³³⁷ Ibid, t. 61.

³³⁸ Ibid, t. 7.

³³⁹ Ibid, t. 102.

³⁴⁰ Ibid, t. 82.

Wrth drafod ei fwriad i gyflawni hunanladdiad, tywysir y darlennydd gan Aizelwood i

Rufain i bont uchel uwchben y draffordd.

Yr eiliad honno doedd dim tamaid o ofn arna i wrth i fi sefyll ar ben wal fach a syllu i lawr ar y ceir oedd yn gwibio ar hyd y draffordd dair lôn gant a haner o droedfeddi oddi tana i, achos dim ond un bwriad oedd gen i, sef neidio.³⁴¹

Mynega deimladau negyddol a'i euogrydd o fod wedi brifo'i deulu oherwydd ei alcoholiaeth, a'r diffyg gobraith a welsai yn ei ddyddiau duaf. Trwy'r düwch, yr hyn a'i cadwai rhag neidio ar yr eiliad olaf oedd gweld baner Cymru mewn car oddi tano ar y draffordd, a'r modd y medrai uniaethu â'r faner honno er gwaethaf ei anobaith. Dyma ein cyflwyno ar unwaith i'w wladgarwch amlwg a brwd. Yn wir, dadleua fod modd dweud mai Cymru'n colli ar y cae rygbi yn yr Eidal y prynhawn hwnnw a arweiniodd at ei feddwod a'r teimladau negyddol a deimlai ar y bont. Dyma amlygu cysyniad y gymuned ddychmygedig, a'r farn fod y tîm cenedlaethol yn adlewyrchu hwyliau'r genedl, ond enghraifft eithafol yw hon.³⁴²

Trwy'r drafodaeth hon ar ei Gymreictod, cyflwynir thema'r Cymro alltud yn ogystal, sy'n nodwedd benodol iawn o hunangofiannau pêl-droedwyr o Gymru sydd fel arfer yn symud i Loegr i chwarae ar y lefel uchaf. Ni cheir y teimladau hynny i'r un graddau o safbwynt chwaraewyr rygbi am nad ydynt fel arfer yn treulio cyfnodau hir y tu allan i Gymru.

Er nad yw'n ymddangos yn eithriadol o hiraethus am ei fro enedigol, cyfeiria at y ffaith iddo ddychwelyd adref i fyw yn sgil salwch ei fam tra bu'n cynrychioli Bristol City.³⁴³ Yn ogystal, cyfeiria at ei bleser o gael ymuno â Chaerdydd maes o law, a chael dod adref.³⁴⁴

Er na cheir trafodaeth benodol am yr anthem, sydd bellach yn gymaint rhan o'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg, fe roddir sylw i'r profiad o gael cynrychioli Cymru, a

³⁴¹ Ibid, t. 9.

³⁴² Ibid, t. 13.

³⁴³ Ibid, t. 57.

³⁴⁴ Ibid, t. 62.

hynny'n destun balchder sylweddol i Aizelwood. Meddai, 'Roedd yr.... ymdeimlad Cymreig, y teimlad eich bod chi'n Gymro'n cynrychioli'ch gwlad, yn wych hefyd.'³⁴⁵

Er na sonnir ryw lawer am ei deulu yn y gyfrol hon ac eithrio ambell stori am ei blentyndod yn teithio o le i le i chwarae pêl-droed, cawn wybod mai gweithiwr dur oedd ei dad, ac y bu farw'n ifanc o ganlyniad i strôc a oedd yn gysylltiedig ag alcoholiaeth. Mae Aizelwood yn un o chwech o blant a'i fywyd ar y cyfan yn nodweddiadol o deuluoedd mawr yn yr ardaloedd diwydiannol.³⁴⁶ Mewn tŷ cyngor yng Nghasnewydd y bu'r teulu'n byw.³⁴⁷

Ategir diffyg agosatrwydd y teulu yn y drafodaeth ar ei benderfyniad i adael yr ysgol cyn sefyll arholiadau lefel 'O'. Gwnaeth y penderfyniad hwnnw'n hollol annibynnol heb yn wybod i'w rieni. Ond yn y stori hon, gwelir y ddwy wedd ar yr hunan, sef yr hunan a wnaeth y penderfyniad, a'r hunan a sylweddola flynyddoedd yn ddiweddarach y gallai'r sefyllfa fod wedi mynd o chwith pe na bai wedi llwyddo i gael gwaith maes o law.³⁴⁸ Yn hynny o beth, dyma adlewyrchu barn Ned Thomas ynghylch dau gyfnod unwaith eto.

Un arall o'r drygau a ddenodd Aizelwood yn ystod ei yrfa, ac yn benodol tra oedd yn Luton, oedd betio, a hynny ar geffylau, cŵn a gornestau pêl-droed. Yn wir, cyfeddyf Aizelwood fod ganddo 'bersonoliaeth gaethiwus, ddibynnol'.³⁴⁹ Dyma'r elfen gyffesol ar waith unwaith eto.

Gwelwn elfen hefyd o'r hyn y cyfeiria J.P.R. Williams ato fel Cymro mewnblyg, a hynny yn sgil cwrdd â dyn du am y tro cyntaf pan symudodd Aizelwood i Luton. Bu'n rhannu ystafell â Ricky Hill am gyfnod. Mae hiliaeth yn bwnc a drafodir gan Ali Yassine yn y gyfres *Stori Sydyn* hefyd. Dywed Aizelwood,

³⁴⁵ Ibid, t. 53.

³⁴⁶ Ibid, t. 22.

³⁴⁷ Ibid, t. 20.

³⁴⁸ Ibid, t. 25.

³⁴⁹ Ibid, t. 32.

Doeddwn i ddim yn gwybod sut i ymateb i'r person du yma oedd ar fin rhannu llety gyda fi. Yng Nghasnewydd yr adeg honno doedd dim mwy na rhyw ddau neu dri disgybl croenddu yn yr ysgol gyfan lle bues i, sef Ysgol Hartridge.³⁵⁰

Mae'r iaith a ddefnyddir yn y gyfrol hon yn gywir ac yn safonol, a hynny gan ddysgwr a lwyddodd i ennill teitl Dysgwr y Flwyddyn ychydig cyn cyhoeddi'r gyfrol hon. Serch hynny, agwedd negyddol sydd ganddo tuag at ddysgu'r iaith ar y cyfan. Aeth ati i ddysgu'r Gymraeg pan gafodd anaf a'i cadwodd rhag chwarae am gyfnod. Mae'n bosib mai am y rheswm hwn y bu'r profiad yn un anghysurus o negyddol iddo. 'Syniad twp' oedd mynd ati i ddysgu'r Gymraeg, ym marn Aizelwood.³⁵¹ Yn wir, ar ben ei agwedd negyddol tuag at yr iaith, cyfeddyf iddo ei defnyddio i'w fantais ei hun pan ddaliwyd ef yn gyrru ac yfed. Y tro hwnnw, mynnai siarad â heddlu a fedrai'r iaith pan gafodd ei arestio, gan wybod ei bod yn dra debygol y byddai lefel yr alcohol yn ei waed yn debygol o ostwng erbyn y ddi'r heddlu'n ôl.³⁵² Erbyn y cyfnod pan ddaeth yn rheolwr ar dîm Caerfyrddin yng Nghynghrair Cymru, deuai fwyfwy i werthfawrogi'r Gymraeg ac i weld pwrpas iddi mewn tref o'r fath. Yn wir, cyfeddyf yn y pen draw fod y 'Gymraeg.... wedi chwarae rhan bwysig yn fy mywyd i'.³⁵³

Un o fanteision dysgu'r iaith i Aizelwood yn ei farn ef, ac yn gwbl eironig, yw'r cyfleoedd a ddaeth i'w ran fel pyndit chwaraeon yn Saesneg gyda'r BBC. Ni cheisia gynnig esboniad dros hyn ac mae'n anodd gweld sut y byddai'n fantais iddo wrth weithio drwy gyfrwng y Saesneg.³⁵⁴ Yn wir, nid oedd â'i fryd ar fod yn sylwebydd, ond yn hytrach, yn hyfforddwr. Teimlai y byddai gweld y bêl gron drwy lygaid y sylwebydd yn ei helpu i

³⁵⁰ Ibid, t. 31.

³⁵¹ Ibid, t. 68.

³⁵² Ibid, t. 84.

³⁵³ Ibid, t. 89.

³⁵⁴ Ibid, t. 71.

feithrin ei ddawn fel hyfforddwr yn y pen draw.³⁵⁵ Yn hynny o beth, gwedd hollol bersonol sydd ar ei drafodaeth ar fyd y cyfryngau.

Yr unig werth i'r gyfrol hon ar y cyfan yw'r ffaith ei bod yn nodweddiadol o'r hunangofiant chwaraeon Cymraeg cyffesol. Ni chynigia sylwadau am lawer iawn o nodweddion traddodiadol yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg fel y mae cyfrolau'r gwrthrychau eraill.

Bryan 'Yogi' Davies

Gesyd gwrthrych yr hunangofiant hwn (gydag Elfyn Pritchard) ei stori yng nghydestun y cyfryngau o'r cychwyn cyntaf, gan nodi rhai o'r penawdau a ymddangosodd yn y wasg yn dilyn ei ddamwain ar y cae rygbi. Yn ogystal, cyfeirir at stori yn y papur bro, *Y Cyfnod*.³⁵⁶ Yn wir, nid y papurau newydd yn unig a ddangosodd ddiddordeb yn ei stori. Recordiwyd rhaglen ar gyfer S4C yn olrhain ei hanes yn ystod cyfnod mewn ysbyty yn dilyn y ddamwain. Cynhwysir cofnod y newyddiadurwr o'r diwrnod y buont yn ffilmio'r rhaglen.³⁵⁷

Caiff darnau o'i hanes eu hadrodd gan ei wraig Susan am ei fod yn anymwybodol yn y dyddiau'n dilyn y ddamwain. Defnyddir yr un dechneg yn y gyfrol hon ag a ddefnyddiwyd yn hunangofiant John Hartson am yr un rheswm. Fel y dywedir ar glawr y gyfrol *Yogi – Hunangofiant Bryan Davies* am ran ei wraig yn y stori hon,

Yn nhrydedd rhan pob pennod cawn ymateb y blismones honno, Susan, a fu fel craig i Yogi wedi'r ddamwain. Cawn ei stori emosiynol, ddagreuol o orfod delio â'r ergyd enbyd hon i'r teulu.³⁵⁸

³⁵⁵ Ibid, t. 77.

³⁵⁶ Bryan Davies (gydag Elfyn Pritchard), *Yogi – Hunangofiant Bryan Davies* (Talybont, 2009), t. 5.

³⁵⁷ Ibid, t. 133.

³⁵⁸ Bryan Davies (gydag Elfyn Pritchard), *Yogi*, clawr cefn.

Wrth bwysleisio cymaint o ddyn teulu yw gwrthrych y gyfrol hon, cynhwysir hanesion ei blant, Ilan a Teleri hefyd. Fel yr eglura Yogi, 'Mae pawb yn cael deud ei ddeud yn tŷ ni, a 'di o ddim ond yn iawn fod hynny'n digwydd yn y llyfr yma hefyd'.³⁵⁹

Er mai cofnodi hanes y ddamwain a'r effaith a gafodd ar ei fywyd ers hynny yw prif nod y gyfrol hon, ceir ynddi rai o nodweddion yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg. Er enghraifft, cawn hanes ei enedigaeth a'i fagwraeth gan ei osod ei hun yn ei fro ac mewn cyddestun cymdeithasol.

Mi ges i 'ngeni mewn tŷ cyngor yn Uwchydre, Corwen – 'top town' fel roedd o'n cael ei alw gan y plant – ac roedd Mam yn arfer deud ei fod o'n lle tebyg iawn i Sgubor Goch, Caernarfon.³⁶⁰

Wrth drafod ei fagwraeth ar yr aelwyd, cyfeiria at aelodau'r teulu, sef 'Dad a Mam a fi a'm chwaer'.³⁶¹ Sonnir yn ddiweddarach am ei chwaer arall. Nid oedd ei blentyndod yn fêl i gyd yn sgil alcoholiaeth ei rieni a'r ffaith iddynt wahanu'n ddiweddarach. Nodir yr hanesion hyn yn null yr hunangofiant cyffesol.

Y broblem oedd, pan fydde Dad yn dod adre ar ôl bod yn yfed, doedd ganddo ddim rheolaeth arno'i hun. Un pawns Sul mi ddaeth adre wedi meddwi ac mi fwriodd Mam. Mi hities inne fo mor galed ag y medrwn nes iddo ddisgyn dros y sofffa.³⁶²

Ceir elfen arall o gyffes yn ddiweddarach yn y gyfrol, gyda sôn am fynd i helynt gyda'r heddlu ar wahanol achlysuron, yn ogystal â'r ffaith iddo yntau droi at y ddiod gadarn, o bosib o ganlyniad i drafferthion ei rieni gynt, a cholli ei Nain wedi hynny hefyd. Esbonia, 'Ar ôl claddu Nain, roeddwn i'n hitio'r botel yn drymach nag oddwn i cynt, ac yn chwilio am bob esgus i grwydro..... Roeddwn i braidd ar gyfeiliorn am gyfnod.'³⁶³

³⁵⁹ Ibid, t. 225.

³⁶⁰ Ibid, t. 12.

³⁶¹ Ibid, t. 13.

³⁶² Ibid, t. 38.

³⁶³ Ibid, t. 108.

Am nad oedd yn blentyn cydwybodol ac yn sgil ei ddiffyg hoffter o'r ysgolion yr aeth iddynt, ychydig iawn o sôn a geir am ei addysg. Crisielir ei brofiadau yn y dyfyniad isod:

O gofio cymaint roeddwn i'n casáu'r ysgol does dim rhyfedd 'mod i'n ei hosgoi bob cyfle gawn i. Yn yr ysgol ei hun, mi fyddwn i, yn ystod pob gwers, yn gofyn am gael mynd i'r toilet, ac yn diflannu yno ar ddiwedd pob amser chwarae. Mi fyddwn yn cau'r drws, yn eistedd ar y sedd ac yn rhoi fy nhraed yn erbyn y drws fel na allai neb ei agor. Yr adeg honno y bydde'r prifathro'n dod ar fy ôl efo rwler.³⁶⁴

Ceir ganddo ambell gyfeiriad diwylliannol, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol a sôn am gyn-bennaeth Heddlu Gogledd Cymru, Richard Brunstrom. Sonnir am ei gefnogaeth yn dilyn y ddamwain a chyfeirir ato fel 'Prif Gopyn', ei enw barddol, sy'n dangos rhyw elfen o ddealltwriaeth o'r diwylliant.³⁶⁵ Serch hynny, ychydig iawn o gyfeiriadau diwylliannol eraill a geir yn y gyfrol hon.

Ceir sylw ganddo hefyd am gyflwr y byd rygbi cyfoes yng Nghymru, yn union fel hunangofiannau'r chwaraewyr proffesiynol.

Un o'r pethe drawodd fi pan newidies i o chwarae pêl-droed i chwarae rygbi oedd y gwahaniaeth rhwng y gymdeithas oedd yn bodoli o gwmpas y ddwy gêm. Ar ôl chwarae gêm o bêl-droed mi fydde pawb yn gwasgaru ar y diwedd neu'n hel yn glicie bach o ffrindie. Ond mewn rygbi roedd pethe'n hollol wahanol. Un gymdeithas oedd 'ne ac roedd pawb yn perthyn iddi, dim clic, dim criw bychan yn hel at ei gilydd, ond pawb fel un, a phawb yn ffrindie.³⁶⁶

Nid yw'r hunangofiant hwn yn un traddodiadol. Hunangofiant y dyn cyffredin ydyw, a'r dyn hwnnw'n digwydd bod yn chwaraewr rygbi. Ei ddamwain oedd ei unig ysgogiad wrth lunio'r gyfrol hon ac mae'n debygol iawn na fyddai'r llyfr wedi gweld golau dydd oni bai am ei ddamwain. Yn hynny o beth, nid yw'r gynulleidfa'n disgwyl yr un nodweddion ag y gellid eu disgwyl yn yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg mwy traddodiadol. Serch hynny, mae rhai o'r nodweddion hynny'n bresennol mewn ffordd arwynebol.

³⁶⁴ Ibid, t. 16.

³⁶⁵ Ibid, t. 90.

³⁶⁶ Ibid, t. 137.

Elin Haf

Oedais ychydig cyn gosod y gyfrol *Ar Fôr Tymhestlog: Rhwyfo Dau Gefnfor* ymhlith hunangofiannau'r cyfnod hwn. Y mae sawl rheswm am yr oedi hwn.

Nid oes amheuaeth mai i fyd y campau y mae'r gwrthrych yn perthyn, am iddi gynrychioli tîm rygbi menywod Cymru. Am y rheswm hwn y mae'n haeddu ei lle gyda Non Evans ymhlith y garfan fach iawn o fenywod sydd wedi llunio hunangofiant. Ond nid hunangofiant yn trafod ei gyrfa rygbi mo hon, eithr ei hymdrechion i rwyfo ar draws gefnforoedd. Mae modd dadlau o blaid ac yn erbyn galw rhwyfo'n 'gamp' yn yr ystyr traddodiadol. Wedi'r cyfan, nid rhwyfwraig o unrhyw fath mo'r gwrthrych.

Yr ail ffactor sy'n achosi ansicrwydd yw'r ffaith fod y gyfrol, a ymddangosodd ar Restr Fer Hir Llyfr y Flwyddyn 2011, yn debycach ar lawer ystyr i ddyddiadur neu gyfrol 'Stori Sydyn' nag i hunangofiant traddodiadol. Cofnodir hanes sawl ymgais dros gyfnod byr o amser i gyflawni'r her o rwyfo ar draws ddau gefnfor a dod yn un o'r ychydig fenywod i lwyddo yn hynny o beth. Serch hynny, gwelir nifer o'r nodweddion a drafodwyd eisoes yn y bennod hon. Cyfuniad o'r ddau reswm hyn sy'n peri fy mod yn gosod y gyfrol hon ar ddiwedd y drafodaeth ac nid yn ei safle cronolegol. Ychwaneger at hynny y ffaith i'r gyfrol hon gael ei chynnwys ar Restr Hir Llyfr y Flwyddyn 2011.

Egyr y gyfrol hon â rhagair a luniwyd gan y gwrthrych ei hun. Nodwyd eisoes fod cynnwys rhagair yn nodwedd sy'n gyffredin i bron bob cyfrol yn y bennod hon. Yr hyn sy'n gosod y rhagair hwn ar wahân yw'r ffaith mai'r gwrthrych ei hun a luniodd y rhagair, yn hytrach na'r awdur neu rywun annibynnol. Yn y rhagair hwn, cawn glywed ei hofnau a'i gobeithion ar daith hir yng Nghefnfor India.³⁶⁷ Mae'r darn hwn, o ran ei arddull, yn ymgorffori elfennau o'r hunangofiant cyffesol sy'n mynd i grombil meddyliau dwysaf y gwrthrych. Wrth drafod cyfuno rhwyfo â chwblhau doethuriaeth ym maes meddygaeth,

³⁶⁷ Elin Haf, *Ar Fôr Tymhestlog: Rhwyfo Dau Gefnfor* (Llanrwst, 2010), t. 7.

cyfeddyf mai 'y fi ddewisodd rwyfo, a fi fynnodd gael y cyfle i wneud doethuriaeth'.³⁶⁸ Yr enghraifft orau o elfen gyffesol y gyfrol hon yw ei thrafodaeth arwynebol am ei hysgariad a'i harweiniodd i fyd rhwyfo yn y lle cyntaf. Sonnir am ei heuogrwydd a'i chywilydd o orfod wynebu ei phentref yn dilyn yr ysgariad.³⁶⁹ Gellir cymharu'r hanes â hanes Malcolm Allen yn wynebu ei bentref yn dilyn sylw negyddol yn y cyfryngau am yfed a gyrru. Pwysleisir yma mor fach yw Cymru a'i chymunedau.

Wrth gyflwyno pob pennod, defnyddia'r gwrthrych yr un arddull ag Orig Williams, sef cynnwys dyfyniadau neu ddarnau o hen benillion wrth bwysleisio'r hyn y mae'n ei ddweud. Er enghraifft, egyr y bennod gyntaf gyda dyfyniad gan Mark Twain.³⁷⁰

Fel ym mron pob hunangofiant yn y bennod hon, mae'r cysyniad o fro enedigol y gwrthrych yn chwarae rhan bwysig yn y llyfr hwn. Dysgwn mai brodor o Benllyn yw Elin Haf, ac mae hi wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn ei bro. Yn wir, disgrifia ei hun fel 'merch fferm o ogledd Cymru'.³⁷¹ Cawn ryw ddarlun lled arwynebol ganddi o fyd amaeth ei bro tua diwedd y gyfrol.³⁷² Ymhellach, mae hi'n un o'r ychydig wrthrychau yn y bennod hon sy'n disgrifio'r hyn a olyga'r cysyniad o wreiddiau a bro iddi. Dywed fod 'popeth yn haws pan fydd ganddoch chi wreiddiau fel angor diogel'.³⁷³ Tanlinellir pwysigrwydd y fro ganddi pan fo ar y cwch 'Pura vida' sydd yn ei hatgoffa hi o gymuned gref, yn debyg i'w chymuned gartref yng Nghymru.³⁷⁴ Yn wir, awgrymir ganddi ei bod yn hiraethu am Gymru a'i chartref ar brydiau.³⁷⁵

Wrth gyflwyno'r cysyniad o fro i'r darlennydd, cyfuna'r gwrthrych y thema hon â thema crefydd sydd, yn nifer o'r cyfrolau, yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Mynegir y cyswllt

³⁶⁸ Ibid.

³⁶⁹ Ibid, t. 14.

³⁷⁰ Ibid, t. 9.

³⁷¹ Ibid, t. 11.

³⁷² Ibid, t. 105.

³⁷³ Ibid, t. 16.

³⁷⁴ Ibid, t. 130.

³⁷⁵ Ibid, t. 20.

hwn ganddi. 'Crefydd ac amaethyddiaeth oedd y ddwy elfen fwyaf allweddol wrth i mi dyfu i fyny, ac mae hynny'n dal yn wir heddiw i ryw raddau'.³⁷⁶

Yn wir, cyfeddyf fod y capel 'yn rhan sylfaenol o'm magwraeth'.³⁷⁷ Hi yw'r unig wrthyich yn y casgliad a geir yn y bennod hon sy'n rhoi pwyslais mawr ar grefydd fel pwnc trafod. Gwneir hyn mewn ffordd gynnil, serch hynny, a chan amlaf wrth ddisgrifio teithiau ar y môr. Esbonia fod ei Nain yn Gristion ac felly, mae'n bosib mai ganddi hithau y cafodd Elin Haf ei thrwytho ym myd crefydd. Yn wir, cyfeirir at ddylanwad ei Nain wrth iddo weddio ar fwrdd y cwch.³⁷⁸ Ychwanegir at hyn wrth iddi gyfeirio at ganu emynau 'i basio'r amser'.³⁷⁹ Yr hyn sy'n ychwanegu dimensiwn unigryw i'r gyfrol hon ac i drafodaeth yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg ar y cyfan yw'r ffaith iddi sôn am ei phartner rhwyfo sydd o dras Indiaidd ac sy'n dilyn ffydd y Sikh. Cyfeirir at arweinydd Sikh yn bendithio'r cwch cyn iddynt fentro ar eu taith i gefnfor India. Gwedd lawer iawn mwy personol sydd i'r drafodaeth hon na thrafodaeth Orig Williams am y ffydd Foslemaidd yn ei gyfrol yntau, er enghraifft.³⁸⁰

Er bod crefydd yn beth byw iawn i Elin Haf, ymdrinnir â'i Chymreictod mewn modd arwynebol heb fod fawr o deimlad yn ei geiriau. Sonnir droeon am weld baner Cymru ar y lan wrth iddi agosáu ar ddiwedd nifer o deithiau ar y môr. Dywed ar un achlysur mai 'braf iawn'³⁸¹ yw cael gweld y Ddraig Goch yn y Sahara (lleoliad ei hunig ymwneud yn y gyfrol hon â newyddiadurwr a'r cyfryngau, gyda llaw).

Ochr yn ochr â'i Chymreictod, defnyddir yr iaith ganddi fel arf. Cyfeiria at dderbyn negeseuon am eu cynnydd ar y daith drwy gyfrwng y Gymraeg am ei bod yn ddig â'i chyd-deithiwr sy'n dangos ychydig iawn o ddiddordeb yn eu hymgais i gwblhau'r daith.³⁸² Yr unig

³⁷⁶ Ibid, t. 16.

³⁷⁷ Ibid.

³⁷⁸ Ibid, t. 13.

³⁷⁹ Ibid, t. 12.

³⁸⁰ Ibid, t. 27.

³⁸¹ Ibid, t. 98.

³⁸² Ibid, t. 79.

sôn a geir am y diwylliant Cymraeg yw'r ffaith fod y Prifardd Aled Gwyn wedi llunio englyn i nodi llwyddiant Elin Haf ar ôl iddi gwblhau'r daith i gefnfor India.³⁸³

Mae gwleidyddiaeth y gwrthrych yn aneglur gan mai at wleidyddiaeth De Affrica yn unig y cyfeirir yn y gyfrol hon. Ceir y drafodaeth honno fel rhan o'i stori am dreulio amser yn gwneud gwaith elusennol.³⁸⁴

Yr unig gyfeiriad a geir ganddi at ei haddysg yw'r frwydr ddiweddar i achub ei hen ysgol, Ysgol y Parc. Cafodd y frwydr honno gryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn sgil penderfyniad y cyngor i gau'r ysgol wledig.³⁸⁵

Mae gwerth y gyfrol hon yn amlwg. Cawn ddarlun o'r Gymraes ar nifer o anturiaethau ym mhob rhan o'r byd. Dyddiadur ydyw'r gyfrol yn y bôn ac mae'n canolbwyntio ar ran o fywyd y gwrthrych yn unig. Mae rhai o nodweddion yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg yn bresennol yma, gan gynnwys trafodaethau ar y fro, y Gymraeg, Cymreictod, addysg, crefydd a'r cyfryngau. Mewn gwirionedd, mae'r nodweddion hyn yn eilradd i'r hanesion teithio. Yn hynny o beth, gellir eu cymharu â Dyddiaduron India R. Gerallt Jones neu ddyddiaduron Robert Croft a Jonathan Humphreys. Nid adrodd hanes bywyd y gwrthrych yw'r nod ond fe ddywedir rhywbeth am y gymdeithas Gymraeg a Chymreig ynddynt, yn sicr.

Casgliadau

Yn y rhan hon o'r bennod, astudiwyd yr holl hunangofiannau chwaraeon Cymraeg a gyhoeddwyd yn y cyfnod 1985-2011. Mae'r gwrthrychau, yn ddyddion ac yn fenywod, yn enwog mewn campau unigol a champau tîm. Ni ellir honni bod yr astudiaeth hon yn astudiaeth gyflawn o hunaniaeth Gymraeg a Chymreig ond fe ellir dadlau ei bod yn cynnig

³⁸³ Ibid, t. 134.

³⁸⁴ Ibid, t. 19.

³⁸⁵ Ibid, t. 16.

rhyw elfen o ddadansoddiad o nodweddion hunaniaeth genedlaethol. Mae rhyw elfen o agosatrwydd tuag at y fro enedigol yn dal yn bresennol ym myd y campau, er bod y thema bellach wedi'i chymylu yn yr oes broffesiynol a rhanbarthol am fod cynifer o chwaraewyr yn symud o glwb i glwb ac o wlad i wlad er mwyn ennill arian. O blith y chwaraewyr yn yr oes sydd ohoni, mynegir yr agosatrwydd hwn orau gan Dafydd Jones nad oedd erioed wedi symud y tu allan i ranbarth y Scarlets yn ystod ei yrfa i chwarae. Mae eraill wedi symud allan o'u bro, hyd yn oed am gyfnodau byrion, er mwyn datblygu eu gyrfa. Fel y dadleua Martin Johnes, 'In rugby or football, the players are competing for a team named after or clearly associated with a given geographical place, and this collective identity, which the notion of the team inspires, takes precedence over the individual identities of team members'.³⁸⁶

Trwy eu hunangofiannau, fe all chwaraewyr rygbi a pêl-droed ddenu sylw'r genedl fel unigolion. Caiff y gynulleidfa eu gweld yn eu cynefin eu hunain oddi ar y maes chwarae.

Rygbi yn bennaf sydd wedi creu'r ymdeimlad mwyaf o genedligrwydd ym myd y campau yng Nghymru, ond gall cynrychioli'r genedl ar y cae pêl-droed fod yr un mor bwysig i'r pêl-droediwr o Gymro ag ydyw i'r chwaraewr rygbi. Mae chwaraeon yn sicr wedi cryfhau'r ymdeimlad o genedligrwydd yng Nghymru.

Mae crefydd yn amlwg yn chwarae rhan o ryw fath ym mywydau nifer o'r sêr chwaraeon sydd wedi cyhoeddi cyfrolau ac sydd wedi eu gwreiddio yn y traddodiad Anghydffurfiol. Er gwaethaf dirywiad crefydd yng Nghymru, erys yn rhan o psyche'r Cymru. Yn sgil canu emynau mewn gornestau chwaraeon, fe'i cysylltir yn agos â'r byd hwnnw. Er bod chwaraeon yn faes seciwlar, nid yw'n fygythiad i'r diwylliant traddodiadol, eithr y mae'n rhan ohono. Bellach, mae chwaraeon yr un mor debygol o gael sylw'r wasg Gymraeg ag ydyw materion eraill o bwys cenedlaethol. Serch hynny, nid yw'n cael sylw ar draul materion diwylliannol traddodiadol. Yn wir, fel y gwelir yn yr hunangofiannau yn yr astudiaeth hon,

³⁸⁶ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 109.

mae sefydliadau Cymraeg a Chymreig, gan gynnwys yr Eisteddfod yn rhan gynhenid o fywydau nifer o sêr byd y campau.

Gyda datblygiadau'r cyfryngau darlledu, yn enwedig yn sgil sefydlu S4C, rhoddwyd llwyfan i'r chwaraewyr fel enwogion yn y diwylliant poblogaidd. Tra mae rhai unigolion wedi cofleidio'r cyfryngau darlledu a'r cyfleoedd a ddaw ar ddiwedd eu gyrfa, mae eraill wedi teimlo'r pwysau yn sgil derbyn sylw negyddol y cyfryngau.

Yn wleidyddol, mae'r gwrthrychau'n cynrychioli'r sbectrwm cyfan ond yr hyn sy'n gyffredin iddynt yw eu bod yn genedlaetholwyr diwylliannol, gydag elfennau megis yr anthem yn ganolog i'r cenedlaetholdeb hwnnw. Yn y rhan fwyaf o achosion, Cymreictod y gwrthrychau yw'r nodwedd bwysicaf yn eu cymeriadau, a'r ffaith eu bod yn chwaraewyr yn eilradd i'w Cymreictod.

Rhan 2: Stori Sydyn

Yn 2006, cyhoeddwyd y prosiect *Stori Sydyn/Quick Reads* am y tro cyntaf. Ar gais Llywodraeth y Cynulliad, daeth y Cyngor Llyfrau a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ynghyd i gyflwyno'r prosiect i Gymru. Ei nod oedd darparu cyfres o lyfrau byrion ar gyfer oedolion nad ydynt o reidrwydd yn darllen yn y Gymraeg. Yn wreiddiol, straeon ffuglen a gafwyd yn y gyfres hon. Yn rhan gyntaf y prosiect, cafwyd pedwar llyfr yn Gymraeg (*Brân i Bob Brân*, Rowan Coleman; *Dŵr Dwfñ*, Conn Iggulden; *Jake*, Geraint V. Jones; a *Parti Ann Haf*, Meleri Wyn James - cyhoeddwyd pob un gan Wasg Gomer) a dau Saesneg (*The Corpse's Tale*, Katherine John; *Secrets*, Lynne Barrett-Lee).

Yn sgil Diwrnod y Llyfr y sefydlwyd y prosiect hwn. Fel rhan o'r prosiect, darparwyd tocynnau llyfrau £1-i-ffwrdd i ysgolion, colegau, undebau llafur, cyflogwyr, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, llyfrgelloedd, cydlynwyr blynyddoedd cynnar a mentrau iaith er mwyn sicrhau bod gan bawb fynediad rhwydd i'r llyfrau a oedd yn rhan o'r gyfres. Yn ogystal, cafwyd cydgyfeiriant wrth i rannau o'r llyfrau gael eu darllen ar raglenni Radio Cymru yn nyddiau cynnar y prosiect.

Ar wefan BBC Cymru'r Byd, 'Llyfrau', dywedir am y gyfres *Stori Sydyn* mai 'llyfrau byrion yw'r rhain wedi eu bwriadu'n arbennig ar gyfer cynneu diddordeb mewn llyfrau ymhlith rhai [sic] ydynt fel rheol yn darllen', a disgrifir y gyfres fel 'cyfres o lyfrau byr, cyffrous, byrlymus, wedi'u hysgrifennu'n benodol gan awduron poblogaidd, ar gyfer oedolion sy'n egin ddarllenwyr, y sawl sydd wedi colli'r arfer o ddarllen neu unrhyw un sy'n chwilio am lyfr i'w ddarllen yn sydyn.'³⁸⁷

Ymhlith yr ail gyfres a gyhoeddwyd, roedd tair stori fer ac un gyfrol hunangofiannol gan y darlledwr, Gary Slaymaker. Yr un flwyddyn, roedd cyfrol hunangofiannol gan Tanni Grey-Thompson, ond yr un gyfrol chwaraeon yn Gymraeg, serch hynny. Gellir dadlau, o

³⁸⁷ BBC Cymru, Llyfrau, <http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau> [Fel yr oedd ar Fehefin 25, 2011].

bosib, mai ymgais oedd cynnwys hunangofiannau i boblogeiddio'r *genre*. Cafwyd y cyfrolau chwaraeon *Stori Sydyn* cyntaf yn 2009, sef *Fyny Gyda'r Swans* gan Owain Tudur Jones (gydag Alun Gibbard; Y Lolfa) ac *Ar Ben Y Byd* gan Shane Williams (gyda Lynn Davies; Y Lolfa). Yn 2010, cafwyd *Ali Yassine – Llais yr Adar Gleision* (gydag Alun Gibbard; Y Lolfa) a *Jamie Roberts: Y Llew yn Ne Affrica* (gyda Lynn Davies; Y Lolfa).

Erbyn 2011, roedd tair allan o'r pedair cyfrol *Stori Sydyn* a gyhoeddwyd yn seiliedig ar fyd chwaraeon. Yn y gyfres hon, cafwyd cyfrolau *Hartson* (John Hartson gyda Lynn Davies; Y Lolfa), *Cymry Man U* (Gwyn Jenkins; Y Lolfa), *Tacsi i Hunllef* (Gareth F. Williams; Y Lolfa) a *Mefin – I Gymru yn ôl* (Mefin Davies gyda Lynn Davies). Dyma ddangos yn glir, felly, fod y *genre* cofiannau a hunangofiannau chwaraeon yn dechrau cryfhau yn Gymraeg.

Wrth gyhoeddi'r gyfres, dywedodd y Gweinidog Addysg, Jane Davidson, fod angen cyfuno'r broses o wella sgiliau darllen a fydd yn 'gwella'u cyfleoedd bywyd', gyda mwynhad.

Pan fyddwn yn llwyddo i gyfleu'r ddwy neges byddwn wedi cymryd cam mawr ymlaen o ran cyflawni ein nodau.³⁸⁸

Ymchwiliodd y *Welsh Social Survey: Report on the Welsh Language* i allu'r Cymry i siarad Cymraeg a'r graddau y defnyddiwyd y Gymraeg ar y cyfan.³⁸⁹ Un o amcanion yr holiadur oedd cynnig gwybodaeth am y Gymraeg i ategu gwybodaeth Cyfrifiad y flwyddyn gynt. Yn wahanol i'r Cyfrifiad, a ofynnai a oedd y Cymry'n darllen Cymraeg, gofynnai'r holiadur a oeddynt yn *medru* darllen Cymraeg. Daeth i'r amlwg fod y naill ffigur yn wahanol iawn i'r llall. Roedd nifer y rhai a *fedrai* ddarllen Cymraeg (22.5% o'r boblogaeth) dipyn yn uwch na nifer y rhai a *ddarllenai* Cymraeg (16.3%).

Yn ôl yr holiadur, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fedrai ddarllen Cymraeg (30.7%) yn y

³⁸⁸ Jane Davidson Ibid.

³⁸⁹ 1992 *Welsh Social Survey: Report on the Welsh Language* (Welsh Office, 1995).

categori 3-15 oed. Yng Ngwynedd, fel y gellir disgwyl, y ceid y ganran uchaf o ddarllenwyr Cymraeg yng Nghymru (62.8%), ac yng Ngwent yr oedd y ganran isaf (4.1%). Rhaid ystyried y posibilrwydd fod y ganran honno dipyn yn uwch erbyn hyn yn sgil ymdrechion i gynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg, yn ogystal â darpariaeth addysg Gymraeg yn y sir honno. Trwy Gymru gyfan, roedd 84.7% o Gymry Cymraeg yn medru darllen yr iaith, a 5.5% o'r rhai na fedrai siarad Cymraeg yn medru ei darllen. Efallai bod hyn yn arwydd o ddiffyg hyder ar lafar. Tra mesurwyd y ganran o bobl o gefndir lle'r oedd y ddau riant yn siarad Cymraeg a fedrai ei darllen (79%), ni fesurwyd canran y bobl o gefndir cwbl ddi-Gymraeg a fedrai ddarllen Cymraeg. Mae hyn yn hepgor canran sylweddol o Gymry.

Lluniwyd adroddiad pellach ddiwedd 2005 yn dwyn y teitl *Living Lives Through the Medium of Welsh Study*, a baratowyd gan grŵp ymchwil Beaufort ar gyfer S4C, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.³⁹⁰ Ei nod oedd archwilio'r graddau y mae Cymry Cymraeg yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr adran ar y defnydd a wneir o'r cyfryngau a mynediad i ddigwyddiadau'r celfyddydau, dengys yr ystadegau o safbwynt darllen fod 64% wedi darllen llyfr Saesneg yn y mis cyn yr astudiaeth, tra oedd 38% yn unig wedi darllen llyfr Cymraeg yn yr un cyfnod. O ran cael mynediad i ddeunydd, ni fedrai llawer iawn o Gymry Cymraeg ddeall pam nad oedd cyfres o lyfrau Cymraeg ar gael mewn siopau llyfrau'r stryd fawr megis Waterstone's. Dymunent brynu llyfrau Cymraeg yn yr un lleoedd ag y gellid prynu llyfrau Saesneg. Un o argymhellion yr adroddiad oedd y dylid cynyddu nifer y llyfrau Cymraeg a oedd ar gael yn siopau'r stryd fawr. Credid y byddai hyn yn cynyddu'r gwerthiant ac yn codi proffil cynnyrch Cymraeg yn gyffredinol. Ar yr un pryd, codwyd ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddulliau o brynu llyfrau Cymraeg, er enghraifft, oddi ar y we. Argymhellodd hefyd y dylid llunio prosiectau

³⁹⁰ Beaufort Research, '*Living Lives Through the Medium of Welsh Study, Summary Report, October-December 2005*'. www.s4c.co.uk/abouts4c/.../pdf/e_WelshLivesSummaryReport.pdf [fel yr oedd ar Awst 1, 2010].

cydgyfeiriant o ran marchnata. Un o'r prosiectau hynny oedd hysbysebu cynnyrch Cymraeg yn y cyfryngau di-Gymraeg. Roedd y cyfrolau ar gael yn siopau'r stryd fawr, gan gynnwys Tesco, Sainsbury's, WHSmith, ASDA a Waterstones. Dyma ufuddau i un o argymhellion yr adroddiad, felly.

Er nad yw cysyniad y stori sydyn yn bodoli yn Saesneg, gellir cymharu'r gyfres hon â rhai o'r hunangofiannau dadlennol a gyhoeddwyd o'r 1970au ymlaen. Roedd y rhain yn symud oddi wrth yr hunangofiant mwy traddodiadol a adlewyrchai fywyd dedwydd yr unigolion. Gyda'r math newydd hwn o hunangofiannau a ganolbwyntiai ar dor-priodasau a phroblemau alcohol a chyffuriau, penderfynwyd cicio yn erbyn y tresi i ryw raddau. Yn Saesneg, gellir diffinio'r math hwn o hunangofiant fel 'exposé'.

Ail elfen y stori sydyn yw'r ffaith nad yw'n adlewyrchu bywyd cyfan a chyflawn o reidrwydd. Yn aml iawn, mae'r gwrthrych ar ddechrau neu ynghanol ei yrfa a'i fywyd. Y peth agosaf at y stori sydyn a gafwyd yn Saesneg cyn hynny oedd cyfres o erthyglau papur newydd a gyhoeddwyd er mwyn rhoi mewnwelediad i fywyd personol yr unigolyn. Yr unigolyn cyntaf â'i fryd ar lunio math o 'stori sydyn' dan enw'r hunangofiant oedd y pêl-droediwr, Stanley Matthews, a hynny ym 1946. Ac yntau'n ddyn ifanc ar ddechrau ei yrfa, eglura Joyce Woolridge iddo gael ei rybuddio gan ei dad i beidio â llunio'r gyfrol am nad oedd ganddo'r un gair gwerthfawr i'w ddweud am fywyd bryd hynny.³⁹¹ Dyma wrthgyferbyniad llwyr â chwaraewyr ifanc megis Wayne Rooney yn yr oes hon a aeth ati i lunio'i hunangofiant yn ei ugeiniau cynnar. Ar y llaw arall, ymddengys fod y fath gyfrolau'n dderbyniol yn y Gymraeg am mai eu pwrpas yw annog Cymry Cymraeg i ddarllen. Nid yw'r cymhelliant hwnnw'n bodoli i'r un graddau yn Saesneg.

Nodwedd arall o'r stori sydyn yw'r diffyg manylu ar fywyd y gwrthrych yn blentyn.

Dadleua Woolridge mai'r rheswm am hyn yw fod gwrthrych cyfrol ad hoc yn dewis

³⁹¹ Joyce Woolridge, 'These Sporting Lives: Football Autobiographies 1945-1980', yn *Sport in History*, 28:4 (December, 2008), 628.

canolbwyntio ar y presennol y mae'n llunio'r gyfrol ynddo, ac yn ceisio dweud rhywbeth am yr oes fodern, yn hytrach na thafllu goleuni ar ei orffennol. Dadleua Woolridge nad yw profiadau plentyndod o reidrwydd yn 'important to the narrative of self-improvement.'³⁹² Archwiliaf ddau lyfr yn y gyfres hon, gan edrych ar eu cynnwys er mwyn mesur i ba raddau y maent yn ddeniadol ar gyfer y darlennydd Cymraeg. Canolbwyntiaf yn benodol ar gyfrolau Ali Yassine, *Llais yr Adar Gleision* (gydag Alun Gibbard) a John Hartson, *Hartson* (gyda Lynn Davies).

Mae'r gyfrol *Ali Yassine: Llais yr Adar Gleision* ychydig yn wahanol i weddill y gyfres *Stori Sydyn* a hynny'n bennaf am fod Ali Yassine yn un a ddaeth i Gymru ac i'r Gymraeg o'r tu allan. Yn hynny o beth, un o brif elfennau'r gyfrol yw'r croeso a'r hiliaeth a wynebodd yn ei fywyd cynnar ac fel cyhoeddwr ym Mharc Ninian yng Nghaerdydd. Wrth hel atgofion am ei ymweliad cyntaf â Pharc Ninian, ceir cymysgedd o deimladau ganddo, a hynny am iddo deimlo'n israddol oherwydd lliw ei groen, yn enwedig yng nghyd-destun bod yn gefnogwr pêl-droed.

Falle fod Caerdydd yn un o'r dinasoedd cyntaf ym Mhrydain i gael pobl o wahanol hil yn byw ynddi, ond doedd neb wedi dweud hynny wrth bêl-droed.³⁹³

Sonnir yn fanwl am hiliaeth ar y terasau a'r sarhad a wynebai'r chwaraewyr croenddu, a oedd yn brin iawn yn ystod y 1980au. I'r diwylliant hwn y daeth Ali Yassine a'i deulu pan benderfynwyd symud o'r Aifft i Gaerdydd.

Doeddwn i ddim yn siarad Cymraeg ar y pryd – dysgais yr iaith pan oeddwn yn hŷn. Roedd pethau eraill i'w deall ar y pryd.³⁹⁴

Elfen o'r diwylliant a glymodd ei wreiddiau yn Aifft a'i fywyd newydd yng Nghaerdydd oedd traddodiad yr 'Ayatollah', sef gweddi ddefosiynol Islamaidd, a

³⁹² Ibid.

³⁹³ Ali Yassine (gydag Alun Gibbard), *Llais yr Adar Gleision* (Talybont, 2010), t. 9.

³⁹⁴ Ibid, t. 12.

gyflwynwyd i Gaerdydd gan Yassine yntau. Yr hyn a wnaeth yr Ayatollah yn ddatliad enwog oedd y ffaith iddo gael ei berfformio yn ystod gêm gan y cefnogwyr i dalu teyrnged i'r gŵr a achubodd glwb pêl-droed Caerdydd mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol, sef Sam Hammam, ac yntau'n dod o'r Aifft. Mewn gwirionedd, bu'r weithred yn gysylltiedig â'r clwb ers i'r band pync *U Thant a'r Cenhedloedd Unedig* berfformio'r ddefod mewn gig yn y brifddinas. Tra cyddiodd y traddodiad ymhlith y cefnogwyr, nid pawb oedd yn hapus, a chafwyd cwynion gan nifer o Gristnogion a deimlai fod 'gwneud yr Ayatollah' yn dwyn anfri ar y ffydd.

Y cyffyrddiadau diwylliannol hyn yw'r elfen ddiddorol sy'n rhoi gwerth i'r gyfrol hon. Dywed Lyn Ebenezer amdani ei bod yn 'gyfrol hynod diddorol a chynnes gan bersonoliaeth sydd yn ddiddorol a chynnes ei hun. A gonest.'³⁹⁵ Dewisir canmol y gwrthrych yma gymaint â'r gyfrol hithau.

Mae ei Gymreictod yn amlwg yn agos at galon Ali Yassine, a thrafodir ei hunaniaeth ganddo yn nhermau iaith a diwylliant, yn ogystal â'r elyniaeth sy'n bodoli rhwng Caerdydd ac Abertawe. Bu bob amser yn frwd wrth gyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg am yn ail yn ystod gêm, a chyfeiria at y fraint o gael cyhoeddi yn y ddwy iaith yn Wembley yn rownd gyn-derfynol Cwpan F.A., ond ei siom o gael clywed na fyddai lle i'r Gymraeg yn y rownd derfynol. O gymharu'r rownd derfynol a'r rownd gyn-derfynol, dywed fod 'y rheolau'n dipyn mwy llym, yr holl beth yn fwy militaraid ei naws'. Cafodd 'orchymyn pendant i beidio â siarad gair o Gymraeg' gan ddweud bod hynny'n 'eithaf ergyd.'³⁹⁶

Wrth esbonio'r hyn a olyga i Yassine ei fod wedi dysgu Cymraeg, cyfeiria at ddiffyg ymwybyddiaeth ei deulu o'r iaith Gymraeg yn y 1950au. Serch hynny, dywed ei bod yn 'anodd iawn i mi ystyried fy hun yn Gymro yn byw yng Nghymru' pe na bai'n mynd ati i

³⁹⁵ Lyn Ebenezer, www.gwales.com, Cyngor Llyfrau Cymru [Fel yr oedd ar Orffennaf 1, 2010].

³⁹⁶ Ali Yassine (gydag Alun Gibbard), *Llais yr Adar Gleision*, t. 67.

ddysgu'r Gymraeg.³⁹⁷ Ai'r iaith yw un o brif nodweddion hunaniaeth i Yassine, felly?

Dengys Yassine yn y lle cyntaf fod ganddo gryn dipyn o syniad am hanes Cymru a diddordeb yn hanes Cymru. Wrth gyhoeddi cyn gornest rhwng Caerdydd a Nottingham Forest, cyfeiriodd Yassine at streic y glöwyr, gan fod y ddau glwb wedi chwarae yn erbyn ei gilydd ar ddechrau'r streic ym 1985.³⁹⁸ Yn wir, defnyddia areithiau enwog ar adegau a'u haddasu ar gyfer gornestau pêl-droed, ond y rheini'n rhai Prydeinig a byd-eang yn hytrach na Chymraeg. Cyfeiria at sylwebydd pêl-droed o Norwy yn dirmygu Margaret Thatcher pan gurwyd Lloegr a rhoi terfyn ar eu gobeithion o ennill Cwpan y Byd.³⁹⁹

O ran y diwylliant Cymraeg a Chymreig, cyfeiria at annog torf Caerdydd i ganu 'Men of Harlech' cyn gemau ond yn cael ei siomi am nad oedd y dorf yn gwybod y geiriau Cymraeg na Saesneg.⁴⁰⁰ O safbwynt yr elyniaeth rhwng Caerdydd ac Abertawe, adroddir hanes galw Stadiwm Liberty yn 'Caravan Park' fel jôc wrth-Abertawe, a'i gael ei hun i drafferth.⁴⁰¹ Ceir hanes yr 'ymddiheuro' - i'r gymuned sipsiwn am fentro cysylltu'r gymuned honno â stadiwm Abertawe!

Arweiniodd y fath gellwair ar adegau at sylw yn y wasg. Wrth chwarae cân thema *Steptoe and Son* ar y system sain cyn gêm, penderfynodd gyhoeddi'r canlynol, heb wybod fod gohebydd o'r *Sun* yn bresennol ym Mharc Ninian. Meddai, 'Ladies and gentlemen, would the owner of the black and white shire horse in the car park please move it, along with the rag-and-bone cart it's attached to!'⁴⁰²

Dyma un o'r ychydig gyfeiriadau a geir at y wasg yn y gyfrol hon. Caiff y papur ei feirniadu ganddo am geisio creu stori allan o jôc. Cyfeiria yn ogystal at golli ei swydd fel

³⁹⁷ Ibid, t. 72.

³⁹⁸ Ibid, t. 34.

³⁹⁹ Ibid, t. 51.

⁴⁰⁰ Ibid, t. 44.

⁴⁰¹ Ibid, t. 41.

⁴⁰² Ibid, t. 27.

cyhoeddwr yng Nghaerdydd, gan fod y clwb wedi magu cyswllt â gorsaf radio *Kiss FM*, a phenderfynu penodi cyflwynydd o'r orsaf honno i gyhoeddi yn ystod y gemau.⁴⁰³

Cyfrol afaelgar yw hon, sy'n cynnig golwg ar Gymru a Chymreictod o'r tu allan, fel petai, ac sy'n adrodd hanes dyn ifanc a'i frwydr i ddod yn rhan o genedl y Cymry yng Nghaerdydd, mewn cyfnod pan oedd y genedl honno'n brwydro'n ffyrnig i gynnal ei hunaniaeth.

Trafod brwydr o fath cwbl wahanol yw pwrpas y gyfrol *Hartson*, a luniwyd gan John Hartson gyda Lynn Davies. Adroddir hanes personol iawn ei frwydr yn erbyn cancr. Gesyd y nod o ddechrau'r gyfrol, sef adrodd hanes 'ffindo lwmpyn ar un o 'ngheilliau i – yr un dde.'⁴⁰⁴

Nid dechreuad confensiynol na thraddodiadol yr hunangofiant nodweddiadol Gymraeg mo hwn. Dyma ddechreuad sy'n nodweddu llawer iawn o hunangofiannau pêl-droed Saesneg eu hiaith y 1980au. Yr hyn sy'n gwneud hwn yn wahanol i lawer iawn o hunangofiannau yw'r ffaith fod ei fam wedi llunio nifer o'r penodau yn trafod y cyfnod y bu ei mab yn yr ysbyty pan oedd ar ei waethaf yn sgil yr afiechyd. Yn hynny o beth, mae'n anodd iawn diffinio'r hyn yw'r gyfrol mewn gwirionedd. Mae iddi'r rhan fwyaf o nodweddion yr hunangofiant, yn sicr, ond mae iddi elfennau'r dyddiadur hefyd. Dywed Janice Jones mai 'cyfrol ddifyr ag ynddi ddigon i gynnal sylw darllenwyr brwd a llugoer fel ei gilydd' ydyw hon.⁴⁰⁵ Nodir ganddi hefyd fod apêl i'r hunangofiant hwn y tu hwnt i gefnogwyr pêl-droed yn ogystal oherwydd natur salwch Hartson a'r sylw a gafwyd iddo yn y wasg. Ceir ynddi'r 'gwir sydd y tu ôl i'r penawdau.'⁴⁰⁶

Rhydd le yn y gyfrol i amryw nodweddion yr hunangofiant, fodd bynnag, a'r amlycaf o'r rheini yw ei fagwraeth a phwysigrwydd y Gymraeg iddo. Cafodd ei fam ei geni a'i magu

⁴⁰³ Ibid, t. 56.

⁴⁰⁴ John Hartson (gyda Lynn Davies), *Hartson* (Talybont, 2011), t. 6.

⁴⁰⁵ Janice Jones, www.gwales.com, Cyngor Llyfrau Cymru [Fel yr oedd ar Awst 31, 2011].

⁴⁰⁶ Ibid.

ying Nghwm Tawe, a hithau'n medru'r Gymraeg. Wrth drafod hanes ei fam, fe'i gesyd yn dwt yn nhraddodiad y cwm glofaol. Daw'r 'unig blentyn i John Jenkins a Lena Lewis... o bentre bach Rhyd-y-fro, ar bwys Pontardawe'.⁴⁰⁷ Fe'n cyflwynir i fagwraeth gapelyddol Hartson gan ei fam, wrth iddi ddarganfod cysur mewn gweddi tra bu ei mab yn yr ysbyty. Ei hafan ar y pryd, yn ôl ei mab, oedd 'Gosen, capel yr Annibynwyr yn Nhrebanos, lle ces i a holl deulu Mam ein magu'.⁴⁰⁸

Law yn llaw â dylanwad crefydd a'i fagwraeth yng Nghwm Tawe, fe fu'r Gymraeg yn bwysig iawn iddo hefyd, er mai ei fam yn unig a fedrai'r iaith, ac felly'r Saesneg oedd iaith yr aelwyd. Profiad digon Seisnig a gâi Hartson gartref yn y Trallwm, heb yr un gair 'o Gymraeg yno ar y stryd nag yn y siope'.⁴⁰⁹

Er y cyfeddyf iddo siarad Saesneg gan amlaf yn Ysgol Gyfun Gŵyr, sylweddola gymaint o ddylanwad a fu'r ysgol ar y ffaith ei fod yn Gymro balch. Dangosodd yr ysgol iddo 'beth oedd bod yn Gymro yn ei olygu'.⁴¹⁰ Ychwanega ei fod 'wedi dod i werthfawrogi bod cadw'r iaith yn hollbwysig i ni fel gwlad'.⁴¹¹ Yn wir, pwysleisia bwysigrwydd cael cwmni Cymry eraill tra bu'n bwrw ei brentisiaeth fel pêl-droediwr gyda chlwb Luton yn Lloegr, er nad oedd y rheini'n medru'r Gymraeg.⁴¹² Cafodd gyfle yn gynnar iawn yn ei yrfa i gynrychioli ei wlad, a hynny'n destun balchder mawr iddo. Dywed ei fod 'ar dân eisie gwisgo crys coch fy ngwlad'.⁴¹³ Ychwanega ei fod yn 'teimlo'n browd ofnadw bob tro'.⁴¹⁴

Tra oedd ei fryd ar gynrychioli Cymru ar y cae pêl-droed, amlygir y ffaith mai rygbi oedd y gamp a chwaraeai pawb yn yr ysgol, sydd efallai'n nodwedd o addysg Gymraeg yn y

⁴⁰⁷ John Hartson (gyda Lynn Davies), *Hartson*, t. 24.

⁴⁰⁸ *Ibid*, t. 32.

⁴⁰⁹ *Ibid*, t. 33.

⁴¹⁰ *Ibid*.

⁴¹¹ *Ibid*, t. 43.

⁴¹² *Ibid*, t. 31.

⁴¹³ *Ibid*.

⁴¹⁴ *Ibid*, t. 37.

degawdau diwethaf. Dywed mai ‘rygbi a gâi’r sylw i gyd’.⁴¹⁵

Wrth gynrychioli Cymru, cyfeiria’n benodol at yr anthem, fel y gwna llawer iawn o chwaraewyr eraill dan sylw yn y bennod hon. Bron iawn y gellir dweud bod trafod yr anthem bellach yn nodwedd o’r *genre*, o bosib, ac er bod Hartson yn gwneud hynny mewn ffordd ‘ffwrdd-â-hi’, cyfeddyf fod y crys a’r anthem yn ‘wastad yn rhoi gwefr arbennig i fi’.⁴¹⁶

Cyfeiria Hartson, fel Ali Yassine, at elyniaeth Abertawe a Chaerdydd, ond o’r persbectif arall, fel petai.⁴¹⁷ Ceisia esbonio un rheswm am yr elyniaeth hon, sef bod Caerdydd yn brifddinas ac felly’n cael mwy o sylw nag Abertawe. Ond mentraf ddadlau bod mwy o lawer i’r sefyllfa na’r ddadl honno’n unig. Er gwaethaf yr elyniaeth rhwng Abertawe a Chaerdydd, teimla Hartson y bu cefnogwyr Cymru, y rhan fwyaf ohonynt hefyd yn gefnogwyr Caerdydd, yn gefnogol iawn iddo yn dilyn ei salwch. Er y byddent yn rhoi amser caled iddo ar y cae tra oedd yn chwaraewr, ‘daw rhai o ffans yr Adar Gleision ata i i siglo llaw’ erbyn hyn.⁴¹⁸

Ar ôl i’w yrfa fel chwaraewr ddod i ben, mentrodd Hartson i fyd y cyfryngau a hynny yn Saesneg i ddechrau tra oedd yn byw yn yr Alban. Bellach, mae’n gyd-sylwebydd ar S4C. Crisielir ei gyfraniad i’r byd darlledu hyd yn hyn mewn un paragraff byr, gan gyfeirio at ei waith gyda Sky, ESPN a S4C fel sylwebydd, ac fel gohebydd i’r *Scottish Sun*.⁴¹⁹

Casgliadau

Felly, er fy mod yn gyndyn o ddsbarthu’r gyfres *Stori Sydyn* yn yr un categori â’r hunangofiannau mwy traddodiadol sy’n cael sylw yn y bennod hon, mae’n sicr bod rhai o nodweddion yr hunangofiant traddodiadol yn perthyn i rai o gyfrolau’r gyfres hon. Hynny yw, mae arddull y cyfrolau hyn yn eu gosod o fewn *genre*’r hunangofiant, er bod eu pwrpas

⁴¹⁵ Ibid, t. 34.

⁴¹⁶ Ibid, t. 66.

⁴¹⁷ Ibid, t. 68.

⁴¹⁸ Ibid, t. 69.

⁴¹⁹ Ibid, t. 9.

a'u sylwedd yn dra gwahanol. Er na cheir cymaint o sylwedd o ran magwraeth, bro, addysg a chefnidir cymdeithasol ym mhob un o'r cyfrolau (ac eithrio Mefin Davies, efallai), mae cenedligrwydd a hunaniaeth yn dal i fod yn elfennau cryf ym mhob un ohonynt. Maent yn sicr yn ymdebygu i'r hunangofiant ad hoc am eu bod yn canolbwyntio ar un cyfnod ym mywyd y gwrthrych - tymor y Gamp Lawn yn 2008 yn achos Shane Williams - ac fel arfer maent yn ymddangos pan fo gan y gwrthrych yntau broffil uchel yn y cyfryngau. Pan fo poblogrwydd yr hunangofiant ar ei anterth, fel ag y mae erbyn hyn, ymddengys fod lle mwy blaenllaw gan gyfrolau'r *Stori Sydyn* ymhlith llyfrau'r Cymry. Er hynny, mae perthynas yr hunangofiant a'r gyfrol *Stori Sydyn*, yn ei hanfod, yr un fath â pherthynas y nofel a'r stori fer. Y mae lle i'r ddau yn y traddodiad llenyddol, ac i'r ddau eu pwrpas a'u hapêl eu hunain.

Rhan 3: Oes Aur Rygbi Cymru - Dau Begwn Hunaniaeth

*'O Carlo, Carlo, Carlo'n whare polo heddi,
Carlo, Carlo, Carlo'n whare polo gyda dadi.'
Ymunwch yn y gân, daeogion fawr a mân,
O'r diwedd mae gynnon ni Brins yng Ngwlad y Gân.'*⁴²⁰

Fe ddaeth geiriau Dafydd Iwan yn y gân 'Carlo' yn anfarwol yng Nghymru, ac yn fwy arwyddocaol i'r lleiafrif, efallai, na'r digwyddiad y maent yn ei ddisgrifio, sef yr Arwisgiad yng Nghastell Caernarfon ar Orffennaf 1, 1969.

Dadleuwyd mai ymgais i ddistewi'r cenedlaetholwyr oedd y sioe fawr o Brydeindod, a hynny yng nghysgod buddugoliaeth Aelod Seneddol Plaid Cymru, Gwynfor Evans yn etholiad cyffredinol 1966.

Roedd hyd yn oed y mwyaf o'r papurau newydd Prydeinig, *The Times*, yn amau cymhellion y llywodraeth wrth gynnal yr Arwisgiad, gan ddweud bod y cyfan yn 'political sop to pacify the nationalist stirrings of Wales'.⁴²¹ Er bod canlyniadau'r polau piniwn ynghylch yr Arwisgiad yn amrywio i ryw raddau, ni ellir ond derbyn fod cryn dipyn o gefnogaeth, serch hynny, i'r digwyddiad ac i'r Tywysog yntau.

Dadleuai'r cenedlaetholwyr mai ymgais i niwtraleiddio'u dylanwad oedd yr Arwisgiad ac roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, George Thomas yn ffigwr blaenllaw yn y broses honno. Roedd yr Athro Glanmor Williams, Cadeirydd Cyngor BBC Cymru a llywodraethwr gyda'r Gorfforaeth, yn awyddus i'r BBC adlewyrchu teimladau a natur y gymdeithas ar y pryd, a thynnu sylw at y lleiafrif bach - y cenedlaetholwyr - a fu'n gwrthwynebu'r Arwisgiad. Cythruddwyd Thomas am y teimlai y rhoddid llawer gormod o sylw i'r cenedlaetholwyr a fu'n protestio yn y misoedd cyn yr Arwisgiad. Ymatebodd Williams drwy ddweud nad oedd ganddo'r grym i ddylanwadu ar ddarllediadau'r BBC, a phe

⁴²⁰ Dafydd Iwan, 'Carlo', *Dafydd Iwan a'r band yn fyw, Cyfrol 2* (Cyhoeddiadau Sain, 2002).

⁴²¹ Martin Johnes, 'A Prince, a King and a Referendum: Rugby, Politics and Nationhood in Wales 1969-79', *Journal of British Studies*, 47 (2008), 129.

bai ganddo rym, ni fyddai wedi gwneud dim i'w ddefnyddio. Ymateb Thomas i hynny? 'I'll tell the prime minister about you!'⁴²²

Daeth i'r amlwg ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach drwy gyhoeddi papurau'r llywodraeth fod Thomas wedi bod yn cwyno wrth y Prif Weinidog am fod Tywysog Cymru yntau'n dod yn rhy genedlaetholgar mewn anerchiadau. Credai'r Tywysog fod pobl yn dod yn fwy effro i'r diwylliant ac i wleidyddiaeth.

Roedd o leiaf ddwy ysgol o feddwl yng Nghymru ynghylch yr Arwisgiad, ac roedd y genedl yn amlwg wedi hollti ynghylch y mater.

Dadleua Johnes y ceid, yn y cyfnod ychydig ar ôl yr Arwisgiad, chwaraewyr cenedlaetholgar megis Ray Gravell yr oedd Owain Glyndŵr yn arwr iddo. Ychwanega fod cynrychioli Cymru'n 'near-spiritual event' iddo.⁴²³ Ar y llaw arall, ceid J.P.R. Williams, mab i feddyg a gludwyd i'r ysgol 'in his father's Rolls Royce and then educated at an English public school'.⁴²⁴ Ymhellach, dadleua, 'he must have had rather a different understanding of what being Welsh meant'.⁴²⁵

Ym 1969, roedd Cymru newydd ennill y Goron Driphlyg, gan esgor ar yr hyn a ddaeth yn adnabyddus yn ddiweddarach fel Oes Aur Rygbi Cymru. Daeth y cefnwr ifanc a chwaraeai dros dîm Cymry Llundain, John Peter Rhys Williams i'r llwyfan rhyngwladol am y tro cyntaf ym Murrayfield, ychydig cyn chwarae rhan yn y seremoni Arwisgo, y seremoni y chwaraeodd George Thomas ran allweddol ynddi. Yn ei hunangofiant, a gyhoeddwyd ym mlwyddyn ei ymddeoliad swyddogol, 1979 (er y dychwelodd ym 1981), cyfeiria at achlysur yr Arwisgo gyda balchder am ei fod yn un o'r 'young escorts to Prince Charles during his Investiture as Prince of Wales'.⁴²⁶ Ychwanega fod gafael y Tywysog ar y Gymraeg wedi creu cryn argraff arno.

⁴²² Glanmor Williams, *A Life* (Cardiff, 2002), t. 139.

⁴²³ Martin Johnes, 'A Prince, a King and a Referendum', t. 141.

⁴²⁴ *Ibid.*

⁴²⁵ *Ibid.*

⁴²⁶ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams* (Dublin, 1979), t. 61.

Yn y cyfamser, ymhellach i'r Gorllewin, nid oedd y crwtyn ysgol o Fynyddygarreg, Raymond William Robert Gravell eto wedi cyrraedd rhengoedd tîm Llanelli heb sôn am Gymru. Yn haf 1969, roedd y canolwr ifanc yn chwarae mewn cystadleuaeth saith bob ochr yng Nghwm Gwendraeth i ddathlu'r Arwisgiad (neu yng ngeiriau Grav, 'dyna oedd yr esgus'). Ond roedd hadau Cymreictod eisoes yn cael eu hau ynddo yn sgil yr hinsawdd wleidyddol, ac efallai'n fwy arwyddocaol, yn sgil caneuon protest Dafydd Iwan adeg yr Arwisgo. Trwy ganeuon megis 'Carlo' a 'Croeso Chwedeg Nain', sylweddolai Ray Gravell arwahanrwydd Cymru fel cenedl 'a bod ein hiaith a'n diwylliant a'n ffordd o fyw mor wahanol...'.⁴²⁷ Dyma adlais, efallai, o sylwadau Ned Thomas, sy'n dadlau mai deffroad cenedlaetholgar a gaiff y Cymro, yn hytrach na chael ei enw'n wladgarwr.⁴²⁸

Yn fuan wedyn, daeth cyfle cyntaf Ray Gravell i gynrychioli ei wlad, wrth iddo gael ei ddewis i chwarae yn nhîm ieuenctid Cymru yn erbyn Ffrainc. Mynegir ei siom o sefyll i ganu'r anthem, 'wrth i'r band chware nid 'Hen Wlad Fy Nhadau', ond 'God Save The Queen'! Suddodd 'y nghalon ac aeth gwefr o ddiecter drwy 'nghorff... ar ôl i 'nghenedlaetholdeb gael ei danio.'⁴²⁹ Cymherir y profiad o ganu'r anthem â chanu yn yr eglwys gan J.P.R. Disgrifia'r profiad o ganu o flaen pum cant o bobl yn yr eglwys fel 'great ordeal'. 'Ten years later it was no less of an ordeal to be singing Mae Hen Wlad Fy Nhadau for the first time in front of fifty thousand fanatics at Cardiff Arms Park.'⁴³⁰

Mae'r cysylltiad rhwng canu a'r eglwys yn achos J.P.R. yn parhau drwy'r llyfr, yn enwedig wrth drafod ei briodas. Dyfynnir geiriau'r ficer yma: 'All these people up here know that you're Welsh and expect you to sing. So get in there...and show 'em!'⁴³¹

Dau begwn hunaniaeth ym 1969, felly, a dau gymeriad a fyddai mor allweddol yn Oes Aur Rygbi Cymru. Yn y cyfnod 1969-79, enillodd y tîm cenedlaethol Bencampwriaeth y

⁴²⁷ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav* (Llandysul, 1986), t. 41.

⁴²⁸ Ned Thomas, *The Welsh Extremist* (Talybont, 1971), t. 59.

⁴²⁹ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 43.

⁴³⁰ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 30.

⁴³¹ *Ibid*, t. 31.

Pum Gwlad ddwywaith, y Gamp Lawn dair gwaith a'r Goron Driphlyg dair gwaith. Enillwyd y Gamp Lawn gyntaf ers pedair ar bymtheg o flynyddoedd ym 1971. Aeth tri ar ddeg o chwaraewyr Cymru ar daith y Llewod yn ddiweddarach y flwyddyn honno, gan ddangos mai Cymru oedd yn flaenllaw yn y byd rygbi ym Mhrydain.⁴³²

Chwaraeodd J.P.R. Williams 55 o weithiau dros Gymru o 1969 hyd at 1981, gan sgorio 36 o bwytiau. Cynrychiolodd y Llewod ar wyth achlysur a sgorio triphwynt. Enillodd Ray Gravell 23 o gapiau dros Gymru a sgorio pedwar pwynt rhwng 1975 a 1981, a chwaraeodd bedwar o weithiau dros y Llewod a sgorio pedwar pwynt.

Mae hunangofiannau J.P.R. a Grav yn cynnig mewnwelediad difyr nid yn unig i fyd chwaraeon y cyfnod, ond hefyd i'r sbectrwm cyfan o ran diwylliant, gwleidyddiaeth a chymdeithas. Yn y bôn, felly, yr hyn a olygai i berthyn i genedl.

Llenor amlwg a uniaethir â chysyniad y filltir sgwâr yw D.J. Williams. Mae'r cysyniad bellach wedi treiddio i bob agwedd ar lenyddiaeth Gymraeg. Ond meddai Glyn Jones, 'That a writer should recognise his own roots is a fine and enriching thing... But no writer ought to be judged by the extent to which he does this.'⁴³³

O astudio hunangofiannau Ray Gravell a J.P.R. Williams, gwelir y cysyniad o wrthdaro rhwng llenyddiaeth Gymraeg ar y naill law, a llenyddiaeth Eingl-Gymreig ar y llaw arall. Fel y dadleua Glyn Jones, gellir disgrifio awdur Eingl-Gymraeg fel 'Welshman who writes about Wales in English'. O ystyried hyn, rhaid ymdrin â hunangofiant J.P.R. yn yr un modd ag unrhyw gyfrol arall o lenyddiaeth Eingl-Gymraeg. J.P.R. Williams yntau yw awdur ei hunangofiant ei hun, tra geilw Ray Gravell ar wasanaeth Lynn Davies fel cyd-awdur. Yn hynny o beth, argraff gwbl bersonol o'r hunan a geir gan J.P.R. Williams tra mae'r argraff o Grav drwy lygaid unigolyn o'r tu allan.

Nodir gan Glyn Jones nad yw erioed wedi ceisio diffinio'r hyn yw Cymro. Yn aml

⁴³² David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise* (Cardiff, 1980), t. 482.

⁴³³ Glyn Jones, *The Dragon Has Two Tongues* (London, 1968), t. 205.

iawn, os teimla dyn ei fod yn Gymro, yna Cymro ydyw. Ychwanegir at y ddadl hon gan Ned Thomas, a ddywed fod y berthynas rhwng y Cymro Cymraeg a'r Cymro di-Gymraeg yn 'psychologically fascinating and politically crucial.'⁴³⁴ Dylanwad y Saeson ar Gymru, yn ôl Glyn Jones, oedd yn gyfrifol am greu dosbarth newydd o Gymry a oedd yn 'English in speech, Tory in politics and Church of England in religion'.⁴³⁵ Ar y llaw arall, dadleua Jones, 'Anyone in Wales today who speaks Welsh is inclined to be regarded as a member of 'y werin'.⁴³⁶ Y cyfnod dan sylw yn y defyniad yw 'r chwedegau. Gellir dadlau ei fod yr un mor berthnasol i'r saithdegau.

I ba raddau gellir dadlau bod J.P.R. yn debyg i'r dosbarth uwch Tuduraidd, ac i ba raddau y mae Ray Gravell yn perthyn i'r 'werin'? Os oeddynt ar ddau begwn hunaniaeth, a allai bod yn aelodau blaenllaw yn y gymuned ddychmygedig wneud gwahaniaeth i'w Cymreictod? I ba raddau y gallai crys coch Cymru niwtraleiddio eu gwahaniaethau?

Ganwyd J.P.R. Williams a Ray Gravell o fewn dwy flynedd i'w gilydd, y naill ym 1949 a'r llall ym 1951, ychydig flynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd hwn yn gyfnod pan oedd cenedlaetholdeb Cymraeg yn ymddangos, yn ôl K.O. Morgan, 'as dead as the druids'.⁴³⁷ Roedd teuluoedd a magwraeth J.P.R. a Grav fydoedd ar wahân. Roedd yn gyfnod anodd i'r Gymraeg gyda nifer y siaradwyr yn isel iawn. Yn ôl Cyfrifiad 1951, roedd llai na 30% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Dywed K.O. Morgan, 'the native language, it seemed, was more and more the preserve of the elderly and of depopulated rural areas'.⁴³⁸

O safbwynt byd rygbi, daw agosatrwydd Ray Gravell at ei fro yn amlwg wrth gyfeirio at gynrychioli'r 'filltir sgwâr'. Dywed mor bwysig oedd cynrychioli'r sir pan oedd yn fachgen ysgol. Roedd defnyddio'r cysyniad hwn o'r filltir sgwâr yn dacteg a ddefnyddid dipyn gan yr athrylith o hyfforddwr o Gefneithin, Carwyn James. Yn wir, ym 1972, cyn

⁴³⁴ Ned Thomas, *The Welsh Extremist* (Talybont, 1971), t. 106.

⁴³⁵ Glyn Jones, *The Dragon Has Two Tongues*, t. 15.

⁴³⁶ *Ibid.*, t. 16.

⁴³⁷ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales*, t. 376.

⁴³⁸ *Ibid.*, t. 367.

buddugoliaeth Llanelli dros Seland Newydd, pwysleisiodd yr hyfforddwr gymaint o 'dduwie' fyddai'r chwaraewyr i'w cyd-bentrefwyr pe baent yn llwyddiannus y prynhawn hwnnw.⁴³⁹ Cyn y chwyldro diwydiannol yng Nghymru, roedd atyniad i'r fro dipyn yn bwysicach na gwladgarwch ar y cyfan. Yn anaml iawn, ym marn Ray Gravell, y byddai wedi teithio allan o'i fro pe na bai'n chwarae rygbi. Trwy rygbi'n unig y cafodd y cyfle i deithio i bedwar ban y byd, ond roedd dychwelyd adref bob amser yn brofiad braf iddo. Ceir sôn am ei daith gyntaf i Lundain ar ei fis mêl a mynd ar goll wrth gerdded allan o Orsaf Paddington.⁴⁴⁰

Er bod Ray Gravell wedi'i wreiddio'n ddyfnach yn ei fro drwy gydol ei fywyd na J.P.R., achubai ar bob cyfle i deithio i bedwar ban y byd. Efallai bod a wnelo hynny â'r cyfle i roi ei annwyl Fynyddygarreg a Chymru ar y map. Roedd Mynyddygarreg yn rhan gynhenid ohono. Meddai, 'Cymraeg oedd iaith 'y mhlentyndod i, ac roedd Mynyddygarreg yn rhagfur i'r Cymreictod hwnnw.'⁴⁴¹

Roedd J.P.R. hefyd yn awyddus i roi Pen-y-bont ar Ogwr ar y map. Wrth drafod ei lwyddiant cynnar ym myd tenis, dywed am glwb ei dref enedigol, 'At Junior Wimbledon two of the semi-finalists had been produced by that little club. Gerald Battrick was one of them, I was the other.'⁴⁴²

Yn y rhagair i hunangofiant J.P.R., dywed Carwyn James fod 'his roots are firmly embedded despite his London Welsh connections.'⁴⁴³ Adlais a geir yma, o bosib, o'r mab darogan ac o'r gwrthdaro rhwng y Cymro yng Nghymru a'r Cymro oddi cartref. Dyfynnir David John Underhill, aelod o Fyddin Ryddid Cymru, ac a fagwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wrth iddo bwysu a mesur pwysigrwydd yr un fro.

⁴³⁹ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 73.

⁴⁴⁰ *Ibid*, t. 83.

⁴⁴¹ *Ibid*, t. 167.

⁴⁴² J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 50.

⁴⁴³ Carwyn James, 'Foreword', yn *Ibid*, t. 9.

The Bridgend area in which I was brought up lost its Welsh entirely... I came to know about the Act of Union and its purpose of wiping the Welsh language off the face of the earth; and about the 'Welsh Not' policy in the schools.⁴⁴⁴

Ond pan gynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol 1948 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dywedwyd bryd hynny mai'r dref honno oedd 'the very heart of the Principality'.⁴⁴⁵ Agwedd bragmataidd sydd gan J.P.R., a dreuliodd gryn dipyn o amser y tu allan i'r ardal ond a ddychwelodd yno i weithio. Chwaraeodd dros Gymry Llundain gan na fyddai angen iddo deithio adref i Ben-y-bont ar Ogwr i ymarfer tra'n hyfforddi i fod yn feddyg yng Ngholeg St. Mary's. Dychwelodd i chwarae ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ôl cael swydd feddygol yn yr ysbyty yng Nghaerdydd. Ni fyddai Cymry oddi cartref yn hiraethu am Gymru.

Pan âi J.P.R. allan o'i filltir sgwâr, am resymau pragmataidd yn unig y gwnâi hynny, a phan ddychwelai adref, roedd y rhesymau pragmataidd yr un mor weladwy wrth iddo ef a'i wraig gael swyddi fel meddygon.⁴⁴⁶ Er hyn, honna ei fod yn gwybod y byddai'n dychwelyd i Gymru bob tro, 'it was just a question of when'.⁴⁴⁷ Elfen amlwg yng nghymeriad J.P.R. yw'r ffaith ei fod yn gyfforddus yn y byd rygbi yn Lloegr, a'r system honno'n un a ddylanwadwyd yn helaeth gan yr ysgolion bonedd. Sonir am ei ffugenw, 'Japes' a roddwyd arno yn ystod ei gyfnod fel chwaraewr gyda chlwb Cymry Llundain.⁴⁴⁸

Fel un a fu allan o'i fro ychydig iawn o weithiau, roedd y cysyniad o'r filltir sgwâr yn un byw iawn ym meddwl Grav. Cawn ddisgrifiad llenyddol ganddo o'i fro.

Mae pentre Mynydd y Garreg yn tra-arglwyddiaethu dros aberoedd y Gwendraeth Fach a'r Gwendraeth Fawr ar yr wythïen o garreg galch sy'n ei gwthio'i hun allan o'r Bae ac yn ymestyn yn grib ysgythrog rhwng y ddwy afon, drwy'r Meinciau, Crwbin a Llyn Llech Owain, am y Mynydd Du.⁴⁴⁹

⁴⁴⁴ David John Underhill. Dyf. yn Ned Thomas, *The Welsh Extremist*, t. 116.

⁴⁴⁵ Chris Williams, 'J.P.R. Williams', yn Richards, Stead a Williams (goln), *More Heart and Soul* [:] *the character of Welsh rugby* (Cardiff, 1999), t. 110.

⁴⁴⁶ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 13.

⁴⁴⁷ *Ibid.*, t. 14.

⁴⁴⁸ *Ibid.*, t. 20.

⁴⁴⁹ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 11.

Go brin fod angen i unrhyw un geisio ein hargyhoeddi bod Grav yn adnabod ei filltir sgwâr, fel y gwnaeth Carwyn James yn achos J.P.R. Roedd ei filltir sgwâr yn rhan o'i gyfansoddiad. Yn ystod ei yrfa, cafodd nifer o gyfleoedd i groesi'r ffin a mynd i Loegr ac i Ffrainc i chwarae. Am y profiad o gael ennill cryn dipyn o arian yn y gwledydd hynny'n chwarae rygbi'r gynghrair, dywed nad oedd arian mawr 'yn debyg o 'nenu i o'm milltir sgwâr – fe fydde'n well gen i orfod chware i Abertawe'.⁴⁵⁰

Yn wahanol i J.P.R., nid oedd Grav yn gyfforddus yn yr ystafelloedd newid yn Lloegr. Ymunodd â chlwb Harlequins am gyfnod byr yn ystod taith y clwb i Ffrainc, a'i gael ei hun mewn byd cwbl wahanol i'w fyd cysurus yng Nghymru, lle 'roedd eu "chaps" a'u "spiffing" hwythe yn jôc fawr i finne'.⁴⁵¹

Cyfeiria J.P.R. yntau at rai o acenion Lloegr, a gwna hynny drwy ei osod ei hun ymhlith y Cymry eraill a aeth i Lundain i'r coleg yr un pryd ag ef. Nid yw'n gymaint o syndod iddo yntau ag ydyw i Grav, fodd bynnag, fod cymaint o acenion dieithr o'i gwmpas. Cymherir ei acen ef â 'some of the plummier ones of our English public schoolboy friends...'⁴⁵² Er gwaethaf yr agosatrwydd amlwg hwn a'r ffaith fod J.P.R. yn amlwg yn gyfforddus yng nghwmni Cymry eraill yn Llundain, mae'n cyfeirio at feirniadaeth o agwedd y Cymry ar deithiau'r Llewod, ac fel y difethai ei gyd-Gymry'r awyrgylch yn y garfan drwy ymbellhau oddi wrth weddill y garfan. Cyfeirir yn benodol at daith y Llewod i Seland Newydd ym 1971, yn dilyn llwyddiant Cymru ym Mhencampwriaeth y Pedair Gwlad. Cyfeirir at agwedd 'clannish on Lions tours'.⁴⁵³

Yn ei bennod '*J.P.R.*' yn y gyfrol *More Heart and Soul*, dywed Chris Williams fod ei Gymreictod yn gymhleth ac nid yn ystrydebol, 'and his lack either of the Welsh language or even a marked accent were early rendered irrelevant by those five tries and eleven victories

⁴⁵⁰ Ibid.

⁴⁵¹ Ibid, t. 98.

⁴⁵² J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 66.

⁴⁵³ Ibid, t. 129.

against the English.⁴⁵⁴ Cyfeiria J.P.R. Williams at y ffaith fod ymdeimlad o falchder yng Nghymru ar gynnydd yn ogystal, a'i bod yn hollol dderbyniol i aros gartref i weithio yn y gymuned.

...No longer did fathers who had spent a life-time down the pits do all they could to give their sons a proper education to get them away from the mines. No longer was it prestigious to be able to say 'My son is up at college in London'.⁴⁵⁵

Yn sicr, daw diffyg sensitifrwydd J.P.R. i'r Gymraeg yn amlwg ar unwaith, gan y cyfeiria at weld arwydd ar Bont Hafren yn ei groesawu'n ôl i Gymru sy'n dweud '*Croesi y Cymru* [sic]'.⁴⁵⁶ Cyfeiria hefyd at 'leaving England behind'.⁴⁵⁷ Mae ei ffordd o gyflwyno Cymru i'r byd ychydig yn ystrydebol, wrth gyfeirio at Max Boyce a'r corau meibion.⁴⁵⁸

Wrth drafod corff dyn yn ysbyty'r coleg, cyfeiria at ei 'lungs black as the coal tips back home'.⁴⁵⁹ Dyma dystiolaeth, felly, nad yw barn Chris Williams am ddiffyg ystrydebau J.P.R. yn hollol gywir. Mae Cymreictod J.P.R. yn sicr yn gymhleth, ond y mae hefyd yn llawn ystrydebau. Un arall o'r rheini yw hanes ei enedigaeth ar 2 Mawrth, a cholli'r cyfle i rannu ei ben-blwydd â Dewi Sant. Ymgais yw hyn, yn fy marn i, i gyfiawnhau ei Gymreictod.

I was a few hours late. Considering the importance of St. David to Wales, I was to regret those few hours' delay in arriving. He is the patron saint of the Welsh people, and much revered as the great deliverer from the enemy – usually the English.⁴⁶⁰

Serch hynny, nid ystrydeb yw pob sylw a geir gan J.P.R. am Gymreictod neu'r Cymry. Cyfeiria at ddiffyg ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o Gymry a âi i Lundain trwy orsaf Paddington, i hyfforddi i fod yn feddygon yng ngholeg St. Mary's.

⁴⁵⁴ Chris Williams, 'J.P.R. Williams', yn Richards, Stead a Williams (goln.) *More Heart and Soul* [:] *the character of Welsh rugby*, t. 119.

⁴⁵⁵ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 164.

⁴⁵⁶ *Ibid.*, t. 14.

⁴⁵⁷ *Ibid.*

⁴⁵⁸ *Ibid.*, t. 29.

⁴⁵⁹ *Ibid.*, 78.

⁴⁶⁰ *Ibid.*, t. 23.

The naïve Welsh lads, fresh from the valleys, would get lost within a hundred yards of the station and end up on the doorstep of St. Mary's. They would then stay for seven years.⁴⁶¹

Efallai bod hyn yn dystiolaeth fod yr hyn a ddywed Ray Gravell am fynd ar ei fis mêl i Lundain a mynd ar goll y tu allan i orsaf Paddington yn nodweddiadol o'r Cymry.

I'r gwrthwyneb, ceir Ray Gravell, a fagwyd yn ddwyieithog. Siaradai Saesneg â'i fam a'r Gymraeg â'i dad. Bu'n weithgar drwy gydol ei yrfa a'i fywyd yn ymgyrchu dros y Gymraeg ac yn ei hyrwyddo, ac fe wnaeth hyn lawer gwaith drwy fyd rygbi. Bu'r Gymraeg yn rhan gynhenid ohono erioed. Yn wir, neilltuir pennod gyfan ganddo i Gymreictod.

Roedd diffyg Cymreictod sefydliadol yn rhwystredigaeth ganddo, a gwelir hyn wrth iddo gwyno wrth glwb Llanelli am nad oedd yr arwydd wrth fynedfa Parc y Strade'n ddwyieithog. Ac yn wir, doedd hi ddim yn hir cyn i'r arwydd 'Clwb Rygbi Llanelli Rugby Football Club' ymddangos. Dyn gweithredoedd ydoedd. Mae'n beirniadu ystyfnigrwydd Undeb Rygbi Cymru tuag at y Gymraeg, a'u diffyg ymdrech i fabwysiadu polisi iaith. Cyfeiriai at yr Undeb fel 'rhyw anifail styfnig o geidwadol'.⁴⁶² Mae Grav yn feirniadol o ddiffyg Cymreictod yr Undeb yn gyffredinol.

Nid oedd Undeb Rygbi Cymru yn y cyfnod hwnnw yn teimlo unrhyw ddyletswydd at yr iaith, ac mae'n siŵr y bydde unrhyw newid ar y traddodiad ceidwadol wedi bod yn dân ar eu crwyn.⁴⁶³

Yn ogystal â barn gref ynghylch yr iaith, dengys Grav fod ganddo ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad helaeth o ddiwylliannau eraill, a gwelir hyn wrth iddo gyfeirio at amryw deithiau tramor a gafodd yn ystod ei yrfa, yn ogystal ag ymweliadau timau o dramor â Chymru. Cyfeirir yn benodol at draddodiad yr Haka, rhyfelddawns y Maori, ac amlygir y

⁴⁶¹ Ibid, t. 16.

⁴⁶² Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 152.

⁴⁶³ Ibid, t. 105.

gellir gwerthfawrogi eich diwylliant eich hun drwy ymgyfarwyddo â diwylliannau eraill.

Cofier mai Cymro yng nghanol y Prydeinwyr – a'r Saeson – fyddai Grav wedi bod ar y daith hon gyda'r Llewod.

Fe ddysges i un peth y noson honno – os y'ch chi eisie digon o win am ddim, perfformiwch yr Haka!! A finne'n cael y wefr hon – yn Gymro, yn genedlaetholwr, yn chwarae i dîm oedd yn cynrychioli calon Seisnigrwydd yn llwyr – fe ddês i'r casgliad ei bod hi'n iawn i gael y Saeson yn byw drws nesa i fi, ond nid yn rhan o'r teulu.⁴⁶⁴

Er y tebygrwydd diwylliannol hwn, dadleua J.P.R. fod y Cymry'n fwy angerddol na'r Maori ynghylch rygbi. Dyma'r ychydig droeon drwy'r llyfr lle caiff ei Gymreictod ei danio i'r eithaf.

The fanaticism of the Welsh for rugby is exceeded only by that in New Zealand... The Welsh have more of a passion for it, and it is this passion which is unleashed in full Celtic fervour at the National Stadium, Cardiff Arms Park...⁴⁶⁵

Yn wir, profiad diwylliannol i J.P.R. yw achlysuron gemau rhyngwladol yng Nghaerdydd, a'r rheini'n cynrychioli'r agweddau gorau ar Gymreictod. Roedd chwarae yn erbyn Lloegr yn y Stadiwm Genedlaethol yn 'unbelievable experience'. Cyfeirir at y canu a glywir yn dod o'r seddau 'and this alone is worth a good few points before the game even starts. Surely only the Welsh could design a stadium where the acoustics are so arranged that the noise from the crowd is actually amplified on to the pitch?'⁴⁶⁶

Roedd ymwybyddiaeth ddiwylliannol Grav yn ymestyn ymhell y tu hwnt i fyd rygbi, a gwelir hynny drwy ei ymrwymiad i'r Urdd ar hyd y blynyddoedd. Neilltuir adran o'r llyfr i drafod yr ymrwymiad hwnnw a'r balchder a roddodd iddo ar hyd ei fywyd. Gwelai'r Urdd fel ffordd o gyhoeddi ei Gymreictod i'r genedl ac i chwarae rhan flaenllaw yng ngweithgareddau diwylliannol Cymru. Gwerthfawrogi'r 'llwyfan cyhoeddus Cymraeg i allu... datgan 'y

⁴⁶⁴ Ibid, t. 99.

⁴⁶⁵ J.P.R. Williams, *J.P.R.* [:] *The Autobiography of JPR Williams*, t. 15.

⁴⁶⁶ Ibid.

Nghymreictod ar goedd...⁴⁶⁷

Yn gymdeithasol, deuai'r ddau chwaraewr o gefndiroedd cwbl wahanol i'w gilydd.

Meddygon oedd rhieni J.P.R. Fel y dywed Chris Williams, bu tad J.P.R. yn llawfeddyg milwrol a'i dad-cu yn löwr o'r Rhondda a ddaeth yn rheolwr ar bwll glo yn ddiweddarach. Roedd ei fam yn ferch i reolwr cyllid diwydiannol o Rochdale.⁴⁶⁸ Magwraeth gysurus a gafodd J.P.R. felly, mewn ardaloedd llewyrchus ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cofia J.P.R. iddo gael ei ddilorni 'because I was the son of the local doctor and therefore assumed to be well off'.⁴⁶⁹ Er, cyfeddyf iddo deimlo'n 'quite inferior' wrth deithio o amgylch yn chwarae tenis ieuenctid Prydain ymhlith y Saeson cefnog.⁴⁷⁰

Mae hyn yn wrthgyferbyniad â magwraeth Ray Gravell. Bu ei dad yn gweithio mewn chwarel galch ac yna mewn pwll glo, ac mewn ffatri roedd ei fam yn gweithio. Cyfeiria at un o'r tai cyntaf y bu'r teulu'n byw ynddo, filltir i ffwrdd o bentref Mynyddygarreg. Cofia 'hen fythynnod y chwareli calch eto, gydag un stafell wely, cegin a than mawn agored – a'r tŷ bach eto ar waelod yr ardd'.⁴⁷¹ Wrth drafod eu cartref newydd ar ôl symud i dŷ cyngor, dywed fod 'y cwbl yn fyd newydd', 'gyda'r mod cons i gyd'.⁴⁷²

O ran addysg blynyddoedd cynnar, cafodd J.P.R. a Grav brofiadau tebyg, y naill yn Nhrelales, a'r llall ym Mynyddygarreg. Am gyfnod, aeth J.P.R. i'r ysgol 'prep' a'r bwriad oedd symud oddi yno i Goleg Epsom yn Surrey. Ond nid oedd yr ysgol breifat wrth ei fodd.

Cafodd J.P.R. a Grav, ill dau, y profiad o fynd drwy system yr ysgolion gramadeg. Roedd yr ysgolion gramadeg, wrth gwrs, yn ganlyniad i'r newidiadau crefyddol a gafwyd dan law'r Tuduriaid, a arweiniodd at golli ysgolion a reolwyd gan fynachod. Fe'u disodlwyd gan ysgolion gramadeg Tuduraidd, ac Ysgol Ramadeg Caerfyrddin yr aeth Grav iddi, yn un

⁴⁶⁷ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 170.

⁴⁶⁸ Chris Williams, 'J.P.R. Williams', t. 111.

⁴⁶⁹ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 53.

⁴⁷⁰ *Ibid.*

⁴⁷¹ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 12.

⁴⁷² *Ibid.*, t. 13.

ohonynt. Ni all J.P.R. guddio ei ddieter wrth gyfeirio at yr ysgol ramadeg yn troi'n ysgol gyfun yn ddiweddarach. Am ddisgyblion yr ysgol uwchradd, dywed J.P.R. mai'r arwyr oedd 'those who had spent time in Borstal or other institutions', yn hytrach na'r sawl a chwaraeai rygbi dros yr ysgol.⁴⁷³ Ar y cyfan, roedd y profiad o fynychu ysgol fonedd Millfield yn Lloegr yn un positif iddo, ac fe newidiodd ei olwg ar y byd.

Cyfeiria Grav yn llawn hoffter at y 'Gram' yng Nghaerfyrddin, gyda'i harwyddair Cymraeg, 'Nid da lle gellir gwell'. Meddai fod 'cael y cyfle i fynd i'r "Gram" yng Nghaerfyrddin yn uchelgais gen i'.⁴⁷⁴ Yr ail uchelgais oedd cynrychioli Cymru. Ond yn wahanol iawn i J.P.R., bu'n rhaid i Grav fynd i'r ysgol uwchradd – ym Mhorth Tywyn – am ychydig flynyddoedd cyn pasio arholiad y 'Thirteen Plus'.

Yn ddiddorol iawn, dywed J.P.R. mai Saesneg oedd un o'i hoff bynciau yn yr ysgol, tra enillodd Grav lefel 'O' mewn Cymraeg. Mae Grav hefyd yn cwestiynu diffyg darpariaeth yn yr ysgolion o safbwynt hanes Cymru. Wedi'r cyfan, dadleua Grav fod y 'system addysg yn gyfundrefn Seisnig'.⁴⁷⁵

Gellir yn hawdd ddadlau mai cenedlaetholdeb deallus a diwylliannol a oedd gan Grav. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn hanes a llenyddiaeth ei genedl, ac fe dyfodd ei genedlaetholdeb o'r wybodaeth honno. Nid oedd yn academydd o fri ac yn wir, cyfeddyf mai'r unig ddiddordeb a oedd ganddo yn ei waith ysgol oedd darllen ambell nofel glasurol. Darllen am hanes bröydd a chefn gwlad oedd ei ysgogiad pennaf. Cofia gael mwynhad o ddarllen *Cysgod y Cryman*, 'a'r mwynhad hwnnw o bosib yn deillio o'r diddordeb oedd gen i ym mywyd y wlad'.⁴⁷⁶

Yn ystod eu cyfnod fel disgyblion ysgol, daeth crefydd yn rhan o fywydau'r ddau i raddau gwahanol. Cyfeiria J.P.R. at fod yn aelod o gôr yr eglwys ym Mhen-y-bont ar Ogwr,

⁴⁷³ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 36.

⁴⁷⁴ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 27.

⁴⁷⁵ *Ibid*, t. 22.

⁴⁷⁶ *Ibid*, t. 37.

yn ogystal â bod yn weinydd a chlochydd.

Ar y llaw arall, sonia Grav am y profiad o fynd i'r Ysgol Sul yn y capel Methodist, ond yng ngeiriau Grav, 'nid o ran dewis!'.⁴⁷⁷ Mae dylanwad crefydd ar ei ddisgrifiadau o ddigwyddiadau yn ei fywyd. Cyfeirir at 'bregeth' gan John Dawes wrth drafod sgwrs gan hyfforddwr Cymru cyn gornest.⁴⁷⁸ Ailadroddir y trosiad hwn unwaith eto wrth ddisgrifio'r profiad o glywed 'Mervyn, fel capten, yn rhoi'r bregeth ola cyn y gêm'.⁴⁷⁹

Amlygir y gwahaniaethau ym meddylfryd yr eglwyswyr a'r capelwyr gan J.P.R. wrth iddo drafod cyfnodau o ymlacio ar ddydd Sul yn ystod taith y Llewod ym 1971, yr hyn a elwir yn "'Sunday school' sessions' gan Cliff Morgan, a hynny yn sgil ei 'chapel background', chwedl J.P.R.⁴⁸⁰

Mae gwleidyddiaeth y ddau hefyd yn adlewyrchu eu magwraeth grefyddol. Nid yw J.P.R. yn ymddangos yn wleidyddol o ran meddylfryd ond yn hytrach, mae wedi ymrwymo i sefydliadau sy'n symbolau o'r ffordd y mae Cymru wedi Seisnigeiddio drwy'r oesau. Mae'r teulu brenhinol yn agos at ei galon, a chyfeiria at gael gwahoddiad i fynd i weld y *Royal Yacht Britannia* i ddathlu jiwibili'r frenhines neu 'one's sovereign', ac uwchlaw popeth arall, ei falchder mawr o dderbyn anrhydedd yr M.B.E. am ei wasanaeth i fyd rygbi.⁴⁸¹ Disgrifia'r achlysur fel 'trip to Buckingham Palace... for my investiture'.⁴⁸² Gwelir yma, felly, fod J.P.R. yn medru uniaethu â'r frenhiniaeth. Ategir hyn wrth iddo geisio pwyso a mesur pwysigrwydd chwaraewyr Cymru i'r genedl a'u disgrifio fel 'public property' y mae disgwyl iddynt ymddwyn fel 'the Royal Family'.⁴⁸³

Ar y llaw arall, roedd Ray Gravell yn wleidyddol dros ben, ac yn genedlaetholwr i'r carn. Nid oedd hyn, mewn gwirionedd, yn nodweddiadol o'i ardal sosialaidd ar y pryd.

⁴⁷⁷ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 18.

⁴⁷⁸ *Ibid*, t. 7.

⁴⁷⁹ *Ibid*, t. 9.

⁴⁸⁰ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 149.

⁴⁸¹ *Ibid*.

⁴⁸² *Ibid*, t. 236.

⁴⁸³ *Ibid*, t. 19.

Dylanwad Carwyn James, a fu'n ymgeisydd dros Blaid Cymru yn Llanelli, a oedd yn gyfrifol am genedlaetholdeb Grav. Am sosiaeth y fro, dywed fod 'un droed wedi'i phlannu'n ddwfn yng ngwythien lo Cwm Gwendraeth' a bod atgasedd tuag at gyfalafiaeth yno.⁴⁸⁴ Ychwanega fod Mabon, Keir Hardie, Aneurin Bevan a Jim Griffiths yn arwyr y fro.

Doedd y sefydliadau Seisnig yn golygu dim i Grav, a chredai y byddai derbyn anrhydedd fel yr M.B.E. neu'r O.B.E. yn amherthnasol ac yn ddiystyr iddo, a llawer gwell ganddo gael ei anrhydeddu gan ei genedl ei hun. Am achlysur ei urddo'n aelod o'r Orsedd ym Machynlleth, dywed mai dyma'r 'anrhydedd mwya y galle unrhyw Gymro ei dderbyn'.⁴⁸⁵ Yn wir, cyfeddyf y byddai'n cyfnewid y profiad o gael ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd er mwyn cael ennill un o brif wobrau'r Eisteddfod. Breuddwydiai am 'gael codi... yn y pafliwn mawr ar brynhawn Mawrth neu brynhawn Iau yr Eisteddfod'.⁴⁸⁶ Yn wir, 'dyma un o uchafbwyntiau mwya 'mywyd i'.⁴⁸⁷

Trwy ddylanwad Dafydd Iwan a'i ganeuon y daeth Grav yn fwyfwy ymwybodol o wleidyddiaeth a chenedlaetholdeb ac yn sicr, 'nid colur arwynebol, emosiynol oedd e bellach, ond rhywbeth byw, sylfaenol bwysig i fi'.⁴⁸⁸ Roedd Dafydd Iwan, Gwynfor Evans a Carwyn James i gyd yn arwyr iddo. Yn wir, ymhelaetha ar ddylanwad Carwyn James arno, fel dyn diwylliedig a ymddoddorai mewn diwylliant a hanes ac arwyr cenedlaetholgar y gorffennol. Trwy ei ddylanwad yntau y daeth Grav i gysylltiad â hanes ei genedl am y tro cyntaf.

Cês ddod i 'nabod y bardd Gwenallt drwy gwmniaeth Carwyn, ac agorodd ynte fy llyged drwy sôn am hanes Cymru'r ugeinfed ganrif, ymgyrch Penyberth, a thwf y Blaid Genedlaethol. Ychydig o chwaraewyr rygbi all gofnodi iddyn nhw ddysgu cymaint am hanes, llenyddiaeth a gwleidyddiaeth ar dripie rygbi.⁴⁸⁹

⁴⁸⁴ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 167.

⁴⁸⁵ *Ibid*, t. 172.

⁴⁸⁶ *Ibid*, t. 173.

⁴⁸⁷ *Ibid*, t. 172.

⁴⁸⁸ *Ibid*, t. 120.

⁴⁸⁹ *Ibid*, t. 168.

Mae ffordd Grav a J.P.R. o ymdrin â'u Cymreictod fydoedd ar wahân. Ni ellir gwadu, felly, fod dau begwn yn amlwg pan chwaraeodd y meddyg o Ben-y-bont ar Ogwr a'r trydanwr o Gwm Gwendraeth dros eu gwlad yn ystod yr Oes Aur. Yn syml iawn, dywed Grav ei fod 'mewn breuddwyd unwaith eto – y freuddwyd y bues yn ei byw droeon er dyddie plentyndod – a'r freuddwyd honno wedi'i gwireddu'.⁴⁹⁰ Dywed J.P.R. fod cynrychioli Cymru 'at the centre of my life'.⁴⁹¹

Wrth drafod y cyfnod yn dilyn ei gap cyntaf dros ei wlad, cyfeddyf Grav na 'fuodd hi' rioed yn haws bod yn Gymro nag yn ystod y bythefnos honno', ac am ei fam, dywed ei bod hithau 'fel brenhines yr wythnos honno', sy'n gymhariaeth ychydig yn rhyfedd o ystyried ei Gymreictod gweriniaethol.⁴⁹² Roedd rygbi'n golygu cymaint mwy na gêm iddo hefyd, a chael ei ddewis i gynrychioli Cymru'n gwireddu breuddwyd bore oes.

Dyma lais ar y radio – yn Saesneg, wrth gwrs – yn cyhoeddi fod chwe chap newydd yn y tîm i wynebu Ffrainc.... a phan glywes fy enw fe aeth y car bach gwyrdd i bob cyfeiriad.⁴⁹³

Roedd y profiad o gael ei ddewis i gynrychioli Cymru'n un y gallai'r gymuned gyfan ei rannu â Grav ac yn wir, fe wnaethpwyd hynny drwy'r tafarndai lleol.⁴⁹⁴ Ni all orbwysleisio cymaint a olygai iddo gynrychioli ei wlad.

Uchafbwynt y bythefnos oedd cael fy hunan yng ngholosewm swllyd Parc des Princes, ym Mharis, ar brynawn Sadwrn, 18 Ionawr, 1975, yn wynebu grym y Ffrancod.⁴⁹⁵

Ynglwm wrth y profiad o gynrychioli Cymru, roedd cael canu'r anthem yn brofiad ysgytwol i'r gwladgarwr yn ystod ei ymddangosiad cyntaf yn y crys coch, a chyfeiria at 'gyflawni'r amhosib y prynawn hwnnw drwy ganu "Hen Wlad Fy Nhadau", a'r dagre'n llifo

⁴⁹⁰ Ibid, t. 1.

⁴⁹¹ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 15.

⁴⁹² Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 1, 4

⁴⁹³ Ibid, t. 3.

⁴⁹⁴ Ibid, t. 4.

⁴⁹⁵ Ibid, t. 102.

lawr 'y ngruddie...'⁴⁹⁶

Ar achlysur arall, pan ganwyd 'God Save The Queen' yn hytrach na 'Hen Wlad Fy Nhadau' cyn gêm ieuencid, cafodd Grav ysgytwad wrth weld ymateb di-hid y chwaraewyr eraill i'r digwyddiad hwnnw, a dechreuodd amau bod graddau ei genedlaetholdeb yn eithaf unigryw, a bod ei addysg a'i fagwraeth wedi cyfrannu at ei hunaniaeth.

Pam nad oedd gweddill y chwaraewyr yn poeni am eu cenedligrwydd? A oedd hyn yn adlewyrchiad o'u cefndir a'u haddysg?⁴⁹⁷

Ymdrinnir â'r wasg yng nghyd-destun Cymreictod gan J.P.R. fel chwaraewr yn unig. Cyflwynir y wasg ganddo yn nhermau beirniadu methiant y tîm cenedlaethol, a dywedir bod Cymru'n colli'n esgor ar 'incredible stories made up by Welsh fans, sometimes journalists' fel cyfiawnhad.⁴⁹⁸ Dyma adlais, efallai, o farn Kevin Mitchell ynghylch grym y cyfryngau yn yr oes sydd ohoni.

Profwyd gwirionedd geiriau J.P.R. yn 2011 drwy helynt y papur newydd cenedlaethol, *News of the World*, a gyhuddwyd o gael mynediad anghyfreithlon i negeseuon ffôn enwogion, a rhai ohonynt o fyd chwaraeon. Ategir barn Mitchell gan Tim Harris o safbwynt y newidiadau a gafwyd yn y cyfryngau yn sgil darlledu chwaraeon yn y 1960au.

With televised sport and live feeds into bookmakers, the 1960s was the decade in which the newspapers changed from being the main source of news and results to being a source of 'news stories'.⁴⁹⁹

Ar y llaw arall, bu'r cyfryngau'n ddylanwad positif ar Grav drwy'r rhan fwyaf o'i fywyd, hyd yn oed yn blentyn, 'gan fod lleisie G.V. Wynne Jones, Gilbert Bennett, ac Alun Williams i'w clywed yn sylwebu yn Saesneg ar un o'r gême bob prynhawn Sadwrn'.⁵⁰⁰ O'r dyddiau cynnar hyn, ac yn ddiweddarach fel chwaraewyr, daeth Grav i sylweddoli grym a

⁴⁹⁶ Ibid.

⁴⁹⁷ Ibid, t. 167.

⁴⁹⁸ J.P.R. Williams, *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams*, t. 106.

⁴⁹⁹ Tim Harris, *Sport* (London, 2007), t. 890.

⁵⁰⁰ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 16.

dylanwad y cyfryngau, er bod y cyfryngau yn y cyfnod hwnnw'n bennaf yn Saesneg.⁵⁰¹

Er bod manteision amlwg i'r cyfryngau, dadleuai Grav nad oedd eu dylanwad bob amser yn bositif, ac 'nad oedd diben rhoi gormod o goel ar rai o'r ffeithie a gyhoeddid yn y wasg'.⁵⁰² Mae'r un peth yn wir am J.P.R. hefyd, a gwelir hynny wrth iddo grybwyll adroddiad amdano yn y *Daily Mail* pan oedd yn chwaraewr tenis ifanc.⁵⁰³ Ni theimlai ei fod dan chwyddwydr y cyfryngau'n aml iawn yn ystod ei yrfa. Un o'r ychydig achlysuron pan gafodd J.P.R. sylw oedd mewn erthygl gan John Hopkins ar gyfer y *Sunday Times*, a'i darluniai fel cymeriad diflas. Dyma'r oes pan oedd sêr y byd rygbi yn dechrau denu diddordeb y wasg. Meddai, 'According to the article, I studied all the time and certainly did not have the sports car image of the superstar with glamorous girl in tow.'⁵⁰⁴

Rhaid cofio i'r oes broffesiynol ddwysáu'r pwysau ar y chwaraewyr o ganol y 1990au ymlaen yn hynny o beth. Dywed Grav, 'Fe ymddangosai fy llun yn amlach yng nghylchgrawn y Bwrdd Trydan nag a wnâi yn y *Western Mail* a'r *Evening Post* gyda'i gilydd.'⁵⁰⁵

Ond cafodd J.P.R. ei hun o dan y chwyddwydr yn sgil ymddygiad ymosodol ar y cae yn ystod taith y Llewod i Dde Affrica. Cafodd ei feirniadu gan y wasg leol yn Durban, a dywed fod hynny'n waeth o lawer na chael ei feirniadu gan wasg genedlaethol. Gellir cymharu hyn â hanes achos llys Malcolm Allen am yfed a gyrru, gan iddo yntau cael sylw'r wasg yng Nghymru dipyn yn waeth na'r sylw Prydeinig am fod y gymuned yng Nghymru'n dipyn mwy clòs.

Ymddengys hefyd, tra'n chwarae oddi cartref, fod Grav bob amser â'i feddwl a'i galon yn ei fro. Ar ddiwedd taith y Llewod ym 1980, tra'n gadael maes awyr Heathrow, gofynnwyd i Grav gan HTV sut deimlad oedd hi i fod gartref. Dywedodd na fyddai 'gartre

⁵⁰¹ Ibid, t. 47.

⁵⁰² Ibid, t. 71.

⁵⁰³ J.P.R. Williams, *J.P.R. The Autobiography of JPR Williams*, t. 50.

⁵⁰⁴ Ibid, t. 92.

⁵⁰⁵ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 49.

hyd nes i fi groesi'r ffin i Gymru' a'i fod yn edrych ymlaen at beint o gwrw Bwcle.⁵⁰⁶

Daeth HTV i fodolaeth yng Nghymru ym 1968 ar ôl i TWW gael ei diddymu. Yn y bôn, roedd HTV am fod yn fwy Cymreig ei naws na TWW, ond roedd agwedd Brydeinig gan y rheolwyr o hyd. Pan sefydlwyd HTV, roedd ganddi swyddfeydd yng Nghaerdydd, ac nid yn Llundain fel TWW. Ond daeth tro ar fyd yng Nghymru pan sefydlwyd S4C ym 1982, a Ray Gravell yn un o'r cymeriadau blaenllaw yn ei hanes cynnar, a hynny fel sylwebydd ar ornestau rygbi. Roedd y darllediad byw cyntaf yn achlysur bythgofiadwy i'r Cymry ar y cyfan, ac yn enwedig i Grav. Treiddiodd brwdfrydedd heintus Grav i'r darllediad hwnnw, a bu bron iddo roi terfyn ar ei yrfa fel sylwebydd yn Gymraeg cyn iddi ddechrau. Sonir am gael cerydd gan ei fôs, Onllwyn Brace am fentro crwydro i flwch darlledu *Grandstand* ymhen draw'r stadiwm er mwyn 'rhoi'r holl gyhoeddusrwydd ar *Grandstand* i'r darllediad hanesyddol ar S4C'.⁵⁰⁷

Casgliadau

Gall rygbi bontio'r agendor sy'n bodoli rhwng carfanau o ran eu crefydd, eu gwleidyddiaeth, eu hil, eu dosbarth cymdeithasol, eu hardal a'u rhyw. Ym Mhrydain, mae hyn yn arbennig o wir am y gwledydd Celtaidd dan reolaeth ganolog. Mae chwaraeon yn un o'r ychydig feysydd lle gall Cymru, yr Alban ac Iwerddon ymddangos fel cenhedloedd ar wahân. Dyma sy'n gyfrifol am greu'r cysyniad o gymuned ddychmygedig. Gellir dadlau, o bosib, fod modd ystyried cefnogwyr tîm rygbi Cymru a'r chwaraewyr – o'r Oes Aur hyd heddiw – yn gymuned.

Agorwyd y Stadiwm Genedlaethol newydd ym mis Hydref 1970, a chyda hynny, roedd deffroad newydd yng Nghymru. Mae modd dadlau yn y cyfnod hwn fod rygbi'n ffordd o ddathlu Cymreictod heb y clymau economaidd a gwleidyddol sy'n perthyn i

⁵⁰⁶ Ibid.

⁵⁰⁷ Ibid, t. 178.

genedligrwydd.⁵⁰⁸

Roedd gwead y tîm cenedlaethol yn dechrau newid hefyd. Roedd y traddodiad o löwyr a gweithwyr dur yn prysur beidio, gyda chynnydd yn nifer y chwaraewyr a oedd yn symud i ardaloedd mwy llewyrchus, gan gynnwys Lloegr i chwilio am waith proffesiynol. Roedd cyfuniad o weithwyr diwydiannol a ddeuai o'r ysgolion uwchradd a chynnyrch yr ysgolion gramadeg yn athrawon ac yn feddygon.

Mewn cyfnod gwleidyddol fel y 1970au, yn dilyn yr Arwisgiad ac yn arwain i fyny at y Refferendwm, roedd rygbi'n ddihangfa i lawer. Fel y dadleua K.O. Morgan yn argyhoeddedig,

Rugby was, and remains, an attractive aspect of the national identity of Wales... Welsh identity, so easily asserted in pounding the Saxon on the rugby field, was too easily diverted, in the view of more serious nationalists, from the quest for national independence. Rugby and investitures, the bread and circuses of the populace, became a peaceful therapy to suppress embarrassing political aspirations.⁵⁰⁹

Gallai gwisgo crys coch Cymru a chynrychioli'r wlad am 80 munud guddio unrhyw wahaniaethau cynhenid rhwng y chwaraewyr. Boed yn Gymro a/neu Brydeiniwr, yn ddisgybl mewn ysgol ramadeg neu ysgol fonedd, yn weithiwr proffesiynol neu'n weithiwr diwydiannol, yn Gymro Cymraeg neu'n Gymro di-Gymraeg, yn gapelwr neu'n eglwyswr, yr un oedd y nod i Ray Gravell a J.P.R Williams, sef cynrychioli Cymru a thrwy hynny, gael y cyfle i gynrychioli'r Llewod Prydeinig. Ni fyddai'r un dyn a'i gwelodd yn chwarae yn medru beirniadu ymroddiad a theyrngarwch J.P.R. i grys coch Cymru, tra oedd ymroddiad a theyrngarwch Grav yn gwbl amlwg i bawb, a hynny ar y cae ac oddi arno.

O ystyried hyn, felly, byddai'n rhaid canolbwyntio'n fanylach ar yr hyn yw cymuned ddychmygedig. Dylid edrych ar y gymuned ddychmygedig yn nhermau'r goddrychol a'r gwrthrychol, fel y trafodwyd ym mhennod 1. Mae'r ddadl wrthrychol o ran cymuned

⁵⁰⁸ Martin Johnes, 'A Prince, a King and a Referendum: Rugby, Politics and Nationhood in Wales 1969-79', *Journal of British Studies* 47 (2008), tt. 129-48.

⁵⁰⁹ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales*, t. 134.

ddychnmygedig yn canolbwyntio ar y ddadl fod hil, iaith, diwylliant neu grefydd sy'n gyffredin i garfan o bobl yn golygu eu bod yn gymuned ddychnmygedig. Ar y llaw arall, mae'r ddadl oddrychol yn honni bod carfan o bobl yn gymuned os ydynt yn credu eu bod yn gymuned. Credaf mai'r ddadl oddrychol sydd fwyaf perthnasol i fyd rygbi yng Nghymru.

O osod y ddau chwaraewr yng nghyd-destun chwedloniaeth Cymru, gwelir bod Cymreictod gwrthrychol gan Ray Gravell, tra oedd Cymreictod J.P.R. yn oddrychol. Yn aelod o dîm Cymru, gesyd Grav ei hun ym myddin Glyndŵr wrth drafod ei ail gap dros ei wlad.

Os o'n i'n un o fyddin Glyndŵr ar dir Ffrainc, bythefnos ynghynt, ro'n i'n teimlo nawr fel cadfridog yn ei fyddin.⁵¹⁰

Tra oedd Grav yn ei osod ei hun yng nghanol y chwedloniaeth yn un o'r cymeriadau yn yr hanes, yr hyn a wna Carwyn James o ran J.P.R. yw creu tebygrwydd rhyngddo ef a chymeriad Pwyll o'r Mabinogi, ond mewn ffordd ddisgrifiadol yn hytrach na ffordd fyw.

The figure of Williams in the distance, long hair flying in the wind, may remind us of Pwyll, Prince of Dyfed, riding majestic and mysterious in the mists of the Mabinogi.⁵¹¹

Dechreuodd yr Oes Aur gyda Choron Driphlyg ac Arwisgiad ym 1969. Daeth i ben ym 1979 gyda Choron Driphlyg a Refferendwm. Roedd cyfle i weld a fyddai'r brwdfrydedd a'r gefnogaeth ar derasau'r Stadiwm Genedlaethol yn arwain at newid sylweddol yng ngwleidyddiaeth Cymru, gyda'r posibilrwydd o greu Cynulliad i Gymru, gan roi mwy o bwerau iddi. Ar hyd y degawd, roedd y sawl a chwifiai faneri brenhinol ym 1969 wedi bod ysgwydd yn ysgwydd â chenedlaetholwyr a'r sawl a farnai'r Arwisgiad.

Roedd y cyfnod ar ôl 1969 yn sicr yn gyfnod o newid yng Nghymru, gyda mwy o ymwybyddiaeth o Gymreictod yn dod i'r wyneb. Crëwyd swydd Ysgrifennydd Gwladol

⁵¹⁰ Ray Gravell (gyda Lynn Davies), *Grav*, t. 107.

⁵¹¹ Carwyn James, 'Foreword', yn J.P.R. Williams, *J.P.R.* [:] *The Autobiography of JPR Williams*, t. 10.

Cymru a sefydlwyd y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd. Cafwyd Deddf Iaith Gymraeg ym 1967, yn caniatâu'r defnydd o'r Gymraeg yn y llys, yn ogystal â chyfieithu papurau seneddol i'r Gymraeg am y tro cyntaf. Enillodd Plaid Cymru ei sedd gyntaf yn y Senedd ym 1966 ac roedd Cymdeithas yr Iaith a Byddin Rhyddid Cymru'n dechrau dod i'r amlwg.

O safbwynt byd rygbi, roedd gan y tîm cenedlaethol stadiwm newydd sbon. Roedd datblygiad y cyfryngau'n golygu bod gemau rygbi'n dod fwyfwy i gartrefi'r Cymry. Yn wir, honnir gan John Davies fod y BBC yn gweld y broses o ddarlledu gornestau rhyngwladol fel 'instrument of nation building'.⁵¹² Daeth sgorfwrdd dwyieithog i'r Stadiwm Genedlaethol ym 1976. Ac fe ganai'r dorf yr hen ffefrynnau, megis *Hymns and Arias* a *Calon Lân* gyda'r un brwdfrydedd ac angerdd â 'Chwm Rhondda'.⁵¹³

Roedd angen cryn dipyn o fuddsoddiad i dynnu Cymru allan o'r wasgfa wleidyddol, a chredai llawer na ellir gwneud hyn pe bai Cymru'n derbyn mwy o bwerau gwleidyddol drwy Refferendwm, ac yn symud ymhellach oddi wrth San Steffan. 11.8% yn unig o'r etholwyr a bleidleisiodd o blaid creu cynulliad. Roedd angen 40% o'r boblogaeth i bleidleisio 'Ie' er mwyn ei sefydlu. Yn ôl Johnes,

Sport may have been patriotism enough for some but there is little to suggest that it actually minimized political nationalism in Wales on any significant basis. Identities are contextual and situational: taking pride in one's nation on the rugby field is one thing, taking a leap into the dark of political autonomy is quite another. This is not a contradiction or a sign of some limitation in Welshness but simply economic pragmatism and evidence of the complex plurality of Welsh identity.⁵¹⁴

⁵¹² John Davies, *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff, 1994), t. 319.

⁵¹³ Martin Johnes, 'A Prince, a King and a Referendum', *Journal of British Studies* 47 (2008), 134.

⁵¹⁴ Idem, *Sport in Wales*, tt. 118-19.

Pennod 3: Y Cyfnod Clatsio: Datblygiad termau criced Cymraeg

Rhan 1: Criced yng Nghymru

Does dim sicrwydd ym mhle y mae gwreiddiau criced yng Nghymru. Y mae'n bosib iawn fod cyswllt rhwng y gamp fodern a rhai o gampau traddodiadol y Cymry ar hyd y canrifoedd. Gwnaed tipyn o waith yn y maes hwn gan yr hanesydd criced, Andrew K. Hignell.¹ Roedd llawer iawn o gemau ym Mhrydain yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif yn cael eu chwarae gan ddefnyddio pren a phêl. Bando oedd un o'r campau cynharaf yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif. Chwaraewyd bando ar rai o draethau de Cymru ddiwydiannol y ganrif honno. Dadleua Hignell nad oes modd cysylltu bando â chriced yn uniongyrchol am y chwaraeid bando gan rhwng ugain a deg ar hugain o chwaraewyr ar yr un pryd, ac roedd gôl ar y cae, yn debyg i hoci.² Nid yw nifer y chwaraewyr ar ei phen ei hun yn ddigon o dystiolaeth i wadu'r cyswllt yn gyfan gwbl, yn fy marn i, gan ei bod yn bosib y gallai nifer y chwaraewyr fod wedi newid dros gyfnod o amser beth bynnag.

Dadleua Hignell ei bod yn fwy tebygol fod criced yn deillio o 'trap-cat', y cofnodwyd ei hanes gan John Taylor ym 1652.³ Ymddengys mai'r un gêm yw hon â 'tip-cat', a nodir gan *Geiriadur Prifysgol Cymru* (gweler diwedd y bennod). Yn wir, mewn astudiaeth ar griced yng Ngwent, cyfeiria at 'trap-cat or tip-cat'.⁴ Ymddengys nad oes un term safonol ar gyfer y gêm hon, felly, er mai 'tip-cat' yw'r enw mwyaf cyfarwydd yng Nghymru, mae'n debyg. Chwaraewyd 'trap-cat' neu 'tip-cat' o fewn cylch, a safai'r un a fwriai'r bêl yng nghanol y cae yn dal ffon bren gron. Nod y gamp oedd bwrw'r 'gath' allan o'r cylch a phe na lwyddai'r un a ddaliai'r ffon i wneud hyn, byddai un arall yn dod i'r canol yn ei le. Roedd modd dal y

¹ Andrew K. Hignell, *Cricket in Wales: An Illustrated History* (Cardiff, 2008), tt. 1-3.

² *Ibid.*

³ *Ibid.*

⁴ Andrew Hignell, 'Cylchgronau Cymru Ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru', <http://welshjournals.llgc.org.uk/browse/viewpage/llgc-id:1337678/llgc-id:1339467/llgc-id:1339478/getText> [Fel yr oedd ar Fehefin 1, 2012].

bêl a 'rhedeg allan' yr un a fwriai'r bêl pe na bai'n cyrraedd ei dir cyn i'r bêl ddychwelyd i ganol y maes. Arferid chwarae'r gêm hon mewn mynwentydd neu ar dir comin. Daeth y gamp i ben yn sgil gwrthwynebu'r fath gampau am resymau crefyddol. Cyfeiria Derek Birley at y cysylltiad hwn rhwng criced a 'trap-cat', er ei fod yntau hefyd yn ansicr ynghylch gwreiddiau criced yn Lloegr.⁵ Chwaraeid gemau tebyg ledled Prydain, ac mae criced modern yn gyfuniad o wahanol nodweddion nifer o'r campau gwreiddiol yn y cyfnod hwn.

Dadleua Hignell fod campau o'r fath wedi datblygu'n fawr cyn y cyfnod diwydiannol.⁶ Ond nid oedd digon o bobl yn byw yn y cymunedau unigol i gynnal gornestau. Ehangwyd apêl y campau hyn yn sgil gwyliau'r mabsant. Chwaraeid y campau traddodiadol fel rhan o ddatliad yn enw'r seintiau. Dadleua Hignell mai esgus oedd hyn i gymdeithasu.⁷ Er bod gwreiddiau'r gamp heb eu profi'n llawn, y mae Birley yn gwbl argyhoeddedig fod yr enw 'cricket' yn deillio o'r cyfnod Normanaidd. Roedd fersiwn y Normaniaid o'r iaith Ffrangeg yn iaith Prydain. Y gair gwreiddiol, fwy na thebyg, oedd 'criquet'. Bodolai'r gair yn yr iaith Ffrangeg er nad oes tystiolaeth y chwaraeid y gêm gan y Normaniaid eu hunain.

Soniwyd am griced am y tro cyntaf ganol yr unfed ganrif ar bymtheg, ac fe gynhwyswyd y gair mewn geiriadur Eidaleg-Saesneg ym 1598, er nad yw'n ymddangos fod i'r gêm apêl eang bryd hynny.⁸

Beth bynnag fo gwreiddiau criced, cred yr hanesydd criced, Andrew K. Hignell mai ym 1783 y cafwyd sôn am ornest griced yn ne Cymru am y tro cyntaf, a hynny yn y papur newydd, *Hereford Journal*.⁹ Ychwanega Martin Johnes nad yw'n credu mai hon oedd yr ornest gyntaf un i'w chynnal yn ne Cymru.¹⁰ Camp amser hamdden oedd criced yng Nghymru yn y cyfnod cyn 1760, ac mae'n bosib y cynhelid gornestau yn y cyfnod hwnnw.

⁵ Derek Birley, *A Social History of English Cricket* (London, 2003), t. 3.

⁶ Andrew K. Hignell, *Cricket in Wales*, tt. 1-3.

⁷ Ibid.

⁸ Derek Birley, *A Social History of English Cricket*, t. 3.

⁹ Andrew K. Hignell, *Glamorgan County Cricket Club: The Archive Photographs Series* (Stroud, 1997), t. 7.

¹⁰ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales* (Cardiff, 2005), t. 13.

Cynhaliwyd y gêm gyntaf ar gofnod rhwng gwŷr bonheddig a thirfeddianwyr yng Nghaerfyrddin. Roedd hi'n amlwg o'r dechrau un gymaint o ddylanwad a gâi'r bonedd ar ddatblygiad criced yng Nghymru. Yn sgil y cyswllt hwn â'r bonedd, gellir dadlau bod y system addysg yn Lloegr wedi dylanwadu'n fawr ar griced yng Nghymru. Gyda phoblogrwydd y gamp yn cynyddu, a dyhead y bonedd am lwyddiant ar y maes chwarae, dechreuwyd denu chwaraewyr proffesiynol o bob cwr o Gymru a Lloegr erbyn y 1850au. Roedd mewnlifiad i'r trefi diwydiannol ar ei anterth yn y cyfnod hwn, a bu'n rhaid gwella'r rheilffyrdd o ganlyniad. Gyda chriced yn cael ei fabwysiadu gan y bonedd, ym marn Johnes,¹¹ daeth ochr gymdeithasol criced yn rhan allweddol o'r gamp. Gesyd Johnes griced yn y cyd-destun cymdeithasol hwn. Daeth betio ar ornestau'n boblogaidd, a olygai yn y pen draw fod pwyslais ar ddarganfod chwaraewyr er mwyn gwneud y gornestau'n fwy cystadleuol. Am y rheswm hwn, o bosib, y gwrthwynebwyd criced gan elfen o'r gymdeithas ar sail credoau crefyddol. Deuai'r gwrthwynebiad mwyaf o gyfeiriad yr Anghydfurfwr yng Nghymoedd y De. Byddai'n rhaid gweithio'n galed i hybu'r gamp cyn y deuai'n boblogaidd unwaith eto ar raddfa ddigonol i'w chynnal yn y de.

Lledaenodd apêl criced ymhellach yn y 1840au a'r 1850au yn sgil sefydlu ysgolion gramadeg yr oedd criced yn rhan greiddiol ohonynt.¹² Roedd hyn o ganlyniad i Ddeddf Ysgolion Gramadeg 1840. Oherwydd pwysigrwydd criced i'r uchelwyr, darparent diroedd i'w gweithwyr gael ymarfer a chwarae arnynt. Meddai Hignell, 'The Welsh gentry's adoption of cricket was another step in its anglicization.'¹³

Wynebwyd sawl anhawster wrth geisio sefydlu tîm. Yn y lle cyntaf, doedd dim digon o chwaraewyr lleol a oedd yn ddigon da i chwarae criced ar lefel sirol. Yn ogystal, oherwydd bod criced yn dal yn gamp amatur, nid oedd modd i lawer o'r chwaraewyr deithio ar hyd a

¹¹ Ibid, t. 14.

¹² Andrew K. Hignell, *Cricket in Wales*, t. 15.

¹³ Ibid, t. 13.

lled y wlad. Byddai'n rhaid treulio cyfnodau i ffwrdd o'r gwaith er mwyn cael chwarae.

Roedd gan y rhan fwyaf o dimau un neu ddau chwaraewr proffesiynol, ac roedd hi'n anodd gweld o ble y deuai'r arian i'w talu'n rheolaidd. Yn bennaf oll, yn ôl Hignell, doedd yr un cae yn ddigon da yn ardal de Cymru i gynnal gornestau sirol.¹⁴

Yr hyn a arweiniodd at sefydlu Clwb Criced De Cymru ym 1859 oedd ymweliadau timau o chwaraewyr proffesiynol â rhai o drefi diwydiannol y de. Roedd trafndiaeth rhwng Cymru a Lloegr yn datblygu'n raddol, a olygai fod criced yn dod yn gamp ranbarthol. Roedd hefyd yn dechrau ymsefydlu'n gamp boblogaidd ymhlith y dosbarth gweithiol. Erbyn 1859, roedd digon o chwaraewyr dawnus yn y rhanbarth er mwyn sefydlu tîm De Cymru i gystadlu yn erbyn siroedd Lloegr. Sefydlwyd taith flynyddol yn fuan wedyn er mwyn i'r tîm newydd gael y profiad o chwarae ar gae Lord's, cartref tîm yr enwog M.C.C. (Marylebone Cricket Club). Uchelwyr oedd y rhan fwyaf o chwaraewyr y tîm teithiol. Datblygodd criced trwy gydol y 1860au a'r 1870au i fod yn gamp ar gyfer pob dosbarth yn y gymdeithas. Dadleua Johnes¹⁵ fod criced yn enghraifft dda o sut y tynnai'r dosbarth gweithiol ynghyd mewn cyfnod economaidd anodd. Noda Johnes fod ymgais i atal chwaraewyr proffesiynol rhag chwarae dros glwb De Cymru ym 1874 wedi'i threchu, gan sicrhau bod lle i bob carfan o'r gymdeithas yn y tîm.¹⁶ Diddymwyd Cwpan Her De Cymru ym 1886 oherwydd gwrthdaro rhwng carfanau a gefnogai amaturiaeth a phroffesiynoldeb. Daeth tîm De Cymru i ben yn fuan wedyn.

Ychydig dros ganrif ar ôl yr ornest gyntaf honno a gofnodwyd yng Nghaerfyrddin, a chyda thwf yn yr economi, yn ôl Hignell, cymerwyd camau graddol tuag at sefydlu sir Morgannwg ym 1888.¹⁷ Yn ystod y cyfnod hwn o ddatblygiad economaidd, cafwyd rheilffyrdd newydd a alluogai'r chwaraewyr i deithio'n gynt. Roedd y trefi diwydiannol yn

¹⁴ Ibid, t. 7.

¹⁵ Martin Johnes, *A History of Sport in Wales*, t. 44.

¹⁶ Ibid, t. 15.

¹⁷ Andrew K. Hignell, *Cricket in Wales*, t. 7.

dechrau cynyddu o ran eu poblogaeth, a olygai fod mwy o chwaraewyr i ddewis o'u plith. Hefyd, dechreuai busnesau ymddiddori mewn criced, gan gynnig arian er mwyn sefydlu'r gamp ar draws de Cymru. Ym 1879, sefydlwyd Cwpan Her De Cymru ar gyfer holl dimau lleol y rhanbarth. Yn ogystal â hyn oll, ym marn Hignell, roedd ymweliadau timau tramor â de Cymru'n allweddol wrth geisio profi y gallai'r rhanbarth gynnal gornestau pwysig a sylweddol eu maint. Yn y pen draw, sefydlwyd Clwb Criced Morgannwg ym mis Gorffennaf 1888. Yn y blynyddoedd cynnar fel sir yn y Bencampwriaeth, ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd a gwelwyd symudiad oddi wrth y polisi o feithrin chwaraewyr lleol. Yng ngeiriau Hignell, 'The club had struggled to compete in 1889 and 1890 with a strong native element, and the loss of this Welsh identity was the price Glamorgan had to pay for greater success in 1895 and 1896'.¹⁸

Ymunodd Morgannwg â Phencampwriaeth y Siroedd Llai (Minor Counties) ym 1897. Tair blynedd yn unig y bu'n rhaid aros cyn iddynt gipio Pencampwriaeth y Siroedd Llai. Wrth i'r sir ddatblygu a dechrau blasu llwyddiant, denwyd chwaraewyr proffesiynol o Loegr. Y ddau Sais cyntaf i gynrychioli'r sir oedd James Maxwell a Harry Creber, a hynny ychydig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.¹⁹ Yn y cyfamser, roedd Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin wedi ymuno â Phencampwriaeth y Siroedd Llai wrth i griced gydio yn nychymyg y Cymry. Ar ôl profi llwyddiant yng nghanen y Gorllewin o Bencampwriaeth y Siroedd Llai ym 1907, 1908, 1909 a 1913, ymgyrchwyd i gael lle i Forgannwg ym Mhencampwriaeth y Siroedd. Sicrhaodd Morgannwg ei lle yn y Bencampwriaeth ym 1921. Yn sydyn, cafwyd mewnlifiad o chwaraewyr proffesiynol y Siroedd Llai o Loegr a ddymunai chwarae criced ar y lefel uchaf. Gyda'i phoblogrwydd yn cynyddu ymhlith y siroedd Seisnig, sicrhaodd Morgannwg ornestau yn erbyn wyth ohonynt, gan sicrhau ei lle teilwng yn y Bencampwriaeth o ganlyniad.

¹⁸ Idem, *A Favorit Game*. Dyf. Lowri Wyn Bevan, *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg* (Traethawd PhD: Aberystwyth, 2002), t. 142.

¹⁹ Idem, *Glamorgan County Cricket Club*, t. 18.

Chwaraeodd Morgannwg am y tro cyntaf yn y Bencampwriaeth yn erbyn Sussex yng Nghaerdydd ar Fai 18-20, 1921. Sicrhawyd buddugoliaeth yn yr ornest honno. Rhyw bedwar neu bump o chwaraewyr proffesiynol yn unig a oedd gan Forgannwg ar y dechrau, a hynny o ganlyniad i ddiffyg arian. Amaturiaid oedd gweddill y tîm. Erbyn canol y 1920au, deuai'n amlwg nad oedd y cyfuniad hwn yn debygol o ddod â llwyddiant i'r sir, a mabwysiadwyd polisi o ddatblygu doniau'r chwaraewyr lleol ar draul arwyddo rhagor o chwaraewyr o Loegr. Dyma bolisi y bu Clwb Criced Morgannwg yn enwog am gadw ato ar hyd y blynyddoedd.²⁰ Fel y dywed cyn-gaptan a hyfforddwr Morgannwg, Matthew Maynard yn ei hunangofiant, 'We are fortunate as a country that we have long had an excellent development programme where youngsters in Wales, the south especially, are quickly identified and fast-tracked'.²¹

Yng nghofiant Douglas Miller i Don Shepherd, ategir barn Maynard gan Miller, a ddywed, 'A strong Welsh identity has always been one of the special properties of Glamorgan teams.'²² Dadleua Miller ymhellach, ' Don can recall a couple of occasions when he played in an all-Welsh team, and as recently as 2002, the county fielded a side in which all eleven had been born or nurtured in Wales'.²³

Chwalodd nifer o'r siroedd Cymreig eraill, a daeth Sir Fynwy yn ail dîm i Forgannwg ym 1934 er mwyn datblygu chwaraewyr ifanc ar gyfer y dyfodol, ac o ganlyniad i drafferthion ariannol clwb Sir Fynwy. Yn sgil y datblygiad hwn, chwaraewyd gornestau ym mhob cwr o dde Cymru. Ceisiwyd denu ambell chwaraewr o'r gogledd hefyd ond methiant ar y cyfan fu hyn. Fel rhan o'r ymgais i sefydlu criced yn y gogledd, fodd bynnag, chwaraewyd gornestau yn Llandudno, Bae Colwyn ac Ysgol Rydal. Mae'r cysylltiad â Bae Colwyn yn

²⁰ *Idem, Cricket in Wales*, t. xiv.

²¹ Matthew Maynard (gyda Paul Rees), *On the Attack* (Edinburgh, 2001), t. 81.

²² Douglas Miller, *Born to Bowl: The Life and Times of Don Shepherd* (Bath, 2004), t. 49.

²³ *Ibid.*

parhau hyd heddiw. Yn niwedd y 1930au, dewiswyd y chwaraewyr cyntaf yn hanes

Morgannwg i garfan Lloegr - Maurice Turnbull a Cyril Walters.²⁴

Parhaodd llwyddiant Clwb Criced Morgannwg ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, wrth i'r sir gipio tlws Pencampwriaeth y Siroedd am y tro cyntaf ym 1948. Ar drothwy'r fuddugoliaeth honno, Allan Watkins oedd y chwaraewr cyntaf o Forgannwg i gynrychioli Lloegr yng Nghyfres y Lludw. Ef hefyd oedd y Cymro cyntaf i daro cant dros Loegr. Dadleua K.O. Morgan fod yna ddiddordeb eang yn y gamp yng Nghymru yn dilyn llwyddiant Morgannwg yn ystod tymor 1948.

In Swansea at St. Helen's and at Sophia Gardens in Cardiff some of the enthusiasm traditionally linked with rugby was now associated with 'the Welsh cricket team'...²⁵

Daeth cyn-gapten Morgannwg, Wilfred Wooller yn un o ddewiswyr Lloegr yn y 1950au, ac yn y 1960au, Morgannwg oedd y sir gyntaf i drechu Awstralia yn ystod dwy daith olynol â Chymru a Lloegr.

Am y tro cyntaf, dyma Gymru'n herio Awstralia ym myd criced. Cafwyd dwy ornest yn erbyn yr Awstraliaid yn y 1960au, y naill ym 1964 a'r llall ym 1968, flwyddyn cyn i Forgannwg godi tlws Pencampwriaeth y Siroedd am yr eildro yn hanes y clwb. Yn eironig o gofio ymrwymiad y sir i feithrin doniau lleol, denwyd chwaraewyr o dramor i'r sir am y tro cyntaf, a chwaraeodd y batiwr o India'r Gorllewin, Roy Fredericks ran ym muddugoliaeth 1969.²⁶

O 1970 ymlaen, gyda mwy fyth o sylw i griced yng Nghymru, datblygodd criced ar lawr gwlad, a daeth rhai o bentrefi Cymru'n flaenllaw yn y twrnamaint cenedlaethol ar gyfer pentrefi Cymru a Lloegr. Sefydlwyd Cymdeithas Griced Cymru yn y 1970au i roi trefn ar griced ar y lefel yma. Cyrhaeddodd Morgannwg rownd derfynol Cwpan Gillette yn Lord's yn

²⁴ Andrew K. Hignell, *Cricket in Wales*, t. xvi.

²⁵ K.O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales* (Oxford, 1982), t. 347.

²⁶ Andrew K. Hignell, *Cricket in Wales*, t. xviii.

nyddiau cynnar criced undydd. Bu'n rhaid aros tan 1993 i brofi rhagor o lwyddiant pan godwyd Cwpan Cynghrair AXA Equity and Law gyda'r seren byd enwog, Viv Richards yn cynrychioli'r sir erbyn hynny. Ychwanegwyd at y ddwy Bencampwriaeth ym 1997, wrth i dîm a oedd bron i gyd yn Gymry gipio Pencampwriaeth y Siroedd.

Sefydlwyd Canolfan Ragoriaeth yng Nghaerdydd ym 1999 ar gyfer pob lefel o chwaraewyr drwy Gymru gyfan. Cynhaliwyd gornest Cwpan y Byd rhwng Awstralia a Seland Newydd yng Nghaerdydd y flwyddyn honno. Dyma'r ail waith i Forgannwg gynnal gornest o'r fath (y tro cyntaf yn Abertawe ym 1983).²⁷ Cynhaliwyd y gêm brawf gyntaf yng Nghymru yn 2009, y prawf cyntaf yng Nghyfres y Llundw rhwng Lloegr ac Awstralia. Roedd blas Cymreig i'r achlysur wrth i 'Hen Wlad Fy Nhadau' gael ei chanu ochr yn ochr â 'God Save the Queen', er y dadleuai'r beirniaid mai ymgais i ennill cefnogaeth y Cymry i dîm cenedlaethol Lloegr oedd hyn. Roedd hyd yn oed y 'Byddin Barmi' yn gwyllo'r ornest.²⁸ Dyma Gymreigio enw clwb cefnogwyr swyddogol tîm criced Lloegr, y 'Barmy Army'.

Gwelwn felly, o'i darddiad dan yr enw 'trap-cat' hyd at y cofnod cyntaf o ornest griced yn y ddeunawfed ganrif, fod Clwb Criced Morgannwg a chriced yng Nghymru, erbyn yr unfed ganrif ar hugain, yn chwarae rhan bwysig ar y lefel ryngwladol.

Sut y bu i'r gamp hynaf â phêl yng Nghymru, sydd i lawer yn gamp Seisnig, dreiddio i hunaniaeth y Cymry? Sut y gellir cymathu'r ddeuoliaeth o gynrychioli Cymru drwy Forgannwg â Phrydain drwy Loegr? Pa dystiolaeth a geir yn ein llenyddiaeth i ddangos bod criced wedi dod yn rhan o'r hunaniaeth Gymreig, sy'n haeddu sylw ein llenorion a'n hawduron?

²⁷ Ibid, t. xx.

²⁸ Steven Morris, <http://www.guardian.co.uk/news/blog/2009/jul/08/ashes-cardiff-wales-fans> (Gorffennaf 8, 2009) [Fel yr oedd ar Fedi 30, 2009].

Criced a Hunaniaeth y Cymry

In rugby, the English and Welsh are mortal enemies... In football, the national teams are also separate, but it's different: nothing like as fierce... and in cricket it's different again. (Life is very complicated in the United Kingdom, you know. It is devilish hard to understand where nationhood begins and ends, never mind try to explain it.) Anyway, in cricket, the highest ambition of a Welsh cricketer is to play for... England.²⁹

Fel y dadleua'r bardd Ceri Wyn Jones,

Ystadegau moel, ceidwadaeth, a Seisnigrwydd. Dyna, yn ôl y gwyliwr di-weld, yw hanfodion criced fel gêm.³⁰

Fodd bynnag, yn ei ysgrif ar Robert Croft, gwelir deuliaeth y Cymro'n chwarae gêm

Seisnig, ac yn cynrychioli Lloegr yr un pryd. Gan nad oes gan Gymru dîm cenedlaethol ar y lefel uchaf, rhaid i'r Cymry sy'n ddigon ffodus i dderbyn cydnabyddiaeth gan ddewiswyr rhyngwladol gynrychioli Lloegr. Ond sut gall Cymro gwladgarol fel Croft gynrychioli Lloegr? Fel y dywed Croft yntau, 'Pryd dwi'n whare i Forgannwg, mae fel whare i Gymru; pryd dwi'n whare i Loeger, mae fel whare i'r Llewod.'³¹

Mynegwyd hyn eisoes mewn oes flaenorol gan fatiwr Morgannwg, Alan Jones, a ddywedodd, 'Pan o'n i'n chwarae i Forgannwg ro'n i'n cynrychioli Cymru, dyna fel oedden ni'n meddwl am dîm Morgannwg.... pan oedd Morgannwg yn chwarae yn erbyn Awstralia roedd e fel bod Cymru yn chwarae yn erbyn nhw.'³²

Ategir barn Jones gan gyn-gapten Morgannwg, Tony Lewis, 'Glamorgan, in cricket terms, has come to mean the whole of Wales'.³³

²⁹ Matthew Engel, 'Foreword', yn Grahame Lloyd (gol.), *Daffodil Days* [:] Glamorgan's Glorious Summer (Llandysul, 1998), t. xi.

³⁰ Ceri Wyn Jones yn Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru* (Llandysul, 2000), t. 19.

³¹ Robert Croft. Dyf. gan Ceri Wyn Jones yn Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru*, t. 21.

³² R. Merfyn Jones (gol.), *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd, 1999), t. 44.

³³ Tony Lewis, 'A Personal View', yn Andrew Hignell, *The History of Glamorgan County Cricket Club*, t. 1.

Mae'r ysgrif ar Robert Croft yn un o nifer o ysgrifau sy'n talu teyrnged i gricedwyr Cymreig yn y gyfrol *Cewri Campau Cymru*. Gellir ystyried y 'cewri' hyn yn arwyr y genedl. Mae'r ysgrifau hyn yn dystiolaeth o le criced yn yr ymdeimlad o genedligrwydd ymhlith y Cymry yn ogystal. Fel y dadleua Lowri Wyn Bevan, 'Mae Cymreictod a chenedlaetholdeb yn nodwedd sy'n gyffredin yn y canu mawl i arwyr, y ddelwedd hon o'r arwr fel gwarchodwr ein cenedl, yn bennaeth rhyfelgar ac yn amddiffynnydd gwlad...'.³⁴

Yn yr ysgrif ar Alan Jones gan Walford Gealy, cyfeiria'r awdur at bwysigrwydd Morgannwg fel sir sy'n cynrychioli Cymru gyfan, yn enwedig yn absenoldeb tîm cenedlaethol yng Nghymru.

Pan oeddwn yn blentyn ysgol, un o siroedd Cymru oedd Morgannwg. Ond ym myd criced roedd Morgannwg yn fwy na sir. Cymru oedd, ac yw, Morgannwg ac yn fy marn i y mae pob Cymro sy'n chwarae i Forgannwg yn haeddu 'cap' gan ei fod wedi cyrraedd y brig yn y gêm hon yng ngwlad ei dadau... Ni all Cymro wisgo crys criced Lloegr fel y gwisga'r crys coch, dyweder, ar Barc yr Arfau. Ac eto, y mae ffordd hawdd allan o'r tyndra hwn pe byddai'r Sais yn barod i alw ei dîm criced yn 'Lloegr a Chymru'!³⁵

Serch hynny, dywed Mansel Thomas am Jeff Jones ei fod yn cynrychioli Cymru wrth wisgo crys Lloegr, gan ychwanegu:

Dyw e ddim yn deall paham nad oes tîm cenedlaethol gennym a fyddai'n cystadlu'n rheolaidd yng Nghwpan y Byd.³⁶

Un anhawster sy'n codi o'r ddadl hon yw'r ffaith mai un tîm cenedlaethol yn unig sy'n medru cynrychioli pob Bwrdd Criced cenedlaethol ac felly, gan fod Cymru a Lloegr yn cystadlu o dan ymbarél un Bwrdd Criced, ni all Cymru gyrraedd yr un lefel â Lloegr ar y llwyfan rhyngwladol.

³⁴ Lowri Wyn Bevan, *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg*, t. 244.

³⁵ Walford Gealy, 'Alan Jones', yn Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru*, t. 87.

³⁶ Mansel Thomas, 'Jeff Jones', yn Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru*, t. 99.

Atgyfnerthir y berthynas rhwng criced a'r diwylliant trwy gyfres o ysgrifau ar y gamp a geir yn y gyfrol deyrnged i'r diweddar newyddiadurwr chwaraeon, Tomos Owen, *Cofio Tomos: Teyrngedau ac Erthyglau Tomos Befan Owen*. Gweithiau Tomos Owen yntau yw sylwedd y gyfrol a cheir un erthygl drawiadol ar gyswllt criced a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ymgais Eisteddfodol yw 'Y Maes'. Fel y nodir yn y gyfrol,

Derbyniodd Tomos glod uchel, gan ddod yn agos at y wobr gyntaf, yn y gystadleuaeth Ysgrif ar unrhyw agwedd o fyd chwaraeon yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008. Dywedodd y beirniad ei fod yn 'dynn ar sodlau' yr enillydd.³⁷

Yn ei hanfod, ysgrif am griced yn ardal Treganna ydyw hon, ond y mae'n gelfydd hefyd wrth gymharu byd criced â'r byd eisteddfodol, a hynny dan gwmwl dadl ynghylch gosod Maes y Brifwyl ar safle cae criced y clwb lleol. Fel y dywed am yr Orsedd yn ei ffordd unigryw o ffraeth,

Bydd y criw yn gorymdeithio'n ffyddlon yn eu gynau [sic] gwynion at yr orsedd, sawl gwaith yr wythnos, yn gosod y meini yn y tir, yn ymrafael am y gorau cyn heidio 'nôl yn wasaidd at fywyd beunyddiol y brifddinas cyn iddi nosi. Dyw clywed fod llwyth arall mewn gwisgoedd gwynion yn bwriadu tarfu ar hyn ddim yn plesio'r criw.³⁸

Sonnir yn yr ysgrif am gynghrair leol Caerdydd, a'r mathau o dimau a geir yn y gystadleuaeth. Cyfeiria at yr Asiaid a'r Cymry Cymraeg yn brwydro yn erbyn ei gilydd, ac at ambell weithiwr blaenllaw yn y Cynulliad. Dyma osod criced yn dwt yng nghanol gwleidyddiaeth ac ethnigrwydd yng Nghymru. Fel y disgrifia,

Mae'r ymladdwyr o bob lliw a llun, o bob hil a chred ac o bob anian. Dyma Gaerdydd gosmopolitan, dyma 'Gymru a'r Byd', dyma 'Gymru'n Un'.³⁹

³⁷ D. Huw Owen (gol.), *Cofio Tomos: Teyrngedau ac Erthyglau Tomos Befan Owen* (Talybont, 2009), t. 71.

³⁸ Tomos Befan Owen, 'Y Maes', yn D. Huw Owen (gol.) yn *Cofio Tomos*, t. 71.

³⁹ Ibid.

Trafodir y ddau begwn yn y gymdeithas sy'n herio'i gilydd ar gaeau criced y brifddinas, a gosod eu gwahaniaethau yng nghyd-destun y cae criced.

Dwy lath ar hugain sy'n gwahanu batiwr a bowliwr ar lain griced ond mae'r cyferbyniad rhwng y ddau sy'n mynd benben yng Nghynghrair Nos ardal Caerdydd yn gallu bod yn drawiadol. Ar y naill law ceir gŵr sydd wedi bod yn paratoi at y gêm y noson honno drwy yrru tacsï o amgylch y brifddinas, yn anelu pêl galed at ben diamddiffyn y gŵr sydd ar y llaw arall wedi bod yn ymlafnio drwy'r dydd i addysgu rhai o'n hieuenctid am ragoriaethau'r Cynfeirdd.⁴⁰

Yng nghyd-destun y ddadl sy'n sail i'r erthygl, gorffen yr erthygl drwy ofyn y cwestiwn Eisteddfodol, 'A oes heddwch?'.⁴¹

Yn yr erthygl 'Byd y campau a chelfyddyd yn cwrdd' ar gyfer tudalennau chwaraeon gwefan *BBC Cymru'r Byd*,⁴² trafodir rhai o'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng byd y campau a'r byd llenyddol. Roedd y cysylltiad yn amlwg yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y flwyddyn honno, gyda rhai o enwogion y maes chwarae yn cymryd rhan flaenllaw yn y seremonïau fel aelodau'r Orsedd. Huw Llywelyn Davies oedd cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, tra oedd Robin McBryde yn Geidwad y Cledd yn dilyn marwolaeth Ray Gravell. Roedd disgwyl hefyd i Robert Croft, Clive Rowlands a Gareth Edwards fod yn bresennol hefyd. Dyma amlygu unwaith eto bwysigrwydd enwogion y byd chwaraeon i'r byd diwylliannol, a'r gydnabyddiaeth a gaiff y naill gan y llall.

Mae Lowri Wyn Bevan, yn ei hastudiaeth fanwl, wedi rhoi sylw i le criced yn yr hunaniaeth Gymreig, gan brofi bod criced wedi bwrw'i wreiddiau mewn llenyddiaeth Gymraeg. Yn ei hastudiaeth o gasgliad o gerddi ar rai o arwyr Morgannwg, cynhwysir

⁴⁰ Ibid, t. 72.

⁴¹ Ibid.

⁴² Ibid.

trafodaeth ar gerddi am Alan ac Eifion Jones, Viv Richards a Robert Croft.⁴³ Tynnaf sylw yma at rai o nodweddion diwylliannol y cerddi, gan ymdrin â hwy mewn ffordd wahanol i

Lowri Wyn Bevan. Am y brodyr Jones, dywed Robat Powel,

Un teulu ond dau eilun, - un edau,
Ond dau frawd o'r brethyn;⁴⁴

Wrth gyfeirio at frethyn, dyma ddarlun Cymreig adnabyddus. Ceir nifer o ddarluniau traddodiadol Gymreig yn y gerdd i Robert Croft, yn ogystal. Gesyd T. James Jones ei wrthrych yng nghyd-destun yr Eisteddfod a'r Orsedd. Ceir ynddi symbolau'r byd eisteddfodol a'r byd criced. Dyfynnaf ambell linell yma:

Seren cae chwarae'n bencerdd
o'i wisgo ef â'r wisg werdd.
Haedda'i fowlio gerdd foliant,
a'i doddi hi ar gerdd dant!⁴⁵

Yn ogystal â'r cerddi hyn, cynigia Lowri Wyn Bevan ddadansoddiad o gerdd eisteddfodol Cynan, 'Y Dyrfa'.⁴⁶ Yn y cyfnod hwn, er llwyddiant y bardd, teimlid nad oedd chwaraeon o reidrwydd yn bwnc addas ar gyfer barddoniaeth na llenyddiaeth yn gyffredinol. Erbyn hyn, fel y noda Lowri Wyn Bevan, mae llunio cerddi'n seiliedig ar fyd chwaraeon a'i sêr yn gyffredin iawn. Fel y dadleua wrth drafod buddugoliaeth Hilma Lloyd Edwards mewn cystadleuaeth sy'n gofyn am gerdd 'i unrhyw arwr o'r byd chwaraeon' yn Eisteddfod Genedlaethol 1998,

⁴³ Lowri Wyn Bevan, *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg*, tt. 152-181.

⁴⁴ Robat Powel, *Haearn Iaith* (Llandysul, 1996), t. 86.

⁴⁵ T. James Jones, 'I Crofft y Troellwr Crefftus' yn *Barddas*, 245 (Mawrth/Ebrill 1998), 26.

⁴⁶ Lowri Wyn Bevan, *Llenyddiaeth Mewn Chwaraeon*, tt. 152-181.

Dyma newid hinsawdd go sylweddol o'i gymharu â chyfnod 'Y Dyrfa'. Mae'n tystio i le pwysig chwaraeon yn y bywyd cyfoes, ac i'w 'barchusrwydd' newydd fel testun sylw i'r beirdd.⁴⁷

Edrychaf innau hefyd ar y casgliad o gerddi *Sobers a Fi* gan y diweddar

Archdderwydd, Dafydd Rowlands. Ei nod wrth lunio'r gyfrol oedd cynhyrchu a chyhoeddi 365 o gerddi, un am bob diwrnod o'r flwyddyn ac un am bob rhediad a sgoriwyd gan Syr Garfield Sobers wrth iddo gyrraedd sgôr unigol a oedd yn record byd ar y pryd. 57 o gerddi yn unig a gyhoeddwyd yn y pen draw. Fel y dywedodd yr awdur wrth gyhoeddi'r gyfrol,

Fe ddaeth y flwyddyn i ben. Roedd gennyf lwyth o gerddi cymysg eu mater a'u hansawdd, ond gwyddwn nad oedd yng Nghymru gyhoeddwr oedd yn ddigon hurt i dderbyn llawysgrif mor anwastad ac anhylaw... Fe ddaeth Brian Lara i chwalu sgôr Sobers ac aml i sgôr arall. A dyna ddiwedd yr uchelgais.⁴⁸

Mae ail gerdd y casgliad yn dwyn y teitl 'Y Ffin', ac mae'n cyfeirio at y gwagle

hwnnw sydd ym mywydau dilynwy'r criced yn ystod misoedd y gaeaf. Gwagle o fath arall yw islais y gerdd hon, sef hiraeth am ei fam a fu farw ym 1981. Crisielir y teimlad hwnnw o ddiflastod deublyg yn llinellau olaf y gerdd:

Nid oes na ffoi
na chuddio rhag y diefligrwydd blin
sy'n sugno pob creadur at y ffin.⁴⁹

Cyfeiria'r gerdd 'Criced' at 'yr ail gêm brawf' rhwng Lloegr a Phacistan ar gae

Lord's ym 1992. Cofia fynd i'r un cae gyda'i fam i weld 'cant dwbwl Joe Hardstaff' a 'wicedi di-ri i'r Bedser ifanc' ym 1946.⁵⁰

Tynnir criced a'r diwylliant ynghyd ar sawl lefel yn y gerdd 'Hospitality Suite'.

⁴⁷ Ibid, t. 253.

⁴⁸ Dafydd Rowlands, *Sobers a Fi* (Llandysul, 1995), t. xi.

⁴⁹ Ibid, t. 1.

⁵⁰ Ibid, t. 33.

Dywed y bardd fod 'eisteddfodau, Cup Finals, a gemau criced undydd' yn 'achlysuron i'w blasu a'u mwynhau'. Ar unwaith, dyrchefir criced i uchelfannau'r diwylliant, ochr yn ochr â llenyddiaeth. Ymhyfryda yn y 'llain liw'r tywod'. Sonnir am 'eistedd ar y balcon', sef yr hen derm am yr eisteddle, a'r ffaith mai 'uchel swyddogion y cyfryngau torfol, athrawon coleg a'u gwragedd, a beirniaid llên' sydd yn y dorf. Unwaith eto, dyma osod y ddau fyd yn gyfochrog. Ceir gwrthdaro rhwng y llenorion a'r 'ypwardly mobeil uchelwyr modern', sef y rhai sy'n eistedd yn yr ardal letygarwch. Arweinia'r gwrthdaro hwn at 'groesi cleddyfau â'r uchelwyr'.⁵¹ Adlais yw hyn, wrth gwrs, o'r cleddyf Eisteddfodol.

Ymddengys mai ychydig o lenyddiaeth ar y testun chwaraeon a geid cyn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Un eithriad yw *Cap Wil Tomos a Storiâu Eraill* gan Islwyn Williams. Canolbwyntiodd Lowri Wyn Bevan ar le criced yn y gymdeithas yn 'Y Blaenor', ond edrychaf innau'n benodol ar y defnydd o iaith a thermau criced i benderfynu'r angen am eirfa griced, o ystyried y lluniwyd y gyfrol hon cyn cyhoeddi'r un o'r geiriaduron cyfoes.

Yn nhafodiaith Cwm Tawe y lluniwyd y gyfrol hon ac amlygir hynny yn 'Y Blaenor' wrth i'r awdur gyfeirio at Ifan Harris a'i 'ddiddordeb mewn cricet'. Yn y stori hon, ceir sôn am y 'bowlwr' a'r 'celfi'. Un term tafodieithol diddorol yw 'criceter', a sonnir am 'wicets'. Gosodir y term hwn yng nghyd-destun y berthynas rhwng criced a chrefydd. Wrth gyfeirio at Ifan, dywed yr awdur,

Fe ddywedodd rhywun yn ddiereidus wrtho unwaith mai criceter yn mynd i'r cwrdd oedd ac nid aelod crefyddol yn dilyn ambell gêm o gricet. Gwadau hynny yn bendant.⁵²

Un rheswm posib am wadu'r cyswllt yw'r berthynas negyddol a fodolai rhwng crefydd a'r byd chwaraeon yng Nghymru. Am y cyswllt rhwng pregethwyr a chriced, dywed yr awdur,

⁵¹ Ibid.

⁵² Islwyn Williams, *Cap Wil Tomos a Storiâu Eraill* (Llandybie, 1946), tt. 7-12.

Ysgrifennais i bapur unwaith ar ‘Y Cysylltiad rhwng y Weinidogaeth a Chownti Cricet’. Ys dywed Ifan wrthyf un tro ar St. Helen’s ar brynhawn anarferol o boeth: “Dishgwl rownd; dyma’r unig fan y gweli di ambell i bregethwr yn tynnu’i gôt bant”.⁵³

Yn wir, mae’r stori hon yn cynnig sylwebaeth gymdeithasol ar griced yng Nghymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Tanlinellir hyn gyda chyfeiriad at Forgannwg yn dod yn ‘First Class Cownti’.⁵⁴ Fyth ers hynny, ym marn Ifan, cydiodd criced yng nghalonnau gwŷr de Cymru. Fel y dywed,

Yr hen draddodiad yw mai’r Saeson biau’r gêm yn llwyr, ac mai nhw yn unig sy’n medru gwerthfawrogi’r math hwn o gricet, lle mae un gêm yn para tri niwrnod. Dwli pen hewl!⁵⁵

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, cyhoeddwyd y llyfr chwaraeon Cymraeg cyntaf, *Crysau Cochion* gan Howard Lloyd. Yn y gyfrol hon, ceir ysgrifau gan amryw sylwebyddion a gohebwyd chwaraeon ar nifer fawr o gampau chwaraeon Cymru. Mae’r rhan fwyaf yn ymdriniaethau â’r campau Cymreig traddodiadol, ond ceir hefyd nifer o erthyglau ar griced yng Nghymru gan chwaraewr Morgannwg, Dai Davies, yn ogystal â chyfweliad ag ef.

Yr hyn sy’n ddi-ddorol i’w nodi yn y darn ‘Siarad â Dai’ yw’r termau prin a ddefnyddir yn yr oes honno. Defnyddir rhai termau cyfarwydd megis ‘r[h]ediadau’, ‘wicedi’, ‘daliadau’, bowlio, ‘wiced ganol’, ‘batiad’, ‘heb fod allan’, ‘bat’, a ‘danfon allan’. Yn ogystal, ceir rhai termau sydd bellach wedi’u disodli gan dermau newydd, a’r rheini’n cynnwys ‘rheolwr’ (dyfarnwr), ‘y gampwriaeth’ (y bencampwriaeth), a ‘stwmpwr’ (wicedwr). Cyfeirir yn ogystal at ‘Tests’.⁵⁶

Ceir adran ‘Allan neu Beidio?’, sef cwis gan Dai Davies sy’n profi gwybodaeth y darllenydd o’r safleoedd maes a rhai o’r rheolau. Ceir y term ‘stwmpwr’ unwaith eto, a rhai

⁵³ Ibid.

⁵⁴ Ibid.

⁵⁵ Ibid.

⁵⁶ Howard Lloyd, ‘Siarad â Dai’ yn *Idem* (gol.), *Crysau Cochion* (Llandybie, 1958), tt. 26-30.

termau anghyfarwydd eraill megis ‘dim bowliad’ ar gyfer ‘no-ball’, a ‘cwrt’ ar gyfer ‘crease’ y defnyddir ‘llain’ ar ei gyfer erbyn hyn.⁵⁷

Yn yr erthygl ‘Deffro, De Affrig’ gan W.E. Jones, cyfeirir at fowlio ‘sbin’ (troelli erbyn hyn) a ‘dwy ganred ddwbl’ (‘canred’ ar gyfer cant o rediadau, sydd bellach yn derm anghyfarwydd). Defnyddir ‘bowliad’ ar gyfer y term sydd bellach yn ‘pelen’ (‘delivery’ yn Saesneg). Ceir ‘batio cyntaf’ yn hytrach na ‘batiad cyntaf’ ar gyfer ‘first innings’. Mae’r ‘dafl’ ar gyfer ‘coin toss’ bellach wedi troi’n ‘dafliad’. Cyfeirir at ‘ofar’ ar gyfer ‘over’ – y term a dderbynnir erbyn hyn yw ‘pelawd’. Cyfeirir at ‘silly mid-on’ fel ‘gwirionyn’.⁵⁸

Mewn erthygl arwyddocaol yn *Barddas* 198 (1993), dyfynna Jon Meirion Jones eiriau Thomas Davies (sy’n dyfynnu rhywun arall anhysbys) mewn araith yn y *Babell Lên*, gan ddweud bod ‘chwaraeon wedi gwneud mwy i’r iaith Gymraeg na llenyddiaeth’.⁵⁹ Amlinellir gan Jones, ddyletswydd crefydd a’r capeli i bobl ei genhedlaeth o ran cynnal safonau Cymraeg.

Roedd ein cefndir ieithyddol wedi ei drochi’n ddwfn mewn dyfroedd ysgrythurol – ein darllen o’r safon uchaf posibl (y Beibl), ein hidiomau, diarhebion a phriod-ddulliau’r iaith yn agos iawn at gystrawen yr Esgob.⁶⁰

Ond ar yr un pryd, sonia Jones am glywed sylwebaeth chwaraeon yn Saesneg ar fws yr ysgol gan rai o fawrion y cyfnod, gan ddweud bod y gwasanaeth darlledu ar y radio yn estron, a’r papur dyddiol a’r papur Sul yn yr ‘iaith fain’.⁶¹ Croesewir ganddo, felly, ddatblygiad sylwebaeth chwaraeon drwy’r Gymraeg. Yn sgil y darllediadau, chwedl Jones,

⁵⁷ Dai Davies, ‘Allan neu Beidio’ yn *Idem* (gol), *Crysau Cochion*, t. 79.

⁵⁸ W.E. Jones, ‘Deffro, De Affrig’ yn *Idem* (gol.), *Crysau Cochion*, t. 131, 133, 134, 135, 136, 138.

⁵⁹ Jon Meirion Jones, ‘Delwedd’, *Barddas*, 198 (Ionawr 1993), 3.

⁶⁰ *Ibid.*

⁶¹ *Ibid.*

Daeth termau fel 'cam-sefyll', 'ochrgamu', 'sgarmes rydd', 'troellwr', 'pelawd', 'y goron driphlyg', 'ras pili-pala', 'y bas wrthol', 'ystlyswr', 'ras tros y clwydi', 'y trê'n bach', 'y cae bach', a hyd yn oed 'y corryn estynedig', yn gyfarwydd eu cyfaredd.⁶²

Erbyn y 1990au, roedd cynnydd yn nifer y werin, 'yn enwedig yr ifanc',⁶³ a wyliai

chwaraeon yn y Gymraeg ar y teledu ac a wrandawai ar sylwebaeth ar y radio. Fel yr atega

Jones,

Os oes cynnydd mewn rhaglenni cyfoes Cymraeg a gwrandawyr, yn enwedig rhaglenni chwaraeon, gyda'r holl dermau newydd a'r lluniau *technicolour* o'r teledu yn lolfa bron bob cartref, mae'n ddilys i athronyddu fod chwaraeon wedi cyfrannu'n bwysig tuag at gryfhau'r iaith.⁶⁴

Dyma farn wahanol iawn i'r farn a fynegodd Saunders Lewis yn *Egwyddorion*

Cenedlaetholdeb, lle'r amlygodd ei bryder ynghylch bygythiad chwaraeon i'r Gymraeg.

Yma, yng ngeiriau Jones, cyflwynir y cysyniad fod chwaraeon yn medru cryfhau'r Gymraeg

ac y gall y cyfryngau, yn enwedig y cyfrwng darlledu, yrru'r broses honno yn ei blaen.

Archwiliaf y ddamcaniaeth honno yng nghyd-destun criced yn rhan olaf y bennod hon, ond

yn gyntaf, rhaid amlinellu pa eirfa a oedd ar gael i'r darlledwyr cynharaf ym myd criced drwy

gyfrwng y geiriaduron. Trwy hyn, af ati i fesur eu defnydd o dermau criced a fodolai eisoes

ac i ba raddau y bathwyd termau newydd.

⁶² Ibid.

⁶³ Ibid.

⁶⁴ Ibid.

Rhan 2: Termau criced mewn geiriaduron Cymraeg

Wrth ddadansoddi termau criced sydd wedi ymddangos yn y geiriaduron Cymraeg , (gweler tudalen 270), penderfynais gasglu cyfres o dermau sy'n ymddangos mewn amryw eiriaduron rhwng 1953 a 2011. Yn gyntaf, defnyddiais *Y Geiriadur Newydd* gan H. Meurig Evans a W.O. Thomas. Cyfeirir ato o hyn ymlaen fel GN. O ran ei natur a'i ddyddiad cyhoeddi, disgwylid y byddai'n brin ei dermau criced. Fe'i paratowyd yn bennaf o ddeunydd a gafwyd mewn cystadleuaeth ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst ym 1951. Paratoi geiriadur ar gyfer ysgolion oedd y dasg a osodwyd. Dywedodd y beirniad, Stephen J. Williams, y byddai'r ddau fuddugol, o gydweithio, yn gallu paratoi gwaith 'y byddai ei gyhoeddi'n gwneud cymwynas fawr iawn, nid yn unig â'r ysgolion, ond â llu o bobl nad yw dyddiau ysgol ond atgof iddynt'.⁶⁵ Yn ail, defnyddiais *Y Geiriadur Mawr*⁶⁶ gan yr un awduron. Cyfeirir at y geiriadur hwn o hyn ymlaen fel GM. Edrychais ar y bumed argraffiad ar hugain (2004) o eiriadur 1958, gydag ychwanegiad ym 1968. Pwrpas y geiriadur hwn oedd cynnwys mwy o dermau technegol nag a geid yn yr argraffiad gwreiddiol. Pwrpas atodiad 1968 oedd cynnwys mwy fyth o dermau technegol.

Yn nesaf, canolbwyntiais ar y *Termau Chwaraeon ac Adloniant*.⁶⁷ Defnyddiaf yr acronym TChA o hyn ymlaen. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu, cyfres o dermau chwaraeon pwrpasol a geir yn y casgliad hwn. Rhestr o dermau i'w defnyddio wrth ddysgu chwaraeon mewn ysgolion a geir yma. Nodir nad rhestr derfynol o dermau a geir, eithr rhestr y gellir ychwanegu ati maes o law pan fydd termau newydd yn dod i'r golwg. Fel y dywedir yn y rhagair,

⁶⁵ H. Meurig Evans a W.O. Thomas, *Y Geiriadur Newydd* (Llandybie, 1953), t. x.

⁶⁶ H. Meurig Evans, *Y Geiriadur Mawr* (Llandybie, 1958).

⁶⁷ Adran Addysg Prifysgol Caerdydd, *Termau Chwaraeon ac Adloniant* (Caerdydd, 1965).

Digon yw dywedyd nad yw'r sawl sy'n gyfrifol am y rhestr Gymraeg, yn awgrymu nad yw'n bosibl gwella arni ac na ddylid ceisio gwneud hynny. Wrth ei ddefnyddio yr ennill gair ei blwyf, ac os daw geiriau eraill i ddisodli rhai o'r geiriau a awgrymir yma, croesawer hwy fel arwydd o fywiogrwydd yn yr iaith.⁶⁸

Y geiriadur print olaf a ddefnyddiais oedd *Geiriadur yr Academi*.⁶⁹ Cyfeirir ato fel

GA o hyn ymlaen. Defnyddiais argraffiad 2003 ac o ystyried pa mor ddiweddar y

cyhoeddwyd y geiriadur hwn, gellid disgwyl llu o dermau criced ynddo. Fel y dywedodd

Llywydd yr Academi Gymreig, yr Athro J.E. Caerwyn Williams,

Nid oes raid i ddyn ymddiddori mewn geiriaduraeth er mwyn gwybod fod yr iaith Saesneg yn newid yn ddi-baid ac yn ychwanegu at ei geirfa yn gyson, gyda'r canlyniad fod ei hadnoddau mynegiant bron yn ddi-ben-draw. Pan fo ieithoedd mawr fel Almaeneg a Ffrangeg yn benthyca geiriau o'r Saesneg, nid yw'n rhyfedd fod iaith fach fel y Gymraeg yn gwneud hynny, ac oni all y Gymraeg fod yn gyfrwng cyfathrebu llawn cystal â'r Saesneg ym mhob cylch o fywyd, y mae perygl iddi fynd yn fratiaith...⁷⁰

Yn olaf, dewisais eiriadur ar-lein, sef *Lexicon of Sport and Recreational Terms in*

Welsh and English, a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae

(NPFA) / Menter Iaith Ewrop (TELI).⁷¹ Defnyddiaf yr acronym CGMCh o hyn ymlaen.

Penderfynais beidio â defnyddio *Cysgeir* am fod hwnnw'n rhestr o eirfa gyffredinol ar draws

nifer o feysydd y Gymraeg, tra mae CGMCh yn cynnig rhestr o eirfa chwaraeon benodol. Yn

ogystal, fe'i cysylltir yn agosach â themau a fathwyd ac a ddefnyddir ym myd y cyfryngau,

sy'n plethu â'm hymchwil i fyd y cyfryngau. Mae'r casgliad hwn wedi datblygu gwaith Eic

Davies a Dr. Gwent Jones ym maes bathu termau chwaraeon Cymraeg. Roedd mab Eic

Davies, y sylwebydd Huw Llewelyn Davies, ynghlwm wrth y gwaith o adolygu'r casgliad

⁶⁸ Ibid.

⁶⁹ Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (goln), *Geiriadur yr Academi* (Caerdydd, 1995).

⁷⁰ J.E. Caerwyn Williams yn Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (goln), *Geiriadur yr Academi*, t. vi.

⁷¹ Dogfen PDF (2008). Derbyniwyd copi personol gan Gymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae (Caerdydd, s.d.).

hwn. Yr anhawster o ran y casgliad yw ei ddyddio'n fanwl am fod y prosiect hwn yn un tymor hir ac nid oedd modd i'r Gymdeithas roi dyddiad pendant pan ofynnwyd iddynt am y wybodaeth hon. Nid oes fersiwn printiedig o'r gwaith hwn a ddatblygwyd yn y blynnyddoedd diweddar.

Un anhawster wrth geisio cywain holl dermau *Geiriadur Prifysgol Cymru* ynghyd yw'r ffaith ei fod yn wahanol i'r gweddill gan fod hwnnw'n eiriadur Cymraeg-Saesneg, tra mae'r gweddill o'r Saesneg i'r Gymraeg. Am y rheswm hwnnw, GPC yw'r geiriadur a ddefnyddiais fel sylfaen ar gyfer yr astudiaeth. Nid yw termau GPC yn ymddangos yn y siart sy'n atodiad i'r rhan hon. Mae GPC yn wahanol hefyd am mai hwn yw'r unig eiriadur o blith y casgliad sy'n cynnig diffiniadau trylwyr a phwrpasol o'r termau, ac mae'n dyddio enghreifftiau. Fel y dywed Gareth A. Bevan, am y casgliad o eirfa a geir yn y cyhoeddiad *Ailbeintio Pont y Borth? [:] Y Geiriadur a'r Gymraeg*, y mae'n ffrwyth 'hanner canrif o estyn ffiniau'r Gymraeg a bathu a benthyg ar raddfa eang'.⁷² Ond mae'n anochel dros gyfnod morfaith y bydd 'geiriau ac ymadroddion yn cael eu colli'.⁷³ Mae teitl llyfryn Gareth A. Bevan yn cyfeirio at bont Telford dros y Fenai, a'r cysyniad yw bod angen ailbeintio'r bont unwaith y mae'r sawl sy'n ei pheintio'n cyrraedd y diwedd. Cymreigeiddio ydyw hwn o 'painting the Forth bridge', ond yr un yw'r cysyniad. Gellir addasu'r cysyniad i fod yn addas ar gyfer bathu termau hefyd. Unwaith y caiff term ei dderbyn i ryw iaith benodol, y mae'n heneiddio ac mae angen ei ddiweddarau fel y bydd yn ddealladwy i'r sawl sy'n ei ddefnyddio o'r newydd. Yn wir, fel y dadleua Bevan, 'ailbeintio nid ailadeiladu'⁷⁴ yw'r nod. Ychwanega Bevan yng nghyd-destun ail argraffiad o GPC, 'Yr ydym yn ailbeintio ar hyn o bryd; yna bydd modd ailadeiladu.'⁷⁵

⁷² Gareth A. Bevan, *Ailbeintio Pont y Borth? [:] Y Geiriadur a'r Gymraeg* (Aberystwyth, 2008), t. 8.

⁷³ *Ibid*, t. 5.

⁷⁴ *Ibid*, t. 12.

⁷⁵ *Ibid*, t. 24.

Un o fanteision GPC o'i gymharu â'r geiriaduron eraill a drafodir yn y bennod hon yw ei fod wedi'i rannu'n bedair cyfrol mewn pedwar cyfnod olynol yn nhrefn y wyddor, ac felly mae'n hawdd olrhain ym mha gyfnod yr ymddangosodd rhyw derm penodol. Ar y llaw arall, gan fod yr eirfa wedi'i rhannu yn nhrefn yr wyddor, nid yw'n hysbys a ddefnyddid term sy'n ymddangos yn yr ail gyfrol, y drydedd gyfrol na'r bedwaredd gyfrol yng nghyfnod y gyfrol gyntaf hefyd. Yn ogystal, erbyn i'r gyfrol gyntaf gael ei hailargraffu, roedd bwlch o bron i ddeugain mlynedd rhwng y ddau argraffiad.

Wrth ddadansoddi GPC, nodir rhifau'r tudalennau, cenedl enwau a'u ffurfiau lluosog. Caiff y termau Cymraeg a nodir eu dyddio hefyd. Gweler y siart a atodir ar gyfer y geiriaduron eraill.

Yn y gyfrol gyntaf, rhestrir geiriau A-Ffysur rhwng 1950-67. Digon elfennol yw'r termau criced a geir yn y cyfnod hwn. Nid oes unrhyw derm technegol yn y gyfrol hon, ond ceir rhai o dermau symlaf a mwyaf cyfarwydd y byd criced, megis 'bat' (e.g., -iau) 'offeryn pren ag wyneb gwastad iddo a ddefnyddir i daro'r bêl wrth chwarae criced', e.g., t. 263), 'batiwr' (e.g., -wyr, 'un sy'n dal y bat i daro'r bêl wrth chwarae criced', e.g., t. 264), 'bowlio' ('taflu'r bêl mewn criced', t. 303), 'bowliwr' (e.g., -wyr, 'taflwr y bêl mewn criced', t. 303) ac wrth gwrs, y gair 'criced' (e.g. 'gêm adnabyddus a chwaraeir yn yr awyr agored rhwng dau dîm o un ar ddeg o chwaraewyr â phêl galed, batiau a wicedi', t. 596). Mae hyn yn gyfleus i ryw raddau wrth i eirfa griced gael ei chofnodi'n swyddogol yng nghyd-destun y Gymraeg yn y geiriadur hwn am y tro cyntaf.

Rhwng 2003 a 2010, dechreuwyd diweddarau'r gyfrol gyntaf. Newidir ychydig ar ystyr 'bat' yn y cyhoeddiad newydd. Y diffiniad a gafwyd ym 1950 oedd 'offeryn pren ag wyneb gwastad iddo a ddefnyddir i daro'r bêl wrth chwarae criced' (t. 263). Yn y cyhoeddiad newydd, y diffiniad bellach yw 'Erfyn (pren fel arfer) ac iddo handl a wyneb gwastad a ddefnyddir i daro pêl mewn gemau megis criced, tennis bwrdd,&c'. Ceir y term 'batiad' (e.g.,

-au) erbyn 2010 hefyd.

Ceir rhai termau hefyd a ddefnyddir erbyn hyn yng nghyd-destun criced yn ogystal â chyd-destunau eraill nad ydynt wedi eu nodi yn y geiriadur hwn fel termau criced penodol. Mae'r rhain yn cynnwys 'dyfarnwr' (e.g., -wyr). Yn ddiddorol, yng nghyd-destun barnwr cyfreithiol y nodir y term hwn, ac nid yng nghyd-destun 'umpire'. Serch hynny, mae'r term Saesneg 'umpire' yn ymddangos yn y GN a'r GM, a gyhoeddwyd yn y 1950au ill dau. Fe'i ceir yn rhai o'r geiriaduron diweddarach a ddefnyddiaf yma yn ogystal. Dengys hyn fod 'dyfarnwr', felly, eisoes yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun criced erbyn i GPC ymddangos.

Mae'r term 'ffin' (e.b., -iau) yn ymddangos yn y geiriadur hwn hefyd, ond nid yng nghyd-destun criced. Nid yw hyn yn rhyfedd, fodd bynnag, am nad yw'n ymddangos yng nghyd-destun criced yn rhai o'r geiriaduron hwyrach ychwaith. Mae'n ymddangos yn y TChA ac yn rhestr CGMCh fel term cyffredinol, ac mae GA (1995) yn ei nodi'n bendant fel term criced pwrpasol.

Yn yr un modd, mae'r term 'ergyd' (e.b., -ion/-iau) ar gyfer 'stroke' / 'shot' yn ymddangos yn GPC ond nid yng nghyd-destun criced. Serch hynny, cynigir amryw enghreifftiau i gyfleu'r ystyr ac i awgrymu ei addasrwydd fel term ar gyfer y byd criced. Fe'i ceir yn y GM a'r GN ar gyfer 'stroke' a 'shot', heb fod yng nghyd-destun criced. Fe'i derbynnir fel y term safonol yn y TChA, ond fe'i ceir yn derm mwy technegol hefyd wrth gyfeirio at 'ergyd ymosod' ac 'ergyd amddiffyn', sy'n dangos bod yr eirfa'n ehangu'n sylweddol yn y cyfnod hwn. Mae GA hefyd yn nodi 'ergyd amddiffyn' ac 'ergyd ymosod' erbyn hyn. Mae GA yn nodi bod 'ergyd' yn derm chwaraeon sy'n golygu 'shot' neu 'stroke'. Cyfeirir ato yng nghyd-destun golff, nofio, rhwyfo a thenis, ond nid yn benodol ar gyfer criced. Mae CGMCh yn ei osod yng nghyd-destun criced, fodd bynnag, ac yn defnyddio 'ergyd gam' ar gyfer 'hook', yn ogystal â 'bachiad' sy'n cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredin

heddiw. Mae GA yn gwneud hynny hefyd. Mae ‘ergyd gam’ yn awgrymu bod y batiwr yn taro ergyd anghywir neu anghyffredin wrth chwarae’r bachiad. Dylid nodi yma fod GA a CGMCh yn cynnig diffiniad cyfoes o’r term ‘ergyd’ ac yn ei osod yng nghyd-destun criced undydd, wrth gynnig ‘ergyd rydd’ fel cyd-destun ar gyfer ‘ergyd’.

Yn ddiddorol, yn yr adran hon, ceir diffiniad o’r ferf ‘colbio’. Fe’i rhoddir ochr yn ochr â’r berfau cyfystyr ‘curo’, ‘dymu’, ‘ffusto’ (‘to beat’ neu ‘to thrash’ yn Saesneg). Mae GA hefyd yn nodi’r term ‘colbio’ ar gyfer ‘to slog’, ond yng nghyd-destun taro’r bêl ym myd chwaraeon, nodir ‘cledro’ a ‘sodro’. Nodir ‘cledro’ gan CGMCh hefyd. Mae’r GM yn defnyddio’r term ‘bwrw’n galed’. Ond fel y gwelir yn narllediadau S4C, ‘colbio’ yw’r term mwyaf cyffredin gan y sylwebyddion, yn enwedig yn y term ‘colbad cryman’ ar gyfer ‘slog sweep’. Trafodir y term hwn ymhellach yn y dadansoddiad ar sylwebaeth.

Un term a gynhwysir yn yr adran hon ond heb fod yng nghyd-destun criced cyfoes yw ‘caten’ (e.g./b.). Serch hynny, cyfeirir ato yn nhermau’r gêm hynafol Gymreig ‘tip-cat’, sy’n addasiad ar y gêm trap-cat a gysylltir gan Andrew K. Hignell â gwreiddiau criced cyfoes yng Nghymru. O ran diffiniadau yn y geiriaduron eraill, gwelir nad yw’r GN yn cynnwys y gair, tra mae’r GM yn cynnig ‘beil’ (1958) a ‘caten’ (1968). Mae’r TChA a GA hefyd yn nodi’r gair ‘caten’. Mae GA hefyd yn cynnig ‘cat’. Mae CGMCh hefyd yn cynnig ‘cat’ a ‘caten’ ill dau.

Yn ail argraffiad GPC, A-Ffysur, fel y nodwyd, mae ambell amrywiad ar yr hyn a gafwyd yn yr argraffiad cyntaf o ran diffiniadau. Erbyn hyn, diffinnir ‘bat’ fel ‘erfyn (pren fel arfer) ac iddo handl a wyneb gwastad a ddefnyddir i daro pêl mewn gemau megis criced, tennis bwrdd, &c.’ Dengys hyn fod gwreiddiau’r term ym myd criced yn y Gymraeg, er iddo dreiddio i gampau eraill yn ddiweddarach. Ychwanegiad o bwys yn yr ail argraffiad yw’r term ‘batiad’ (e.g., ‘innings’), nas cafwyd yn yr argraffiad cyntaf. Ymddangosodd y term hwn yn y GM a’r TChA, yn ogystal â geiriaduron diweddarach, ond nid ymddangosodd yn y GN

ym 1953. Gellir nodi'n eithaf sicr, felly, y daeth y term yn gyffredin yn y Gymraeg rhwng 1953 a 1958. Mae ychwanegiadau yng nghyfrol gyntaf yr ail argraffiad yn awgrymu, felly, fod nifer o ychwanegiadau eraill i ddod yn y dyfodol.

Lluniwyd yr ail gyfrol, G-Llyys, rhwng 1968 a 1987. Ychydig iawn o dermau pwrpasol a geir yn y gyfrol hon, gyda'r rhan fwyaf o dermau'n cael eu tynnu o gyd-destunau ehangach a rhoi iddynt gyd-destun criced.

Er nad yw ystyr y term Cymraeg yn amlwg ar unwaith, mae'r diffiniad mai 'darn (hir neu gul) o dir' (t. 2090) yw 'llain' (-iau, e.b.) yn ddigon o dystiolaeth fod y term hwn yn addas i gael ei ddefnyddio i ddisgrifio 'rhan o gae criced sydd rhwng y wicedi' (t. 2090). Mae'r GN a'r GM, ill dau, yn cynnwys y gair 'llain' ar gyfer 'strip'. Nid yw'r TChA yn cynnwys 'llain', ond fe gynhwysir y term Saesneg 'pitch' fel esboniad ar gyfer 'wicket'. Mae GA yn nodi'r term 'llain' yng nghyd-destun criced ar gyfer 'pitch' ond wrth gyfeirio at 'strip', nis ceir yng nghyd-destun criced. Nid yw CGMCh yn cynnig yr un term ar gyfer 'strip' ond ceir 'llain' (e.b.) ar gyfer 'pitch'.

Y term mwyaf diddorol yn y casgliad hwn yw'r gair gwreiddiol am 'wicket', sef 'gwiced' (e.b., -au). 'Wiced' yw'r term erbyn heddiw. Dywed GPC fod 'gwiced' yn air benthyg o'r Ffrangeg, sy'n golygu 'tri o stympiau wedi eu gosod yn y ddaear (gyda phâr o gatiâu'n gorffwys ar eu pennau) a warchodir gan y batiwr wrth chwarae criced' (t. 1656). Mae hyn yn ategu dadl Derek Birley ynghylch gwreiddiau Ffrengig criced.⁷⁶ Cynigia GPC esboniad pellach mai 'gwiced' yw'r 'llain tir y chwaraeir criced arni'. 'Llain' yw'r term cyffredinol a dderbynnir ar gyfer 'the strip' neu 'the wicket'. Cyfeirir yn gyffredin yn Saesneg at y 22 llathen rhwng y ffyn fel 'wicket', yn ogystal â'r ffyn hwythau. Mae'r holl eiriaduron yn cynnig 'wiced' ar gyfer 'wicket', ond mae GPC, y GN a'r GM hefyd yn cynnig 'gwiced'. Mae GA yn nodi'r enw 'gwiced' yng nghyd-destun drws bach, ond 'wiced' yn unig

⁷⁶ Derek Birley, *A Social History of English Cricket*, t. 3.

yng nghyd-destun criced. Nid yw'r TChA na CGMCh yn cynnig 'gwiced' o gwbl. Gallai hyn awgrymu bod y term 'gwiced' yn diflannu'n raddol yn nhermau criced ac yn cael ei ddisodli gan 'wiced'. Mae'r ffaith y gellir amnewid 'wiced' a 'llain' wrth gyfeirio at 'wicket', 'pitch' a 'strip' yn peri trafferthion amlwg wrth geisio cysoni'r termau Cymraeg.

Nodir bod 'gwli' neu 'gyli' (e.b., -s) yn 'llwybr cul neu fynedfa' (t. 1684). O'r diffiniad hwn ar gyfer y cyfieithiad o 'gully', gellir tybio bod y maeswr yn y safle hwn yn ceisio cau bwlch yn y maes, a dyna a wna'r 'gwli' neu'r 'gyli' rhwng y slip a'r pwynt. Nid yw'r naill sillafiad na'r llall yn ymddangos yn y GN, a 'gyli' a geir yn y GM yng nghyd-destun criced. Mae'r TChA yn nodi'r term Saesneg 'gully', ac mae GA yn ategu'r GM. Mae CGMCh yn defnyddio'r term 'gwli'.

Mae'r term 'gwyliwr nos' (e.g., -wyr) yn ymddangos, ond nid yng nghyd-destun criced. Defnyddir 'nightwatchman' yn Saesneg erbyn hyn i ddisgrifio chwaraewr sy'n mynd at y llain i fatio'n hwyr yn y prynhawn hyd at y bore canlynol er mwyn atal y batwyr cydnabyddedig rhag colli'u wicedi ar adeg dyngedfennol yn y dydd. 'Gwarchodwr' yw diffiniad GPC. Felly, gellir yn hawdd weld tarddiad y term criced yn y cyd-destun hwnnw. Mae'r term 'gwyliwr' yn ymddangos yn y GN, ond nid yw'n derm penodol ar gyfer 'nightwatchman', eithr 'watchman' yn unig. Yn yr un modd, mae'r GM yn nodi'r un term. Mae'r geiriadur hwn yn nodi'r term 'gwyliadwriaeth nos'. Nid oes term sy'n cyfuno'r ddau mewn modd digon boddhaol er mwyn cynnig term Cymraeg ar gyfer 'nightwatchman', fodd bynnag. Nid yw'r TChA yn cynnig yr un term am 'nightwatchman'. Mae GA yn cynnig 'gwyliwr nos' ar gyfer 'nightwatchman' ond nid yng nghyd-destun criced. Mae CGMCh yn nodi 'gwyliwr nos' yng nghyd-destun criced.

Mae'r term 'iorcen' neu 'iorcs' (e.b., t. 2025) yn ddi-ddorol. Dyma'r term agosaf a geir i'r term 'yorker'. Er nad oes iddo gyswllt criced amlwg, mae GPC yn diffinio 'iorcs' fel 'strapiau lledr neu linyr a glymir o dan ddau benglin trowser gwaith (glöwr, chwarelwr) i'w

gadw'n dynn'. Ai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod yr 'iorcer' yn taro'r batiwr ar y goes yn yr union fan a ddiogelir gan y strapiau hyn? A oes gwreiddiau diwydiannol i'r term hwn felly, a roddodd gyd-destun i'r term Saesneg 'yorker' a'r term Cymraeg 'iorcs'? Mae'r term 'iorcer' (e.b.) yn ymddangos yn y TChA a GA. 'Pêl dan fat' yw diffiniad ychwanegol GA ar gyfer y term hwn. Mae GA yn nodi mai 'taflu iorcer' neu 'taflu pêl dan fat' yw'r ferf 'to york'. Mae CGMCh yn nodi'r ferf 'iorcio', fodd bynnag. Nid yw'n ymddangos yn y GN na'r GM.

Mae rhai termau amlwg ar goll o'r gyfrol hon, gan gynnwys 'googly'. Caiff y belen hon ei bowllo gan ddefnyddio siâp garddwrn y troellwr agored ond mae'r bêl yn teithio i gyfeiriad pelen a gaiff ei bowllo gan y troellwr coes. Nod y belen hon yw twyllo'r batiwr. Mae'r term 'gwgli' yn ymddangos yn y TChA, GA a CGMCh, ond nid yw'n ymddangos yn y GN na'r GM. Nid yw'n syndod, felly, nad yw GPC yn nodi'r term hwn ychwaith.

Diddorol yw nodi diffiniad y term 'pelawd' (e.b.) yn nhrydedd cyfrol GPC (M-Rhywyr 1988-98). Dywedir mai 'cyfres o belau mewn gêm o griced a fowlir gan un bowliwr o un pen i'r llain fatio at fatiwr sy'n ei wynebu yn y pen arall' (t. 2721) yw pelawd. Sylwer ar y defnydd o'r enw lluosog 'pelau'. Erbyn hyn, disodlwyd 'pelau' mewn sylwebaethau gan 'pelenni'. Nid yw'r GN na'r GM yn cynnwys y term yng nghyd-destun criced. Mae'r TChA yn cynnig y term Saesneg 'over'. Mae GA a CGMCh yn nodi 'pelawd'. Mae'r ddau hyn yn cynnig 'pelawd wag' ar gyfer 'maiden over', sef pelawd na cheir yr un rhediad oddi arni. Gellir casglu, felly, fod y term wedi ymddangos rywbryd rhwng 1965 a 1995.

'Atal, dal neu ddychwelyd pêl (wrth chwarae criced)' a 'chwarae fel un o'r tîm nad yw'n batio' yw dau ddiffiniad GPC ar gyfer y term 'maesu' (t. 2313). Nid yw'r term yn ymddangos yn y GN na'r GM, ond mae'r GM yn cynnig 'daliwr' ar gyfer 'fielder' yng nghyd-destun criced. Mae'r TChA yn cynnig 'ffildio' yn ferf a 'ffildiwr' yn enw. Mae GA yn cynnig 'maesu' a 'ffildio' yn ferfau, 'maeswr' a 'ffildiwr' (e.g.) yn enwau. 'Maesu' a 'maeswr' (e.g.) a geir gan CGMCh. Cynigia GPC 'maeswr' fel 'un sy'n maesu' (e.g., t.

2314). Yn hynny o beth, ymddengys fod termau'n cael eu datblygu a'u safoni o 1958 ymlaen a bod 'maesu' a 'maeswr' yn dechrau dod yn dermau safonol erbyn canol y 1990au.

'Pwynt a sgorir (mewn criced &c.)' yw diffiniad GPC ar gyfer 'rhediad' (e.g., -au).

Rhediad yw'r term a dderbynnir gan bob un o'r geiriaduron. Nid yw'r GN na'r GM yn ei gynnwys yng nghyd-destun criced. Y mae 'rhediad' yn ymddangos yn y TChA yng nghyd-destun criced. Rhydd GA enghraifft o'r defnydd o'r term 'rhediad' yng nghyd-destun criced. Ceir 'rhediad' yng nghyd-destun criced gan CGMCh hefyd. Mae'r ddau olaf hyn yn cyfeirio at '[r]ediad(au) ychwanegol' ar gyfer 'extra(s)'. Mae'r TChA yn cynnig 'chwanegion' ar gyfer 'extras', ond rhydd 'rhediad byr' ar gyfer 'short run' hefyd. Ymddengys, felly, fod y term 'rhediad' yn un a dderbyniwyd yn eang.

Mae GPC yn cynnwys term y gellir ei gysylltu â chriced yn sgil y diffiniad, sef 'pêl' (e.b., -i/-au, t. 2721). Nodir mai 'sffêr neu gronnell, yn enw. un o rwber, lledr, pren &c. ar gyfer chwaraeon' yw pêl. Mae'r cyfeiriad at ledr yn awgrymu'r cyswllt â chriced. Ceir 'pelen' hefyd, ond yng nghyd-destun pwl. Ceir 'pêl' a 'pelen' yn y GN, y GM, y TChA a GA. 'Pêl' yn unig a geir gan CGMCh.

Unwaith eto, mae rhai termau ar goll yn y casgliad hwn o eiriaduron ac un o'r rhai amlycaf yw enw ar gyfer 'run-out', a hynny am y rheswm nad oes term safonol derbyniol amdano hyd heddiw. Y ferf 'rhedeg allan/mas' yn unig a geir os y'i ceir o gwbl. Nid yw'r ferf yn ymddangos yn y GN na'r GM. Mae'r TChA yn cynnig y ferf 'rhedeg allan', tra mae GA yn cynnig y ferf 'rhedeg batiwr allan/mas'. Mae GPC yn cynnig 'rhedeg allan'.

Term amlwg a adawyd allan o'r casgliad hwn o dermau GPC yw term ar gyfer 'wide'.

Er nad yw'n ymddangos yn y GN na'r GM ac yn Saesneg yn unig yn y TChA, fe'i ceir gan CGMCh a GA fel 'pêl bell'. Mae'r ffaith y'i cafwyd erbyn 1995 gan GA yn awgrymu ei fod yn derm a ddefnyddid yn gyffredin. Gellid disgwyl, o bosib, y byddai GPC wedi'i gynnwys, yn enwedig am fod y gyfrol hon yn fwy cynhwysfawr na'r cyfrolau blaenorol.

Yn y gyfrol S-Zwingliaidd (1999-2002), ceir nifer o dermau y cynigir termau ychwanegol ar eu cyfer, ynghyd â diffiniadau cryno ohonynt. I ddechrau, ceir 'stwmp' (e.g., -s/-iau, t. 3349). Y geiriau eraill a gynigir yw 'stwmpyn', 'stymp', 'ystwmp', 'stwmpen', ac 'ystwmpen', gan nodi mai 'un o dair ffon unionsyth wiced' ydyw 'stwmp'. Nid oes cyd-destun criced yn y GN ar gyfer 'stwmp'. Cynigir bonyn a boncyff yn unig. Mae'r GM yn cynnig 'wiced' a 'gwiced', ynghyd â'r ferf 'taro'r wiced' ar gyfer 'to stump'. 'Stump', 'stumpio' a 'stumpiwr' yw'r termau sy'n ymddangos yn y TChA. Mae GA yn cynnig 'stwmp' a 'stympio', ond ceir mwy o gyd-destun trwy gynnig 'stwmp y goes' ar gyfer 'leg stump' a 'stwmp chwith' ar gyfer 'off stump'. 'Stwmp' a 'stympio' a geir gan CGMCh.

Yr ail derm yw 'ysgubwr' (e.g., -wyr, t. 3848), nas cynhwysir yng nghyd-destun criced. Safle ar y cae pêl-droed yw hwn yn draddodiadol, ac felly fe'i ceir yng nghyd-destun chwaraeon, os nad criced. Fe'i diffinnir fel 'chwaraewr amddiffynnol sydd fel arfer yn chwarae y tu ôl i'r amddiffynwyr eraill'. Wrth osod y safle hwn yng nghyd-destun criced, gan y cyfeirir ym myd criced yn Saesneg at 'boundary sweeper', gellir deall mai maeswr ychwanegol y tu ôl i faeswyr eraill sy'n amddiffyn y ffin yw'r 'ysgubwr'. Ceir 'ysgubydd' yn ogystal yn y GM, ond nid yng nghyd-destun criced y'i ceir. Nid yw'n ymddangos yn y TChA mewn unrhyw gyd-destun. 'Ysgubwr' yw term GA, ond heb ei fod yng nghyd-destun criced. Mae CGMCh yn cynnig 'ysgubwr' hefyd, ond nid yw'n nodi ym mha gyd-destun y'i ceir. Mae'r term hwn yn un diddorol, felly, lle y'i defnyddir yn helaeth ym myd criced heb gydnabyddiaeth y geiriaduron, tra eu bod yn ei gynnwys gan amlaf yng nghyd-destun pêl-droed.

Yn drydydd, ceir 'sbin' (t. 3192), sef 'symudiad troellog a roir ar bêl wrth ei thafllu neu ei tharo gan beri iddi newid cyfeiriad neu gyflymdra wrth adlamu'. Nid yw'r enw 'sbin' yn ymddangos yn y GM na'r GN. 'Sbin' a geir yn y TChA a GA yng nghyd-destun criced. Mae CGMCh yn cynnig 'sbin' a 'troelliad'.

Ceir 'troellwr' (e.g., -wyr, t. 3613), a nodir mai 'bowliwr sy'n sbinio'r bêl' ydyw

hwnnw. Mae'r GN a'r GM yn nodi 'nyddwr' yng nghyd-destun diwydiant, ond ni roddir cyd-destun criced. Nid yw'n ymddangos yn y TChA. 'Troellfowliwr' yw cynnig GA. Mae CGMCh yn cynnig y term cyfoes cydnabyddedig 'troellwr'.

'Slip' (e.g., -s), yn ôl GPC, yw'r 'maeswr (mewn criced) sy'n sefyll ychydig y tu ôl i'r batiwr ar yr ochr agored' (t. 3305). Nid yw'n ymddangos yng nghyd-destun criced yn y GN na'r GM. Mae'r TChA yn cynnig 'slip' yng nghyd-destun criced, gan ychwanegu 'ail slip' ar gyfer 'second slip'. Mae GA hefyd yn cynnig 'slip' yng nghyd-destun criced, 'ail slip' ar gyfer 'second slip' a 'daliwyd yn y slipiau' er mwyn ategu bod mwy nag un slip ar y cae. Fe'i ceir yn derm mewn nifer o gyd-destunau eraill yn ogystal. 'Slip' yw'r term sy'n ymddangos yn nhermau CGMCh, gan ychwanegu 'daliad yn y slipiau' er mwyn rhoi cyd-destun i'r term.

Yn y gyfrol hon hefyd ceir 'wiced, gweler gwiced' (t. 1656), gan nodi'r cyswllt Ffrengig hefyd. 'Gwiced' a 'wiced' a geir yn y GN a'r GM, ond 'wiced' yn unig a geir yn y TChA, GA a CGMCh. Gwelir tranc y term 'gwiced' yma, felly, a derbyn 'wiced' yn derm safonol rhwng 1958 a 1965.

Yn olaf, ceir 'wicedwr' (e.g., -wyr, t. 3733), sef 'y maeswr sy'n sefyll yn uniongyrchol y tu ôl i'r wiced (mewn criced)'. Nid oes yr un term yn y GN ar gyfer 'wicket-keeper', tra mae'r GM yn cynnig 'ceidwad wiced' (1958) a 'wicedwr' (1968). Mae'r TChA, GA a CGMCh yn cynnig 'wicedwr'. Yn arwyddocaol, felly, gellir nodi i'r term 'wicedwr' ymddangos rywbryd rhwng 1958 a 1968 yn y Gymraeg.

Rhan 3: Criced a'r byd darlledu yng Nghymru

There can be no future for a language-group that is content to bring up its children in front of television which is more than ninety per cent in another language. Television brings straight into the home the anglicizing forces of the official word and brainwashes children out of their native tradition under the eyes of their parents.⁷⁷

Dyma farn Ned Thomas yn *The Welsh Extremist* (1971), ddegawd a blwyddyn cyn sefydlu S4C, a ddadleuai ar y pryd fod sefydlu sianel Gymraeg yn angenrheidiol er mwyn i garfan ieithyddol gyfathrebu â hi ei hun.

The case for a Welsh language channel is in the end the case for letting a group of people who have something fundamental in common, speak to each other, instead of being spoken at from outside.⁷⁸

Datgelodd Cyfrifiad 2001 gynnydd sylweddol yn nifer y Cymry Cymraeg rhwng 3-14 oed. Nododd Cyfrifiad 1971, adeg cyhoeddi'r gyfrol hon, fod yna oddeutu 9,700 o Gymry Cymraeg yn yr ystod oedran 3-4, a 67,800 yn yr ystod oedran 5-14. Erbyn 2001, roedd 13,239 o blant 3-4 oed yn medru'r Gymraeg a 154,927 o blant 5-14 yn ei medru. Dywed yr adroddiad, 'S4C Review: A Welsh Language Television Service Fit for the 21st Century',

Television has the potential to play an even more important role than it has to date in reinforcing the position of the language in young people's lives.⁷⁹

Mae sawl ffactor yn gyfrifol am y cynnydd hwn, a chydabu'r adroddiad mai twf mewn addysg Gymraeg yw'r ffactor bwysicaf. Tynnir sylw hefyd at bwysigrwydd cyflwyno addysg Gymraeg orfodol mewn ysgolion ar draws Cymru hyd at 16 oed. Yn ogystal, mae'n cydnabod cyfraniad Deddf Iaith 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Fodd bynnag, nid

⁷⁷ Ned Thomas, *The Welsh Extremist* (Talybont, 1971), t. 96.

⁷⁸ *Ibid*, t. 105.

⁷⁹ *S4C Review: A Welsh Language Television Service Fit for the 21st Century*, www.s4c.co.uk/abouts4c/authority/pdf/e_admewnol_2004.pdf [Fel yr oedd ar Orffennaf 31, 2009].

yw'n tansellio nac yn diystyru rôl y teledu yn natblygiad a chynnydd y Gymraeg. Yn ôl yr adroddiad,

There will need to be a new deal for children's programmes in line with the growing expectations of children and their parents. Welsh language broadcasting will otherwise be seen as a poor relation... S4C can... play an important role in reinforcing the position of the language in the lives of the new generation of Welsh speakers.⁸⁰

Dadleuwyd adeg comisiynu rhaglenni chwaraeon Cymraeg newydd ar S4C ddechrau'r unfed ganrif ar hugain fod angen rhaglenni gwreiddiol nad ydynt yn fersiynau Cymraeg o raglenni Saesneg. Dadleuwyd bod pobl ifanc am wyllo rhaglenni Cymraeg gwreiddiol. Ymhellach, dymunant weld rhaglenni y gallant fod yn rhan ohonynt ac ymddangos arnynt.

Roedd y BBC yn cydnabod yr angen hwn hefyd, fel y gwelir yng nghofnodion Cyngor Darlledu Cymru y BBC. Fel y dywed yr adroddiad,

Responding to comments from Council members Head of Programmes (Welsh) indicated that one of the considerations in devising the BBC's offering to S4C was making the programmes accessible to a broader range of people with different competencies in the Welsh language. This involved diverse styles of programming ranging from, for example, Jonathan to Newyddion. He indicated that it also involved providing programming such as sport which was accessible to people with different levels of understanding of Welsh and that was attractive to mixed language households. Council welcomed this approach enthusiastically.⁸¹

Wrth i wasanaeth cyfryngol ddatblygu, rhaid iddo roi ystyriaeth i dwf yn y boblogaeth, a'r newidiadau cymunedol sy'n digwydd yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad 2001, bu cynnydd graddol yn nifer y Cymry Cymraeg hyd at droad y mileniwm. Fel y nodwyd, gellir dadlau mai ffactorau addysg sy'n bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn, ond dadleua'r

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ BBC Broadcasting Council for Wales / Cyngor Darlledu Cymru y BBC, *Minutes of the meeting held at Broadcasting House, Cardiff (Friday 10 November 2006)*.

cofnodion fod dylanwad y cyfryngau wedi chwarae rhan flaenllaw hefyd, a hynny yn sgil sawl darn o ddeddfwriaeth ar hawliau a statws ieithyddol.

Mae'r papur 'Viewers, Citizens and Consumers – Minorities in the Media

Marketplace' gan George Jones yn trafod sut mae darlledwyr mewn cymunedau ieithyddol

lleiafrifol yn anelu eu cynnyrch at gynulleidfa mor gyfyng. Fel y dadleua wrth agor y papur,

The minority language audience, or potential audience, may find that it constitutes numerically too small a group to be attractive to commercial broadcasters. On the other hand, with the increase in media competition, broadcasters may attempt to appeal to national, regional or linguistic identities in order to promote audience identification with their channel.⁸²

Cyfeirir yn benodol at sefyllfa'r iaith Lydaweg, y mae ei gwasanaeth teledu dipyn yn

iau nag eiddo S4C. Y brif wahaniaeth rhwng TV Breizh yn Llydaw a S4C yw'r ffaith mai 20

awr yn unig allan o 112 a ddarlledir yn yr iaith frodorol, tra mae cyfradd S4C o raglenni

Cymraeg dipyn uwch.

Dadleua Jones fod gan bob darlledwr mewn iaith leiafrifol bedair blaenoriaeth, sef

rhaglenni i blant, ffilmiau, rhaglenni dogfen hanesyddol a chwaraeon. Ategir hyn ganddo

mewn dogfen arall:

It is a common feature of minority language television schedules that the 'home' production includes a good deal of such popular *genres* as sports and children's programmes. These are generally likely to pull in a good audience, are frequently comparatively cheap and, in the case of children's programmes, can be broadcast again and again.⁸³

Gwêl Jones fod pwrpas deublyg i'r cyfryngau yn y broses o adfywio iaith leiafrifol.

Fel y dadleua ef 'There is a 'common-sense' idea that in any language revitalisation strategy

⁸² George Jones, *Viewers, Citizens and Consumers – Minorities in the Media Marketplace* (papur cynhadledd, Berlin, Rhagfyr 2002). Gw. gwefan www.aber.ac.uk/mercator/images/Berlin.pdf].

⁸³ Idem, *Minority-Language Audiovisual Media in Europe, First Congress on Basque Journalism* (papur cynhadledd, Bilbao, Tachwedd 2004). Gw. gwefan www.aber.ac.uk/mercator/images/Bilbao.pdf].

the media are a key component, with some hoping that media use of the language will influence people's language practices and promulgate language use in other domains'.⁸⁴

Teimla eraill, yn nhyb Jones, fod derbyn gwasanaeth o'r fath yn cyfateb i hawl ddynol sylfaenol i gael gwybodaeth yn yr iaith frodorol. Os rhoddir gwasanaeth o'r fath i'r brodorion, gellir disgwyl y caiff ddylanwad ar eu sgiliau a'u hymwybyddiaeth ieithyddol, wrth iddynt, ar adegau, gael eu cyflwyno i iaith hollol newydd ar gyfer pau newydd sbon. Y mae'n anodd mesur hyn, yn ôl Jones, ond gellir dweud yn eithaf sicr y caiff effaith sylweddol ar ddatblygiad sgiliau ieithyddol gwylwyr a gwrandawyr. Fel yr honna Jones,

In addition, while it may not, academically speaking, have been proven, experience in Wales, at least, would seem to suggest that the dissemination of use of new terms has been facilitated to some degree by the media. In fact, in cases where there is a lack of other bodies to do so, it has often had to be those working in the media who coin neologisms in the first place, with comprehensibility and effective communication being priorities.⁸⁵

Ceir enghraifft dda o'r cyfryw ddatblygiad ieithyddol yn narpariaeth criced S4C, lle ceir lluo o dermau a fathwyd cyn ac yn ystod y darllediadau. Proses ryngweithiol oedd hon, gyda chynigion yn dod i law gan wylwyr am dermau newydd yn y Gymraeg, a hynny drwy wasanaeth testun a thrydar (Twitter). Yn hynny o beth, ceisiai S4C anelu at y gynulleidfa ffyddlon a newydd-ddyfodiaid. Fel y dadleua Jones, 'Minority language media in general permit speakers or learners who may live in areas where the geographical base of the language has been eroded to maximise their connection with and participation in the linguistic community – particularly where programming contains an interactive element'.⁸⁶

⁸⁴ Ibid.

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Ibid.

Tra mae S4C wedi cymryd camau breision tuag at ymsefydlu fel gwasanaeth

Cymraeg cyflawn a blaenllaw, mae'r sefyllfa'n debygol o newid bellach yn yr oes ddigidol, gan fod mwy o ddewis o sianeli ar gael e.e. digidol, lloeren a gwifren. Fel y dadleua Jones,

The advent of satellite, cable and terrestrial digital television has meant that S4C – even taking into account the more recently established digital S4C channel which broadcasts alongside it, but which cannot be considered a complete second service, since it is legally bound to broadcast simultaneously all the programmes of the analogue channel – constitutes a far smaller proportion of the total available television provision.⁸⁷

Dadleua Jones fod angen gwybod sut mae marchnata'r ddarpariaeth pan fo cymaint o gystadleuwyr gan ddarllledwr mewn iaith leiafrifol. Meddai, 'The Welsh case illustrates some of the ways in which an awareness of 'marketing' considerations in the face of increased competition for audiences can influence minority broadcasting policy'.⁸⁸

Mewn ymgais i gynhyrchu rhaglenni chwaraeon o safon uchel, mae S4C wedi comisiynu a darlledu dwy raglen o bwys i blant yn eu harddegau yn y blynyddoedd diwethaf, sef *Rygbi 100%* a gyflwynwyd gan Dwayne Peel a Sarra Elgan, ac yn ddiweddarach, *Pen Campau* a gyflwynwyd gan Nic Parry.

Mae'r rhaglen *Pen Campau* yn arwydd o'r angen i safoni termau chwaraeon drwyddi draw. O ran criced, cyfeiria Nic Parry at safle maesu'r 'trydydd dyn', sef y 'third man'. Cofier i'r rhaglen hon ragflaenu sylwebaeth fyw S4C (a ddarllledwyd yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd darpariaeth S4C o sylwebaeth Gymraeg ar gemau criced), ac felly gwelir bod y term hwn wedi'i hen sefydlu yng ngeirfa'r cyflwynydd.⁸⁹ Yn yr ornest rhwng Ysgol Llanfyllin ac Ysgol Botwnnog, ymddengys fod diffyg ymwybyddiaeth gan y cystadleuwyr o dermau criced yn Gymraeg, wrth iddynt gyfeirio at 'bowlïo spin' a gywirir gan Nic Parry, yn

⁸⁷ *Idem, Viewers, Citizens and Consumers – Minorities in the Media Marketplace.*

⁸⁸ *Ibid.*

⁸⁹ *Pen Campau, Ysgol Gyfun Llangefni v Ysgol Gyfun Brynhyfryd, S4C Digidol, 6.30pm, Ionawr 17, 2008.*

ogystal â'r term 'bails' a gywirir gan Nic Parry gan ddefnyddio'r term 'catynnau' (sylwer ar yr amrywiaeth ar y term lluosog yma; 'catiau' oedd gan Eic Davies).⁹⁰

Archwiliwyd cyfraniad Eic Davies i sylwebaeth gynnar ar chwaraeon yn y Gymraeg ym mhennod 1, yn bennaf drwy astudiaeth MPhil Nia Cole. Rhydd hithau rywfaint o sylw i griced, a gesyd y gamp yng nghyd-destun darlledu chwaraeon. Rygbi yw prif ffocws yr astudiaeth hon, ond rhydd ychydig o sylw i gampau tîm eraill. Prin iawn oedd y darllediadau criced byw pan luniwyd yr astudiaeth hon, er y ceid uchafbwyntiau'n eithaf aml. Yn hynny o beth, mae ei sylwadau am griced yn fwy cyffredinol.

Nid ymddengys fod criced yn un o'r prif gampau y rhoddid sylw iddi yn y dyddiau cynnar ac mae'n bosib iawn mai am y rheswm hwn na chafwyd termau criced cyson hyd yn gymharol ddiweddar. Dadleua Nia Cole mai'r rhaglen *Maes Chwarae* oedd yr ysbrydoliaeth i fathu termau criced o'r newydd gan fod y rhaglen gylchgrawn hon yn rhoi peth sylw i'r gamp. Ychwanega fod y termau 'caten' (lluosog: 'catiau') yn ffrwyth dychymyg Eic Davies.⁹¹

Yn ei hadran ar dermau chwaraeon, ceir rhestrau o dermau pêl-droed, rasys harnais, hoci, rygbi a chriced. Ychydig iawn o dermau criced a geir o'u cymharu â'r campau eraill, fodd bynnag. Yr hyn a geir yn y bennod hon yw disgrifiad helaeth o'r berthynas rhwng sylwebyddion o fewn sylwebaeth rygbi, rasys harnais a phêl-droed. Cyfeirir at griced yng nghyd-destun erthyglau papurau newydd yn unig oherwydd prinder darllediadau criced cynnar yn Gymraeg. Sonnir yn benodol am erthygl gan John Evans, 'Hanner Canrif o Fowlio a Batio'.⁹² Ar y cyfan, mae'r termau a ddefnyddia'r gohebydd yn rhai safonol a chywir, o edrych ar yr astudiaeth, er y ceir 'ofer' am y term diweddarach 'pelawd'. Cyfeiria hefyd at erthygl arall yn yr un papur gan y gohebydd Crugos sy'n frith o dermau, ond un ohonynt yn

⁹⁰ *Pen Campau*, Ysgol Llanfyllin v Ysgol Botwnnog, S4C Digidol, 6.30pm, Chwefror 3, 2008.

⁹¹ Nia Eleri Cole, *Hanes Datblygu'r Gymraeg fel Iaith Chwaraeon* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2006), t. 52.

⁹² *Y Cymro* (Mehefin 9, 1971), t. 12.

unig sydd yn Gymraeg, sef 'hirgoes' am y safle maesu 'long leg'. Cyfeirir hefyd at y 'slips', 'toss', 'pads' a 'strokes'.⁹³ Dyma dystiolaeth, efallai, o'r ffaith fod ychydig iawn o dermau safonol a derbyniol yn cael eu defnyddio hyd at y 1970au. Er mwyn ymestyn yr astudiaeth ar y pwnc hwn, y mae'n fwriad gennyf gynnig dadansoddiad estynedig o ddarllediadau criced yn y cyfnod ar ôl sefydlu S4C.

Y Cefndir

Ym 1938 y darlledwyd gornest griced am y tro cyntaf gan y BBC, a datblygwyd technegau sain a delweddau ar ôl yr Ail Ryfel Byd dan ofal Anthony Craxton. Dadleua Boyle a Haynes mai Craxton oedd yn gyfrifol am ddatblygu ieithwedd weledol criced yn y cyfnod cynnar hwn.⁹⁴

Nod Craxton wrth drosglwyddo'r gam hynafol hon i'r sgrîn oedd creu nodweddion a symbolau y gallai'r gwylwr uniaethu â hwy. Ychwanegwyd mwy fyth o onglau camera mewn manau cyfleus a chynhwysfawr ar y cae er mwyn rhoi ymdeimlad i'r gwylwr o fod wrth ymyl y cae yng nghanol y cyffro. Craxton yntau oedd yn gyfrifol am ychwanegu camera y tu ôl i'r ddwy wiced yn hytrach na'r un a gafwyd yn y gorffennol. Cymaint yw dylanwad darlledwyr erbyn hyn nes bod clybiau yn ymgynghori â hwy wrth ailddatblygu caeau er mwyn canfod lle priodol iddynt wrth ymyl y cae. Ond parhaodd yr ornest yn bwysicach na'r darllediad yntau. Fel y dadleua Boyle a Haynes,

This was an early sign of the power of television in sport: partnering, cajoling and sometimes manipulating the organization of sport itself. Although BBC producers were conscious they were transforming the viewers' perception of cricket – where an 'enthusiastic producer can undoubtedly make a rather dull match into enthralling viewing' – they were also conscious that the success of televised cricket depended

⁹³ Crugos yn *Y Cymro* (Mehefin 2, 1971), t. 2.

⁹⁴ Raymond Boyle a Richard Haynes (goln), *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture*, t. 73.

on 'the players themselves no matter what tricks the producer may try in order to enliven the game'.⁹⁵

Erbyn hyn, gyda dyfodiad y gystadleuaeth T20, nid yw hyn o reidrwydd yn wir. Y delweddau sydd bwysicaf er mwyn ennyn diddordeb y gwylwr, beth bynnag fo safon yr ornest. Gall hyd yn oed yr ornest fwyaf diflas ymddangos fel pe bai'n llawn digwyddiadau a chyffro, a hynny ar garlam yn y fersiwn fer hon o'r gêm draddodiadol.

Darllediadau cynnar S4C

Wrth roi sylw i drawstoriad o ddarllediadau criced S4C rhwng 1986 a 2002, y mae'n fwriad gennyf geisio dadansoddi i ba raddau y bodolai iaith criced yn y Gymraeg eisoes cyn y cyfnod hwn, a pha ddefnydd a wnaed o'r termau yn y cyfnod hwn. Yn ogystal, gofynnaf i ba raddau y datblygodd yr eirfa erbyn y darllediadau diweddaraf o ornestau ugain pelawd yn y gystadleuaeth T20 yn 2010 a 2011. I'r perwyl hwn, canolbwyntiaf ar ornestau o'r blynyddoedd 1986, 1989, 1992 a 2002. Y mae'r tair blynedd gyntaf yn y cyfnod cyn i dermau CGMCh, GA a rhannau GPC gael eu cyhoeddi. Y mae'r flwyddyn olaf yn y cyfnod ar ôl cyhoeddi GA a phan oedd CGMCh wrthi'n llunio'r rhestr honno. Ni ddefnyddiwyd GPC ar gyfer y dadansoddiad hwn oherwydd y bwloch mawr rhwng argraffu'r gwahanol rannau.

Byddaf yn cynnig dadansoddiad o'r termau a geir yn y darllediadau ac yn eu cymharu â'r eirfa a oedd ar gael i'r sylwebyddion drwy gyfrwng y geiriaduron yn y cyfnod hwn. Penderfynwyd dyfynnu'n gywir o'r darllediadau, ac felly ni chaiff termau eu treiglo wrth eu trafod yn y naratif.

⁹⁵ Ibid, t. 74.

Morgannwg v Gwlad yr Haf, Mai 25, 1986

Ar gyfer yr ornest gyntaf, Morgannwg yn erbyn Gwlad yr Haf (25/05/1986), dim ond y GN (1953), y GM (1958), TChA (1965) a rhannau GPC hyd at 1986, a ddefnyddiaf. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, rhaid diystyru GA, termau CGMCh, a rhannau GPC a gyhoeddwyd ar ôl 1986.

Gellir rhannu'r termau a ddefnyddir yn y darllediad hwn yn chwe chategori. Ceir termau batio; bowlio; y maes, maesu a safleoedd maesu; ergydion; ffyrdd o fod allan; a thermau'n ymwneud â sgorio.

Edrychwn ar y categori cyntaf. Enw gwrywaidd yw 'batiad' ond yn y sylwebaeth hon, fe'i ceir yn fenywaidd gan un sylwebydd. Cyfeirir at 'y fatiad' a 'batiad dda'. Mae'r un peth yn wir am 'rhediad' hefyd, ac fe'i clywir yn enw benywaidd yn hytrach nag enw gwrywaidd ar adegau. Yn ogystal â'r termau Cymraeg, clywir y term Saesneg 'run' hefyd. Yn ogystal, defnyddir y termau cyfoes 'bat', 'batwyr', 'agorwyr' a 'heb fod allan'. Roedd y term 'agorwr' ar gael yn y GM (1958) ond nid ydyw yng nghyd-destun criced. Ceir 'opener' yng nghyd-destun criced yn GA a CGMCh, ond y term Cymraeg erbyn hynny oedd 'y batiwr cyntaf'. Er nad yw 'heb fod allan' yn ymddangos yn y geiriadur, y mae'n derm cyfansawdd digon derbyniol a dealladwy o ystyried mai 'allan' yw'r term a dderbynnir ar gyfer 'out', er nad ydyw yng nghyd-destun criced yn y geiriaduron yn y cyfnod cynnar hwn. Daeth y term 'heb fod allan' yn derm safonol yn GA erbyn 1995. Clywir 'un oddi ar y coesau' yn y sylwebaeth hefyd, sy'n ffordd ddisgrifiadol o gyfeirio at 'leg bye' heb ddefnyddio term penodol. Mae'r ymddadrodd hwn yn cyfateb i'r ymadrodd Saesneg anffurfiol 'one off the legs'. Cyn y cyfnod hwn, ni cheid term penodol yn y geiriaduron, tra mae'r TChA yn cynnwys y term Saesneg 'leg bye' yn unig. Mae GA yn cynnig 'bei i'r chwith' tra mae CGMCh yn rhoi 'bei i'r goes'.

Yr eirfa fowlio yw'r eirfa lle ceir yr amrywiaeth fwyaf. Cenedl enw 'pelawd' sy'n

achosi'r cymhlethdod mwyaf, yn ogystal â gwahaniaethu rhwng 'pêl' ('ball') a 'pelen' ('delivery of the ball'). Defnyddir 'y bêl' ar gyfer 'delivery' fwy nag unwaith. Wrth drafod yr enw benywaidd 'pelen', sonnir am 'y belen gyntaf', sy'n hollol gywir. Ymddengys, felly, fod y sylwebyddion yn ymwybodol mai enwau benywaidd yw'r rhain, ond wrth ychwanegu ansoddeiriau y daw'r cymhlethdod yn amlwg. Mae'r holl eiriaduron cyn GA yn cynnig 'pêl' a 'pelen' ar gyfer 'ball'. Mae GA yn defnyddio 'pêl' yn unig yng nghyd-destun criced. Ceir 'pelen' yng nghyd-destun gwlan. 'Pêl' yn unig a geir yn CGMCh. Nid yw'r cymhlethdod ynghylch term derbyniol ar gyfer 'delivery' yn syndod, oherwydd nid yw'r un o'r geiriaduron cynharaf yn cynnig cyd-destun criced. Rhydd GA 'tafliad (e.g.)', ond 'tafliad' a 'pêl' a geir gan CGMCh, heb gyfeirio o gwbl at 'pelen'. Wrth ymdrin â 'full toss', sonnir am 'y belen yn llawn' yn hytrach na'r 'belen lawn' a arferir erbyn hyn. Term GA ar gyfer 'full toss' yw 'lluchiad di-dor', fodd bynnag.

Sonnir am 'y belawd', sy'n gywir, ond hefyd 'y pelawd cyntaf' ac 'y pelawd ddiwethaf', sy'n anghywir. Mae rhifolion hefyd yn peri penbleth, gan y clywir 'chwe pelawd' yn hytrach na'i threiglo'n 'chwe phelawd'. Ond nid pelawd a ddefnyddir bob tro ychwaith. Ceir 'ofar' hefyd. Nid oes un o'r geiriaduron cyn 1986 yn cynnig term Cymraeg ar gyfer 'over' yng nghyd-destun criced. Yn wir, mae'r TChA, sy'n cynnig term, yn cynnig 'over' yn unig. GA yn unig sy'n cynnig y term 'pelawd'.

Sonnir am 'iorcer' fel math o belen yn ogystal. Roedd y term hwn yn gyffredin yn y cyfnod hwn, fel Cymreigiad amlwg o'r term Saesneg 'yorker'.

Digon arwynebol ar y cyfan yw'r termau yn y categori maes, maesu a safleoedd maesu. Yn gyntaf, ceir 'maes'. Nid yw'r TChA yn gwahaniaethu rhwng 'pitch' a 'wiced', gan nodi 'pitch (wiced)' ar gyfer 'pitch'. Rhydd 'wiced' ar gyfer 'wicket', heb roi term ar gyfer yr hyn a adwaenir fel 'llain' heddiw ('the strip'). Mae atodiad i'r GM (1968) yn cynnig 'chwaraefa' ar gyfer 'pitch'. Rhydd 'llain' ar gyfer 'strip', heb fod yng nghyd-destun criced,

fel y gwnaeth y GN ym 1953. Rhydd y ddau 'wiced' ar gyfer 'wiced'. O ran 'field', mae'r GN, GM a GA a'r TChA yn cynnig 'cae' a 'maes'. Nid oes un o'r geiriaduron yn rhoi 'llain' yng nghyd-destun criced, ond y mae bellach yn derm derbyniol mewn sylwebaethau.

O ran y defnydd o'r term 'cris', roedd yn derm safonol adeg y sylwebaeth hon.

'Llinell (criced)' a ymddangosodd yn y GM ym 1958, ond 'cris' a geid ym mhob geiriadur ers hynny. Mae'r term 'ffin' yn ymddangos ym mhob un o'r geiriaduron ond nid yng nghyd-destun criced yn y geiriaduron cynharaf. O ran y term 'leg stump', nid oes yr un term cyn y TChA, a'r term Saesneg sy'n ymddangos yn hwnnw. Mae'r defnydd o'r termau 'y wiced goes' neu'r 'ffon ar ochr y goes' ar gyfer 'leg stump', felly, yn ymddangos fel pe baent wedi eu bathu gan y tîm sylwebu. 'Stwmp y goes' a geir yn GA a CGMCh, a'r olaf o'r rheini yn cynnig 'stwmp coes' yn ogystal.

'Y wiced agored' a geir yn y sylwebaeth ar gyfer 'off stump'. Y term Saesneg yn unig sydd yn y TChA. 'Y stwmp chwith' a geir yn GA, a hwn yw'r unig un o'r geiriaduron sy'n cynnig term Cymraeg. O ystyried mai'r 'ochr agored' yw'r 'off side', mae'r term hwn yn un amlwg i'w ddefnyddio. Mae'r TChA yn cynnig y term Saesneg yn unig. 'Yr ochr draw' a gynigir gan GA. 'Ochr gyferbyn' a geir yng ngeirfa CGMCh.

Yn y sylwebaeth, 'yr ochr bellaf' a ddefnyddir ar gyfer 'non-strikers end'. Nid yw'n ymddangos yn y geiriadur fel term a'r rheswm mwyaf tebygol am hynny yw'r ffaith fod nifer o elfennau i'r term cyfansawdd hwn. Yr 'ochr bellaf' yn yr ystyr hwn yw'r ochr bellaf oddi wrth ochr y batiwr.

O ran y weithred o faesu, dechreuir gyda'r term 'maesu'. 'Ffildio' yw cynnig y TChA a GA, er bod GA yn cynnig 'maesu' hefyd. Mae CGMCh yn rhoi 'maesu' yn unig.

Ymddengys, felly, er bod 'ffildio' yn cael ei ddefnyddio o hyd ym 1995, mai 'maesu' oedd y term safonol a derbyniol erbyn y sylwebaeth hon ym 1986.

Mae'r holl eiriaduron yn cynnig 'tafliad' ar gyfer 'throw', ac eithrio'r TChA, nad

yw'n cynnig y term o gwbl. 'Taflu' yw'r ferf a gynnigir gan bob un o'r geiriaduron ar gyfer 'to throw', ac eithrio'r TChA unwaith eto. Mae GA hefyd yn cynnig y term 'towlu', a ddefnyddir yn y sylwebaeth, fel term tafodieithol yn y de orllewin. Amrywiad ar y ferf dafodieithol hon yn GA yw 'twlu'.

Nid yw'r geiriaduron cynharaf yn cynnig term derbynol ar gyfer 'to chase' yng nghyd-destun criced, er bod y sylwebaeth yn cynnig 'cwrso'. 'Cwrso' a gynnigir gan GA ac felly mae'n hawdd gweld o ble daeth y term tafodieithol 'cwrso'. Dengys hyn fod y cyfryngau'n defnyddio termau yn y cyfnod cyn GA a fabwysiadwyd gan GA maes o law ac a dderbyniwyd ar lafar ac yn safonol erbyn hyn.

Term a gysylltir â'r byd rygbi yw 'camdraford' fel arfer, ond fe'i defnyddir yn y sylwebaeth hon i olygu 'misfield'. 'Handling error' yw'r ystyr yn y byd rygbi. Ni cheir yr un term ar gyfer 'misfield' yn yr un o'r geiriaduron. Ymhellach, mae'n dangos fod y cyfryngau wedi addasu term o'r byd rygbi ar gyfer y byd criced ac wedi rhoi cyd-destun newydd iddo, er y gellir gweld y cyswllt rhyngddynt.

Ychydig iawn o dermau a geir ar gyfer y safleoedd maes yn y darllediad hwn hefyd. Sonnir am 'y ddau faeswr ar y ffin' heb fod yn benodol ynghylch eu safle ar y cae. Nid yw'n syndod na roddir termau ar gyfer dau faeswr ar y ffin y tu ôl i'r bowliwr gan nad yw'r TChA yn cynnig termau Cymraeg ar gyfer 'mid-on' a 'mid-off'. 'Canol llaw-dde' yw term GA ar gyfer 'mid-on' a 'canol-draw' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer 'mid-off'. Mae hyn yn awgrymu naill ai fod y sylwebyddion yn anghyfarwydd â'r termau yn y cyfnod hwn, neu y'u datblygwyd yn y cyfnod rhwng 1986 a 1995.

Dywedir bod maeswr yn 'sgubo' ar y ffin. Dyma'r term safonol sy'n deillio o'r ferf 'ysgubo'. Fe'i cynhwyswyd yn y GN ym 1953, ond nid yng nghyd-destun criced.

Yr unig safleoedd penodol a drafodir yw'r 'wicedwr' a'r 'trydydd dyn'. Daeth 'wicedwr' yn derm safonol rhwng 1958 a 1968. Yn y GM, 'ceidwad wiced' oedd y term, ond

ymddangosodd yn yr atodiad fel 'wicedwr' ym 1968. Hwn yw'r unig derm safonol a ddefnyddir mewn sylwebaethau bellach.

Sonnir yn wallus am 'y drydydd dyn' yn y sylwebaeth hon ar gyfer 'third man'. Mae'r TChA yn nodi 'trydydd' heb gynnwys 'dyn'. Mae GA yn nodi 'y trydydd dyn' ond nid yng nghyd-destun criced, ac mae CGMCh yn cytuno â hyn.

Wrth drafod y maeswr 'square leg', dywedir yn unig mai maeswr 'yn sgwâr o'r wiced' ydyw. Nid oes yr un term Cymraeg yn y geiriaduron cyn GA, a 'coes sgwâr' yw'r term hwnnw. Mae'n ddiddorol nodi yma mai enw benywaidd ydyw, a hynny fwy na thebyg am ei fod yn cyfeirio at 'coes'. Ymddengys, felly, y daeth y term Cymraeg i fodolaeth rhwng y sylwebaeth hon a chyhoeddi GA ym 1995.

Ni cheir yr un math penodol o ergyd yn y sylwebaeth hon. Mae'r enw 'ergyd', sy'n enw benywaidd, yn enw gwrywaidd a benywaidd gan y sylwebyddion ond defnyddir y ffurf luosog 'ergydion' yn gywir. Cyfeirir at 'ergyd i'r ffin', 'siot' a 'siots' a'r ferf 'cledro' ar gyfer ergyd galed. Nid yw'r diffyg termau ar gyfer ergydion yn syndod o gofio bod y TChA yn cynnig termau Saesneg yn unig ar gyfer ergydion megis 'square cut', 'on drive' ac 'off drive'. GA yw'r geiriadur cyntaf i gynnwys termau ar gyfer mathau o ergydion, a'r rheini'n cynnwys 'slaes sgwâr' ar gyfer 'square cut', 'gyriad draw' ar gyfer 'off drive' a 'gyriad llawdde' ar gyfer 'on drive'. Unwaith eto, dyma arwydd y derbyniwyd mathau o ergydion yn y cyfnod rhwng 1986 a 1995. Mae'n bosib eu bod yn bodoli eisoes, ond mae'n amlwg nad oedd defnydd helaeth ohonynt cyn y cyfnod hwn.

O ran y ffyrdd o gael batiwr allan, ceir llu o dermau cywir a nifer o amrywiadau arnynt. Wrth ofyn i'r dyfarnwr am wiced, dywedir bod y bowliwr yn 'gofyn amdani', yn 'galw' ac yn 'gwneud apêl'. Nid yw'r un o'r geiriaduron yn gosod y ferf 'to appeal' yng nghyd-destun criced. Nid yw'n syndod, felly, fod y sylwebyddion yn amrywio cryn dipyn ar y term hwn.

Wrth golli wiced, sonnir am y 'diflaniad', y term am 'dismissal'. Nid yw GA yn cynnig enw ar gyfer 'dismissal'. Rhydd CGMCh 'cael (be) allan', a rhydd GA 'anfon (rhn) [allan]'. Cyfeirir at amryw ffyrdd o gael y batiwr allan, megis 'coes o flaen wiced' (wedi'i dalfyrru i c.f.w. gan hepgor yr 'o', a 'rhedeg allan' neu 'cael ei redeg mas', gan ddefnyddio'r ffurf dafodieithol). Mae TChA yn cynnig 'L.B.W.' yn unig. Mae GA a CGMCh ill dau yn cynnig 'coes o flaen wiced'. Ymddengys, felly, fod y term hwn yn un cyffredin rhwng 1965 a 1986. Sonnir yn ogystal am y 'daliad', a dywedir y 'daliwyd' y batiwr. Defnyddia un sylwebydd y ferf anghywir 'dalia'. Mae 'daliad' yn derm a dderbyniwyd yn y geiriaduron ers y TChA ym 1965, ac fe'i hychwanegwyd at atodiad y GM ym 1968. Y berfau 'dal' a 'dala' yn unig a gynigiwyd cyn hynny. Nid yng nghyd-destun criced y cynhwyswyd y berfau hyn o reidrwydd.

Erys un adran, sef termau sy'n ymwneud â sgorio. Wrth drafod 'four runs', defnyddir 'pedwar' a 'pedair'. Daw'r cymhlethdod hwn o'r ffaith nad yw'r sylwebyddion yn gwybod ai enw gwrywaidd neu fenywaidd yw 'rhediad' (e.g.). Mae'r term hwn yn gyson ym mhob geiriadur. Defnyddir y rhif heb 'rediad' gan amlaf. Cyfeirir hefyd at 'chwech' gan hepgor 'rhediad'. Defnyddir 'sengl' i olygu un rhediad, sy'n gyfieithiad uniongyrchol o'r term Saesneg 'single'. Pan fo batiwr yn sgorio 50 o rediadau, dywedir iddo sgorio 'hanner cant'. Yn y darllediad hwn, ni cheir termau penodol Cymraeg ar gyfer 'bye' a 'leg bye'. Trafodir 'bye' yn nhermau 'un yn ychwanegol' heb ddweud sut y caiff yr un ychwanegol ei sgorio, er bod y term 'bei' yn ymddangos yn y GM ym 1958. Serch hynny, nid oes term Cymraeg ar gyfer 'bye' yn y TChA. Mae GA a CGMCh yn cynnig 'pêl heibio'.

Yn dilyn fy nadansoddiad o'r ornest gyntaf ac at ddibenion llunio cymhariaeth syml rhwng iaith y darlledwyr a'r termau'r geiriaduron, lluniais siart yn rhestru termau'r geiriaduron. Mae'n hawdd gweld ar unwaith, felly, a ddefnyddid termau eithaf safonol ynteu

a ddefnyddiodd y sylwebyddion eu termau eu hunain. Felly, nid wyf wedi croesgyfeirio'r sylwebaethau a'r geiriaduron yn yr un modd ag a wnaed ar gyfer yr ornest gyntaf.

Morgannwg v Essex, Medi 7, 1989

Wrth edrych ar yr ail ornest dan sylw yn y bennod hon, sef Morgannwg v Essex ar 07/09/1989, gwelir bod cryn dipyn o ddatblygiad wedi bod o fewn tair blynedd. Rhaid cofio bod pob gornest yn wahanol ac felly, nid yr un termau a fydd yn codi bob tro. Er enghraifft, ni cheir daliad ym mhob gornest ac ni chymerir wiced ym mhob gornest ychwaith. Serch hynny, ymddengys y gwneir cryn dipyn mwy o ddefnydd o'r termau erbyn hynny.

Er mwyn dadansoddi'r termau a glywir yn y sylwebaeth hon, cedwir at yr un categorïau unwaith eto, gan ddechrau gyda'r eirfa fatio. Wrth drafod cyfnod y ddau fatiwr wrth y llain, cyfeirir at yr hyn a elwir yn Saesneg yn 'partnership'. Yn y sylwebaeth, clywir 'y partneriaeth' ac 'y bartneriaeth, gyda'r olaf o'r ddau yn gywir. Dywedir fod y batiwr yn 'gwynebu', sy'n amlwg yn ffurf dafodieithol dderbyniol ar gyfer 'wynebu'. Derbynnir 'gwynebu' ar lafar erbyn hyn, er mai 'wynebu' sy'n berffaith gywir. Clywir 'rhediad' ar gyfer 'a run', ond fe'i clywir hefyd wrth ddisgrifio'r bowliwr yn rhedeg i fyny at y cris bowlio cyn bowlio'r bêl, sef yr hyn a elwir yn 'run-up' yn Saesneg. Enw gwrywaidd yw 'batiad' yn y sylwebaeth hon, sy'n hollol gywir. Cyfeirir hefyd at 'ymyl y bat' wrth i'r batiwr daro'r bêl ar gam. Wrth i'r batwyr orffen rhedeg o'r naill ben o'r llain i'r llall, dywedir eu bod wedi 'cyrraedd eu tir' neu 'ganfod eu tir'.

Ceir casgliad eithaf cynhwysfawr o dermau'n ymwneud â bowlio yn y sylwebaeth hon, a'r rhan fwyaf yn gywir ac yn gyson. Ymddengys yma nad yw 'pêl' a 'pelen' yn achosi cymaint o ddryswch ag o'r blaen. Cyfeirir yn gywir at 'y belawd ddiwetha' a 'pelen dda', ond ceir un gwall wrth drafod 'y belawd cyntaf'. Mae'r un peth yn wir am 'pelen lydan', er y cyfeirir at y term hwn gan amlaf fel 'llydan' yn unig. Sonnir am 'pelen lawn' ar gyfer 'full

toss' hefyd. 'Bowliwr' a 'bowlwr' yw'r un sy'n bowlïo'r bêl, sy'n dangos bod termau tafodieithol eisoes yn dechrau dod yn rhan naturiol o'r sylwebaethau. 'Pelawd ddi-sgôr' yw'r term a sefydlwyd ar gyfer 'maiden over' erbyn y darllediad hwn. Wrth drafod y bowlïo, ceir sôn am yr 'hanner foli', y belen sy'n glanio'n rhy bell yn ôl oddi wrth y batiwr ac yn rhy agos at y bowliwr yntau. Cysylltir y term hwn yn fwy cyffredin â'r byd pêl-droed. Wrth drafod perfformiad y bowliwr, sonnir am ei 'ffigrau' bowlïo, sy'n dangos nifer y pelawdau a fowliwyd, nifer y pelawdau di-sgôr a fowliwyd, nifer y rhediadau a ildiwyd a nifer y wicedi a gipiwyd. Clywir sôn hefyd am yr iorcer.

Ceir llu o dermau wrth drafod y maes, maesu a'r safleoedd maesu, er bod y rhan fwyaf yn ymwneud yn benodol â'r hyn a geir ar y maes. Ceir 'ffyn', 'maes', 'cae', 'maes agored', 'ffin o flaen y pafiliwn', 'ffon goes' a'r hen derm 'gwiced'. Wrth drafod y broses o faesu, cyfeirir at 'sgubo', 'daliad', 'maesu', 'yr ochr goes', 'llain', 'tafliad', 'camdrafod' a'r term gwallus 'ail daliad', lle dylai'r trefnolyn 'ail' achosi treigladd meddal. Ceir ychydig o dermau ar gyfer y safleoedd maesu, megis 'wicedwr', 'coeswr hir' ar gyfer 'long leg' a'r 'coeswr sgwâr' ar gyfer 'square leg'. Cyfieithiad uniongyrchol o 'twelfth man' a geir wrth ddefnyddio'r term 'y deuddegfed dyn'.

Er na thrafodir unrhyw dulliau o fod allan, enwir nifer o ergydion yn y sylwebaeth hon. Sonnir am 'ergyd i'r ffin', ond hefyd clywir 'toriad' ar gyfer 'cut', 'gyriad' ar gyfer 'drive' a 'gyriad agored' ar gyfer 'off-drive'.

Yr hyn sy'n ddiddorol am y dulliau o sgorio yw'r ffaith y ceir tri therm yn yr un sylwebaeth ar gyfer y term Saesneg 'leg-bye'. Defnyddir 'rhediad coes' ac 'oddi ar y goes' gan y naill sylwebydd, a 'heibiad coes' gan y llall. 'Heibiad coes' yw'r term mwyaf cyffredin erbyn hyn. Cyfeirir at 'sengl' (gan hepgor 'rhediad') a 'senglau' fel ffurf luosog. 'Cant' yw'r term ar gyfer 'a century', sef sgorio cant o rediadau. Ar y graffeg, ceir y talfyriad 'Ychw.' i ddynodi 'ychwanegiadau', sef rhediadau ychwanegol nad ydynt yn cael eu rhoi yn enw'r

batiwr.

O astudio'r ddwy sylwebaeth a nodwyd hyd yn hyn, gwelir y bu cryn dipyn o ddatblygiad ac elfen o gysoni yn y cyfnod gweddol fyr hwn, ond bod lle i ddatblygu'r termau ymhellach. Ar 10/05/1992 y darlledwyd yr ornest nesaf y rhoddaf sylw iddi yma, sef honno rhwng Morgannwg a Phacistan. O ran termau batio, cyfeirir at y 'batwr llaw dde' a 'sgori', sydd naill ai'n awgrymu bod termau tafodieithol yn dechrau dod yn dermau safonol, neu fod gan sylwebydd afael ar arferion ei dafodiaith ei hun. Er enghraifft, clywir amryw sylwebyddion yn defnyddio 'heb fod mas' a 'heb fod allan' yn yr un sylwebaeth, y naill yn perthyn i'r de a'r llall i'r gogledd. Sonnir fel arall am y 'batwyr', 'batiad cynta', 'agor y batio', 'y goes flaen' a'r 'goes ôl'. Wrth sgorio pedwar rhediad, cyfeirir ato fel 'grôt', hen ddull o arian sy'n gyfwerth â phedair ceiniog.

Mae'r dafodiaith yn amlwg unwaith eto wrth ddefnyddio termau bowlio. Ceir 'bowlo' fwy nag unwaith. Cyfeirir at y 'bowliwr cyflym', 'troelli', 'lled glou', 'hyd a llinell', 'bowliwr araf' a 'cris y bowlio'. Ceir yr un cymhlethdod yn y sylwebaeth hon o ran 'pêl' a 'pelen'. Serch hynny, cyfeirir yn gywir at 'pelen lawn' a 'pelen rydd'. Ond clywir y term 'pelau' fel ffurf luosog, yn ogystal â 'pelawdi' yn hytrach na 'pelawdau'. Serch hynny, defnyddir y term 'tair pelawd' yn gywir.

O ran ergydion, ychydig iawn a enwir ar y cyfan. Clywir sôn am 'gyrru'n unionsyth' ar gyfer 'straight drive'. Yn ogystal, ceir 'gyrru', 'torri'n sgwâr', 'torri', 'tynnu' a 'bachu'. Am na chafwyd yr un wiced yn ystod y darllediad, ni thrafodir dulliau o fod allan.

Yn y categori maes, maesu a safleoedd maesu, ceir nifer o dermau newydd, gan gynnwys 'maestir' ar gyfer y cae, 'ffin', 'ochr goes', 'ochr agored', 'ildio rhediad'. Sonnir am y 'slip', yr enw unigol ar gyfer y lluosog 'slips' yn Saesneg. Ceir 'gwli' hefyd.

Yr unig derm ar y graffeg yn y darllediad hwn yw 'h.f.a.' ar gyfer 'heb fod allan', er y cyfeirir at y term hwn ar lafar fel 'heb fod mas'. Wrth gyfeirio at 'leg bye', clywir y term

‘oddi ar y goes’.

Wrth ddewis gornest o’r flwyddyn 2002 - Cymru yn erbyn Lloegr - gellid disgwyl y byddai’r eirfa gyfan wedi’i safoni erbyn hynny. Serch hynny, ychydig iawn o dermau a geir yn rhai o’r categorïau o hyd. Wrth edrych ar y termau batio, sonnir am y ‘cyfran taro’. Mae’r term hwn yn un nas defnyddiwyd o’r blaen. Dylid nodi mai ‘cyfradd’ yw’r term arferol ar gyfer ‘rate’ a ‘cyfradd sgorio’ yw’r term a geir yn y sylwebaethau T20 yn ddiweddarach. Ceir y termau ‘batio’, ‘batiad’, a’r term Saesneg ‘slog’ a gyfieithir erbyn hyn yn ‘colbio’. Yn ddiddorol, sonnir am ‘y bowlio’ ar gyfer ‘the strike’, h.y. wynebu’r bowlio neu dderbyn y bowlio.

O ran y bowlio, cyfeirir yn gywir at ‘y belawd’ ond mae’r term ‘hyd y bêl’ yn anghywir. ‘Hyd y belen’ sy’n gywir yn yr achos hwn. Defnyddir term newydd ar gyfer y sylwebaeth hon, sef ‘llawn-belen’. Dyma’r unig enghraifft o’r defnydd o’r term hwn, gan mai ‘pelen lawn’ a geir yn y sylwebaethau cynt a’r rhai diweddaraf yn y gystadleuaeth T20. Ceir ‘y belen llawn’ yn ogystal, sy’n anghywir hefyd. Ceir ‘34 pêl’ ar y graffeg, ond ‘34 pelen’ a fyddai’n gywir yn y cyd-destun hwn am fod y graffeg yn dangos nifer y pelenni a wynebwyd.

Ceir nifer o dermau’r maes, maesu a safleoedd maesu yn y darllediad hwn. O ran y maes, sonnir am y ‘wiced’, ‘wiced ganol’, a ‘lein’ ar gyfer ‘crease’ nas cafwyd o’r blaen. Ceir ‘yr ochr agored’ a’r ‘ochr goes’. Defnyddir nifer o dermau maesu penodol yn ogystal, gan gynnwys ‘daliad’, ond enw benywaidd ydyw daliad yn y sylwebaeth hon, yn hytrach nag enw gwrywaidd, wrth gyfeirio at y ‘daliad wych’. Ychydig iawn o dermau a grybwyllir ar gyfer y safleoedd maesu. Cyfeirir droeon at ‘y maeswr’ heb nodi ym mhle mae’r maeswr yn sefyll ar y cae. Serch hynny, clywir ‘cyfar’, ‘y trydydd dyn’ ond hefyd ‘extra cover’.

O ran rhediadau ychwanegol, ceir ‘beis’, ‘peli ofer’ ar gyfer ‘no balls’ (pelenni gwag erbyn hyn) a ‘beis o’r goes’. Ychydig iawn o ergydion a grybwyllir, ond ceir ‘chwarae’n sgwâr’, ‘torri’n sgwâr’. Wrth gyffredinoli, clywir ‘ergyd’ a ‘trawiad’, ac ergyd yn enw

gwrywaidd mewn rhai achosion, gan gyfeirio at 'ergyd gwael'.

Yn y darllediad hwn, gellir mesur ymwybyddiaeth chwaraewr o'r termau a fodolai erbyn 2002, a'r chwaraewr hwnnw yw Steffan Jones, Cymro Cymraeg gynt o Forgannwg. Ychydig iawn o dermau Cymraeg a ddefnyddia, ond mae'r rhai a glywir ganddo wedi'u dylanwadu'n gryf gan dafodiaith Llanelli. Cyfeirir at 'first ball', 'caught and bowled' a 'World Cup' yn Saesneg, ond hefyd 'bowlo' a 'ffeinal'. Yn yr un darllediad, clywir Robert Croft yn cyfeirio at 'llain', 'partnership' ac 'extra cover'.

Yn ei hastudiaeth o dermau criced, ceisiodd Nia Cole ddarganfod beth oedd dealltwriaeth disgyblion dwy ysgol ac unigolion o glybiau criced yn y de a'r canolbarth, o dermau criced yn y Gymraeg. Dewisiwyd nifer o dermau Saesneg sylfaenol a gofynnwyd am gyfieithiad Cymraeg o'r termau dan sylw, gan roi nifer o ddewisiadau iddynt. Ganwyd y rhan fwyaf o'r rheini a holwyd rhwng 1964 a 1982, cyn cyfnod S4C ac yn nyddiau cynnar Radio Cymru. Cymraeg oedd iaith yr aelwyd i'r rhan fwyaf o'r rheini a holwyd, a'u haddysg yn gymysgedd o Gymraeg yn unig, Saesneg yn unig neu ddwyieithog.

Yn gyntaf, gofynnwyd i'r clybiau criced. Y term cyntaf oedd 'three balls'. 'Tri pêl' oedd yr ateb mwyaf cyffredin yn y canolbarth. Yn hynny o beth, ychydig iawn o ymwybyddiaeth oedd gan y rheini a holwyd o'r ffaith fod 'pêl' yn fenywaidd, yn y lle cyntaf, yn ail fod y rhifolyn 'tri' yn achosi treigladau llaes, ac yn olaf fod y cyd-destun yn awgrymu'r broses o fowlio'r bêl, ac nid y gwrthrych. Serch hynny, ateb cywir a gynigiwyd gan y mwyafrif ar gyfer 'three overs', sef 'tair pelawd'. Ar y cyfan, roedd y termau mwyaf cyffredin yn gywir, a'r rheini'n cynnwys 'batwyr' ar gyfer 'batsmen', 'maeswyr' ar gyfer 'fieldsmen' a 'dyfarnwyr' ar gyfer 'umpires'.

Ymddengys mai'r term a achosodd y penbleth mwyaf yw 'wicket-keepers'. Cafwyd saith ateb i gyd. Ymhlith yr atebion y gellid eu gwrthod ar unwaith yr oedd 'boi cadw wiced', 'ceidwyr wiced' a 'dyn sy'n cadw wiced'. Cynigiwyd 'ceidwad wiced' sy'n derm cynnar ar

gyfer 'wicket-keeper' ond yr enw unigol a geir yma yn hytrach na'r lluosog. Cynigiwyd y term cywir 'ceidwaid wiced' yn ogystal. Er nad yw'n derm safonol, cynigiwyd 'dynion tu ôl y ffyn', sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r ffaith y cyfeirir at 'stumps' yn aml fel 'ffyn'. Yn olaf, cafwyd yr enw unigol 'wicedwr' heb gynnig y term lluosog. Un yn unig allan o'r 24 a holwyd oedd wedi cynnig ateb anghywir ar gyfer 'wicket'. Ni chynigiwyd ond un ateb ar gyfer 'bail' a'r ateb hwnnw'n gywir, sef 'caten'. Ni chynigiwyd ateb gan yr un o'r gweddill a holwyd. Ar y cyfan, cynigiwyd 'batiad' gan y mwyafrif ar gyfer 'innings' er y cafwyd 'mewniad' gan un o'r rheini a holwyd. Allan o'r 24 a holwyd, pump yn unig a gynigiodd y term cywir 'pelawd ddi-sgôr' ar gyfer 'maiden over'. Cynigiwyd yr ateb cywir 'troellwr' ar gyfer 'spinner' gan y mwyafrif.

Yn ddiddorol, wrth roi'r term Cymraeg a gofyn am y term Saesneg ar gyfer 'coes fain bell', sef 'deep fine leg', ychydig iawn o atebion cywir a gynigiwyd. Serch hynny, mae termau ar gyfer y safleoedd maesu'n llai cyfarwydd beth bynnag.

Ymateb cymysg a gafwyd ymhlith y disgyblion ysgol a holwyd. Tri yn unig allan o 12 a wyddai mai 'pelawd' yw'r term ar gyfer 'over', ac ni chafwyd yr un cynnig cywir ar gyfer 'bail'.

Ymddengys, felly, fod rhywfaint o ymwybyddiaeth o dermau criced yn y Gymraeg ymhlith y to hŷn a'r to iau. Serch hynny, prin yw eu hymwybyddiaeth o'r termau mwyaf technegol, megis safleoedd maesu ac ati. Mae'r termau a oedd yn gyfarwydd iddynt yn dermau a ddefnyddid ac a ddefnyddir yn naturiol ar lafar, heb fod angen rhyw lawer o ddylanwad y cyfryngau ar y sawl sy'n eu defnyddio. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth a geir o'r termau llai cyfarwydd, ond gellid disgwyl yr un patrwm yn Saesneg yn hynny o beth. Yn sicr, lle mae yna ymwybyddiaeth o rai o'r termau lleiaf cyfarwydd, gellir maentumio mai o du'r cyfryngau y daw ymwybyddiaeth y sawl a holwyd yn y clybiau criced.

O ran y disgyblion ysgol, ychydig iawn o griced a gâi ei ddangos ar y teledu yn y

Gymraeg pan luniwyd yr holiadur hwn ac felly nid ydyw mor hawdd mesur o ble daw eu hymwybyddiaeth o dermau. Mae'n debygol y clywyd rhai o'r termau gan y genhedlaeth hŷn, ond bod rhai ohonynt hefyd yn cael eu defnyddio'n gyffredin yn yr ysgolion a'r clybiau criced ieuenctid o hyd. Mae'n debygol fod y genhedlaeth hŷn hwythau'n ymwybodol o'r termau cynnar yn sgil y cyfryngau, er nad oes prawf pendant o hyn.

Rhan 4: Ugain20 S4C

Yn ei erthygl ‘Cystadleuaeth sy’n cynnig apêl wahanol’, dadleuai Tomos Owen nad oes ‘rhaid deall holl gymhlethdodau’r gêm i fwynhau gêmiau Ugain20’. Yn ôl Tomos Owen, ni ellid bod wedi rhagweld apêl a llwyddiant y gamp hon yn ei dyddiau cynnar.

Bryd hynny, roedd nifer o chwaraewyr yn ystyried y gêm fel cyfle i ymlacio o’r gêmiau cystadleuol a chynnig adloniant i’r dorf, ond bellach mae timau yn targedu’r gystadleuaeth hon ac yn gwario miloedd ar gyflogau chwaraewyr allai wneud argraff. Mae’r ffaith fod Morgannwg wedi arwyddo Herschelle Gibbs, un o fatwyr mwyaf ymosodol y byd, yn benodol ar gyfer y gystadleuaeth hon yn brawf o’r pwyslais y mae’r Sir yn ei roi ar y gystadleuaeth.⁹⁶

Ansicrwydd o ffurf newydd ar y gêm a fu’n faen tramgwydd iddi ar y dechrau, yn ôl

Tomos Owen.

I nifer o ddilynwyr criced, dyw’r gystadleuaeth 20 pelawd ddim yn un y dylid ei chymryd o ddifrif. Gellir ei chymharu â gêm rygbi saith-bob-ochr yn hytrach na gêm arferol, neu gêm o pŵl o’i gymharu â snwcer – nid yw’n ffurf bur o’r gêm.⁹⁷

Ychwanegwyd at ddarpariaeth ddarlledu chwaraeon S4C yn 2008, wrth i’r sianel

gytuno i ddarlledu gornestau criced cartref Morgannwg yng nghystadleuaeth ugain pelawd y

Twenty20 am bedair blynedd o fis Mehefin 2010 ymlaen. Mae uchafbwyntiau o’r gemau

hefyd yn cael eu dangos ar S4C. Erbyn 2010, cyhoeddwyd gan y sianel fod y darllediadau

wedi bod yn llwyddiannus, gyda mwy na chwarter miliwn o wylwyr. Fel atodiad i’r

darllediadau, mae S4C bellach yn darparu gwasanaeth Trydar (Twitter) a gwefan

ryngweithiol. Dadleuodd Golygydd Cynnwys Chwaraeon S4C, Geraint Rowlands yn 2008,

⁹⁶ Tomos Befan Owen, ‘Cystadleuaeth sy’n cynnig apêl wahanol’, yn D. Huw Owen (gol.), *Cofio Tomos*, t. 105.

⁹⁷ Ibid.

Wrth ddangos pum gêm Morgannwg yn fyw ac yn ecsgliwsif ar deledu rhad ac am ddim, yn ogystal ag uchafbwyntiau o gemau Morgannwg... bydd S4C yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad criced ar bob lefel yng Nghymru.⁹⁸

Rhan o apêl y darllediadau, yn sicr, yw'r cyfoeth o westeion sydd wedi bod yn sylwebu, yn ogystal â'r prosesau ieithyddol a welir ar waith wrth i'r sylwebyddion fynd ati i ddefnyddio hen dermau traddodiadol a bathu rhai newydd. Fel y dadleua Rowlands,

Mae gwylwyr ledled y wlad yn gwerthfawrogi'n gwasanaeth byw ni a'r arddull gyflwyno fywiog a deinamig. Mae'r ystod amrywiol o westeion a'r defnydd o dermau criced yn Gymraeg wedi denu cryn ddi-ddordeb. Mae ymateb arbennig wedi bod i'r gwaith o fathu termau newydd ar gyfer y gemau ugain pelawd, gyda thermau fel 'colbad cryman' am 'slog sweep' ac 'Eryri' am 'Manhattan' yn taro deuddeg.⁹⁹

Er mwyn ceisio dadansoddi pwysigrwydd darllediadau S4C o ornestau criced yng nghystadleuaeth T20, rhaid rhoi peth sylw i hanes darlledu criced yn Saesneg, a'r ffordd y mae darpariaeth criced wedi newid ar hyd y blynyddoedd er mwyn addasu i ddisgwyliadau'r gynulleidfa.

Erbyn heddiw, mae dyfodiad y gystadleuaeth T20 yn golygu bod llawer mwy o bwyslais ar y gwylwyr gartref yn hytrach na'r dorf yn y stadiwm. Yn hynny o beth, rhaid creu pecyn deniadol ar gyfer y teledu, sy'n golygu y bu'n rhaid i gonfensiynau darllediadau criced newid gyda'r oes hefyd. Gweddnewidiwyd criced o'r math hwn o fod yn gêm draddodiadol i fod yn offeryn ar gyfer y cyfryngau. Dadleua Paul Weaver, 'The brash new game represents cricket after all the flabby bits have been liposuctioned away'.¹⁰⁰

⁹⁸ Geraint Rowlands, *S4C yn sicrhau'r hawliau i ddarlledu gemau criced Morgannwg yn yr iaith Gymraeg*, http://194.168.30.200/c_press_level2.shtml?id=194. Datganiad i'r wasg [Fel yr oedd ar Awst 5 2008].

⁹⁹ Geraint Rowlands, *Rhaglenni criced byw S4C yn taro deuddeg*, http://194.168.30.200/c_press_level2.shtml?id=344. Datganiad i'r wasg [Fel yr oedd ar Fehefin 11 2010].

¹⁰⁰ Raymond Boyle a Richard Haynes, 'Power Game: Why Sport Matters to Television', yn Idem (gol.), *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture*, t. 72.

Ychwanega Boyle a Haynes mai'r rheswm am hyn, yn eu tyb hwy, yw fod angen gwneud y gamp yn fwy addas ar gyfer y teledu ac ar gyfer gwylwyr yn y stadiwm. Caiff disgwyliadau gwylwyr criced wrth wyllo ar y teledu eu crynhoi gan Boyle a Haynes, sy'n cyfeirio'n benodol at ddarpariaeth Sky Sports:

The style of presentation of Twenty20, screened on Sky Sports in the UK, is characterized by the more staccato paced editing and televisual style of US televised sport production. Audiences are now highly familiar with the formal conventions of televised sport. Hyperbolic promotional trails, cross-promotion across channels and associated websites, previews and montages of previous competitions, detailed analysis with multi-angle slow-motion, statistics and virtual overlays and the post-match interviews with expert post-mortem.¹⁰¹

Gellir cymharu'r disgrifiad uchod gydag un o eiddo E.T. Smith yn ei gyfrol *Playing Hard Ball*. Pêl fas yw sail y gyfrol hon, ond o ddarllen ei ddisgrifiad o'r awyrgylch mewn gornestau pêl fas, gellir dadlau bod gemau yng nghystadleuath criced T20 yn rhannu'r un awyrgylch.

The players were extravagantly introduced on the very loud loudspeaker. Their fanfare entries into the arena were accompanied not only by a roar from the crowd, but a short excerpt from a rock or rap song, a leitmotif for each competitor.¹⁰²

Adeg cyhoeddi'r gyfrol hon yn 2002, dadleuai Smith nad oedd criced yn barod i symud i'r un cyfeiriad. Ond fel y gwelwyd oddi ar hynny, roedd y byd criced lawer iawn yn fwy parod i newid, fel y nodwyd nag yr oedd Smith ei ddisgwyl.

Fel y nodwyd, dechreuwyd darlledu criced ar y BBC ym 1938, a'r cynhyrchydd a fu'n gyfrifol am sicrhau bod criced yn gamp y gellid ei gwyllo ar y sgrîn oedd Anthony Craxton. Gosodwyd camerâu teledu mewn manau cyfleus er mwyn cyfleu'r digwyddiadau ar y cae o gymaint o safbwyntiau â phosib. Gwelid dylanwad y cyfryngau o fewn ychydig flynyddoedd,

¹⁰¹ Ibid.

¹⁰² E.T. Smith, *Playing Hard Ball* (London, 2002), t. 29.

gyda'r darlledwyr yn cael mewnbwn wrth i gaeau gael eu hailadeiladu, er mwyn sicrhau man ddelfrydol yn y stadiwm ar gyfer y blychau sylwebu. Datblygwyd ar hyn ymhellach gyda dyfodiad T20 sydd, ym marn Boyles a Haynes, yn amrywiad ar griced a gafodd ei deilwra ar gyfer y teledu.

Twenty20, with twenty over's [sic] per side, time restrictions for the bowling side and its unremitting speed of play is tailor made for television and lasts little more than three hours. This compression speeds up play and distils the dramatic content of the match. Furthermore, the structure of the event draws the spectators into the action, with fans encouraged to participate in the televisual presentation of the sport.¹⁰³

Ond fel y cyfeiriais eisoes, Sky Sports a fu'n gyfrifol am foderneiddio'r awyrgylch a'r elfennau gweledol sydd mor gyfarwydd i wylwyr T20 bellach. Yn ôl Boyle a Haynes,

BSkyB's entertainment-driven style of rapid pace, music and action which characterizes much of its sports coverage and trailers structures not only the coverage of the sport but the whole organization of a Twenty20 match. Lurid coloured outfits, from deep bright pink to dayglo orange, add emphasis to the fact that the sport is designed to catch the attention of the spectator and viewer.¹⁰⁴

Y mae'n haws o lawer cyflwyno cysyniad cyfoes fel cystadleuaeth yn y Gymraeg, am nad oes traddodiad Seisnig yn perthyn iddi. Hynny yw, mae'r sylwebaeth yn Saesneg yn gysyniad sydd yr un mor newydd yn Saesneg ag ydyw yn y Gymraeg. Yn hynny o beth, gellir ei darlunio fel gêm gynhenid Gymreig a'i chysylltu â rhai o'r traddodiadau ac arferion Cymreig.

Gellir cymharu'r datblygiad diweddar hwn yn narpariaeth y cyfryngau yng Nghymru o sylwebaeth ar ornestau criced yn y Gymraeg gyda'r hyn a ddigwyddodd yn India ganol yr ugeinfed ganrif. Yma, hefyd, defnyddiwyd y gamp a gyflwynwyd i India gan y Saeson

¹⁰³ Raymond Boyle and Richard Haynes, 'Power Game: Why Sport Matters to Television', t. 74.

¹⁰⁴ Ibid.

hwythau i roi hwb i'r ieithoedd brodorol. Cafodd hyn, yn ei thro, effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth genedlaethol Indiaid ledled y wlad.

India – criced a'r cyfryngau

Fel y dadleua Ramachandra Guha, 'as a national sport Indian cricket has no parallel'.¹⁰⁵ Crisielir pwysigrwydd criced i'r Indiaid wrth i Guha ddadlau, '[that] the best players enjoy the iconic status otherwise reserved for Hindu gods and film stars.'¹⁰⁶

Er y gellir dadlau bod criced yn gamp genedlaethol i'r Saeson, ni ellir cyfeirio at ei hapêl yn nhermau sêr y diwydiant ffilm a duwiau crefyddol, yn sicr. Ond fel y dadleua Guha, mae gan griced apêl gymdeithasol lawer ehangach hefyd.

Cricket has something which is helping keeping [sic] this country together. Nothing binds India together as well as cricket. It does not matter which crop is grown on the soil of Punjab or Kerala or Bengal, you will always find a common sight, kids playing cricket over it!!¹⁰⁷

Ychwanega fod haneswyr wedi penderfynu canolbwytio ar bwysigrwydd cymdeithasol criced yn India ar hyd y blynyddoedd, ar draul y chwarae i raddau helaeth.

For the social historian, mass sport is a sphere of activity that expresses, in concentrated form, the values, prejudices, divisions and unifying symbols of a society.¹⁰⁸

Cafwyd sôn am griced yn India am y tro cyntaf ym 1721, pan chwaraeai llongwyr Prydeinig yn erbyn ei gilydd ar diroedd y wlad honno. Bu'n rhaid aros hyd nes 1792 cyn y gwelwyd sefydlu'r clwb criced cyntaf yn India – yn wir, y clwb criced cyntaf y tu allan i Brydain – sef Calcutta. Fe'i sefydlwyd gan Brydeinwyr a hiraethai am gartref. Dadleua Guha,

¹⁰⁵ Ramachandra Guha, *A Corner of a Foreign Field: The Indian History of a British Sport* (London, 2003), t. xii.

¹⁰⁶ Ibid.

¹⁰⁷ Sumit Gupta, 'How Cricket Unites India', <http://www.sumit4all.com/cricket/how-cricket-unites-india> [Fel yr oedd ar Orffennaf 31 2010].

¹⁰⁸ Ramachandra Guha, *A Corner of a Foreign Field*, t. xiv.

'Here sport came to be a consolation, through which the expatriate could re-create memories of life in England'.¹⁰⁹

Yn ogystal, gwelid criced fel dull o ledaenu grym yr Ymerodraeth dros ran helaeth o India. Mae'r berthynas rhwng y Prydeinwyr a'r Indiaid yn un gymhleth yn sgil yr Ymerodraeth, ac fe allai criced naill ai gau'r agendor rhyngddynt neu ei agor ymhellach.

Noda Guha,

What should interest us... is not how the native is represented but where he is placed. It thus appears that the Indian might roll the pitch or serve the whisky. He might even watch cricket and (at a price) retrieve the ball or throw it for the sahibs to bat back. He was not expected to play the game.¹¹⁰

Credir mai yn ardal y Parsi y cafwyd bri ar griced ymhlith yr Indiaid am y tro cyntaf. Roedd yr Hindwiaid yn barod i dderbyn criced fel her yn erbyn yr Ymerodraeth a oedd yn eu gormesu a'u gorchfygu. Meddai, 'The conservatism of culture was easily vanquished by the spirit of competition.'¹¹¹

Rhoddai criced y cyfle i Indiaid ddangos eu nerth unigol a chymunedol, ac fel y dadleua Guha, 'Individual achievement meshed nicely with community solidarity.'¹¹²

Chwaraeid criced yn yr ardaloedd gwledig yn India ar y dechrau, cyn i'r gymuned Gujurati fuddsoddi'n helaeth yn y gamp a'i throi'n gêm drefol ym Mumbai. Hyd nes i'r buddsoddiad hwn gael ei wneud, y gymuned Maharati, a oedd yn dlawd ar y cyfan, oedd y brif gymuned a ymddiddorai yn y gamp newydd hon. Ond nid oedd hyn wrth fodd yr Ymerodraeth. 'At first the Europeans thought little of attempts by their subjects to take to their national game.'¹¹³

Cydiodd criced yn nychymyg y genedl yn ddiweddarach, yn dilyn buddugoliaeth tîm o'r gymuned Parsi dros dîm Prydeinig. Cyfeiriai'r Indiaid at y fuddugoliaeth hon fel ergyd

¹⁰⁹ Ibid, t. 5.

¹¹⁰ Ibid, t. 11.

¹¹¹ Ibid, t. 15.

¹¹² Ibid.

¹¹³ Ibid, t. 17.

drom i'r Ymerodraeth ac i Brydain. Ymhen amser, daeth criced yn symbol o undod cymdeithasol yn wyneb yr Ymerodraeth, ac fe gynigiai werthoedd i'r gymdeithas honno, a'r gwerthoedd hynny yn eu hanfod yn rhai Prydeinig.

On both sides of the racial divide, men of position moved in to restore order, to make sure that dangerous meanings were not read into the outcome of a mere cricket match.¹¹⁴

Sicrhawyd safle criced fel camp genedlaethol wrth i ddosbarth uwch Calcutta ei mabwysiadu ar draul rhai o'r campau eraill a berthynai i'r dosbarthiadau cymdeithasol is, megis hoci a phêl-droed. Roedd y fyddin yn rhannol gyfrifol am ledaenu ei hapêl ymhlith y dosbarthiadau hyn. Ar y cyfan, gwelai'r dosbarthiadau mwyaf llewyrchus fod modd dringo yn y byd trwy griced. 'Proficiency in cricket helped students get jobs which their academic record would have denied them.'¹¹⁵

Yn y pen draw, daeth criced yn gamp a oedd yr un mor Indiaidd ag yr oedd yn Brydeinig, ac fe'i gwelwyd fel ffordd o ddial ar yr Ymerodraeth ac o godi o ran statws cymdeithasol. Roedd hefyd yn fodd i'r Prydeinwyr ddianc rhag rhigolau bywyd yn India.

In the beginning cricket was played by the colonist to get away from the coolie. But the coolie took to the game nonetheless. In time he asked to play matches against the rulers.¹¹⁶

Rhwng y 1940au a'r 1960au, darparwyd sylwebaethau criced yn fyw ar y radio yn India. Defnyddiwyd y cyfrwng o'r cychwyn cyntaf i hybu'r defnydd o'r iaith, yn ogystal ag ehangu ymwybyddiaeth y genedl o'i hiaith ei hun. Mae 21 o ieithoedd cydnabyddedig yn India, a mabwysiadwyd Hindi fel iaith genedlaethol swyddogol ym 1947.¹¹⁷

Ond rhaid mynd yn ôl i'r 1930au er mwyn deall cyd-destun datblygu'r cyfryngau

¹¹⁴ Ibid, t. 36.

¹¹⁵ Ibid, t. 44.

¹¹⁶ Ibid, t. 50.

¹¹⁷ Sharda Ugra, 'Play together, live apart: Religion, politics and markets in Indian cricket since 1947' yn Stephen Wagg (gol.), *Cricket and National Identity in the Postcolonial Age* (London, 2005), t. 80.

Hindi yn India. Cafwyd y sylwebaeth radio fyw gyntaf ym 1933 ar gêm criced ym Mumbai. Gwelid yr achlysur fel un o bwys cenedlaethol, a chaewyd swyddfeydd y llywodraeth am y diwrnod, a chynigiwyd trafndiaeth rad i gefnogwyr fynd i'r stadiwm. Nid oes sicrwydd pwy oedd y sylwebydd, gan nad oedd y fath wybodaeth wedi ei chofnodi, ond credir mai Colonel Sethna ydoedd.¹¹⁸

Yn y cyfnod hwn, roedd timau'n cynrychioli crefyddau unigol o fewn y taleithiau, ond roedd y fath gysyniad yn destun dicter i genedlaetholwyr a oedd am weld uno'r wlad. Pan sicrhawyd annibyniaeth i India ym 1947, diddymwyd y timau hyn a'u disodli gan dimau rhanbarthol a oedd yn cynrychioli pob crefydd gyda'i gilydd. Ni restrwyd unrhyw sylwebaethau byw ar gofnodion darlledu radio yn y 1940au, ac mae'n bosib mai'r ddadl grefyddol a fu'n gyfrifol am hynny, gan nad oedd yr awdurdodau bellach am hybu'r timau 'un grefydd' hyn. Dadleua B.V. Keskar fod criced, hyd nes y cafwyd annibyniaeth, yn 'sign of our utter slavery, our tendency to copy blindly the habits of English civilization, and ape the likes and the preferences of the English gentleman.'¹¹⁹

Defnyddiwyd yr iaith Hindi am y tro cyntaf mewn sylwebaeth ar griced ym 1962, a hynny ochr yn ochr â Saesneg. Wrth i'r sylwebaeth afael yn nychymyg y genedl, dechreuwyd sylwebu yn yr ieithoedd rhanbarthol yn ogystal. Ceid rhai enghreifftiau lle'r oedd sylwebaethau'n dairieithog ar yr un sianel.

Ym 1964, rhoddwyd cydnabyddiaeth i Hindi fel iaith o bwys, gyda sianel AIR yn rhoi sêl bendith i sylwebaeth yn yr iaith honno ar y Gêmau Olympaidd. Ond ym myd criced, roedd ansicrwydd ynghylch cyfuno ieithoedd, a'r derminoleg i'w defnyddio wrth sylwebu. Credai rhai y dylid cadw'r termau yn Saesneg er bod y sylwebaeth gyfan yn Hindi, ond credai eraill fod angen bathu geirfa newydd yn yr iaith frodorol. Dadleua'r sylwebydd Sushil

¹¹⁸ Dick Booth, 'India and the Transistor' yn Idem, *Talking of Sport* [:] *The Story of Radio Commentary* (Cheltenham, 2008), t. 159.

¹¹⁹ B.V. Keskar, . Dyf. gan Dick Booth, 'India and the transistor' yn Idem, *Talking of Sport* [:] *The Story of Radio Commentary*, t. 167.

Doshi fod sylwebaethau yn Hindi wedi ymestyn apêl criced yn aruthrol. 'With the advent of Hindi commentary the game reached the farmers, the housewives and the commoners who otherwise would never listen to English commentaries.'¹²⁰

Mae'r sefyllfa a ddisgrifir uchod yn bur wahanol i sefyllfa Cymru a'r Gymraeg. Mae'r Cymry'n gyffredinol yn fwy tebygol o wrando ar sylwebaeth Saesneg na Chymraeg.

Ar y dechrau, roedd AIR yn darparu sylwebaeth yn y tair iaith am gyfnodau o 15 munud yr un. Dadleuai'r sylwebydd Jasdev Singh y byddai bathu termau ar gyfer y fath sylwebaeth yn ddryslyd ac yn ddiangen, gan nad oedd modd cyfleu'r digwyddiadau'n fanwl gywir pe defnyddid geiriau anghyfarwydd. Byddai'n rhaid wrth elfen o fenthyg er mwyn cyfleu'r ystyr yn fanwl gywir. Fel y soniaf wrth ddadansoddi'r sylwebaethau cynharaf ar S4C, ceir rhai termau yn y Gymraeg sy'n gyffredinol ac yn amhenodol. Cyfeiria Delyth Jones at y ffaith fod modd diffinio benthyg yn nhermau gair sy'n croesi o un iaith i iaith dramor.¹²¹

Meddai Singh,

A common man, a housewife or a grandmother, or a shopkeeper will never use these words. The simple question will be: 'Sir, who is batting and who is bowling? What is the score?' One can understand using the Hindi translation for 'batting' and 'bowling' but there does not seem to be any need to change other technical words.¹²²

Dadleua'r cyn-chwaraewr Sunil Gavaskar fod criced wedi datblygu'n gamp genedlaethol oherwydd y sylwebaeth aml-ieithog. Yr hyn a wnaeth, mewn gwirionedd, oedd sicrhau bod gan bobl India afael yn eu hiaith genedlaethol yn gyffredinol. Ceir enghreifftiau o Indiaid yn dysgu rhifau yn Hindi drwy griced. Erbyn hyn, mae mwy na 25,000,000 yn gwrandao ar sylwebaeth griced ar y radio yn Hindi. Datblygwyd y traddodiad cryf hwnnw yn

¹²⁰ Sushil Doshi. Dyf. gan Dick Booth, 'India and the transistor' yn Idem, *Talking of Sport* [:] *The Story of Radio Commentary*, t. 175.

¹²¹ Delyth Jones, *Cyflwyniad i Ddwyieithrwydd* (Aberystwyth, 1997), t. 40.

¹²² Jasdev Singh, *Autobiography*, t. 81. Dyf. yn 'India and the transistor' yn Dick Booth, *Talking of Sport*, t. 176.

y 1980au, wrth i fwy na 110,000,000 o bobl brynu setiau radio.¹²³

Ar y cyfan, iaith y bonedd oedd Saesneg yn India, ond trwy sylwebaethau AIR a'r ychydig sylwebaeth a oedd ar gael ar radio'r BBC, datblygwyd sgiliau ieithyddol y werin gyfan. Yn ogystal â hynny, llwyddwyd i feithrin cymaint o ddiddordeb yn y gamp nes iddi ddod yn gamp genedlaethol yn India mewn dim o dro. Yn ogystal, llwyddodd criced i godi ymwybyddiaeth genedlaethol ymysg holl garfanau crefyddol ac ieithyddol India.

Dan ddylanwad yr Ymerodraeth Brydeinig y daeth criced i India ond erbyn hyn, y mae'n un o'r ychydig arwyddion o Brydeindod a gofleidiwyd gan y genedl ymhell wedi dyddiau'r Ymerodraeth. Dadleuai Mansur Ali Khan Pataudi ym 1969,

In our huge and emergent nation, cricket does have a more than usually important role. Through it we can meet the rest of the world on near-equal terms, show our skill and express our artistry and enthusiasm. It is a game which our people love and follow with an interest unrivalled in the rest of the world.¹²⁴

Dyma, yn ei hanfod, a olyga rygbi i'r Cymru. Saesneg oedd iaith yr Ymerodraeth ac iaith caethwasiaeth nad oedd yr Indiaid yn teimlo unrhyw fath o berthynas iddi. Meddai'r diplomydd Shashi Taroor,

Everything about the sport seems suited to the Indian national character, its rich complexity, the infinite variations possible with each delivery, the dozen different ways of getting out, are all rather like Indian classical music, in which the basic laws are laid down but the performer that improvises is gloriously unshackled by anything so mundane as a written score. The glorious uncertainties of the game echo ancient India [sic] thought.¹²⁵

Maen tramgwydd yw iaith i'r Indiaid, felly. Gwelir iaith yn anhawster diangen ac felly, cyfieithir diwylliant yn hytrach nag iaith.

¹²³ Dick Booth, *Talking of Sport*, t. 177.

¹²⁴ Sharda Ugra, 'Play together, live apart: Religion, politics and markets in Indian cricket since 1947', t. 81.

¹²⁵ Shashi Taroor. Dyf. gan Dick Booth, 'India and the Transistor' yn Idem, *Talking of Sport*, t. 170.

Goblygiadau diwylliannol cyfieithu

Mae perthynas agosach yn bodoli rhwng diwylliannau yn yr oes sydd ohoni oherwydd dylanwad y cyfryngau, yn enwedig pan fo'r diwylliannau hynny'n bodoli ochr yn ochr o fewn gwlad, yr hyn a elwir yn 'interculturalism' gan Michael Cronin. Dadleua ymhellach fod iaith a geirfa'n cael eu paratoi wrth i genedl greu hunaniaeth.¹²⁶ Pe bai hynny'n wir, gellir dadlau na roddwyd pwys ar chwaraeon fel pau ieithyddol tan yn gymharol ddiweddar yn y Gymraeg am na wnaethpwyd unrhyw ymdrech i fathu geirfa benodol ar gyfer maes chwaraeon cyn canol yr ugeinfed ganrif.

Mae'r berthynas yn un gymhleth pan nad oes cyswllt ieithyddol a diwylliannol amlwg rhwng y ddau ddiwylliant o fewn y wlad honno. Fel y dadleua Cronin, 'The ability to translate (autonomous practices) or be translated (heteronymous practices) can in some instances be a matter of life and death'.¹²⁷

Dadleuai Matthew Arnold yn erbyn y farn hon ar y cyfan, gan honni bod ieithoedd lleiafrifol yn cael eu llyncu gan brif ieithoedd gwledydd pwerus, a chan iaith eu cymdogion. Dywed Cronin:

Small nationalities inevitably gravitate towards the larger nationalities in their immediate neighbourhood. Their ultimate fusion is so natural and irresistible that even the sentiment of the absorbed race, ceases, with time, to struggle [sic] against it; the Cornishman and the Breton become, at last, in feeling as well as in political fact, an Englishman and a Frenchman.¹²⁸

Mae cyfieithu testun, neu dermau ar gyfer darlledu, yn ddibynnol ar elfennau ieithyddol a diwylliannol, felly.¹²⁹ Fel yr ychwanega Cronin, mae pwysigrwydd cyfieithu yn cynyddu mewn gwlad a chanddi ddau ddiwylliant.

The arrival of speakers of radically dissimilar languages into a culture means that translation becomes an immediate and therefore more prominent issue.¹³⁰

¹²⁶ Michael Cronin, *Translation and Identity* (London, 2006), tt. 48, 103.

¹²⁷ *Ibid.*, t. 45.

¹²⁸ *Ibid.*, t. 13.

¹²⁹ Kate James, 'Cultural Implications of Translation', <http://translationjournal.net/journal//22delight.htm> [Fel yr oedd ar Awst 1, 2008].

Wrth drafod y broses o gyfieithu barddoniaeth, cyfeiria Tudur Hallam at ddyfyniad o eiddo J. Hillis Miller, a ddadleua y gallai'r ffaith '[that] the border crossings and translations happen so rapidly nowadays may mislead us about what happens in translation'.¹³¹ O ran y broses o gyfieithu ym myd criced o Saesneg i'r Gymraeg, mae'r diwylliant a gyfieithir a'r diwylliant y cyfieithir iddo'n cyd-fyw ochr yn ochr. Mae'r broses o gyfuno diwylliannau'n un sy'n digwydd yn raddol bron heb i'r gwyliwr sylwi.

Dadleua Cynog Dafis y dewisir un iaith ar draul y llall mewn gwlad ddwyieithog, a bod un iaith neu'r llall yn cael ei defnyddio ar gyfer amryw beuoedd.¹³² Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y cyfryngau, lle rhoddir sylw i bynciau gwahanol yn y ddwy iaith ar y cyfan.

Yn ei waith ar y berthynas rhwng iaith a hunaniaeth, ymchwilia Cynog Dafis yn benodol i wledydd dwyieithog, gan ganolbwyntio ar berthynas yr ieithoedd â'i gilydd. Un drafodaeth sy'n deillio o hyn yw a oes gan wlad ddwyieithog ddau ddiwylliant, neu a yw'r diwylliannau'n debygol o or-gyffwrdd? Ymhellach, a fynegir hunaniaeth drwy un iaith yn fwy na'r llall? Yn Saesneg, gelwir y ddwy iaith dan sylw yn 'source' a 'target'. Y 'source' yw iaith wreiddiol yr eirfa, a'r 'target' yw'r iaith y cyfieithir iddi. O ran diwylliant, rhaid rhoi ystyriaeth i ffactorau diwylliannol y naill iaith a'r llall. Yn hynny o beth, cyfieithir yr iaith ac addasir y diwylliant. Ymhellach, honnir bod hunaniaeth ieithyddol yn gryfach pan fo'r naill iaith yn wynebu perygl neu fygythiad gan y llall.

Mae peuoedd fel arfer yn dibynnu ar un iaith mewn gwlad ddwyieithog. Gelwir hyn yn lingua franca.¹³³ Serch hynny, mae darpariaeth criced S4C yn profi bod modd i bau dreiddio o un iaith i'r llall ar yr amod nad yw ar gael yn y ddwy iaith. Mae sefyllfa Cymru ychydig yn wahanol i wledydd dwyieithog eraill ar y cyfan, am fod ei darpariaeth o ran

¹³⁰ Michael Cronin, *Translation and Identity*, t. 65.

¹³¹ J. Hillis Miller. Dyf. gan Tudur Hallam, 'When a Bardd Meets a Poet', yn Daniel G. Williams (gol.), *Slanderous Tongues* (Bridgend, 2010), t. 91.

¹³² Cynog Dafis, *Menwlifiad, Iaith a Chymdeithas* (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, s.l., 1979), t.3.

¹³³ Idem, *Cymdeithaseg Iaith a'r Gymraeg* (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, s.l., 1979), t. 5.

darlledu yn Saesneg yn ddibynnol ar ddarpariaeth Prydain. O ran y cyfryngau Cymreig, y mae criced ar gael yn Gymraeg yn unig am nad yw BBC Cymru'n darlledu criced ar y teledu yn Saesneg. Serch hynny, cymhlethir y berthynas honno gan SKY Sports, sy'n darlledu gornestau criced trwy Brydain gyfan yn Saesneg ar deledu lloeren. Mae llwyddiant darpariaeth criced S4C yn gwrthbrofi'r hyn a ddywedodd Dafis yma, sef fod angen i bau ymsefydlu mewn un iaith yn unig mewn sefyllfa ddwyieithog. Cymhlethdod pellach yw'r ffaith fod rhai yn debygol o wyllo criced ar S4C pan ddaw'r cyfle am nad oes ganddynt SKY yn y tŷ.

Mewn unrhyw sefyllfa lle mae'r ddwy iaith yn bresennol, maen nhw mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd.¹³⁴

Serch hynny, nid yw'n wir o safbwynt darlledu gornestau criced Morgannwg am mai S4C yn unig sy'n gwneud hynny, ac eithrio ambell ornest sy'n ymddangos ar SKY Sports.

Pan fo diwylliant cadarn yn cynhyrchu geirfa ar gyfer meysydd penodol, y mae'n llawer iawn anos cyfieithu termau'n uniongyrchol sydd yr un mor gryf yn yr iaith darged. Yn aml, rhaid dibynnu ar gyd-destun diwylliannol gwahanol yn y ddwy iaith. Yn hynny o beth, mae cyfleu ystyr yn bwysicach ym maes chwaraeon na chyfieithu'n uniongyrchol, er bod hynny'n wir am lawer iawn o feysydd eraill beth bynnag.

Mae Newmark yn honni bod nodweddion diwylliannol unigryw yn perthyn i bob grŵp ieithyddol.¹³⁵ Nid yw hynny mor amlwg o ran y Gymraeg a Saesneg yng nghyd-destun criced gan fod y gamp yn un Brydeinig, h.y. Saesneg a Chymraeg ill dau. Dadleua Newmark ymhellach nad yw iaith o reidrwydd yn rhan o ddiwylliant. Dadleua Vermeer, fodd bynnag, fod cyswllt anorfod rhwng iaith a diwylliant, a bod y naill yn rhan o'r llall.¹³⁶ O greu Vermeer, gellir cymryd bod cyfieithu technegol yn amhosib. Mae angen cyd-destun

¹³⁴ Ibid.

¹³⁵ Kate James, 'Cultural Implications of Translation', <http://translationjournal.net/journal/22delight.htm>. [Fel yr oedd ar Awst 1, 2008].

¹³⁶ Ibid.

diwylliannol cyn y gellir cyfieithu'r iaith. Mae cyd-destun ehangach 'slog sweep', er enghraifft, yn wahanol iawn i gyd-destun amaethyddol 'colbad cryman'. Yr un yw'r weithred yn y ddwy iaith, ond mae islais gwahanol yn perthyn i'r ddwy ddelwedd. Trafodir y term hwn yn nes ymlaen yn y bennod hon. Mae trosi diwylliant dipyn yn fwy cymhleth na chyfieithu termau. Ategir hyn gan Bassnett, sy'n dadlau bod yna gyd-ddibyniaeth rhwng iaith a diwylliant yn nhermau cyfieithu.¹³⁷ Mae cyfieithu diwylliant yn creu anhawster o ran dealltwriaeth y gynulleidfa darged. Serch hynny, nid yw hynny'n wir o ran y Gymraeg. Mae'r sawl sy'n medru'r Gymraeg yn medru Saesneg hefyd, ond nid o reidrwydd i'r gwrthwyneb. Nid oes ystyriaethau diwylliannol ehangach yn bodoli yn hynny o beth. Er mwyn mesur perthynas y gynulleidfa yn yr iaith wreiddiol â chynulleidfa'r iaith darged, mae angen creu proffil o'r ddwy gynulleidfa a'u cymharu.

Gall iaith esgor ar wahaniaethau sylfaenol rhwng pobl yn yr un wlad, a hynny hyd yn oed o fewn yr un dosbarth cymdeithasol. Rhaid cymharu eu ffordd o fyw hefyd, a'u harferion bob dydd. Mae hyn yn dylanwadu ar y math o eirfa a gaiff ei bathu wrth gyfieithu o'r naill iaith i'r llall. Os nad oes modd cyfleu ystyr term drwy gyfieithu'n uniongyrchol, y mae'n bosib y bydd angen bathu term sy'n disgrifio'r gair a'r diwylliant sy'n gyd-destun iddo yn yr iaith wreiddiol

¹³⁷ Ibid.

Dadansoddiad o ddarllediadau Ugain20 S4C

Penderfynwyd dyfynnu'n gywir o'r darllediadau, ac felly ni chaiff termau eu treiglo wrth eu trafod yn y naratif.

Morgannwg v Swydd Gaerloyw Mehefin 4, 2010, S4C 6.25pm

Yn y darllediad cyntaf hwn o ornest T20 yn y Gymraeg ar S4C, gwelir bod nifer helaeth o dermau eisoes wedi'u sefydlu a'u safoni, ac ychydig iawn o amrywio arnynt a geir ac eithrio cenedl yr enwau. Ar y cyfan, enw benywaidd yw 'wiced'. Yn yr un modd, enwau gwrywaidd yw 'rhediad', 'troellwr', 'daliad', 'sengl' (am fod rhediad wedi'i hepgor), 'slip' a 'wicedwr'. Ychydig iawn o fathau o ergydion a safleoedd maes sydd wedi'u cyfieithu yn y darllediad hwn. Er na ddefnyddir y termau Saesneg, ceisir disgrifio'r ergydion a'r safleoedd yn hytrach na rhoi enwau arnynt. Ar y cyfan, enw benywaidd yw 'ergyd' er y'i ceir yn wrywaidd gan un sylwebydd. O ran graffeg ar y sgrin, ymddengys fod 'wiced olaf' wedi'i dderbyn ar gyfer 'last wicket'. Ystyr 'last wicket' yma yw'r wiced flaenorol, ac nid yr un olaf. Yn hynny o beth, 'wiced ddiwethaf' sy'n gywir, ac nid 'wiced olaf'. Serch hynny, nid gwall criced yn unig mo hwn. Mae'n wall ieithyddol sydd wedi treiddio i'r Gymraeg erbyn hyn ac sy'n cael ei derbyn yn helaeth.

Defnyddir rhai termau nad ydynt wedi'u safoni a phan ddigwydd hynny, ceir dau neu dri therm yn y Gymraeg gan amryw sylwebyddion. Ceir dau derm ar gyfer 'full-toss'. 'Pelen lawn' sy'n gywir, ond ceir 'pêl lawn' gan ambell sylwebydd hefyd. 'Pelen' a ddefnyddir ar gyfer 'delivery of the ball', tra mae 'pêl' yn cyfeirio at yr enw 'ball' yn unig. Daw'r cymhlethdod i'r Gymraeg yma gan y defnyddir 'ball' yn Saesneg i olygu 'delivery of the ball' hefyd. Yn hynny o beth, cyfieithiad llythrennol anghywir yw 'pêl'. Digwydd yr un peth pan ddisgrifir 'wide ball'. 'Pelen lydan' sy'n gywir, ac nid 'pêl lydan'. Derbynnir, serch hynny, mai enw benywaidd yw 'pelen'. Ar gyfer y term 'extras', ceir 'ychwanegiadau' a

'rhediadau ychwanegol'. Ystyr 'extras' yw 'extra runs' ond caiff 'runs' ei hepgor yn Saesneg am fod angen peth gwybodaeth flaenorol o ystyr y term. Yn yr un modd, derbynnir bod y gwyliwr yn deall ystyr y term Cymraeg, ac felly caiff 'rhediadau' ei hepgor yn gyffredinol, er bod ambell sylwebydd yn ei gynnwys yn y term 'rhediadau ychwanegol'. 'Ychwanegiadau' sy'n ymddangos ar y graffeg ar y sgrin bob tro, ac fe'i talfyrrir yn 'Ych.'. Y term Saesneg olaf dan sylw yn y casgliad hwn o amrywiadau yw 'reverse sweep'. Ceir 'sgubiad wrthol' ac 'ysgub wrthol'. 'Ysgub' yw'r offeryn a ddefnyddir i ysgubo ac felly mae 'ysgub wrthol' yn cyfleu disgrifiad o wrthrych yn hytrach na gweithred. Y weithred sydd ei hangen yma ac felly, mae 'sgubiad wrthol' yn ddisgrifiad cywirach o'r hyn sy'n digwydd yn yr ergyd hon.

Yn y darllediad hwn, caiff nifer o dermau eu bathu o'r newydd er nad yw pob un ohonynt wedi aros hyd heddiw. Ceir 'rhofio' neu 'rhofiad' ar gyfer yr ergyd a elwir yn 'paddle sweep' yn Saesneg. Cyfieithiad llythrennol ydyw hwn sydd yr un mor addas yn y Gymraeg ag ydyw yn Saesneg. Un term y ceir ychydig o anghytuno yn ei gylch yw 'dugout'. Dyma derm a ddefnyddir yn gyffredin ym myd rygbi neu bêl-droed. Yn hynny o beth, gellir disgwyl bod term eisoes yn bodoli ar ei gyfer. Serch hynny, 'cwt' a 'cwtsh' yw'r ddau derm a awgrymir gan y sylwebyddion. 'Cwtsh' yw'r term a ddefnyddir gan y sylwebyddion o'r de, tra mae'r sylwebyddion o'r gogledd yn dueddol o ddefnyddio 'cwt'. Fel y dywed John Hardy, sy'n hanu o'r gogledd, 'Dwi ddim 'di arfer â'r cwtsh 'ma'. Dyma ddangos felly, fod daearyddiaeth a thafodiaith yn dylanwadu ar y broses o fathu termau o'r newydd. Term unigryw ddeheuol yw hwn, ac mae'n perthyn yn benodol i'r Cymoedd. Cysyniad newydd a gyflwynwyd yn sgil criced T20 yw'r 'powerplay'. Dyma gyfnod o chwe phelawd lle cyfyngir ar y rheolau maesu. Rhaid i'r maeswyr sefyll o fewn cylch, a rhaid i'r batwyr geisio bwrw'r bêl drwy'r cylch. Mae'r term 'pelawdau pŵer' yn derm digon derbyniol felly, er ychydig yn rhy lythrennol. Ffactorau diwylliannol sy'n gyfrifol unwaith eto am fathu'r term 'colbad cryman', y cyfeiriais ato eisoes yn y bennod hon. Y mae dylanwad amlwg amaethyddiaeth ar

y term hwn, tra mae ‘colbio’ yn hen derm anghyfarwydd am daro’n galed. Felly yn y term hwn, ceir disgrifiad o’r symudiad yn ogystal â’r grym a ddefnyddir wrth daro’r ergyd hon. Term i’r dim, felly, yw ‘colbad cryman’. Fel y dadleuai Aled Gwyn yn y blwch sylwebu, ‘Mae rhaid i honno fynd i Bruce’. ‘Bruce’, wrth gwrs, yw’r term cyffredin am *Geiriadur yr Academi*, gan mai Bruce Griffiths yw golygydd y geiriadur hwn. Un term na cheir hyd i fersiwn Gymraeg iddo yn y darllediad hwn yw ‘cow corner’. Yn ôl traddodiad llafar gwlad, dyma ddarn o’r cae sydd ymhell o’r llain y bu gwartheg yn pori arno pan chwaraeid mewn pentrefi yng nghefn gwlad. Ni chât’r bêl ei tharo i’r darn hwnnw o’r cae yn aml iawn, ac felly câi’r gwartheg lonydd i bori. Am nad oes term ar gyfer ‘cow corner’ hyd yn hyn, mentraf awgrymu yma y byddai ‘y borfa’ yn ddigon addas.

O’r darllediad hwn, felly, gwelwn fod cryn dipyn o waith wedi’i gyflawni wrth fathu termau newydd eisoes, ond bod gwybodaeth y sylwebyddion o’r eirfa a fodolai ar ddechrau’r darllediadau cyson hyn yn annigonol i gynnal darlun cynhwysfawr yn ystod rhaglenni. Maes o law, byddai technoleg fodern y cyfryngau’n chwarae rhan ganolog yn y broses o fathu termau newydd, wrth i wylwyr S4C fynd ati i awgrymu termau drwy gyfrwng Trydar (Twitter).

Morgannwg v Hampshire Mehefin 8, 2010

O ran y termau a awgrymwyd yn benodol yn ystod y darllediad cyntaf, ychydig iawn o gysondeb sy’n parhau yn yr ail ornest. Un o’r enghreifftiau amlycaf o hyn yw’r ffaith fod y drafodaeth ar derm Cymraeg ar gyfer ‘powerplay’ yn parhau. Er yr awgrymwyd ‘pelawdau pŵer’ eisoes, ceir rhagor o awgrymiadau yma, gan gynnwys ‘pweoed’ a ‘grym-gyfnod’. Er bod y ddau derm yma’n dderbyniol, nid ydynt yn ychwanegu at y term yn fwy nag y mae ‘pelawdau pŵer’ ac felly maent yn annhebygol o’i ddisodli yn y tymor hir. Felly, ceir tri themr hyd yn hyn heb fod yr un ohonynt wedi’i dderbyn yn derfynol.

Er y sefydlwyd 'sgubiad wrthol' yn y darllediad cyntaf, eir yn ôl at 'reverse sweep' yn yr ail ddarllediad hwn. Dyma ddangos felly, nad yw bwlch o un darllediad yn ddigon i ymglyfarwyddo â therm newydd a bod y broses rhwng bathu a derbyn yn un dros gyfnod o amser.

Yn y darllediad hwn, ceir gwrthdaro rhwng y defnydd o 'pedwar' neu 'pedair' o ran rhediadau. 'Pedwar' sy'n gywir am ei fod yn cyfeirio at 'pedwar rhediad'. Serch hynny, y mae gwahaniaethu rhwng y ddau yn achosi cryn benbleth i bob sylwebydd. Parhau hefyd y mae'r dryswch rhwng 'pêl' a 'pelen'. Er bod 'pelen' eisoes yn bodoli, ni cheir term am 'no-ball' a thueddir i ddefnyddio 'dim pêl' nad yw'n cyfleu ystyr y term yn glir yn y Gymraeg.

Er y defnyddiwyd 'wiced' ar gyfer 'stump' yn y darllediad cyntaf, defnyddir 'stwmpyn' ar sawl achlysur yn ystod y sylwebaeth hon. 'Wiced' a dderbyniwyd maes o law. Nid oes safleoedd maesu eto ychwaith, ond ceisia bardd yn y blwch sylwebu fathu'r term 'diben-draw' ar gyfer y safle maesu 'deep point'. Er mai â'i dafod yn ei foch yr awgrymodd y term, y mae'n gweddu i'r dim ac yn hollol ystyrllon. Ei gyfiawnhad yw mai'r gair Cymraeg am 'point' (yng nghyd-destun pwrpas) yw 'diben' a bod 'draw' yn cyfleu'r pellter. Mae 'diben-draw', felly, yn cwmpasu pellter anferthol a 'point'. Yn yr un modd, mentra'r un bardd awgrymu 'Sioni bob crefftwr' ar gyfer 'all-rounder' er bod y term 'amryddawn' eisoes yn bodoli. Cyfieithiad slafaidd o 'wickets in hand' yw 'wicedi mewn llaw'. Ymadrodd Seisnig yw 'in hand'. Byddai 'wrth gefn' yn fwy addas yn y cyd-destun hwn.

O ran graffeg ar y sgrin, mae'r termau sy'n ymddangos yn rhai newydd nad ydynt wedi'u safoni'n ddigonol cyn eu cynnwys mewn print. Er enghraifft, ceir S/R ar gyfer 'strike rate'. Pe bai term Cymraeg derbyniol yn bodoli, gellid fod wedi defnyddio'r term hwnnw ar y sgrin. Serch hynny, rhaid bodloni ar y talfyriad Saesneg. Mae'r talfyriad 'cfw' yn dderbyniol ar gyfer 'coes o flaen wiced', gan y tueddir i hepgor arddodiaid mewn talfyriadau.

Morgannwg v Sussex
Mehefin 12, 2010

Er gwaethaf y datblygiadau a gafwyd yn y ddwy gêm gyntaf yn y gyfres hon o ran termau, ni wneir defnydd digonol o'r termau a fathwyd ar eu cyfer yn y darllediad hwn. Clywir ambell derm cyfarwydd megis 'trydydd dyn', 'sgubiad wrthol' a 'slip' serch hynny. Defnyddir ambell amrywiad ar dermau sydd eisoes wedi'u hen sefydlu, megis 'beirniad' ar gyfer 'umpire', lle ceir 'dyfarnwr' yn derm cyffredin.

Mae rhai termau newydd yn ailymddangos. Cyfeirir at 'sgubiad wrthol' unwaith eto, gan ddangos bod y term wedi dechrau cydio. Yn y darllediad hwn y cawn ein cyflwyno i'r term 'ffyn' ar gyfer 'stumps'. Trwy hyn, sefydlir 'ffon goes' ar gyfer 'leg stump' hefyd. Serch hynny, cyfeirir hefyd at 'wiced ochr agored' ar gyfer 'off-stump'. Fe'n hailgyflwynir i'r term 'catiau' ar gyfer 'bails', sy'n derm a fathwyd gan Eic Davies yn y cyfnod cynnar.

Unwaith eto, ceir trafodaeth helaeth ar y 'powerplay'. Yn ogystal â'r termau sydd wedi'u hawgrymu eisoes, ceir 'cyfnod clatsio' a 'cyfnod cyffro'. Unwaith eto, clywir 'pelawdau pŵer', sy'n ymddangos yn derm digon sefydlog erbyn hyn. Awgrymir 'cyfle clatsio', 'cyfnod nerthu' a 'peli pwno' gan wylwyr, yn ogystal.

Mae'r anghysondeb a'r gwallau yn parhau i ymddangos yn y raffeg. 'Wiced olaf' a geir o hyd ar gyfer 'last wicket', tra mae'r talfyriad 'n.o.' yn golygu 'not out'. Mae'r talfyriad 'h.f.a.' yn bodoli ar gyfer 'heb fod allan' ers dyddiau cynnar S4C ac felly, gwall cynhyrchu ydyw hwn. Tra mae 'heb fod allan' neu 'heb fod mas' yn gweddu i'r dim ar gyfer 'not out', nid yw'n addas ar gyfer 'not out' yng nghyd-destun y trydydd dyfarnwr. Wrth gyfeirio at benderfyniad y dyfarnwr, dylid defnyddio 'dim mas' neu 'dim allan', o bosib. Mae S/R yn ymddangos o hyd, am nad oes term Cymraeg hyd yma ar gyfer 'strike rate'.

O ran safon iaith y sylwebyddion, ceir rhai termau Saesneg, naill ai am nad oes term Cymraeg yn bodoli, neu oherwydd nad yw'r sylwebyddion yn gwybod beth yw'r term Cymraeg. Ceir nifer o enghreifftiau o hyn, gan gynnwys 'scoreboard', 'siot' (Cymreigeiddio

‘shot’) ac ‘extra cover’. Dengys hyn, efallai, nad yw’r sylwebyddion eto’n hollol gyfforddus yn trafod criced yn y Gymraeg, neu fod yr adnoddau ieithyddol sydd ar gael yn annigonol.

Mae cenedl enwau’n parhau’n benbleth, wrth i’r sylwebyddion gyfeirio at ‘tri pelawd’.

Morgannwg v Essex Mehfin 19, 2010

Yr hyn a ddaw’n amlwg yn y darllediad hwn yw bod y sylwebyddion yn dechrau ymgyfarwyddo â rhai o’r termau sydd wedi ymsefydlu yn yr iaith yn sgil y gornestau cyntaf a chyn hynny, a hynny i’r fath raddau hyd nes eu bod yn dechrau defnyddio fersiynau tafodieithol o rai ohonynt yn gwbl gyfforddus. Erbyn hyn, ceir ‘bato’, ‘disgyn’ yn hytrach na ‘cwympo’ o ran y sylwebyddion o’r gogledd a therm newydd sbon ar gyfer ‘stumps’, sef ‘celfi’. Esbonnir mai term Cwm Tawe ydyw hwn a ddefnyddid yn gyffredin gan blant flynyddoedd yn ôl. Ychwanegir bod y term ‘furniture’ yn eithaf cyffredin yn Saesneg erbyn hyn hefyd. Dyma’r dystiolaeth amlycaf hyd yn hyn fod termau’n dechrau cydio.

Erys rhai o’r problemau a amlygwyd yn y darllediadau cynharaf, yn enwedig cenedl enwau a’r defnydd cywir o’r enw benywaidd ‘pelen’. Ymdrinnir â’r term ‘pelen’ fel enw gwrywaidd a benywaidd, ac fe’i disodlir o hyd gan ‘pêl’. Unwaith eto, enw gwrywaidd a benywaidd yw ‘pêl’ yn y sylwebaeth hon gan amryw sylwebyddion. Term newydd a ddaw yn sgil sefydlu ‘pelen’ fel ‘delivery’ yw ‘pelen wag’ ar gyfer ‘no ball’. Nid yw’r term hwn yn gwbl foddhaol am nad yw’n cyfleu gwir ystyr y term, ond nid oes term sy’n gwbl addas heb ei fod yn codi cwestiynau ynghylch ei ddilysrwydd. Gellir dadlau fod modd defnyddio ‘dim pelen’ yma fel cyfieithiad llythrennol gan na fyddai angen deall yr hyn yw ‘no ball’ er mwyn deall y term cyfatebol yn y Gymraeg, er nad yw’r term Cymraeg heb gyd-destun y Saesneg yn gwneud fawr o synnwyr.

Ymhlith y gwallau a wneir wrth ddefnyddio termau, cyfeirir nifer o weithiau at 'wiced' yn hytrach na'r llain. Mae hyn yn digwydd, o bosib, gan y cyfeirir at y darn hwn o'r cae fel 'wicket' yn Saesneg yn hytrach na 'strip', sef union gyfieithiad 'llain'. O ran 'LBW' (leg before wicket), defnyddir y term 'coes o flaen wiced' yn gyffredin, er y cyfeirir at derm gwreiddiol Eic Davies pan y'i fathwyd am y tro cyntaf, sef 'ffêr o flaen y ffyn'. Y mae hyn, yn fy marn i, yn gywirach na'r term cyfoes. Y ffêr sy'n cael ei tharo ac nid y goes gyfan, a 'ffyn' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer 'stumps'.

O ran termau newydd, cynigir 'gwgli' ar gyfer 'googly'. Wrth drafod y term hwn, ni wneir ymdrech i ddarganfod term Cymraeg ar ei gyfer am ei fod yn derm o'r iaith Hindi beth bynnag. Yn hynny o beth, amlygir y ffaith mai termau Saesneg yn unig a gyfieithir. Mae hyn yn codi'r cwestiwn pam na wneir ymdrech i gyfieithu termau o ieithoedd eraill. Ateb posib yw'r gwrthdaro sy'n bodoli rhwng Saesneg a'r Gymraeg, a'r pwyslais a roddir ar yr angen i gyfieithu o'r naill iaith i'r llall. Er na fyddai'r gwyliwr cyffredin o reidrwydd yn ymwybodol o darddiad y gair 'googly', mae'n debygol iawn y byddai'r sylwebyddion yn gwybod o ble ddaeth y term yn wreiddiol.

Ychwanegir dimensiwn newydd at y sylwebaethau T20 o'u cymharu â'r darllediadau cynharaf, wrth ddefnyddio Robert Croft fel gohebydd ar y cae yn ystod gornestau. Amlygir ei ddiffyg gwybodaeth o dermau Cymraeg cywir a safon ei iaith yn gyffredinol. Er ei fod yn ymwybodol o'r termau 'troellwyr' a 'troi', cyfeirir hefyd at 'partneriad' yn hytrach na 'partneriaeth'.

Yn y darllediad hwn, defnyddir 'pweoed' ar gyfer 'powerplay' yn hytrach na 'pelawdau pŵer', gan ddangos nad yw'r term eto wedi'i safoni. Ond y tro hwn, cedwir at 'pweoed' trwy gydol y darllediad.

Morgannwg v Gwlad yr Haf
Gorffennaf 14, 2010

Am y tro cyntaf, ceir safleoedd maesu yn y sylwebaeth hon nas clywyd yn yr un o'r sylwebaethau cynt yn y T20. Ceir 'canol-wiced' a 'canol y wiced' ar gyfer 'mid-wicket'.

'Canol-wiced' yw'r term cywiraf, yn fy marn i, gan y gellir defnyddio canol y wiced i ddisgrifio rhan o'r ffyn neu ddarn o dir ar y llain. Defnyddir 'allfaes' ar gyfer 'outfield'.

O ran sefydlu termau, ymddengys fod y 'colbad cryman' yn cael ei dderbyn ar gyfer 'slog sweep' gan y gwneir defnydd helaeth o'r term hwnnw. Caiff y term 'trawsergyd sgwâr' ei fathu ar gyfer 'square cut'. Dywed un sylwebydd fod "'na farddoniaeth yn y term'.

Erbyn hyn, defnyddir 'cyfartaledd clatsio' ar y raffeg i ddynodi 'strike rate' yn hytrach na'r 'S/R' a ymddangosodd bob tro hyd yma. Serch yr ymdrech i fathu termau o'r newydd, defnyddia ambell sylwebydd nifer o dermau sydd wedi'u cyfieithu'n llythrennol ac yn slafaidd, gan gynnwys 'hwyaden' i ddynodi nad yw'r batiwr wedi sgorio'r un rhediad yn ystod y batiad. Wrth ddisgrifio maeswr yn gollwng daliad, dywedir bod y batiwr 'wedi cael ei roi lawr' yn hytrach na'i fod wedi'i ollwng. Yn hyn o beth, gwelir dylanwad y naill iaith ar y llall, a gellir casglu wrth hyn nad yw'r termau criced eto wedi dod yn gyfan gwbl Gymreig a'u bod wedi eu dylanwadu gan Saesneg o hyd. Ategir hyn gan ddefnydd Robert Croft o rai termau anghywir yn ystod ei gyfnod yn gohebu ar y cae. Defnyddir ganddo 'run rate', 'partneriad', 'dau wiced', 'conditions' (y tywydd) a 'llawer o rediad' yn hytrach na 'llawer o rediadau'. Yn hynny o beth, gellir tybio bod y broses o fathu termau Cymraeg newydd yn ei gyfnod cynnar o hyd a bod angen gwneud tipyn o waith i'w safoni.

Er gwaethaf defnydd cymysg o dermau gan sylwebyddion, ymddengys fod y broses o fathu termau yn ystod y rhaglenni byw wedi cydio yn nychymyg y gwylwyr Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â'r di-Gymraeg.

Yn ystod y sylwebaeth hon, cyfeiria sylwebydd arall at “seiadau i benderfynu’r termau”. Ymddengys felly fod cryn dipyn o drafod ar y termau wedi iddynt gael eu bathu a chyn iddynt gael eu derbyn yn derfynol, neu o leiaf cyn iddynt gael eu defnyddio eilwaith.

Morgannwg v Middlesex Mehefin 3, 2011

Nid oes cymaint o dermau newydd yn y darllediad hwn, ond cyfeirir at y ‘trawsergyd sgwâr’ fel ‘term hyfryd’ gan un sylwebydd. Ymddengys felly fod y term wedi gafael ac wedi’i dderbyn yn derfynol. Dyma’r dystiolaeth gyntaf fod un o’r termau a fathwyd ar gyfer y gystadleuaeth T20 wedi cyrraedd y cam nesaf yn y broses o fathu termau. Ceir amrywiad yn y darllediad hwn ar un o’r termau a sefydlwyd eisoes, sef ‘crymanad’ ar gyfer ‘colbad cryman’.

Ychydig iawn o safleoedd maesu a enwir yn y sylwebaeth hon, ac eithrio ‘trydydd dyn’ a ‘canol y wiced’. Nid yw ‘canol y wiced’ eto wedi’i sefydlu gan mai ‘canol-wiced’ oedd y term gwreiddiol ar ddechrau darllediadau S4C. Pan enwir maeswr mewn safleoedd ar y ffin, cyfeirir at faeswyr ‘yn y pellter’ lle bynnag fo’r maeswyr hynny yn y cae. Ymddengys fod angen cryn dipyn o waith eto i fathu neu sefydlu rhagor o dermau ar gyfer y safleoedd maesu.

Y mae cenedl enwau’n parhau’n ddryslyd i nifer o’r sylwebyddion, a’r un termau sy’n achosi anhawster bob tro. Ceir ‘ergyd’ yn enw gwrywaidd ar adegau a ‘rhediad’ yn enw benywaidd. Y mae’r gwahaniaeth rhwng ‘pêl’ a ‘pelen’ yn achosi penbleth o hyd, gyda chyfeiriadau at ‘pêl lydan’ a ‘pelen llydan’.

Er bod Robert Croft yn gweithredu fel gohebydd ar y cae, ymddengys nad yw’n gyfarwydd â rhai o’r termau amlycaf, gyda chymysgedd o dermau Cymraeg anghywir a Saesneg. Cyfeirir at ‘y pencampwriaeth’, ‘performance’, ‘career’ a ‘partnership’. Y mae’r

holl dermau hyn yn rhai cyffredin yn y sylwebaethau. Serch hynny, am y'i defnyddir fel pwndit arbenigol, mae'r fath iaith yn fwy derbyniol na chan sylwebyddion.

Er y gwnaethpwyd cryn dipyn o waith wrth fathu termau newydd hyd yn hyn, y mae ymadroddion ystrydebol o fyd criced yn Saesneg yn cael eu cyfieithu'n uniongyrchol yn hytrach na chreu cystrawennau sy'n fwy Cymreig eu naws. Er enghraifft, ceir sôn am 'chwarae batiad capten', sydd wedi'i drosi'n uniongyrchol o'r ymadrodd Saesneg, 'to play a captain's innings'. Mae enghreifftiau pellach o hyn yn cynnwys 'wicedi mewn llaw', lle byddai 'wrth gefn' yn fwy Cymreig, a chyfeirir at y ffaith fod 'daliadau'n ennill gêm' ('catches win matches'). Er bod y rhain yn gwneud synnwyr yn y Gymraeg hefyd, maent yn llai pleserus ar y glust, ac yn amlwg yn gyfieithiadau slafaid heb wneud ymdrech i fathu fersiynau mwy gwreiddiol.

Mae un o'r termau sy'n ymddangos ar y raffeg yn wahanol i'r hyn a geid yn y sylwebaethau cynharaf ar S4C. Ar gyfer 'ychwanegiadau' (extras), arferid defnyddio 'Ych.' a ddaeth yn 'Ych'au' erbyn hyn. Er y defnyddir y term 'cyfradd sgorio' neu 'cyfradd clatsio' ar gyfer 'run rate', yr hyn sy'n ymddangos ar y raffeg yw 'cyflymder'. Nid yw'r term hwn yn gwbl addas gan y defnyddir 'cyflymder' ar gyfer cyflymder y bowliwr hefyd, ac felly gellir yn hawdd gymysgu rhwng y ddau derm. Erbyn hyn, tueddir i wahaniaethu rhwng sgorio pedwar a sgorio chwech drwy ddweud 'at y ffin' ar gyfer pedwar, a 'dros y ffin' ar gyfer chwech, ond 'i'r ffin' sy'n ymddangos ar y raffeg i gyfeirio at y ddau. 'Ergydion i'r ffin' a ddefnyddir ar lafar erbyn hyn i olygu 'boundaries'. Defnyddir 'y wiced olaf' o hyd i gyfeirio at golli'r wiced ddiwethaf. Arferid defnyddio 'heb fod allan' neu 'h.f.a' ar gyfer 'not out', ond yr arfer erbyn hyn yw 'heb fod mas', sy'n dangos dylanwad tafodiaith y sylwebyddion ar yr hyn sy'n ymddangos ar y sgrin.

Morgannwg v Caint
Mehefin 11, 2011

Y mae'r dryswch ynghylch rhai o'r termau'n parhau yn y sylwebaeth hon. Cymhlethir rhwng 'pêl' a 'pelen' o hyd, ond cyfeirir at 'pelen wag' ar gyfer 'no ball' erbyn hyn bob tro. Enw gwrywaidd a benywaidd yw 'ergyd' yn y sylwebaeth hon yn ogystal.

Er yr ymddengys fod y 'trawsergyd sgwâr' yn derm safonol erbyn hyn, cyfeiria un sylwebydd at 'ergyd sgwâr' nifer o weithiau. Dengys hyn ddiffyg ymwybyddiaeth o'r term cywir, yn hytrach nag amrywiad ar y term safonol. Un amrywiad amlwg a geir yw 'tir agored' yn hytrach nag 'ochr agored' gan sylwebydd arall. Ond mater o dafodiaith yw hyn gan y defnyddir y ddau derm ganddo. Serch hynny, ceir gan y sylwebydd hwn gyfuniad o 'pedwar' a 'pedair' wrth gyfeirio at rediadau. Ymddengys felly mai rhifolion a chenedl enwau sy'n achosi'r trafferthion mwyaf o hyd.

Erbyn hyn, penderfynwyd mai 'caten' yw'r term ar gyfer 'bails' ond mae'r ffurf luosog yn achosi dryswch i rai o'r sylwebyddion. 'Catiau' yw'r ffurf luosog gywir, ond ceir 'catenni' hefyd. Unwaith yn unig y digwydd hyn ac fe ellir derbyn mai gwall ydyw.

O ran y sgrin fawr yn y stadiwm, yn y Gymraeg y dangosir negeseuon a phenderfyniadau'r trydydd dyfarnwr, sy'n amlwg yn achosi dryswch y tro cyntaf, am nad yw'r tîm oddi cartref yn deall ystyr 'heb fod mas' wrth aros i'r penderfyniad ddod. Dyma ddangos felly fod dylanwad S4C ar griced yn eang.

Morgannwg v Hampshire
Mehefin 17, 2011

Gêm fer oedd hon oherwydd y glaw, ac felly ychydig iawn o dermau a ddefnyddiwyd yn ystod y darllediad. Yr un cymhlethdodau ag a drafodwyd eisoes a gafwyd yn y sylwebaeth hon, ac ni cheir unrhyw dermau newydd. Yr unig derm sy'n werth ei nodi yma yw 'maestir' ar gyfer 'maes' neu 'cae'.

Ceir trafodaeth ar griced yng ngogledd Cymru gan aelod o Glwb Criced Bangor,

Richard Llwyd Jones. Ymddengys fod y termau a ddefnyddir ganddo'n rhai cyffredin yn y gogledd hefyd, gan gynnwys 'batiwr', 'prawf', 'rhwydi' a 'bowlwyr'.

Morgannwg v Surrey
Gorffennaf 1, 2011

Erbyn y darllediad hwn, y mae tipyn mwy o safleoedd maesu Cymraeg yn cael eu defnyddio, er nad yw'n ymddangos iddynt gael eu bathu'n ddiweddar. Dengys hyn, o bosib, fod cryn dipyn o ymchwil wedi'i gwneud wrth i'r gystadleuaeth fynd rhagddi. Trwy'r holl dermau sy'n cael eu defnyddio erbyn hyn, teimlir bod y sylwebaeth yn symud ymhellach oddi wrth ddylanwad y sylwebaethau Saesneg ymhellach. Mae'r safleoedd maesu a ddefnyddir yn y sylwebaeth hon yn cynnwys 'gwli', 'pwynt', 'cyfar', 'cyfar ychwanegol', a 'canol-wiced' neu 'canol y wiced'. Serch hynny, cyfeirir o hyd at 'y ffin pellaf' a 'maeswr ar ben y maes' ar gyfer 'long-on' a 'long-off'.

Mae'r un peth yn wir am yr ergydion hefyd. Ceir tipyn mwy o fathau o ergydion yn y sylwebaeth hon, er y cyfeirir o hyd at 'ergyd' fel enw gwrywaidd a benywaidd. Ceir 'trawsergyd' ar gyfer 'cut', sydd fwy na thebyg yn deillio o'r 'trawsergyd sgwâr', 'sgubo', 'ergyd wrthol' (ond 'reverse sweep' yn Saesneg hefyd) a 'chwarae'n sgwâr' sydd ychydig yn wahanol i'r 'trawsergyd sgwâr'.

Mae'r sylwebyddion yn parhau i ddefnyddio 'pêl' a 'pelen' yn anghywir. Mae rhifolion hefyd yn achosi trafferthion, yn ogystal â chenedl enwau. Cyfeirir at 'dau belawd' a 'dwy belawd', 'tri rhediad' a 'tair rhediad, a 'pedwar' a 'pedair'. Ar un achlysur, dywedir bod y bêl wedi cael ei tharo 'dros y ffin' ar gyfer pedwar, pan fod 'at y ffin' yn gywir – sgorir chwe rhediad pan gaiff y bêl ei tharo 'dros y ffin'.

Ceir lluo o dermau Saesneg a rhai sydd wedi'u Cymreigio o ymadroddion Saesneg.

Ceir 'mewn llaw' yn hytrach nag 'wrth gefn', a defnyddia Robert Croft 'partnership'. Ceir gan un neu ddau o'r sylwebyddion 'action' (dull bowlio) a 'delivery stride' (y rhediad tuag at y llain cyn bowlio'r bêl).

Serch y gwallau, ymddengys fod y sylwebyddion yn dechrau ymgyfarwyddo â'r termau mwyaf cyffredin. Defnyddir termau tafodieithol yn y darllediad hwn, gan gynnwys 'bato', 'sgori' a 'ffildio'. Dyma ddangos, efallai, fod termau criced yn y Gymraeg yn dod yn fwy naturiol i'r sylwebyddion erbyn hyn.

Mae'r graffeg ar gyfer y darllediad hwn dipyn yn fwy cynhwysfawr na'r darllediadau blaenorol hefyd. Yr unig wall a geir ymhlith cyfres o dermau cywir yw'r defnydd o 'powerplay' yn hytrach na 'cyfnod clatsio' ar un achlysur. Fel arall, ceir 'galw'n gywir', 'sgoriau posib' ar gyfer 'projected scores', d&b ar gyfer 'daliwyd a bowliwyd' (caught & bowled), troellwr agored (off-spinner), rhedwyd mas (yn hytrach na 'rhedwyd allan', sy'n dangos dylanwad tafodiaith) a 'H' ar gyfer 'heibiadau' (bys).

Sylwebaeth griced a'r diwylliant

Wrth ddadansoddi'r iaith mewn sylwebaeth griced ar S4C a'r prosesau ieithyddol sydd ynghlwm wrth y fath sylwebu, rhaid hefyd astudio'r elfennau diwylliannol sy'n sicrhau nad trosiad uniongyrchol o'r ddarpariaeth Saesneg a geir. Gan fod y ddau ddiwylliant mor wahanol i'w gilydd, a chan fod S4C yn ceisio apelio at gynulleidfa wahanol yn y Gymraeg, gellir disgwyl bod yr elfennau diwylliannol sy'n ymddangos yn y Gymraeg yn cael eu haddasu ar gyfer y Cymry Cymraeg, ac i Gymry di-Gymraeg i ryw raddau hefyd. Wrth gyflwyno'r tîm sylwebu ar ddechrau'r ddarpariaeth, cyfeiria Angharad Mair atynt fel 'beirdd

a chantorion, enwogion o fri' (Morgannwg v Caerloyw). Dyma osod y sylwebaeth yn ei chyd-destun diwylliannol o'r cychwyn cyntaf.

Un cymhlethdod sy'n codi yn sgil darllediadau S4C yw'r ffaith mai Morgannwg yw'r sir sy'n cynrychioli Cymru a bod elfen o duedd yn debygol iawn o lithro i mewn i'r sylwebaethau ar adegau. Cyfeirir at Forgannwg ar un achlysur fel 'ein sir ni' (Morgannwg v Gwlad yr Haf). Yn wir, dywed yr Archdderwydd T. James Jones ei bod yn 'hen bryd i Gymru gael tîm criced' (Morgannwg v Essex). Wrth drafod y dyfarnwr o Gymru, Jeff Evans a'r tebygolrwydd y byddai'n ei chael hi'n anodd bod yn ddi-duedd ar y cae, clywir yr ymadrodd 'gwyn y gwêl...' (Morgannwg v Caint).

Er y ceisir cynnal diwylliant Cymreig unigryw drwy'r rhaglenni, byddai'r gynulleidfa'n gyfarwydd ag elfennau sylwebaeth Saesneg ac i'r perwyl hwnnw, ceir ambell adlais o raglen radio Saesneg *Test Match Special* sy'n ffefryn gan wylwyr criced. Un traddodiad sy'n gysylltiedig â'r rhaglen honno yw cacennau. Fersiwn S4C o'r traddodiad hwn yw rhoi pice ar y maen i'r sylwebyddion. Wrth fwyta'r pice ar y maen, dywed un sylwebydd wrth gyfeirio at Awstraliad crwn sy'n chwarae dros Forgannwg, Mark Cosgrove, 'Byddwn ni'r un siâp â Cosgrove erbyn y diwedd' (Morgannwg v Caerloyw).

Wrth drafod cyflymdra bowlio'r Awstraliad arall a oedd yn cynrychioli Morgannwg, Shaun Tait, dywed un o'r sylwebyddion fod 91 milltir yr awr yn golygu "dirwy o £60 a thriphwynt ar y leisens" (Morgannwg v Caerloyw). Yn wir, mae'r hiwmor Cymreig yn un o brif nodweddion y sylwebaeth. Teimlir wrth wrando ar y sylwebaethau na fyddai cryn dipyn o'r hyn a ddywedir yn cael ei ddweud pe bai'r darllediad yn Saesneg. Yn hynny o beth, mae gan y sylwebyddion rwydd hynt i siarad yn blwmp ac yn blaen ac mae mwy o le a rhyddid i dynnu coes, yn sicr. Gellir bron iawn ddadlau y byddai rhai o'r sylwadau, er yn hollol ddiniwed, yn debygol o fod yn rhai dadleuol pe baent yn cael eu darlledu yn Saesneg. Un o'r rheini yw cyfeiriad at gyn-wicedwr Morgannwg, Ismail Dawood fel dyn 'o Gwmtwrch', er ei

fod yn enedigol o Swydd Efrog ac o dras Indiaidd. Wrth gyfeirio at ddau gefnder o dras Indiaidd, Kabir Ali a Kadeer Ali, dywed y sylwebydd nad oes ‘llawer o ddychymyg gan y rhieni’ am eu galw wrth yr enwau hynny, gan ychwanegu fod yna ‘dri Parc Nest’, wrth gyfeirio at yr Archdderwydd, T. James Jones a’i frodyr (Morgannwg v Caerloyw). Mewn sylw arall am India, dywed un o’r sylwebyddion iddo ddweud wrth Robert Croft, adeg ei benderfyniad i beidio â theithio i India yn sgil y terfysgoedd, y byddai’n saffach iddo fynd i India nag i Bontarddulais, ac yntau’n hanu o’r Hendy (Morgannwg v Caerloyw). Ni fyddai’r fath hiwmor yr un mor effeithiol nac yn dderbyniol yn Saesneg. Yn nhraddodiad Eic Davies yntau, cyfeirir at David Brown fel ‘Dafydd Brown’ (Morgannwg v Caerloyw) a threiglir enw Cosgrove (‘a Chosgrove’) (Morgannwg v Hampshire).

Yn y cyfeiriad amlycaf at ddiwylliant Cymreig yn y sylwebaethau, dywed un o’r sylwebyddion mai ‘Croft a safodd yn y bwlch’ (Morgannwg v Essex). Adlais yw hyn, wrth gwrs, o araiith enwog yn y ddrama *Buchedd Garmon* gan Saunders Lewis. Gellir dadlau bod y sylw hwn braidd yn eironig o ystyried y diffyg pwys a roddai Saunders Lewis ar y campau yng Nghymru yn ei gyfnod.

Treiddia traddodiad yr Eisteddfod drwy’r sylwebaethau hyn fel un o brif nodweddion y diwylliant Cymreig y mae’r criced yn prysur ddod yn rhan bwysig ohono. Gyda phrifeirdd yn rhan o’r tîm sylwebu, ychydig yn anochel yw’r amryw gyfeiriadau at yr Eisteddfod a’r Orsedd. Cyfeiriadau ystyrion ydynt heb eu bod yn rhy ystrydebol. Ceir cyfeiriad at yr Eisteddfod neu’r Orsedd ar gyfer pob achlysur neu ddigwyddiad. Pan fo Morgannwg mewn trafferth yn ystod gêm ac ar fin colli, clywir y sylwebydd yn dweud, ‘Os dach chi mewn trafferth, dach chi’n galw am aelod o’r Orsedd’ (Morgannwg v Gwlad yr Haf). Yr aelod hwnnw, wrth gwrs, yw troellwr Morgannwg, Robert Croft. Ar achlysur arall pan fo Morgannwg ar fin colli, dywed y sylwebydd, ‘Bydd y gêm hon ar ben cyn y cyhoeddi’ (Morgannwg v Essex). ‘Y cyhoeddi’ yn y cyd-destun hwn, wrth gwrs, yw cyhoeddi’r

Eisteddfod ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dywedir mai 'tywydd steddod' yw'r glaw sy'n difetha'r ornest. Dyma gymhariaeth y bydd y rhan fwyaf o'r Cymry Cymraeg yn medru uniaethu â hi. Yn gysylltiedig â'r glaw y mae rheolau Duckworth/Lewis sy'n penderfynu canlyniad gornestau sy'n cael eu difetha yn sgil y tywydd gwlyb. Dywed un sylwebydd fod Huw Llewelyn Davies yn cynnal sesiwn ar reolau Duckworth/Lewis yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr wythnos honno (Morgannwg v Gwlad yr Haf). Gwneir y rhan fwyaf o sylwadau am yr Eisteddfod neu'r Orsedd mewn ffordd ddychanol pan fo Morgannwg yn perfformio'n wael ar y cae. Am faesu gwael y Cymry ar un achlysur, dywed y sylwebydd, 'Fyde'r bois ddim 'di ca'l llwyfan am honna' (Morgannwg v Caerloyw). Gŵyr y Cymro, wrth gwrs, beth yw ystyr 'ca'l llwyfan', a bod methu â 'cha'l llwyfan' yn destun siom. Ond pan fo doniau'r chwaraewyr yn amlwg ar eu gorau, dywed y sylwebydd y dylid sefydlu'r wisg goch ar gyfer cricedwyr yn yr Orsedd (Morgannwg v Sussex). Ar achlysur arall, cymherir gwisg ffansi'r 1970au â gwisg draddodiadol yr Orsedd (Morgannwg v Caerloyw). Mae'r holl elfennau Cymreig hyn yn cyfuno i greu darllediad na ellir ei gyfieithu i unrhyw iaith arall.

Gan fod cymaint o bwyslais ar yr elfen eisteddfodol yn y sylwebaethau, mae'r hyn y cyfeirir ati fel y gornel farddol yn anochel. Fel y soniais eisoes, prifeirdd yw'r rhan fwyaf o westeion a geir yn y blwch sylwebu, gan gynnwys Ceri Wyn Jones ac Aled Gwyn, a chynhyrchir llinellau o gynghanedd ar gyfer achlysuron nodedig yn ystod gornestau. Trwy hyn, nid yn unig y sefydlir criced yn rhan o'r diwylliant, ond fe'i gosodir yn y traddodiad barddol yn ogystal. Yn wir, disgrifir un ergyd yn un o'r gornestau fel 'ergyd gynganeddol' (Morgannwg v Middlesex). Dyma osod y gynghanedd yn ddull aruchel o farddoniaeth y gellir ei defnyddio i fawrygu camp y chwaraewyr ar y cae. Mewn gornest lle mae'r tîm sy'n batio'n sgorio llawer iawn o rediadau, dywed y sylwebydd fod 'y rhediadau a'r gynghanedd yn llifo' (Morgannwg v Middlesex). Pan fo Morgannwg ar fin colli gornest, awgrymir yn y

blwch sylwebu y dylid llunio marwnad ar gyfer y tîm. Pan fo'r bowlio'n wael, dywedir bod un o gwpledi Jim Parc Nest 'yn well 'na'r belen 'na' (Morgannwg v Essex). A phan fo'r ymwelwyr yn sgorio'n araf, dywed fod 'Ceri Wyn yn cynganeddu'n gwicach na 'ma Hampshire yn sgorio' (Morgannwg v Hampshire). Dyfais yw'r gynghanedd, felly, i ddisgrifio safon y chwarae. Unwaith eto, byddai'n amhosib cyfieithu'r darllediad hwn i unrhyw iaith arall yn sgil y dyfeisiadau diwylliannol hyn. Pan fo'r llifoleuadau'n diffodd yn sgil nam trydanol, dywed Ceri Wyn Jones, 'Nid solar ydyw Swalec' (Morgannwg v Middlesex). Wrth drafod ergyd i'r awyr, dywed y sylwebydd fod digon o amser i gynganeddu cyn i'r bêl ddisgyn i'r tir. Serch hynny, dywed yr un sylwebydd fod cynganeddu'r un mor ddiarth iddo ag ydyw'r Caribî (Morgannwg v Caerloyw).

Mae'r ffaith fod y beirdd yn cynganeddu ac yn barddoni yn y blwch sylwebu'n annog y gwylwyr i anfon eu hymgeisiadau i'r rhaglen drwy'r gwasanaeth Trydar. Am un ymgais, dywed y sylwebydd y dylai'r bardd hwnnw sefyll ar ganiad y corn gwlad (Morgannwg v Essex).

Am fod y gynghanedd yn dechneg farddoni sy'n gynhenid Gymraeg, daw ambell anhawster yn sgil enwau'r chwaraewyr, yn enwedig y sawl y mae llythrennau yn eu henwau nad ydynt yn ymddangos yn yr wyddor Gymraeg. Er enghraifft, dywed un sylwebydd nad yw Wahab Riaz yn cynganeddu, a hynny oherwydd y llythyren 'z'. Serch y ffaith na ddylai fod yn bosib cynganeddu enw capten Morgannwg, Alviro Petersen, llunia Robot Powel y llinell 'Hwyl fawr i Alviro' pan fo'n colli'i wiced (Morgannwg v Caint). Serch hynny, penderfynir mewn darllediad arall na ellir cynganeddu'r enw Cosgrove (Morgannwg v Caerloyw).

Mae'r gystadleuaeth T20 wedi disodli'r traddodiad cynt o gynnal gornestau undydd ar y Sul, am fod y rhan fwyaf o ornestau bellach yn cael eu cynnal yn hwyr yn y prynhawn ganol wythnos o dan y llifoleuadau. Serch hynny, mae'r ornest rhwng Morgannwg a Sussex ar S4C ar y Sul yn cynnig y cyfle i dynnu ar y cymariaethau amlwg y gellir eu gwneud rhwng

criced a chrefydd, neu yn hytrach, criced ac Anghydfurfiaeth. Ceisir gosod y darllediad cyfan yng nghyd-destun y capel am mai ar fore Sul y cynhaliwyd yr ornest. Dywed un sylwebydd y dylai'r gwylwyr fod yn y capel, tra dywed sylwebydd arall ei fod yn colli cymundeb yn y capel er mwyn cael sylwebu ar yr ornest. Awgrymir ymhellach y dylai'r plant yn y dorf fod yn yr ysgol Sul (Morgannwg v Sussex).

Cyfeirir at sedd y prif sylwebydd fel y 'sêt fawr' (Morgannwg v Caerloyw), a sonnir am y cyfarfodydd i fathu termau ar gyfer y darllediadau fel 'seiadau'. Yn wir, 'blwch seiadu' yw term T. James Jones ar gyfer y blwch sylwebu (Morgannwg v Caerloyw). Wrth i fowliwr apelio am wiced o flaen y dyfarnwr, dywed y sylwebydd fod y chwaraewr 'ar ei liniau fore Sul', gan greu delwedd ohono'n gweddio. Ychwanegir fod y bowliwr yn 'byw mewn gobaith ar ddydd Sul' (Morgannwg v Sussex). Yn ystod y darllediadau, cyfeirir at gawod o law sy'n 'Feiblaidd' (Morgannwg v Hampshire), yn ôl Steffan Rhodri, tra mae criced yn 'nefoedd ar y ddaear' i Aled Gwyn (Morgannwg v Caerloyw).

Yn ystod un sylwebaeth, adroddir hanes Dafydd Rowlands yn esgus bod yn sâl adeg buddugoliaeth Morgannwg yng Nghynghrair y Sul ym 1993. Roedd Rowlands i fod i bregethu ar y Sul hwnnw, ond fe benderfynodd na fedrai beidio â mynd i Gaergaint. Anghofio'i esgus a wnaeth Rowlands, a chael ei gyfweld yn fyw ar Radio Cymru o'r cae criced (Morgannwg v Caerloyw).

Casgliadau

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd archwilio'r cyswllt rhwng chwaraeon, y Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol y Cymry, a phenderfynu i ba raddau y mae'r cyfryngau wedi anwybyddu, hyrwyddo neu ddatblygu rhan chwaraeon o fewn y cyswllt hwn.

O astudio papurau newydd Cymreig yn fanwl yng ngoleuni sylwadau Saunders Lewis yn *Egwyddorion Cenedlaetholdeb* ym 1926 ynghylch lle chwaraeon ynddynt, y mae'n amlwg ei fod yn llygad ei le. Nid oedd chwaraeon yn un o flaenoriaethau'r papurau newydd yn y cyfnod hwnnw. Gellir dadlau mai yn y 1950au neu hyd yn oed y 1960au y daeth chwaraeon yn un o nodweddion y papurau Cymreig. Sicrhaodd Eic Davies, Dr. Gwent Jones ac ati fod lle teilwng i fyd y campau ynddynt. Gellir dadlau ymhellach, yng nghyd-destun blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, fod rhai o'r papurau Cymreig yn condemnio'r campau. Cyferbyniad llwyr yw hyn â'r papurau Seisnig yn yr un cyfnod.

Mae'r agwedd barhaus hon tuag at fyd y campau yn y papurau Cymreig yn syndod, efallai, o ystyried fod chwaraeon wedi dod yn bwnc a oedd yn deilwng o le mewn gweithiau llenyddol, yn sicr mor gynnar â 1905, yng ngwaith R. Williams Parry ac yn awdl eisteddfodol Cynan, 'Y Dyrfa' ym 1931.

Rhoddodd haneswyr sylw eisoes i fyd y campau yng nghyd-destun gweithiau'n ymdrin â'r cyfnod cyn-ddiwydiannol yng Nghymru. Roedd cyswllt agos rhwng gemau lleol megis cnapan a bando a gwyliau'r eglwys. Yn hynny o beth, roedd cryn gystadlu rhwng plwyfi, gan roi iddynt hunaniaeth gref.

Yn y cyfnod diwydiannol, ac yn enwedig o 1905 ymlaen, daeth chwaraeon yn rhan o hunaniaeth genedlaethol ehangach. Crëwyd math newydd o Gymreictod drwy uno Cymry Cymraeg brodorol a mewnfudwyr yn ardaloedd diwydiannol de Cymru. Er gwaethaf gwrthwynebiad ffyrnig i fyd y campau yn ystod y Diwygiad, goroesodd gemau megis rygbi. Rhoddodd byd rygbi fynegiant newydd i ganu emynau, a ddaeth yn rhan bwysig o ddiwrnodau gornestau rhyngwladol yn ddiweddarach. Rhoddodd y wasg Seisnig fwy o gydnabyddiaeth na'r wasg Gymreig ar y cyfan, i le chwaraeon yn hunaniaeth y Cymry. Trwy gymuned ddychmygedig rygbi, dyrchafwyd statws Cymru y tu hwnt i'w ffiniau. Os oedd hunaniaeth ddiwylliannol yn broses ddeublyg, roedd Cymru'n arafach o dipyn na'i chymydog

i adnabod nodweddion o'i hunaniaeth ei hun.

Er gwaethaf amharoddrwydd y wasg Gymreig i gydnabod chwaraeon, daeth yn un o nodweddion y radio'n gymharol gynnar. O'r 1920au ymlaen, roedd darllediadau radio Cymraeg ar yr agenda gwleidyddol a diwylliannol. Er y cyfyngwyd darllediadau cynnar i bynciau traddodiadol megis crefydd a gweithiau llenyddol, cafodd y posibilrwydd o ddarlledu chwaraeon yn y Gymraeg ei archwilio mor gynnar â'r 1930au, er mewn cyd-destun diwylliannol ehangach, gan gynnwys sylwebaeth ar fabolgampau'r Urdd. Erbyn y 1950au, fodd bynnag, dechreuwyd sylwebu ar ornestau rygbi. Yn hynny o beth, adeiladodd y cyfryngau darlledu ar waith cynharach y gohebwyd a ysgrifennai am chwaraeon o hyd yn yr oes ddarlledu. Roedd datblygiadau ieithyddol a chynlluniau i hybu'r iaith ar droed trwy'r fath raglenni â'r *Maes Chwarae*.

Erbyn cyfnod y teledu, roedd corff o derminoleg ar gael ar gyfer y maes a daeth termau newydd i law. Roedd y cyfrwng newydd hwn yn awyddus i fanteisio ar y derminoleg honno ar unwaith.

Ymhellach, roedd y teledu ar fin trawsnewid chwaraewyr yn 'selebs' ac roedd y ffenomen hon yn amlycach fyth yn ail Oes Aur rygbi yng Nghymru yn y 1970au. Pan grëwyd S4C ym 1982, roedd gan y chwaraewyr hyn lwyfan newydd er mwyn eu hyrwyddo eu hunain a'u campau. Roedd hyn yn wir, nid yn unig o ran gemau tîm fel rygbi, ond hefyd o ran campau unigol llai poblogaidd ond yr un mor hen, megis reslo. Daeth y fath sylw ar y teledu â'r 'selébs' hyn i gartrefi'r Cymry Cymraeg. Yn y cyfnod yn dilyn sefydlu S4C yr ymddangosodd cangen newydd yn y traddodiad llenyddol, hynny yw, hunangofiannau chwaraeon. Bellach, roedd gan chwaraeon, y Gymraeg a'r hunaniaeth gyfrwng newydd.

O fewn y nifer fach o hunangofiannau chwaraeon Cymraeg a gafwyd, gwelwn brif nodweddion hunaniaeth y Cymry i wahanol raddau. Mae atyniad sylweddol i'r fro ymron pob cyfrol. Mae'r atyniad hwn, ar adegau, yr un mor gryf ag ydyw eu hatyniad i'w cenedl. Gellir

yn hawdd iawn ddadlau bod atyniad y chwaraewr cnapan i'w fro yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr un mor gryf ag ydyw atyniad y chwaraewr rygbi yn yr unfed ganrif ar hugain. Ni ddylid tanbrizio gwerth teimladau'r unigolyn wrth gynrychioli'r gymuned ddychmygedig ar raddfa genedlaethol serch hynny.

Ochr yn ochr â'r ymdeimlad hwn o Gymreictod, fodd bynnag, ceir ymdeimlad o Brydeindod yn aml iawn, a'r ddau yn sicr yn gymharus. Gall unigolyn wisgo mwy nag un het ond nid ydynt bob amser yn eistedd yn gyfforddus ar ei ben. Amlygir y ddeuliaeth hon pan fo'r sêr yn dod wyneb yn wyneb ag aelodau'r teulu brenhinol. Prin yw'r enghreifftiau lle na cheir y ddeuliaeth hon. Ceir cymhlethdod ychwanegol ym myd criced, gan ei bod yn uchelgais gan y Cymro i gynrychioli Lloegr.

Mae crefydd yn ymddangos fel pe bai'n nodwedd ar hunaniaeth y Cymry yn y rhan fwyaf o'r cyfrolau. Mae'r ffaith bod lle amlycach i grefydd yng nghyfrolau'r genhedlaeth hŷn, e.e. Orig Williams, Clive Rowlands a Gareth Edwards, yn sicr yn arwydd o ddirywiad Anghydfurfiaeth a'r capeli yng nghyfnod y genhedlaeth iau, e.e. Dafydd Jones a Stephen Jones. Yn wir, trafodir y dirywiad hwn gan Nigel Owens yn ei gyfrol yntau.

Mae dyhead y Cymro i gael addysg ac i ddatblygu'n bersonol drwy addysg yn ymddangos yn nifer o'r cyfrolau. Gwelir yr ysgolion gramadeg yn fodd o osgoi mynd i weithio yn y pyllau glo. Serch hynny, ni chânt eu llwyr glodfori am eu bod yn hollti cymdeithasau.

Ystyrir yr hunangofiant chwaraeon Cymraeg yn fodd o ddatblygu'r Gymraeg drwy wella arferion darllen y Cymry. Amlygir hyn yng nghynllun *Stori Sydyn*. Ystyrir chwaraeon yn fodd o ddenu darllenwyr at lenyddiaeth Gymraeg.

Wrth gymharu cyfrolau Cymro Cymraeg a Chymro di-Gymraeg, daw'n amlwg y gall hunaniaeth y Cymro Cymraeg fod yn hollol wahanol i hunaniaeth y Cymro di-Gymraeg. Er nad yw'r Cymro di-Gymraeg yn llai o Gymro am nad yw'n medru'r iaith, golyga fod ei

hunaniaeth yn amrywio i ryw raddau o'i chymharu â hunaniaeth y sawl sy'n ei medru. Gellir dadlau, i ryw raddau, fod modd gosod gwahaniaethau diwylliannol o'r neilltu wrth wisgo'r crys coch.

Rygbi yw'r gamp a gysylltir fwyaf â hunaniaeth y Cymry, a'r un y rhoddir y sylw mwyaf iddi o du'r cyfryngau. Mae'r cyfryngau wedi cael cryn effaith ar ddatblygiad y Gymraeg trwy fyd chwaraeon a thrwy sefydlu terminoleg ac ieithwedd ar gyfer y maes hwnnw.

Yn fwy diweddar, criced a fu o dan y chwyddwydr yn sgil darlledu gornestau Morgannwg yng nghystadleuaeth T20 ar S4C yn 2010 a 2011. Er gwaethaf ei delwedd fel camp Seisnig, y mae ganddi wreiddiau Cymreig trwy'r gêm 'trap-cat' neu 'tip cat'. Chwaraeid gemau tebyg ledled Prydain yn y cyfnod hwn. O 1783 y daw'r cofnod cynharaf o ornest griced yng Nghymru. Er y gellir dweud mai'r bonedd a'r ysgolion bonedd Cymreig a hwylusodd ddatblygiad criced yng Nghymru, gellir dweud yn eithaf sicr bod ei gwreiddiau'n rhagflaenu rygbi. Yn wir, fel camp Gymreig y disgrifid criced yn y wasg Gymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Blagurodd hunaniaeth y Cymry drwy griced yn sgil sefydlu Clwb Criced Morgannwg ym 1888, yn gyntaf ar raddfa ranbarthol ac yna'n genedlaethol, wrth i Forgannwg ddod yn symbol o Gymru. Yn sicr, pan enillodd Morgannwg Bencampwriaeth y Siroedd drigain o flynyddoedd yn ddiweddarach ym 1948, roedd criced yn fwy canolog na rygbi i hunaniaeth y Cymry.

Yn yr un modd â'r sylwebaethau rygbi, roedd angen geirfa ac ieithwedd yn benodol ar gyfer sylwebaethau criced cynnar ar y radio a'r teledu. Fel y gwelir yn yr astudiaeth ar y geiriaduron, roedd yr eirfa a fodolai yn y dyddiau cynnar yn gyfyng iawn ac yn annigonol ar gyfer y byd darlledu. Roedd angen datblygu'r derminoleg ymhellach cyn trosglwyddo criced i'r sgrin ac i'r tonfeddi.

Yn y darllediadau cynharaf ar S4C, ychydig iawn o dermau a glywir, ond roedd yr eirfa'n cynyddu'n raddol. Trosi ieithyddol uniongyrchol a gafwyd yn bennaf yn y cyfnod cynnar hwn.

O safbwynt masnachol, gall darllediadau criced trwy gyfrwng y Gymraeg ddenu cynulleidfa draddodiadol S4C, nad ydynt fel arfer yn wylwyr criced. Mae natur y gêm ugain pelawd yn hwyluso'r broses farchnata, yn sicr, a'r teledu'n gyfrwng addas i gyflwyno holl gyffro fersiwn fer y gêm draddodiadol. Bu'r darllediadau hyn dros gyfnod o ddau dymor yn fodd o fesur datblygiad geirfa a fathwyd yn arbennig ar eu cyfer, a'r defnydd a wneir o'r eirfa honno. Adlewyrchwyd natur y gymdeithas Gymraeg a Chymreig gyfoes wrth ddyfeisio termau ar gyfer y darllediadau hyn. Adlewyrchir y gymdeithas orau yn nefnydd y sylwebyddion o'r term 'colbad cryman'. Yn fwy na chyfieithu'r eirfa, roedd elfen o drosi'r diwylliant hefyd wrth gyflwyno camp nas cysylltwyd â Chymru a'r Gymraeg yn helaeth yn y gorffennol. Pa beth Cymreiciach na'r gynghanedd i roi mwy fyth o ddilysrwydd i'r cysyniad bod criced yn gamp Gymreig? Dyma un elfen Gymraeg unigryw yn narllediadau S4C.

Gellir dadlau'n hyderus, felly, fod cyswllt hirdymor rhwng chwaraeon, hunaniaeth y Cymry a'r iaith Gymraeg. Newidiodd natur y cyswllt gyda threigl amser serch hynny. Perthynas leol oedd gan yr elfennau hyn yn y cyfnod diwydiannol pan ddatblygodd hunaniaeth genedlaethol ddwyieithog drwy rygbi'n bennaf ond gan gynnwys campau eraill hefyd. Bellach, mae'r campau'n offeryn ar gyfer datblygu'r iaith drwy gyfrwng darlledu.

Yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, anwybyddwyd chwaraeon gan y wasg Gymraeg. Erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd y wasg a'r cyfryngau Cymraeg yn hyrwyddo chwaraeon fel rhan o'r hunaniaeth genedlaethol ac yn datblygu geirfa dechnegol i hwyluso'r broses o gyflwyno'r maes hwn o'r newydd yn y Gymraeg.

Mae'r broses hon yn dal ar waith yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain. Gwelir hyn orau gyda'r defnydd o wefannau cymdeithasol megis Trydar, sy'n cael ei hyrwyddo yn ystod gornestau rygbi a chriced ar S4C. Mae hwn yn gyfrwng i'r gynulleidfa ddod yn rhan o'r broses ddarlledu ac i gymryd rhan yn natblygiad yr iaith drwy awgrymu termau wrth iddynt gael eu trafod ar yr awyr. Yn yr oes sydd ohoni, mae'r wasg, y radio, a'r teledu'n dechrau dod yn fwy poblogaidd ac yn chwarae rhan hollbwysig yn yr hunaniaeth genedlaethol Gymraeg a Chymreig.

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
all-rounder	chwaraewr amryddawn (eg) chwaraewyr amryddawn	amryddawn (11)			chwaraewr (eg) crwn / amryddawn (A38)
attacking field	maes (eg) ymosodol				
attacking shot/ stroke	ergyd (eb) ymosodol (ergydion ymosodol)			ergyd ymosod (17)	ergyd(ion) (eb) ymosod (S1389)
average	cyfartaledd(eg) cyfartaleddau	cyfartaledd (23)	cyfartaledd (251)		cyfartaledd(au) (eg) (A89)
bail	cat/caten (eb) catiau	caten (1968) (342) beil (1958) (24)		caten (catiau) (15)	cat/caten (catiau) (eb) (B97)
ball	pêl (eb) (peli)	pêl / pelen (24)	pêl / pelen (253)	pêl / pelen (15)	pêl (peli / pelau) (eb) bowliad(au) (eg) (B99)
bat/to bat	bat (eg) / batio (b) (batiau)	bat / bato / batio (29)	bat / batio / bato (253)	bat / batio (b) (15)	batio bat(iau) (eb) (B108)
batsman	batiwr (eg) / batwyr	batwr (27)		batiwr (15)	batiwr (batwyr) (eg) (B109)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
batting	batio / batiad				batio (B109)
batting average	cyfartaledd (eg) batio				
batting crease	cris (eg) batio	llinell fatio (27)		cris batio (16)	cris batio (gweler popping crease)
batting order	trefn (eb) y batio / trefn (eb) fatio (trefniadau batio)				trefn y batio (O973)
batting square	sgwâr (eg) batio sgwâr (eb) fatio (sgwariau batio)				
block	atal (b) / blocio (b) rhwystro (b)	rhwyst / blocio (1968) (393) cau / rhwystro (32)	cau / rhywstro (256)	blocio (15)	bloc / blocio'r bel (B143)
bouncer	bownsar (eg) (bownsars)				
boundary	ffin (eb) (ffiniau)	ffin (35)	ffin (257)	ffin / y ffiniau (15)	ffin (eg) (B159)
bowling around the wicket	bowlio rownd y wiced / o amgylch y wiced			bowlio rownd y wiced (15)	bowlio rownd y wiced (B160)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
bowl over the wicket	bowllo dros y wiced			bowllo dros y wiced (15)	bowllo dros y wiced (B160)
bowl overarm				bowllo dros ysgwydd (15)	bowllo dros ysgwydd (B160)
bowl underarm				bowllo dan ysgwydd (15)	bowllo dan ysgwydd (B160)
bowl / bowling of a ball	bowllo / bowliad(eg) (bowlia dau)	bowllo (35)	pelen (dim berf) (257)	bowllo / bowliad (15)	bowllo powliad (eg) (au) / bowliad (eg) (au) / bowllo rhn allan (B160)
bowler	bowliwr (eg) (bowlwyr)	bowliwr (35)		bowliwr (15)	bowliwr (eg) (B160)
bowler's end	pen (eg) y bowliwr				
bowling average	cyfartaledd (eg) bowllo (cyfartaleddau bowllo)				
bowling crease	cris (eg) bowllo			cris bowllo (16)	cris (eg) bowllo (C323)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
bye	bei (eb) / pêl (eb) heibio (beis) (peli heibio)	bei (40)		bye (16)	bei(s) / pêl (peli) heibio (eb) (B188)
catch(v) catch(n)	dal (b) / daliad (eg) (au)	dal / dala (1958) (44) daliad (1968) (345)	dal / dala (261)	dal / daliad (16)	dal / dala / daliad (au) (eg) dala pêl (C212)
chinaman				chinaman (16)	gwgli(s) (eb) lawchwith (C232)
county championship	pencampwriaeth y siroedd				
cover	cyfar (eg) (s)				cyfar (eg) (C317)
cover drive	cyfar-dreif (eg) (s)				cyfer-dreif (iau) (eg) (C317)
cover point	cyfar-pwynt (eg)			cyfar (18)	cyferbwynt (eg) (C317)
crease	cris (eg) (iau)	llinell (67) cris (1968) (347)		cris (16)	crîs (eg) (crisiau) (C323)
cricket	criced (eg)	criced (68)	criced (270)		criced (eg) (C327)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
cricket ball	pêl (eb) griced (peli criced)				
cricket ground	maes (eb) criced meysydd criced				maes (meysydd) (eg) criced cae (au) (eg) criced (C327)
cricket pitch	llain (eb) griced (lleiniau criced)				llain (lleiniau) (eb) maes (meysydd) (eg) chwaraefa (C327)
cricketer	cricedwr (eg) (cricedwyr)				cricedwr (wyr) (eg) (C327)
cut / to cut	slaes / toriad (slaesau / toriadau)	toriad (70)	toriad (271)	cut / cytio (b) (16)	slaes (au) (eb) toriad (au) (eg) slaesio (C342)
dead ball	pêl (eb) farw (peli marw)			pêl farw (15)	pêl (eb) farw (peli marw) (B99)
declare		cau batiad (1968) (348)		declarío (16)	declarío / cau batiad (D360)
deep fielder	maeswr (eg) dwfn (maeswyr dwfn)				

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
deep fine leg				fine leg pell (18)	coes fain bell (L809)
deep square leg	maeswr (eg) coes / sgwâr bell safe coes / sgwâr bell				coes sgwâr (pell) (L809)
defensive stroke/shot	amddiffynnol	amddiffynnol (74)		ergyd amddyffyn (17)	ergyd (ion) (eb) amddyffyn (1389)
delivery (of the ball)	tafliad (eg) tafliadau pêl (eb) / trawiad (eg) (au)				trawiad (eg) (D367)
dismiss	cael (b) allan				anfon (rh.n.) (allan) (D399)
dismissal (n)	cael allan				anfoniad (eg) (D399)
drive / to drive	gyriad (eg) (au) / dreif (eg) (s) gyrru (b) / dreifio	taro / gyriad (89) dreifio (1968) dreifio / dreif (349)	gyrru (286)	on drive / off drive dreif dreifio (16)	dreif / gyriad (eg) (D428)
duck (out for a) (to make a)	heb sgorio / allan heb sgorio / sgorio dim				dim (eg) / allan heb sgorio (dim) / allan heb rhediad / sgorio dim (D433)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
edge	ymyl (eb) ymylon	ymyl (92)	ymyl (282)		ymyl (E446)
end	pen (eg) / diwedd (eg)	diwedd (95)	diwedd (283)		wiced (cadw'r) (E462)
extra cover	cyfar (eg) ychwanegol			cyfar ychwanegol (18)	
extra(runs)	rhediad (eg) ychwanegol (rhediadau ychwanegol)	ychwanegiad ychwanegol (104)	ychwanegiad (104)	chwaneg (ion) (17)	chwaneg (ion) (eg) (R1195)
fall of wickets	wicedi'n cwympo / syrrhio				
fast bowler	bowliwr (eg) cyflym (bowlwyr cyflym)				
fast delivery	tafliad (eg) cyflym (tafliadau cyflym)				
field	cae (eg) (caeau) maes (eg) meysydd	cae / maes (108)	cae / maes (289)		cae (au) maes (meysydd) (eg) criced (F525)
fielder / fieldsman	maeswr (eg) (maeswyr)	daliwr (108)			maeswr / ffieldiwr (eg) (maeswyr / ffieldwyr) (F525)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
fielding / to field	maesu			ffildio (16)	maesu / ffildio / dal pêl (F525)
fieldsman / fielder				ffildiwr (16)	maeswr (eg) ffildiwr (F525)
fine leg	coes (eb) fain			fine leg (18)	coes (eb) fain (L809)
first innings	batiad (eg) cyntaf	y bato cyntaf (147)			
follow on	dilyn ymlaen			canlyn ymlaen / gorfodi canlyn ymlaen (16)	canlyn ymlaen (F553)
follow through	dilyn trwodd (b) / dilyn (b) drwodd				dilyn (ergyd) drwodd (F553)
free hit	ergyd (eb) rydd / ergydiad rhydd				ergyd rydd (ergydion rhydd) (H682)
full toss	pelen (eb) lawn (pelenni llawn)			full toss (15)	lluchiad di-dor (T1509)
good length ball				bowliad hyd da (15)	bowliad (eg) hyd da (B99)
googly	gwgli (eg) (gwglis)			gwgli (17)	gwgli(s) (eg) (G620)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
gully	gyli (eg)	gyli (127)		gully (18)	gyli (eg) (G638)
half volley	hanner foli				hanner foli (eg) (foliau) (V1629)
hat-trick/to take	trithro (eg) (trithroeon) / cymryd tair wiced yn olynol/o'r bron	tri-thro (130)			tri-thro(eon) (eg) (H656)
hit for six	taro chwech / sgorio chwech oddi ar fowliwr			taro chwech (16)	
hit(b) / (n)	taro / bwrw trawiad(eg) (trawiadau)	trawiad / ergyd / taro / ergydio / bwrw (134)	taro / trawiad / ergyd / ergydio / bwrw (301)	taro (16)	taro (H682)
hook/hook shot	bachu / bachiad (eg) bachiadau / ergyd (eb) gam (ergydion cam)	Bachu (1958) (135) / bachiad / tynnu(1968) (352)	bachu (302)	bachu (16)	bachiad (eg) / gam (H690)
how's that				beth amdani? (17)	beth amdani! (H696)
innings	batiad (eg) (batiadau)	batiad / bat(i)o (147)		innings / batiad (17)	batiad (au) (eg) (I737)
inside edge	ymyl fewnol (y bat)				

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
in-swinger	pêl (eb) fewndro (peli mewndro)			inswinger (17)	pêl fewndro (peli mewndro) (1742)
keep wicket	cadw wiced			cadw wiced (18)	cadw wiced (W1672)
keeper	ceidwad (eg) (ceidwaid)	ceidwad / cipar (156)	ceidwad / cipar (313)		ceidwad (ceidwaid) (eg) (K776)
late cut	slaes (eb) hwyr (slaesiau hwyr)			late cut (16)	slaes (au) hwyr (eb) (C342)
leave the ball	gadael y bêl				
leg before wicket	coes o flaen wiced (c.f.w.)			l.b.w. (17)	coes o flaen (wiced) (L809)
leg break	gwyriad coes			leg break (16)	gwyriad i'r chwith (B165)
leg bye	bei(eb) i'r goes			leg bye (16)	bei (eb) i'r chwith (B188)
leg cutter/leg cut	gyriad coes / slaes(eb)(iau) i'r goes			leg cut (16)	slaes i'r goes (eb) (C342)
leg drive	gyriad (eg) o'r goes gyriadau o'r goes				cildrawiad (au) (eg) (G607)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
leg glance	cildrawiad(eg) o'r goes cildrawiadau o'r goes			glans (i'r goes) (16)	cildrawiad (au) (eg) (G607)
leg spin	sbin o'r goes				
leg stump	stwmp (eg) coes / stwmp y goes			leg stump (18)	stwmp y goes (eg) (L809)
leg-side	ochr (eb) y goes			legside (17)	ochr y goes / ochr chwith (L809)
length ball	pêl o'r hyd iawn				
line and length	linell (eb) a hyd				hyd a chyfeiriad (L811)
long off				long off (18)	
long on				long on (18)	
loss / without loss	colled (eb) (colledion) / heb golli wiced	colled (167)	colled (318)		colled (colledion) (eb) (L842)
maiden over	pelawd wag			maiden over (17)	pelawd (au) wag (eb) (M853)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
medium pace (bowler)	bowliwr (eg) lled-gyflym (bowlwyr lled gyflym)				
middle order	canol (eg) y rhestr fatio				
middle stump	stwrmp (eg) canol			stump canol (18)	
mid-off	maeswr (eg) canol-draw / safle (eg) canol draw			mid-off (18)	canol-draw (eg) (M888)
mid-on	maeswr (eg) canol-llawdde / safle (eg) canol-llawdde			mid-on (18)	canol-llawdde (M888)
mid-wicket	maeswr (eg) canol-wiced / safle (eg) canol-wiced				canol-wiced (eg) (M888)
new ball	pêl newydd				
night watchman	gywliwr nos				gywliwr nos (eg) (N938)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
no ball				no ball (15)	dim bowliad (eg) (B99)
not out					heb fod allan (O978)
off break				off break (16)	gwyriad (au) (eg) draw (O960)
off drive					gyriad draw (D428)
off stump				off stump (18)	stwmp (eg) chwith (S1392)
off-side	ochr (eb) gyferbyn			off side (17)	ochr draw (O960)
on drive					gyriad llaw dde (D428)
one-day (cricket)	undydd / gêm (eb) undydd (gemau criced(eg) undydd)				
on-side	ochr (eb) agos			onside (17)	ochr dde (eb) / llaw dde (eb) lawn / ochr lawn (O965)
opener	batiwr (eg) cyntaf (bowlwyr cyntaf)	agorwr / agorydd (193)			batiwr cyntaf (batwyr) (eg) (O968)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
out	allan!	allan (195)	allan (332)		allan (O978)
out for a duck	allan heb sgorio				allan heb sgorio / allan heb rediad (D433)
out-field	allfaes (eg)				allfaes (eg) / y maes pell (eg) (O980)
outside edge	ymyl allanol (y bat)				
out-swing (swinger)	gwyro allan / pêl (eb) (peli) yn gwyro allan			outswinger (17)	outswinger (s) (O981)
over	Pêlawd (eb) (pelawdau)			over (17)	pelawd (au) (eb) (O983)
overarm	tros / dros yr ysgwydd / tafliad (eg) tros/dros yr ysgwydd			dros ysgwydd (15)	dros ysgwydd (O983)
overthrow	Gordafliad (eg) / gordafllu (gordafliadau)				gordafliad(au) (eg) (O988)
pace	cyflymdra / cyflymder	cyflymdra (197)	cyflymdra (333)		cyflymder / cyflymdra (eg) (P991)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
partnership	partneriaeth (eb) (au)	partneriaeth (200)	partneriaeth (334)		partneriaeth (au) (eb) (P1003)
pitch	maes (eg) (meysydd) llain (eb) (lleiniau)	chwaraefa (1968) (305)		pitch (wiced) (17)	llain (lleiniau) (eb) / maes (meysydd) (eg) / chwaraefa (C327)
point	pwyt (eg) (pwyntiau) / maeswr (eg) pwynt / safle (eg) pwynt	pwyt (211)	pwyt (339)	pwyt (18)	pwyt (P1050)
popping crease	cris (eg) batio			cris batio (16)	cris (eg) batio (C323)
pull	tynnu pêl / tynnu tynnu ergyd	tyniad / tynnu (222)	tynnu (343)		tynnu (pêl) (P1097)
run out	rhedeg allan (berf)			rhedeg allan (eb) (17)	rhedeg allan (berf/enw) / mas (R1197)
run rate	cyfradd sgorio				
run (n)	rhediad (eg) (rhediadau)	rhediad (242)	rhediad (356)	rhediad (17)	rhediad (au) (eg) (R1195)
run-out	rhedeg allan (enw)				

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
run-up	rhediad (eg) i fyny / rhedeg i fyny				
seam	sêm (eb) (semau)				sêm (au) (eb) (S1232)
seam bowler	sêm-fowliwr(eg)				sêm-fowliwr (eg) (S1232)
seamer	pêl (eb) sêm (peli sêm)				
second innings	ail fatiad (eg)				
second slip	ail slip (eg)			ail slip (19)	ail slip (S1302)
short fine leg	coes (eg) fain fer				
short leg	ystlys (eb) agos				ystlys agos (eg) (S1275)
short length ball				bowliad hyd byr (15)	bowliad (eg) hyd byr (B99)
silly mid off	safle (eg) canol draw agos / maeswr (eg) canol draw agos			silly mid off (18)	canol agos (eg) (S1286)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
silly mid on	safle (eg) canol llawdde agos maeswr(eg) canol llawdde agos			silly mid on (18)	
silly point	safle (eg) pwynt agos / maeswr (eg) pwynt agos			silly point (18)	pwynt agos (eg) (S1286)
single	(un) rhediad (eg)				
slip(s) (fielder)	slip (eg) (slipiau) / maeswr(wyr) (eg) slip			slip(s) (17),(19)	slip (iau) (eg) (S1302)
slog	cledrad (eg) / cledro	bwrw'n galed (259)			dymu / colbio / colbo / cledro / sodro'r bêl (S1303)
slow bowler	bowliwr (eg) araf (bowlwyr araf)				
spin	sbin (eg) / troelliad / troelli / troelli'r bêl	troi (1958) (269) / sbin (1968) (363)	troi (368)	sbin / sbinio (berf) (17)	sbin (iau) (eb) / troi'r bêl / troelli'r bêl / rhoi tro ar y bêl (S1338)


<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
spinner	troellwr(eg) troellwyr				troellfowliwr (eg) (troellfowlwyr) (S1338)
square	sgwâr (eg) (eb)	sgwâr (266)	sgwâr (369)		sgwâr (S1349)
square cut	slaes (eb) sgwâr			square cut (16)	slaes sgwâr (eb) (S1349)
square leg	coes (eb) sgwâr			square leg (10)	coes sgwâr (eb) (S1349)
square-leg umpire	dyfamwr (eb) coes sgwâr				
strike / to strike	ergyd / ergydio	taro / bwrw (271)	bwrw / taro (372)		taro / ergydio / colbio (eg) (S1387)
Striker	ergydiwr (eg)	trawr / traw-wr (271)	trâwr / traw-wr (372)	ergydiwr (17)	
stroke / to stroke	ergyd (eb) (ergydion) / ergydio chwarae ergyd	ergyd (254)	ergyd (362)	ergyd (17)	ergyd (eb) / trawiad (eg) (ergydion/trawiadau) (S1389)
stump / to stump	stwmp (eg) (stympiau) / stympio	gwiced / wiced / taro'r wiced (272)		stump / stympio (18)	stwmp / stympiau (eg) / stympio (S1392)

<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
stumper				stumpiwr (18)	stympiwr / stympwyr (eg) (S1392)
sweep / to sweep	symudiad (eg) / sgubo / symudiadau sgubo	ysgubo / ysgubiad (277)	ysgubiad / ysgubwr / ysgubo (375)	sgubiad (18)	ysgubiad / ysgubo (eg) (S1421)
sweeper	ysgubwr (eg) (ysgubwyr)	ysgubwr (277)			ysgubwr (wyr) (eg) (S1422) / troi/gwyro pêl (S1425) / newid cyfeiriad pêl (S1429)
swing	swing (eb) / swingiad(au) / swingio	swing / swingo (277)	siglo (375)		swing(iadau) (eb) (S1424)
tail-ender	un (eg) o'r batwyr olaf / y batwyr olaf				batiwr / batwyr olaf (eg) (T1443)
test match	gêm (eg) brawf (gemau prawf)				gêm(eg) brawf / gornest brawf (T1443)
third man	(y) trydydd dyn (eg)			trydydd (19)	y trydydd dyn (T1471)
to hit a four/six	taro pedwar				taro chwech (H682)
to score four runs	sgorio pedwar rhediad	Sgori / sgorio (246)	sgorio (358)		sgorio (cant) (S1224)
top-spin	top-sbin (eg)				top-sbin (eg) (T1503)


<u>Term</u>	<u>NPFA/TELI</u>	<u>Y Geiriadur Mawr 1958 (a 1968)</u>	<u>Y Geiriadur Newydd 1953</u>	<u>Termau Chwaraeon ac Adloniant 1965</u>	<u>Geiriadur yr Academi 1995</u>
toss the coin	taflu ceiniog	tafliad (288) / taflu (288)	tafliad / taflu (382)		tafliad(au) / tafliad ceiniog (T1504)
twelfth man	(y) deuddegfed dyn (eg)				y deuddegfed dyn (T1544)
umpire/to umpire	dyfamwr (eg) / dyfamwyr	Canolwr / rheolwr / dyfamwr (296)	dyn canol / canolwr (387)	dyfamwr / dyfamau (berf) (18)	dyfamwr (wyr) (eg) / dyfamau (T1552)
wicket	wiced (eb) (wicedi)	gwiced / wiced (314)	gwiced / wiced (398)	wiced(i) (18)	wiced(i) (eb) (W1672)
wicket-keeper	wicedwr (eg) (wicedwyr)	ceidwad wiced (1958)(314) wicedwr (1968) (367)		wicedwr (18)	wicedwr (wyr) (eg) (W1672)
wicket-keeping / to keep wicket	cadw wiced	cadw wiced (314)		cadw wiced (18)	wicedwr / cadw wiced (W1672)
wide	pêl (eb) bell (peli pell)	pell (314)	llydan / eang (398)	wide (15)	pêl bell (peli pell) (W1672)
york	iorcio				taflu iorcer / taflu pêl dan fat (Y1705)
yorker				iorcer (15)	iorcer (eb) / pêl (peli) (eb) dan fat (Y1705)

ATODIAD – CYFANSWM % A WARIWYD AR LYFRAU CYMRAEG RHWNG 2000 A 2009


2000/01




2003/04



2005/06



2008/09



O'r cyfanswm a wariwyd ar lyfrau Cymraeg yn 2000/01, 4% a wariwyd ar atgofion a chofiannau, bywgraffiadau a dyddiaduron. Cafwyd cynnydd graddol dros gyfnod o wyth mlynedd i 9% yn 2008/09.

Ymhlith y categorïau poblogaidd eraill yn 2000/01, roedd llyfrau i blant ac i ddysgwyr. Parhaodd y duedd hon hyd at 2008/09

Llyfryddiaeth

- Aizelwood, Mark
(mewn cydweithrediad â
Kidd, Ioan) *Amddiffyn Fy Hun* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009).
- Allen, Malcolm
(gyda Jones, Geraint) *Hunangofiant* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- Anderson, Benedict *Imagined Communities* (London: Verso, 1983).
- ap Dafydd, Myrddin (gol.) *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995).
- BBC Broadcasting Council
for Wales *Minutes of the meeting held at Broadcasting House*, (BBC, 2006).
- Bevan, Alun Wyn (gol.) *Cewri Campau Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).
- Bevan, Gareth A. *Ailbeintio Pont y Borth? [:] Y Geiriadur a'r Gymraeg* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Aberystwyth, 2008).
- Birley, Derek *A Social History of English Cricket* (London: Aurum Press, 2003).
- Boyle, Raymond
Haynes, Richard *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2009).
- Booth, Dick *Talking of Sport [:] The Story of Radio Commentary* (Cheltenham: Sports Books Ltd., 2008).
- Brace, Onllwyn 'Cawr Bach y Cyfryngau', Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995), tt. 106-107.
- Bradley, A.G. *Highways and Byways in South Wales* (London: MacMillan and Co., 1914).
- Chapman, T. Robin *Rhywfaint o Anfarwoldeb [:] Bywgraffiad Islwyn Ffowc Elis* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2003).
- Idem *Un Bywyd o Blith Nifer [:] Cofiant Saunders Lewis* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2006).
- Charles, Idris *Heb y Mwgwd* (Talybont: Y Lolfa, 2008).
- Colley, Linda *Britons: Forging the Nation 1707-1837* (Connecticut: Yale University Press, 1994).
- Croft, Robert
(gyda Bennett, Andrew) *Dyddiadur Troellwr* (Talybont: Y Lolfa, 1995).
- Cronin, Michael *Translation and Identity* (London: Routledge, 2006).
- Dafis, Cynog *Cymdeithaseg Iaith a'r Gymraeg* (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: s.l., 1979).
- Idem *Mewnllifiad, Iaith a Chymdeithas* (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg: s.l., 1979).

- Idem *Mab y Pregethwr* (Talybont: Y Lolfa, 2005).
- Dafydd, Fflur 'Dyfeisio'r Gwir: y ffin rhwng hunangofiant a ffuglen', *Taliesin*, 135 (Gaeaf 2008), 10-20.
- Davies, Bryan
(gyda Pritchard, Elfyn) *Yogi – Hunangofiant Bryan Davies* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- Davies, Dai
(gyda Parry, Nic) *Hanner Cystal â 'Nhad: Hunangofiant Gôlgeidwad Rhyngwladol* (Wrecsam: Siop y Siswrn, 1985).
- Davies, Dai 'Allan neu Beidio', Howard Lloyd (gol.), *Crysau Cochion* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1958), t. 79.
- Davies, Eic 'Os modd Cael Tocyn', Howard Lloyd (gol.), *Crysau Cochion* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1958), tt. 112-122.
- Davies, Janet *The Welsh Language* (Cardiff: University of Wales Press, 1999).
- Davies, John *Broadcasting and the BBC in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1994).
- Idem *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin, 1992).
- Davies, J.T. 'Eic a Darlledu', Myrddin ap Dafydd (gol.) *Cyfrol Dernged Eic Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995), tt. 101-105.
- Davies, Mefin
(gyda Davies, Lynn) *Mefin [:] I Gymru yn ôl* (Talybont: Y Lolfa, 2011).
- Davies, T.J. 'Eic Davies (1909-1993)', Myrddin ap Dafydd (gol.) *Cyfrol Dernged Eic Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995), tt. 13-20.
- Donovan, Patrick
Thomas, Gwyn (goln) *Gweledigaethau Y Bardd Cwsg* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998).
- Eakin, Paul John *How Our Lives Become Stories* (New York: Ithica, 1999).
- Edwards, Gareth *Cyfes y Cewri 21: Y Crwt o'r Waun* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2007).
- Edwards, Huw Meirion (gol.) *Alan: Casgliad o gerddi ac ysgrifau ar Alan Llwyd, gyda llyfryddiaeth lawn o'i waith gan Huw Walters* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Barddas, 2003).
- Edwards, John *Language and Identity* (Cambridge: Cambridge University Press, 2009).
- Elis, Islwyn Ffowc *Cysgod y Cryman* (Llandysul: Gwasg Gomer, 15fed argraffiad, 1990).
- Evans, D. Simon (gol.) *Buched Dewi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1965).
- Evans, E. Vincent (gol.) *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol 1931 (s.l., 1931)*.
- Evans, Non
(gyda Gibbard, Alun) *Non: Yn erbyn y ffactore* (Talybont: Y Lolfa, 2010).

- Gealy, Walford 'Alan Jones', Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), tt. 87-89.
- Gravell, Ray
(gyda Davies, Lynn) *Grav* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1986).
- Gruffydd, W.J. *O Ffair Rhos i'r Maen Llog* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2003).
- Guha, Ramachandra *A Corner of a Foreign Field: The Indian History of a British Sport* (London: Picador, 2003).
- Gwynn, Eirwen *Ni'n Dau: Hanes Dau Gariad* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1999).
- Haf, Elin *Ar Fôr Tymhestlog: Rhwyfo Dau Gefnfor* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2010).
- Hallam, Tudur 'Crefft y Cofiant: Holi Robin Chapman', *Taliesin*, 133 (Gwanwyn 2008), 13-21.
- Idem 'When a Bardd Meets a Poet: Menna Elfyn and the Displacement of Parallel Facing Texts', Daniel G. Williams (gol.), *Slanderous Tongues [:] Essays on Welsh Poetry in English 1970-2005* (Bridgend: Seren, 2010), tt. 89-111.
- Harris, Tim *Sport* (London: Yellow Jersey Press, 2007).
- Hartson, John
(gyda Davies, Lynn) *Hartson* (Talybont: Y Lolfa, 2011).
- Haynes, Richard
Boyle, Raymond *Powerplay: Sport, the Media and Popular Culture* (Edinburgh: Edinburgh University Press, 2009).
- Hignell, Andrew K. *Cricket in Wales: An Illustrated History* (Cardiff: University of Wales Press, 2008).
- Idem *Glamorgan County Cricket Club: The Archive Photographs Series* (Stroud: The History Press, 1997).
- Idem *The History of Glamorgan County Cricket Club* (London: Christopher Helm, 1988).
- Hobsbawm, Eric *Nations and Nationalism since 1780* (Cambridge: Cambridge University Press, 1980).
- Holt, Richard *Sport and the British: A Modern History* (Oxford: Clarendon Press, 1989).
- Humphreys, Alwyn *Yr Hunangofiant* (Talybont: Y Lolfa, 2006).
- Humphreys, Jonathan
(gyda Bennett, Andrew) *Captain Cymru* (Talybont: Y Lolfa, 1996).
- Hunter, Hilda *Dyfal Donc* (Talybont: Gwasg Dinas, 2006).
- Jenkins, Geraint H. *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar 1530-1760* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1983).

- Idem 'From Reformation to Methodism 1536-1750', Prys Morgan (gol.), *The Tempus History of Wales, 25,000BC-AD200* (Stroud: Tempus, 2001), tt. 141-174.
- Jenkins, Gwyn (gol.) *Llyfr y Ganrif* (Talybont: Y Lolfa, 1999).
- Johnes, Martin *A History of Sport in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 2005).
- Idem 'A Prince, a King and a Referendum: Rugby, Politics and Nationhood in Wales 1969-79', *Journal of British Studies*, 47 (2008), 129-48.
- Idem 'For Class and Nation: Dominant trends in the historiography of twentieth-century Wales', *History Compass* 8 (2010), 1257-74.
- Johnston, Dafydd (gol.) *A Guide to Welsh Literature c.1900-1996* (Cardiff: University of Wales Press, 1998).
- Idem *Llenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998).
- Jones, Aled *Press, Politics and Society* (Cardiff: University of Wales Press, 1993).
- Jones, Alun R.
Thomas, Gwyn (goln) *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1983).
- Jones, Bedwyr Lewis
(cwbllhawyd gan Thomas, Gwyn) *Dawn Dweud: R. Williams Parry* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997).
- Jones, Bobi *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofiant Tafod* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000).
- Jones, Ceri Wyn 'Robert Croft', Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), tt. 19-20.
- Jones, Dafydd
(gyda Gibbard, Alun) *Dal Fy Nhir* (Talybont: Y Lolfa, 2011).
- Jones, Dafydd Glyn 'His Politics', Alun R. Jones a Gwyn Thomas (goln), *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales Press, 1983), tt. 23-78.
- Jones, Delyth *Cyflwyniad i Ddwyeithrwydd* (Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg, 1997).
- Jones, Glyn *The Dragon Has Two Tongues* (London: Dent, 1968).
- Jones, J. Graham 'Wales since 1900', Prys Morgan (gol.) *The Tempus History of Wales: 25,000BC-AD2000* (Stroud: Tempus, 2001), tt. 211-244.
- Jones, Jon Meirion 'Delwedd', *Barddas*, 198 (Ionawr 1993), 3.
- Jones, Owain Tudur
(gyda Gibbard, Alun) *Fyny Gyda'r Swans* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- Jones, R. Gerallt *Dyddiaduron India* (Talybont: Y Lolfa, 2003).
- Jones, R. Merfyn *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999).

- Jones, Stephen
(gyda Davies, Lynn) *O Clermont i Nantes* (Talybont: Y Lolfa, 2007).
- Jones, T. James 'I Crofft y Troellwr Crefftus', *Barddas*, 245 (Mawrth/Ebrill 1998), 26.
- Jones, W.E. 'Deffro, De Affrig', Howard Lloyd (gol.), *Cysau Cochion* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1958), tt. 131-140.
- Lewis, Saunders *Egwyddorion Cenedlaetholdeb/Principles of Nationalism* (Caerffili: SWP, arg. 1975).
- Lloyd, Grahame (gol.) *Daffodil Days: Glamorgan's Glorious Summer* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998).
- Lloyd, Howard *Cysau Cochion* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1958).
- Idem 'Tri o Hen Chwaraeon Cymru', *Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (Llundain,1960), 97-108.
- Idem 'Siarad a Dai', Howard Lloyd (gol.), *Cysau Cochion* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1958), tt. 26-30..
- Mason, Tony *Sport in Britain 1945-2000: A Social History* (Oxford: Oxford University Press,2000).
- Maynard, Matthew
(gyda Rees, Paul) *On the Attack: The Batsman's Story* (Edinburgh: Mainstream, 2001).
- McBryde, Robin
(gyda Davies, Lynn) *Staying Strong: My Story So Far* (Talybont: Y Lolfa, 2007).
- Idem *Y Cymro Cryfa* (Talybont: Y Lolfa, 2006).
- Miller, Douglas *Born to Bowl: The Life and Times of Don Shepherd* (Bath: Fairfield Books, 2004).
- Millward, E.G. 'Cyflwyniad', Daniel Owen, *Hunangofiant Rhys Lewis Gweinidog Bethel* (Caerdydd: Hughes a'i Fab, 2il argraffiad, 1993), tt. iii-xi.
- Morgan, K.O. *Rebirth of a Nation: Wales* (Oxford: Oxford University Press, 1982).
- Morgan, Prys *The Tempus History of Wales: 25,000BC-AD2000* (Stroud: Tempus, 2001).
- Idem 'Engine of Empire', Prys Morgan (gol.), *The Tempus History of Wales: 25,000BC-AD2000* (Stroud: Tempus, 2001), tt. 175-210.
- Mwyn, Rhys *Cam o'r Tywyllwch* (Talybont; Y Lolfa, 2006).
- Ogwen, Jenny *Glaw a Hindda* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2007).
- Owen, D. Huw (gol.) *Cofio Tomos: Teyrngedau ac Erthyglau Tomos Befan Owen* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- Owen, Tomos Befan 'Y Maes', D. Huw Owen(gol.), *Cofio Tomos: Teyrngedau ac Erthyglau Tomos Befan Owen* (Talybont: Y Lolfa, 2009), tt. 71-75.

- Idem 'Cystadleuaeth sy'n cynnig apêl wahanol', *Cofio Tomos: Teyrngedau ac Erthyglau Tomos Befan Owen* (Talybont: Y Lolfa, 2009), tt. 104-106.
- Owen, Gwyn Pierce
(gyda Llewelyn, Dylan) *Cyfres y Cewri 20: C'mon Reff* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1999).
- Owen, Wynford Ellis *Raslas Bach a Mawr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004).
- Owens, Nigel
(gyda Davies, Lynn) *Hanner Amser* (Talybont: Y Lolfa, 2008).
- Peate, Iorwerth C. *Diwylliant Gwerin Cymru* (Lerpŵl: Gwasg y Brython, 1942).
- Phillips, Dewi Z. *Ffiniau* (Talybont: Y Lolfa, 2008).
- Porter, Dilwyn
Smith, Adrian *Sport and National Identity in the Post-War Period* (Oxford: Routledge, 2004).
- Powel, Robat *Haearn Iaith* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1996).
- Rhys, Robert *Daniel Owen* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000).
- Richards, Huw
Stead, Peter
Williams, Gareth (goln) *Heart and Soul [:] the character of Welsh rugby* (Cardiff: University of Wales Press, 1998).
- Idem *More Heart and Soul [:] the character of Welsh rugby* (Cardiff: University of Wales Press, 1999).
- Roberts, Jamie
(gyda Davies, Lynn) *Jamie [:] Y Llew yn Ne Affrica* (Talybont: Y Lolfa, 2010).
- Rowlands, Clive
(gydag Evans, John) *Clive! Cawr Cicio Cwmtwrch* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1999).
- Rowlands, Dafydd *Sobers a Fi* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995).
- Idem 'Eic', Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrngd Eic Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995), tt. 109-112.
- Samuel, Bill 'Mater o Raid', Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cyfrol Deyrnged Eic Davies* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1995), tt. 74-75.
- Smith, Adrian
Porter, Dilwyn *Sport and National Identity in the Post-War Period* (Oxford: Routledge, 2004).
- Smith, David
Williams, Gareth *Fields of Praise: The Official History of the Welsh Rugby Union 1881-1981* (Cardiff : University of Wales Press, 1980).
- Smith, Dai *Aneurin Bevan and the World of South Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993).
- Idem *Wales! Wales?* (London: George Allen & Unwin, 1984).

- Smith, E.T. *Playing Hard Ball* (London: Abacus, 2002).
- Stead, Peter
Richards, Huw
Williams, Gareth (goln) *Heart and Soul [:] the character of Welsh rugby* (Cardiff : University of Wales Press, 1998).
- Idem *More Heart and Soul [:] the character of Welsh rugby* (Cardiff: University of Wales Press, 1999).
- Stephens, Meic *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1997).
- Stevens, Meic *Y Crwydryn a Mi* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- Swyddfa Gymreig, Y *Welsh Social Survey: Report on the Welsh Language* (Welsh Office, 1992).
- Thomas, Gwyn
Donovan, Patrick (goln) *Gweledigaethau Y Bardd Cwsg* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998).
- Thomas, Mansel 'Jeff Jones', Alun Wyn Bevan (gol.), *Cewri Campau Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), tt. 98-99.
- Thomas, Ned *Bydoedd: Cofiant Cyfnod* (Talybont: Y Lolfa, 2010).
- Idem *The Welsh Extremist* (Talybont: Y Lolfa, 1971).
- Thomas, R.S. *Neb* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1985).
- Thomas, Sulwyn *Sulwyn* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2008).
- Ugra, Sharda 'Play together, live apart: Religion, politics and markets in Indian Cricket since 1947', Stephen Wagg (gol.), *Cricket and National Identity in the Postcolonial Age* (London: Routledge, 2005), tt. 77-93.
- Wagg, Stephen (gol.) *Cricket and National Identity in the Postcolonial Age* (London: Routledge, 2005).
- Wigley, Dafydd *Maen i'r Wal* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2001).
- Williams, Chris 'JPR Williams', Richards, Stead and Williams (goln), *More Heart and Soul [:] the character of Welsh rugby* (Cardiff: University of Wales Press, 1999), tt. 107-120
- Williams, G.J. 'Glamorgan Customs in the Eighteenth Century', *Gwerin*, 1 (1956/7), 99-108.
- Williams, Gareth (gol.) '1905 and all that: sporting success and social function in Wales, 1880-1914', *1905 and all that [:] essays on rugby football, sport and Welsh society* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt. 68-89.
- Idem 'Y Maes Chwarae a Chenedligrwydd yng Nghymru', *1905 and all that [:] essays on rugby football, sport and Welsh society* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt. 90-110.

- Williams, Gareth
Richards, Huw
Stead, Peter (goln) *Heart and Soul* [:] *the character of Welsh rugby* (Cardiff: University of Wales Press, 1998).
- Idem *More Heart and Soul* [:] *the character of Welsh rugby* (Cardiff: University of Wales Press, 1999).
- Williams, Glanmor *A Life* (Cardiff: University of Wales Press, 2002).
- Idem *Religion, Language and Nationality in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1979).
- Williams, Gwyn A. *When Was Wales?* (London: Penguin, 1985).
- Williams, Ifor (gol.)
Williams, J.LI *Gwaith Guto'r Glyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1961).
- Williams, Islwyn *Cap Wil Tomos a Storiâu Eraill* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw, 1946).
- Williams, J.P.R. *J.P.R. [:] The Autobiography of JPR Williams* (Dublin: Collins, 1979).
- Williams, Orig
(gol. ap Dafydd, Myrddin) *Cario'r Ddraig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1985).
- Williams, Shane
(gyda Davies, Lynn) *Shane* [:] *Ar Ben Y Byd* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- Woolridge, Joyce 'These Sporting Lives: Football Autobiographies 1945-1980', *Sport in History*, 28:4 (2008), 620-640.
- Yassine, Ali
(gyda Gibbard, Alun) *Llais yr Adar Gleision* (Talybont: Y Lolfa, 2010).

Traethodau ymchwil

- Bevan, Lowri Wyn *Chwaraeon Mewn Llenyddiaeth Gymraeg* (Traethawd PhD: Aberystwyth, 2002).
- Cole, Nia Eleri *Hanes Datblygu'r Gymraeg fel Iaith Chwaraeon ynghyd ag arolwg o'r defnydd a wneir o rai termau chwaraeon heddiw* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2006).

Geiriaduron

- Adran Addysg Prifysgol Caerdydd *Termau Chwaraeon ac Adloniant* (Caerdydd, 1965).
- Evans, Meurig H.
Thomas, W.O.
Williams, Stephen J. *Y Geiriadur Mawr* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1968).
- Evans, Meurig H.
Thomas, W.O. *Y Geiriadur Newydd* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1953).
- Griffiths, Bruce
Jones, Dafydd Glyn (goln.) *Geiriadur yr Academi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1995).
- National Playing Fields Association *Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae* (Caerdydd, s.d.).
- R.J. Thomas (gol.) *Geiriadur Prifysgol Cymru: A-Ffysur* (1967).
- Gareth A. Bevan
R.J. Thomas (goln.) *Geiriadur Prifysgol Cymru: G-Llyys* (1987).
- Bevan, Gareth A.
Donovan, P.J. (goln.) *Geiriadur Prifysgol Cymru: M-Rhywyr* (1998).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: S-Zwingliaidd* (2002).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 1* (2003).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 2* (2003).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 3* (2004).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 4* (2005).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 5* (2005).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 6* (2006).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 7* (2006).
- Idem *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 8* (2007).
- Bevan, Gareth A.
Donovan, P.J.
Hawke, Andrew *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 9* (2009).
- Hawke, Andrew *Geiriadur Prifysgol Cymru: Rhan 10* (2010).

Gwefannau

Nodir yn y troednodiadau union ddyddiad darllen y gwefannau.

BBC Cymru, www.bbc.co.uk/welsh [Alun Pugh yn gwneud sylw am arferion darllen y Cymry].

BBC Cymru'r Byd, Llyfrau, www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau [Adolygiadau o amryw hunangofiannau chwaraeon].

BBC Democracy Live, news.bbc.co.uk/democracylive/hi. [Gwefan wleidyddol y BBC ym Mhrydain].

Cylchgronau Cymru Ar-lein, cylchgronau.cymru.llgc.org.uk [Erthygl ar griced yng Ngwent].

Cyngor Llyfrau Cymru, www.gwales.com [Amryw adolygiadau o hunangofiannau chwaraeon a'r gyfres Stori Sydyn].

Deddf Iaith 1967, www.byig-wlb.org.uk.

Deddf Iaith 1993, www.byig-wlb.org.uk.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, www.eisteddfod.org.uk [Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 2012].

Golwg360, www.golwg360.com [Teyrnged i Orig Williams yn dilyn ei farwolaeth].

Guardian, www.guardian.co.uk [Trafodaethau ar fenywod yn sylwebu ar Gyfres y Lludw 2009].

Gupta, Sumit, www.sumit4all.com [Trafodaeth ar griced yn India].

The Independent, www.independent.co.uk [Stan Hey, 'Book-ends for goalposts: it's sport writ large', ar hunangofiannau chwaraeon].

Jones, George, 'Viewers, Citizens and Consumers – Minorities in the Media Marketplace' (2002) [Ar wefan www.aber.ac.uk/mercator/images/Berlin.pdf].

Idem, 'Minority-Language Audiovisual Media in Europe', First Congress on Basque Journalism (2004) [Ar wefan www.aber.ac.uk/mercator/images/Bilbao.pdf].

Prifysgol Otago, Hawes, Tara, 'Janet Frame: The Self as Other/Othering the Self', *Deep South*, v1 n1 (Chwefror 1995), <http://www.otago.ac.nz/DeepSouth/vol1no1/hawes1.html> [Trafodaeth ar gysyniad yr hunan mewn hunangofiannau].

'Rhaglenni criced byw S4C yn taro deuddeg' (S4C, Mehefin 11, 2010). http://194.168.30.200/c_press_level2.shtml?id=344.

S4C Review: A Welsh Language Television Service Fit for the 21st Century, www.s4c.co.uk/abouts4c/authority/pdf/e_admewnol_2004.pdf

'S4C yn sicrhau'r hawliau i ddarlledu gemau criced Morgannwg yn yr iaith Gymraeg' (S4C, Awst 5, 2008). http://194.168.30.200/c_press_level2.shtml?id=194.

'Sports Autobiographies: Mirrors of American Culture'
<http://hti.math.uh.edu/curriculum/units/2002/07/intro.php>

Sports Journalists, <http://www.sportsjournalists.co.uk/the-giller-memorandum/time-to-praise-the-man-who-set-the-goals-standard/> [Norman Giller yn trafod bywyd a gyrfa Jimmy Greaves].

Translation Journal, www.translationjournal.net [Goblygiadau diwylliannol y broses gyfieithu].

Tywysog Cymru, www.princeofwales.gov.uk [Araith gan Dywysog Cymru].

Undeb Rygbi Cymru, www.wru.co.uk [Hanes sefydlu Undeb Rygbi Cymru].

Uned 5, www.uned5.co.uk [cyfweiliad â Malcolm Allen].

Living Lives Through the Medium of Welsh Study, Summary Report, October-December 2005.
www.s4c.co.uk/abouts4c/.../pdf/e_WelshLivesSummaryReport.pdf

Rhaglenni teledu

Criced, S4C ac S4C Digidol.

Pen Campau, S4C Digidol: Ionawr 17, 2008; Chwefror 3, 2008.

(Nodir union ddyddiadau darlledu'r rhaglenni Criced yn y troednodiadau a/neu yng nghorff y testun).

Papurau newydd

Cymro, Y – rhifynnau mis Mawrth 1936, 1946, 1956, 1966; mis Awst 1926, 1936, 1946, 1956, 1966.

Ddraig Goch, Y – rhifynnau mis Mawrth 1936, 1946, 1956, 1966; mis Awst 1926, 1936, 1946, 1956, 1966.

Faner, Y – rhifynnau mis Mawrth 1926, 1936, 1946, 1956, 1966; mis Awst 1926, 1936, 1946, 1956, 1966.

South Wales Evening Post (Gorffennaf 13, 2006).

Hefyd

'Carlo', *Dafydd Iwan a'r band yn fyw*, *Cyrol 2* (Cyhoeddiadau Sain, 2002).